



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 20 Mehefin 2012  
Wednesday, 20 June 2012**

**Cynnwys**  
**Contents**

- |     |   |
|-----|---|
| 3   | Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro<br>Election of Temporary Deputy Presiding Officer   |
| 3   | Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth<br>Questions to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage  |
| 28  | Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol<br>Questions to the Counsel General  |
| 30  | Cwestiwn Brys: Trident<br>Urgent Question: Trident  |
| 33  | Cynnig i Ddiwygio Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Biliau Preifat a Gwelliannau Amrywiol<br>Motion to Amend Standing Orders in relation to Private Bills and Miscellaneous Amendments  |
| 34  | Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy yng Nghymru<br>The Communities, Equality and Local Government Committee's Inquiry into the Provision of Affordable Housing in Wales |
| 57  | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Cysylltiadau Trafnidiaeth<br>Welsh Conservatives Debate: Transport Connectivity  |
| 90  | Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol<br>Welsh Liberal Democrats Debate: Maternity and Neonatal Services   |
| 117 | Cyfnod Pleidleisio<br>Voting Time   |
| 131 | Dadl Fer: Effaith Diwygio Lles ar Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru<br>Short Debate: The Impact of Welfare Reform on Mental Health and Wellbeing in Wales  |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**The Presiding Officer:** The National Assembly for Wales is now in session. **Y Llywydd:** Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### **Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro Election of Temporary Deputy Presiding Officer**

**The Presiding Officer:** In the absence of the Deputy Presiding Officer, I ask the Assembly to elect a temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary meeting. Therefore, I invite nominations.

**Y Llywydd:** Yn absenoldeb y Dirprwy Lywydd, gofynnaf i'r Cynulliad ethol Dirprwy Lywydd dros dro ar gyfer y Cyfarfod Llawn heddiw. Felly, rwyf yn gwahodd enwebiadau.

**Sandy Mewies:** I nominate Rhodri Glyn Thomas.

**Sandy Mewies:** Rwyf yn enwebu Rhodri Glyn Thomas.

**The Presiding Officer:** I therefore declare that Rhodri Glyn Thomas is elected as temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary meeting.

**Y Llywydd:** Rwyf, felly, yn datgan bod Rhodri Glyn Thomas wedi ei ethol yn Ddirprwy Lywydd dros dro ar gyfer y Cyfarfod Llawn heddiw.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth Questions to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage**

*Ni ofynnwyd cwestiwn 1, OAQ(4)0141(HRH).  
Question 1, OAQ(4)0141(HRH), not asked.*

#### **Blaenoriaethau**

#### **Priorities**

**2. Antoinette Sandbach:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau portffolio ar gyfer Gogledd Cymru dros y 12 mis nesaf. OAQ(4)0140(HRH)

**2. Antoinette Sandbach:** Will the Minister outline his portfolio priorities for North Wales in the next 12 months. OAQ(4)0140(HRH)

**Huw Lewis:** I am committed to fulfilling, across Wales, the commitments that are set out for my portfolio in the programme for government. This includes delivering the extra homes to meet increasing housing need and the introduction of the housing and heritage Bills.

**Huw Lewis:** Rwyf wedi ymrwymo i gyflawni, ar draws Cymru, yr ymrwymadau sydd wedi'u nodi ar gyfer fy mhortffolio yn y rhaglen lywodraethu. Mae hynny'n cynnwys darparu'r cartrefi ychwanegol i ddiwallu'r angen cynyddol am dai, a chyflwyno'r Biliau tai a threftadaeth.

**Antoinette Sandbach:** You will be aware of the scale of challenge that housing associations in north Welsh, like Cartrefi Cymunedol Gwynedd, have in bringing their stock up to the Welsh quality housing standard by the 2012 deadline, largely due to legacy issues with stock being transferred late in the day by various local authorities and not just Gwynedd. Given that funding is being prioritised on improving stock rather than on building new social housing to meet local

**Antoinette Sandbach:** Byddwch yn ymwybodol o faint yr her y mae cymdeithasau tai yn y gogledd, megis Cartrefi Cymunedol Gwynedd, yn ei hwynebu o ran sicrhau bod eu stoc yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru mewn pryd erbyn 2012, a hynny i raddau helaeth oherwydd materion yn ymwneud ag etifeddu, wrth i stoc gael ei throsglwyddo'n hwyr gan amryw awdurdodau lleol, ac nid gan Wunedd yn unig. O gofio bod cyllid yn cael ei

demand, such as much needed one-bedroom accommodation that could free-up larger properties for families, will you outline what steps you are taking to help north Wales stock transfer housing associations to resolve funding dilemmas?

**Huw Lewis:** I thank the Member for North Wales for that question. We continue to support housing associations through the social housing grant, which is a protected budget, even in difficult times. I continue to negotiate with the Treasury on freeing Wales from the housing revenue account subsidy system, which holds Wales back to the tune of £73 million per annum in terms of capital that could be expended on housing. I am always willing to talk through the particular problems of particular housing associations at any time.

**Kenneth Skates:** A recent report by Glyndŵr University highlighted that people aged between 16 and 24 were at greater risk of prosecution, self-harm and addiction if they experienced homelessness at that stage of their lives. Last week, the Joseph Rowntree Foundation report said that private landlords who provide low-rent, longer-term tenancies for vulnerable young people and families should be offered financial incentives as a way of helping this group to find stable tenancy terms. Will you look at the obstacles facing young people in the private rented sector and do all that you can to help them avoid a homelessness disaster later in life?

**Huw Lewis:** Thank you for that pertinent question. The Joseph Rowntree Foundation report threw up several worrying items for us all to be concerned about. The forthcoming housing Bill will, of course, contain a proposal, as outlined in the White Paper, to register and license or accredit private sector landlords. Only when that stage is undertaken will we truly get a hold of the private rented sector picture within any particular area. The increased commitment to a strategic lead for local authorities will enable all partners to

flaenoriaethu ar gyfer gwella stoc yn hytrach nag adeiladu tai cymdeithasol newydd i ateb y galw yn lleol, megis y galw mawr am lety ag un ystafell wely, a fyddai'n gallu rhyddhau eiddo mwy o faint i deuluoedd, a wnewch chi amlinellu'r camau yr ydych yn eu cymryd i helpu cymdeithasau tai sy'n ymwneud â throsglwyddo stoc yn y gogledd i ddatrys cyfyng-gyngor o ran cyllid?

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Ogledd Cymru am y cwestiwn hwnnw. Rydym yn parhau i gynorthwyo cymdeithasau tai trwy'r grant tai cymdeithasol, sy'n gyllideb a ddiogelir, hyd yn oed mewn cyfnod anodd. Byddaf yn parhau i drafod â'r Trysorlys a ellir rhyddhau Cymru o system Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai, sy'n golygu bod gan Gymru oddeutu £73 miliwn y flwyddyn yn llai o gyfalaf y gellid ei wario ar dai. Rwyf bob amser yn barod i drafod y problemau penodol sydd gan gymdeithasau tai penodol unrhyw bryd.

**Kenneth Skates:** Roedd adroddiad diweddar gan Brifysgol Glyndŵr yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl rhwng 16 a 24 oed mewn mwy o risg o gael eu herlyn, eu niweidio eu hunain a mynd yn gaeth i sylweddau os oeddent yn ddigartref yn ystod y cyfnod hwnnw yn eu bywyd. Roedd adroddiad gan Sefydliad Joseph Rowntree yr wythnos diwethaf yn nodi y dylai landlordiaid preifat sy'n darparu tenantiaethau â rhent isel dros gyfnod hwy i bobl ifanc a theuluoedd agored i niwed gael cynnig cymhellion ariannol fel modd i helpu'r grŵp hwn i ddod o hyd i delerau tenantiaeth sefydlog. A wnewch chi ystyried y rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc yn y sector rhentu preifat a gwneud popeth o fewn eich gallu i'w helpu i osgoi digartrefedd trychinebus yn nes ymlaen yn eu bywyd?

**Huw Lewis:** Diolch am y cwestiwn perthnasol hwnnw. Tynnodd adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree sylw at lawer o bethau y dylem i gyd fod yn bryderus yn eu cylch. Bydd y Bil tai sydd ar ddod, wrth reswm, yn cynnwys cynnig, fel yr amlinellwyd yn y Papur Gwyn, i gofrestru a thrwyddedu neu achredu landlordiaid yn y sector preifat. Dim ond ar ôl i'r cam hwnnw gael ei gymryd y bydd modd inni gael darlun gwirioneddol o'r sector rhentu preifat mewn unrhyw ardal benodol. Bydd yr ymrwymiad

have a truly structured dialogue on such problems, where we can have a proper conversation with good landlords about the real housing needs of young people, in this instance, within their area and how those needs are addressed.

**Ieuan Wyn Jones:** Gan fod arian yn prinhaus a chyllidebau'n cael eu torri, a wnaiff y Gweinidog siarad â'r Gweinidog â chyfrifoldeb dros fusnes a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau i sicrhau bod yr arian ar gyfer adfywio Môn a Menai yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol? Oni fyddai'r Gweinidog yn cytuno bod i'r dair adran weithio ar y cyd yn fendith o ystyried bod y defnydd o symiau cymharol fach yn fwy effeithiol pan fydd adrannau'n gweithio gyda'i gilydd?

**Huw Lewis:** I agree wholeheartedly with the Member for Ynys Môn that that kind of co-working and holistic view, particularly in this instance, surrounding the problems facing the people of the Môn and Menai area, is a prerequisite of moving forward. This year will see some change in how we deliver regeneration programmes across Wales with the review of regeneration policy that is now under way. The whole Cabinet will be a part of those discussions and will be ready partners in terms of ensuring the future of Ynys Môn and its people.

**Aled Roberts:** Weinidog, rai wythnosau yn ôl cafodd nifer ohonom gyfle i fynd i'r Alban i weld sut mae Llywodraeth yr Alban yn gweithredu gyda chymdeithas y camlesi yn yr Alban i adnewyddu ardaloedd lleol. A yw'ch adran chi wedi cael cyfle i weld sut y gallai gwaith tebyg fod o fudd mewn ardaloedd megis Cefn Mawr a Froncysyllte yn ne Clwyd?

**Huw Lewis:** I am also a keen student of Scotland and a great admirer in some regard of its regenerative work and the imagination that has gone into that since devolution back in 1999. I have not had a specific conversation around the role of canals as yet; this has just been devolved to us, but perhaps

cryfach i arweiniad strategol ar gyfer awdurdodau lleol yn galluogi'r holl bartneriaid i gael trafodaeth wirioneddol strwythuredig ynghylch problemau o'r fath, lle y gallwn gael sgwrs briodol â landlordiaid da ynghylch yr anghenion go iawn o ran tai sydd gan bobl ifanc yn eu hardal, yn yr achos hwn, a thrafod sut yr eir i'r afael â'r anghenion hynny.

**Ieuan Wyn Jones:** As money is becoming scarcer and budgets are being cut, will the Minister speak to the Minister with responsibility for business and the Deputy Minister for Skills to ensure that the regeneration funding for Môn and Menai is used in the most effective way possible? Would the Minister not agree that it would be a blessing for the three departments to work together given that the use of comparatively small sums is more effective when departments work together?

**Huw Lewis:** Rwyf yn cytuno'n llwyr â'r Aelod dros Ynys Môn bod y math hwnnw o gydweithio a'r math hwnnw o safbwynt cyfannol, yn enwedig yn yr achos hwn, ynghylch y problemau sy'n wynebu pobl ardal Môn a Menai yn hanfodol er mwyn symud ymlaen. Eleni, byddwn yn gweld rhywfaint o newid yn y modd yr ydym yn gweithredu rhaglenni adfywio ledled Cymru, gyda'r adolygiad o bolisi adfywio sydd ar waith erbyn hyn. Bydd y Cabinet cyfan yn rhan o'r trafodaethau hynny, a bydd ei aelodau'n bartneriaid parod o safbwynt sicrhau dyfodol Ynys Môn a'i phobl.

**Aled Roberts:** Minister, some weeks ago, many of us had an opportunity to visit Scotland to see how the Scottish Government works with the canals association in Scotland to regenerate local areas. Has your department had an opportunity to look at how similar work could benefit areas such as Cefn Mawr and Froncysyllte in south Clwyd?

**Huw Lewis:** Rwyf innau'n awyddus i astudio'r hyn sy'n digwydd yn yr Alban, ac rwyf yn edmygu'n fawr i ryw raddau ei gwaith adfywio a'i dulliau gweithredu llawn dychymyg i'r perwyl hwnnw ers datganoli'n ôl yn 1999. Nid wyf wedi cael sgwrs benodol ynghylch rôl camlesi hyd yn hyn; newydd

the time is right. If the Member were to write to me with some suggestions, I would readily respond to them.

**David Rees:** A report by Professor Steve Fothergill, published this week by the Industrial Communities Alliance, highlights the disproportionate funding from the lottery to our industrial communities across Wales and the UK. The value of awards per head in areas such as Flintshire and other communities across Wales, including my own, is approximately 20% of that for major cities and just 63% of the national average. Will you seek a meeting with the National Lottery to raise this discrepancy and to ensure fairer funding for cultural, sporting and heritage projects, especially community-based initiatives, in our most disadvantaged communities?

**Huw Lewis:** I thank David Rees for that question. It is the case that the lottery in its various manifestations is very aware of these discrepancies and is very sensitive to the fact that they exist. For some time now, in terms of my portfolio and in terms of meeting with the lottery, this has been on the agenda. Co-working, I am sure, will help to address some of these shortfalls. We also need to have within our minds the fact that because of the difficulties in reaching a degree of social capacity within deprived communities, as compared with larger cities and better-off communities, there is, inherently, a problem, particularly with community and voluntary groups, of having the capacity to put these bids together. Therefore, we must address that. I know that the lottery, especially the Welsh arm of the lottery, is very aware of that and wants to engage with that agenda, and I will certainly be doing so in the coming period.

### Cymunedau Gwledig

**3. Paul Davies:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth*

gael ei ddatganoli inni y mae'r mater hwnnw, ond efallai fod yr amser yn iawn i wneud hynny. Pe bai'r Aelod yn ysgrifennu ataf gan nodi rhai awgrymiadau, byddwn yn barod iawn i ymateb iddynt.

**David Rees:** Mae adroddiad gan yr Athro Steve Fothergill, a gyhoeddwyd yr wythnos hon gan y Gynghair Cymunedau Diwydiannol, yn tynnu sylw at y cyllid anghymesur gan y loteri i'n cymunedau diwydiannol ar draws Cymru a'r DU. Mae gwerth y dyfarniadau fesul pen mewn ardaloedd megis Sir y Fflint a chymunedau eraill ar draws Cymru, gan gynnwys fy nghymuned i, yn cyfateb i oddeutu 20% o werth y dyfarniadau fesul pen mewn dinasoedd mawr, ac mae'n cyfateb i 63% yn unig o'r cyfartaledd cenedlaethol. A wnewch chi geisio trefnu cyfarfod â'r Loteri Genedlaethol i dynnu sylw at yr anghysondeb hwn a sicrhau y caiff prosiectau diwylliannol, prosiectau chwaraeon a phrosiectau treftadaeth, yn enwedig mentrau cymunedol, eu hariannu'n decach yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig?

**Huw Lewis:** Diolch i David Rees am y cwestiwn hwnnw. Mae'n wir bod y loteri, yn ei hamrywiol ffurfiau, yn ymwybodol iawn o'r anghysondebau hyn, ac mae'n sensitif iawn i'r ffaith eu bod yn bodoli. Ers tipyn o amser bellach, mae'r mater hwn wedi bod ar yr agenda, o safbwynt fy mhortffolio ac o safbwynt cyfarfod â'r loteri. Rwyf yn siŵr y bydd cydweithio'n helpu i fynd i'r afael â rhai o'r diffygion hyn. Yn ogystal, oherwydd yr anhawster i gyrraedd lefel o gapasiti cymdeithasol mewn cymunedau difreintiedig, o'u cymharu â dinasoedd mwy o faint a chymunedau mwy cefnog, mae angen inni gofio y ceir problem hanfodol, yn enwedig gyda grwpiau cymunedol a gwirfoddol, o safbwynt cael y capasiti i lunio'r ceisiadau hyn. Felly, rhaid inni fynd i'r afael â hynny. Gwn fod y loteri, yn enwedig cangen Cymru ohoni, yn ymwybodol iawn o hynny a'i bod am ymwneud â'r agenda honno, a byddaf yn sicr yn gwneud hynny yn ystod y cyfnod nesaf.

### Rural Communities

**3. Paul Davies:** *Will the Minister make a statement on what the Welsh Government is*

*Cymru yn ei wneud i adfywio ardaloedd mewn cymunedau gwledig. OAQ(4)0132(HRH)*

*doing to regenerate areas in rural communities. OAQ(4)0132(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank the Member for Preseli Pembrokeshire for that question. The Welsh Government is working to ensure that rural communities and the settlements that serve them continue to thrive and prosper. We do this through a range of activities, including regeneration area programmes and support from the rural development plan.

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Breseli Sir Benfro am y cwestiwn hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i sicrhau bod cymunedau gwledig a'r aneddiadau sy'n eu gwasanaethu yn parhau i ffynnu a llwyddo. Rydym yn gwneud hynny trwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys rhaglenni adfywio ardal a chymorth gan y cynllun datblygu gwledig.

**Paul Davies:** I am grateful to the Minister for that response. I recently attended a presentation organised by Fishguard and Goowick Town Council on ideas and plans to regenerate the town. As I am sure the Minister is aware, a petition has been handed in to the Welsh Government recently calling for investment to be made in a town-centre improvement scheme for Fishguard, which includes pedestrian and traffic management. What discussions, if any, has the Minister had with his colleague, the Minister for Local Government and Communities, regarding regenerating Fishguard town centre, and what steps is the Government taking to regenerate rural towns such as Fishguard?

**Paul Davies:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Yn ddiweddar, mynychais gyflwyniad a drefnwyd gan Gyngor Tref Abergwaun ac Wdig ynghylch syniadau a chynlluniau i adfywio'r dref. Fel y gŵyr y Gweinidog, rwyf yn siŵr, mae deiseb wedi'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ddiweddar yn galw am fuddsoddiad mewn cynllun gwella canol y dref yn Abergwaun, sy'n cynnwys camau i reoli cerddwyr a thraffig. Pa drafodaethau, os o gwbl, y mae'r Gweinidog wedi eu cael â'i gydweithiwr, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, ynghylch adfywio canol tref Abergwaun, a pha gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i adfywio trefi gwledig megis Abergwaun?

**Huw Lewis:** I believe I have outlined the various programmes that are out there looking at the needs and concerns of all of our towns and villages, including those in rural areas. As yet, I have had no specific discussions with my Cabinet colleagues regarding the concerns of Fishguard. However, that is not to say that we could not arrange such a meeting.

**Huw Lewis:** Rwyf yn credu imi amlinellu'r amryw raglenni sydd ar gael sy'n ystyried anghenion a phryderon pob un o'n trefi a'n pentrefi, gan gynnwys y rheini sydd mewn ardaloedd gwledig. Hyd yn hyn, nid wyf wedi cael trafodaethau penodol gyda'm cydweithwyr yn y Cabinet ynghylch pryderon Abergwaun. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu na allem drefnu cyfarfod o'r fath.

**Llyr Huws Gruffydd:** Dau o brif gynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer datblygu economaidd yw'r parthau menter a'r rhanbarthau dinesig. Waeth beth fo'ch barn am y rhaglenni hynny, mae'n ffaith eu bod yn ffocysu ar ardaloedd penodol, daearyddol, gan adael rhannau helaeth o Gymru heb eu cyffwrdd. Mae'n gwestiwn gen i faint o effaith fydd y rhain yn eu cael ar dlodi gwledig ar draws Gymru. Beth, felly, mae'r Llywodraeth yn ei wneud i hyrwyddo adfywio ond, yn fwy penodol, i fynd i'r afael

**Llyr Huws Gruffydd:** Two of the Government's main programmes for economic development are the enterprise zones and the city regions. Regardless of what you think of these programmes, it is a fact that they concentrate on specific geographical areas, leaving many parts of Wales untouched, which leaves me questioning how much of an impact they will have on rural poverty across Wales. What, therefore, is the Government doing to promote regeneration but, more specifically,

â thlodi mewn ardaloedd gwledig?

**Huw Lewis:** The Member is quite right, of course, to say that enterprise zones and city regions will have a geographical basis. However, the Member neglects to mention the rural development plan, which, for 2007-13, will invest £841 million, of which £295 million will come from European sources to tackle the specific problems of rural Wales. However, as I have said, my door is always open in terms of good ideas, wherever they may be in Wales.

**Llyr Huws Gruffydd:** Diolch; mae'n debyg y cymerwn fantais o'r cynnig hwnnw o safbwynt cynnig syniadau. Fodd bynnag, un o'r prif bryderon sy'n cael ei fynegi gan bobl mewn ardaloedd gwledig yw nad yw tlodi gwledig yn cael ei gyfrif yn ddigonol mewn mecanweithiau ystadegol, cyllidol ac ariannu'r Llywodraeth, a bod tueddiad, felly, i danamcangyfrif tlodi yn yr ardaloedd hyn. Mae hynny'n rhywbeth y bu ichi gydnabod mewn ateb i fi yn ddiweddar ynglŷn â'r mynegai amddifadedd lluosog. Beth, felly, rydych chi'n ei wneud i sicrhau y bydd eich adolygiad chi o adfywio yn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion penodol ardaloedd gwledig?

**Huw Lewis:** I am on record as having said that I believe that there is an issue—and I know that many Members agree with me—surrounding the pinpointing of deprivation accurately within rural areas. There is a discussion that needs to be had with the statisticians. The Welsh index of multiple deprivation, although an extraordinarily useful document, could be improved in this regard. As far as my work is concerned, in terms of regeneration priorities, I have undertaken to meet the experts, the statisticians, to talk this through.

**William Powell:** Minister, following on from your earlier answers and acknowledging the importance of the recent Enterprise and Business Committee report on the regeneration of town centres, what is your specific timetable for implementing the report's recommendations over the coming 12 months? I am thinking particularly of

to get to grips with poverty in rural areas?

**Huw Lewis:** Mae'r Aelod yn llygad ei le, wrth gwrs, wrth ddweud y bydd ardaloedd menter a dinas-ranbarthau yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol. Fodd bynnag, anghofiodd yr Aelod sôn am y cynllun datblygu gwledig, a fydd, yn ystod 2007-13, yn buddsoddi £841 miliwn, y bydd £295 miliwn ohono'n dod o ffynonellau Ewropeaidd i fynd i'r afael â phroblemau penodol ardaloedd gwledig Cymru. Fodd bynnag, fel y dywedais, mae fy nrws bob amser yn agored i syniadau da, ble bynnag y maent yng Nghymru.

**Llyr Huws Gruffydd:** Thank you; I am sure that we will take advantage of that offer in terms of proposing ideas. However, one of the main concerns expressed by people in rural areas is that rural poverty is not adequately assessed within the statistical, budgetary and fiscal mechanisms of Government and that there is a tendency, therefore, to underestimate poverty in these areas. You acknowledged this point in a recent answer to me about the index of multiple deprivation. What are you doing, therefore, to ensure that your review of regeneration will take full account of the specific needs of rural areas?

**Huw Lewis:** Ceir cofnod o'r ffaith imi ddweud fy mod o'r farn bod problem—a gwn fod llawer o Aelodau'n cytuno â mi—ynghylch adnabod amddifadedd yn gywir mewn ardaloedd gwledig. Mae angen cynnal trafodaeth â'r ystadegwyr. Er bod mynegai amddifadedd lluosog Cymru yn ddogfen hynod o ddefnyddiol, gellid ei gwella yn y cyswllt hwn. O ran fy ngwaith i, o safbwynt blaenoriaethau adfywio, rwyf wedi cytuno i gyfarfod â'r arbenigwyr, sef yr ystadegwyr, i drafod y mater hwn.

**William Powell:** Weinidog, yn dilyn eich atebion yn gynharach, a chan gydnabod pwysigrwydd adroddiad diweddar y Pwyllgor Menter a Busnes ar adfywio canol trefi, beth yw eich amserlen benodol ar gyfer gweithredu argymhellion yr adroddiad yn ystod y 12 mis nesaf? Rwyf yn cyfeirio'n benodol ar argymhelliad 13, sy'n ymwneud â



recommendation 13, which relates to town-centre plans, which will be particularly relevant both to Fishguard and to other towns in rural Wales?

**Huw Lewis:** The timetable for my review of regeneration has been made clear. I will make announcements in the autumn, which will include broad themes and the priorities that we wish to address, after taking into consideration the submissions that we have received—and we have received quite a number already. Next spring, I will make quite specific announcements about which parts of Wales, which communities in Wales or which themes across Wales we might wish to concentrate our efforts upon over the rest of the Assembly term.

#### Adfywio Doc Penfro

**4. Angela Burns:** *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i adfywio Doc Penfro. OAQ(4)0133(HRH)*

**Huw Lewis:** The Welsh Government is aware of a number of regeneration projects in and around Pembroke Dock. We are happy to work with the local authority to help it to identify sources of funding.

**Angela Burns:** Thank you very much for that answer, Minister. As you will be aware, the marina plans in Pembroke Dock have stagnated. Pembroke Dock has had an enormous amount of funding from organisations such as the Heritage Lottery Fund to make the buildings beautiful, but that does not bring commerce back into the town centre, nor does it help the people there to gain employment. Moving a couple of miles up the road, Pembroke town centre itself is also now beginning to fall away. Given the comments of my colleague Paul Davies about Fishguard, would you be prepared to attend a meeting in Pembrokeshire to look at the specific problems that we have in this part of west Wales in terms of the regeneration of some of our poorer communities?

**Huw Lewis:** I am always ready to attend meetings with people who have good ideas for their local area.

chynlluniau canol trefi, a fydd yn arbennig o berthnasol i Abergwaun a threfi eraill mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru.

**Huw Lewis:** Mae'r amserlen ar gyfer fy adolygiad o'r broses adfywio yn glir. Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau yn ystod yr hydref, a fydd yn cynnwys themâu cyffredinol a'r blaenoriaethau yr ydym am fynd i'r afael â hwy, ar ôl ystyried y sylwadau y byddwn wedi'u cael—ac rydym eisoes wedi cael cryn dipyn. Yn ystod y gwanwyn nesaf, byddaf yn gwneud cyhoeddiadau eithaf penodol ynghylch pa rannau o Gymru, pa gymunedau yng Nghymru neu pa themâu ar draws Cymru y gallem fod yn dymuno canolbwyntio ein hymdrechion arnynt yn ystod gweddill tymor y Cynulliad.

#### Regeneration of Pembroke Dock

**4. Angela Burns:** *Will the Minister give an update on plans to regenerate Pembroke Dock. OAQ(4)0133(HRH)*

**Huw Lewis:** Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o nifer o brosiectau adfywio yn Noc Penfro ac o gwmpas Doc Penfro. Rydym yn fodlon gweithio gyda'r awdurdod lleol i'w helpu i adnabod ffynonellau cyllid.

**Angela Burns:** Diolch yn fawr iawn am yr ateb hwnnw, Weinidog. Fel y gwyddoch, mae'r cynlluniau ar gyfer marina yn Noc Penfro wedi dod i stop. Mae Doc Penfro wedi cael cryn dipyn o gyllid gan gyrff megis Cronfa Dreftadaeth y Loteri i harddu'r adeiladau, ond nid yw hynny'n dod â masnach yn ôl i ganol y dref, ac nid yw chwaith yn helpu'r bobl yno i gael gwaith. O deithio rhai milltiroedd i fyny'r ffordd, gwelir bod canol tref Penfro ei hun yn dechrau dirywio hefyd. O gofio sylwadau fy nghydweithiwr, Paul Davies, am Abergwaun, a fyddech yn barod i fynychu cyfarfod yn Sir Benfro i edrych ar y problemau penodol sydd gennym yn y rhan hon o'r gorllewin o safbwynt adfywio rhai o'n cymunedau tlotach?

**Huw Lewis:** Rwyf bob amser yn barod i fynychu cyfarfodydd â phobl sydd â syniadau da ar gyfer eu hardal leol.

1.45 p.m.

**Joyce Watson:** Minister, I am sure that you will be aware that tomorrow marks the beginning of the consultation process on the Milford dock redevelopment plan. By redeveloping the dock, Milford Haven Port Authority hopes to boost the leisure and fishing industries and help to regenerate the wider community. I am sure that you will join me in welcoming that ambition. How do those plans tie into the Welsh Government's regeneration priorities for south Pembrokeshire, particularly the Haven Waterway enterprise zone? Can you assure me, Minister, that the Welsh Government will ensure that other waterfront communities like Pembroke Dock will benefit from investment and regeneration?

**Huw Lewis:** I thank Joyce Watson for those points. There are no regeneration areas currently in operation in that part of Wales, but my review of regeneration is examining where and how we work, as I have said. My policy officials work with colleagues from across Welsh Government, including officials from the Department for Business, Enterprise, Technology and Science, in areas of collaboration, which include enterprise zones. It is important to me that we have joined-up policy making across Cabinet portfolios, especially when it comes to zoned areas and the regenerative boost that we might wish to give them.

#### Y Sector Rhentu Preifat

5. **Mike Hedges:** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella safonau tai yn sector rhentu preifat Cymru. OAQ(4)0143(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank the Member for Swansea East for that question. The recently published housing White Paper includes information on our proposals to legislate to modernise the private rented sector and work towards improving standards of management and property condition. We recognise the crucial role that this sector of the housing

**Joyce Watson:** Weinidog, rwyf yn siŵr y byddwch yn ymwybodol bod y broses ymgynghori ynghylch cynllun ailddatblygu dociau Aberdaugleddau yn dechrau yfory. Drwy ailddatblygu'r dociau, mae Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau yn gobeithio rhoi hwb i'r diwydiant hamdden a'r diwydiant pysgota a helpu i adfywio'r gymuned ehangach. Rwyf yn siŵr yr ymunwch â mi i groesawu'r uchelgais hwnnw. Sut y mae'r cynlluniau hynny'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran adfywio ar gyfer de Sir Benfro, yn enwedig ardal fenter Dyfrffordd y Daugleddau? A allwch roi sicrwydd imi, Weinidog, y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd cymunedau eraill sydd ar lan y dŵr, megis Doc Penfro, yn elwa o waith buddsoddi ac adfywio?

**Huw Lewis:** Diolch i Joyce Watson am y pwyntiau hynny. Nid oes ardaloedd adfywio ar waith ar hyn o bryd yn y rhan honno o Gymru, ond mae fy adolygiad o'r broses adfywio yn archwilio ym mhle a sut yr ydym yn gweithio, fel y dywedais. Mae fy swyddogion polisi yn gweithio gyda chydweithwyr o bob rhan o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys swyddogion o'r Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, mewn meysydd lle y gellir cydweithredu, sy'n cynnwys ardaloedd menter. Mae'n bwysig i mi ein bod yn llunio polisiau mewn modd cydgysylltiedig ar draws portffolios y Cabinet, yn enwedig o safbwynt ardaloedd a ddynodir yn barthau a'r hwb y gallem fod yn dymuno ei roi iddynt o safbwynt adfywio.

#### The Private Rented Sector

5. **Mike Hedges:** *What action is the Welsh Government taking to improve housing standards in the Welsh private rented sector. OAQ(4)0143(HRH)*

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain Abertawe am y cwestiwn hwnnw. Mae'r Papur Gwyn ynghylch tai a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynnwys gwybodaeth am ein cynigion i ddeddfu er mwyn moderneiddio'r sector rhentu preifat a gweithio i wella safonau rheoli a chyflwr eiddo. Rydym yn cydnabod y rôl hollbwysig sydd gan y sector

market has to play in the current economic climate.

**Mike Hedges:** According to research by the Electrical Safety Council, tenants in the private rented sector are more likely to be at risk from electrical accidents than their counterparts in other sectors. The reasons for this include poorly maintained electrical installations and a lack of knowledge among landlords of their responsibility towards electrical safety. What consideration has the Minister given to legislating for the compulsory fitting of residual current devices, known as trip switches to him and me, in all rented properties to help protect tenants against possibly fatal electric shocks?

**Huw Lewis:** Mike Hedges raises an important point, which is a concern that is shared by several Members. I agree that electrical safety is of enormous importance to residents of properties across all housing sectors. We have to be aware, however, that there would be significant cost implications associated with making trip-switch devices mandatory in all private rented properties, and all in one go, let us say. There is legislation out there, through the health and safety rating system, whereby local authorities have a duty to act if a category 1 hazard relating to electrical safety is detected. There is a parallel route of progress here, if you like; through registration of private sector landlords, local authorities will gain a handle on exactly where all private rented properties are and they will have increased powers in terms of ensuring quality, working alongside landlords to deliver a good service to tenants. There is much profit to be had through increasing the efficiency of that working relationship and boosting the role of local authorities in this regard.

**Mohammad Asghar:** Minister, the private rented sector is a growing part of the housing market, offering a flexible form of tenure and meeting a wide range of housing needs. Do you agree that any measure to improve standards in private rented housing should not hinder the growth of the sector and that local accreditation schemes run by local

hwn o'r farchnad dai i'w chwarae yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

**Mike Hedges:** Yn ôl gwaith ymchwil a wnaed gan y Cyngor Diogelwch Trydanol, mae tenantiaid yn y sector rhentu preifat yn fwy tebygol o fod mewn perygl o gael damweiniau'n gysylltiedig â thrydan na thenantiaid mewn sectorau eraill. Mae'r rhesymau am hynny'n cynnwys gosodiadau trydan a gaiff eu cynnal a'u cadw'n wael a diffyg gwybodaeth ymhlith landlordiaid am eu cyfrifoldeb i sicrhau diogelwch trydanol. Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i ddeddfu er mwyn sicrhau bod yn rhaid gosod dyfeisiau cerrynt gweddillol, neu dripswitshis i chi a fi, ym mhob eiddo a gaiff ei rentu er mwyn helpu i ddiogelu tenantiaid rhag sioc drydanol a allai fod yn anghueuol?

**Huw Lewis:** Mae Mike Hedges yn codi pwynt pwysig, sy'n bryder i lawer o Aelodau. Rwyf yn cytuno bod diogelwch trydanol yn eithriadol o bwysig i breswylwyr mewn eiddo ar draws pob sector tai. Rhaid inni fod yn ymwybodol, serch hynny, y byddai goblygiadau sylweddol o ran cost yn gysylltiedig â mynnu bod gan bob eiddo yn y sector rhentu preifat dripswitsh, a hynny ar unwaith, dyweder. Mae deddfwriaeth mewn grym, drwy'r system graddio iechyd a diogelwch, lle y mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i weithredu os canfyddir perygl categori 1 sy'n ymwneud â diogelwch trydanol. Ceir llwybr cyfochrog o gynnydd yma, os dymunwch; drwy gofrestru landlordiaid yn y sector preifat, bydd awdurdodau lleol yn gwybod ble'n union y mae holl eiddo'r sector rhentu preifat, a bydd ganddynt fwy o bwerau o ran sicrhau ansawdd, gan weithio ochr yn ochr â landlordiaid i ddarparu gwasanaeth da i denantiaid. Gellid elwa llawer o gynyddu effeithlonrwydd y berthynas waith honno a rhoi hwb i rôl awdurdodau lleol yn hynny o beth.

**Mohammad Asghar:** Weinidog, mae'r sector rhentu preifat yn sector sy'n tyfu yn y farchnad dai, ac mae'n cynnig deiliadaeth hyblyg ac yn diwallu ystod eang o anghenion o ran tai. A ydych yn cytuno na ddylai unrhyw fesur i wella safonau mewn tai rhentu preifat lesteirio twf y sector, a bod cynlluniau achredu lleol a gaiff eu gweithredu gan

authorities and which set minimum standards are a useful way of helping potential tenants to identify good landlords in their areas?

**Huw Lewis:** Of course they are, although I would say that good standards and growth in the sector are not mutually exclusive; they go hand in hand. As the private rented sector grows, and as everything we know about housing statistics and the current state of the economy lead us to believe that it will grow and should grow, it is imperative that we maintain good standards throughout. This will maintain the reputation of the sector and encourage people to see the private rented sector not as a last resort or as a stopgap measure for their housing needs, but as a more long-term option for themselves and their children.

**Peter Black:** I will return to Mike Hedges's question about trip switches. I note and acknowledge your response that that would be a very expensive way forward; however, you know of course that there are various health and safety requirements attached to the licensing of houses in multiple occupation. Would you consider amending the guidance to local authorities so that trip switches become part of that regime, and any HMOs that acquire the licence would be required to include those trip switches?

**Huw Lewis:** This is certainly something that I would be willing to investigate further and to talk about, particularly, as I said, because we will be expecting more of local authorities in terms of how they strategically manage housing stock within their areas. This will include the quality and safety of HMOs as well as the density of HMOs within a particular neighbourhood. So, this is on the table for discussion.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. As you are looking in your housing Bill to extend the licensing regime to other private sector housing, will you acknowledge that you will also look at it for those other privately rented properties?

awdurdodau lleol ac sy'n pennu safonau gofynnol yn ffordd ddefnyddiol o helpu tenantiaid posibl i ddod o hyd i landlordiaid da yn eu hardal?

**Huw Lewis:** Wrth gwrs eu bod, er y byddwn yn dweud nad yw safonau da a thwf yn y sector yn anghydnaws â'i gilydd; maent yn mynd law yn llaw. Wrth i'r sector rhentu preifat dyfu, a chan fod popeth a wyddom am ystadegau tai a chyflwr presennol yr economi yn ein harwain i gredu y bydd yn tyfu ac y dylai dyfu, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal safonau da drwy'r trwch. Bydd hynny'n cynnal enw da'r sector ac yn annog pobl i ystyried y sector rhentu preifat yn fwy o opsiwn hirdymor ar eu cyfer hwy a'u plant, yn hytrach nag yn ddewis olaf neu'n fesur dros dro ar gyfer eu hanghenion o ran tai.

**Peter Black:** Rwyf am ddychwelyd at gwestiwn Mike Hedges ynghylch tripswitshis. Rwyf yn nodi ac yn cydnabod eich ymateb, sef y byddai'n ffordd ddrudd iawn o symud ymlaen; fodd bynnag, gwyddoch wrth gwrs fod amryw ofynion o ran iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â thrwyddedu tai amlfeddiannaeth. A fydddech yn ystyried diwygio'r canllawiau i awdurdodau lleol er mwyn i dripswitshis ddod yn rhan o'r gyfundrefn honno, fel y byddai'n ofynnol i unrhyw dai amlfeddiannaeth sy'n cael y drwydded gynnwys tripswitshis o'r fath?

**Huw Lewis:** Mae hynny'n sicr yn rhywbeth y byddwn yn barod i'w drafod ac ymchwilio ymhellach iddo, yn enwedig, fel y dywedais, gan y byddwn yn disgwyl mwy gan awdurdodau lleol o safbwynt sut y maent yn rheoli eu stoc tai'n strategol yn eu hardaloedd. Bydd hynny'n cynnwys ansawdd a diogelwch tai amlfeddiannaeth yn ogystal â'u dwysedd mewn cymdogaeth benodol. Felly, mae'r mater hwn i'w drafod.

**Peter Black:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Gan eich bod, trwy eich Bil tai, yn bwriadu ymestyn y drefn drwyddedu i dai eraill yn y sector preifat, a wnewch chi gydnabod y byddwch hefyd yn ei hystyried ar gyfer yr eiddo arall hwnnw yn y sector rhentu preifat?

**Huw Lewis:** All things are possible in time.

**Huw Lewis:** Mae popeth yn bosibl gydag amser.

**Christine Chapman:** Minister, the Dogs Trust has highlighted the difficulties that pet owners can face in finding accommodation in the private rented housing sector, with 78% of pet owners saying that they have faced problems. We know that, for a variety of reasons, more and more people are having to find accommodation in the private rented sector, and if leases preclude the ownership of pets, this obviously poses huge challenges. Dogs Trust maintains a list of pet-friendly letting agencies, but sadly only one such agency in Wales is signed up. Minister, have you had, or do you plan to enter into, any discussions with the sector to establish best practice and make sure that pet owners are not excluded?

**Christine Chapman:** Weinidog, mae'r Ymddiriedolaeth Gŵn wedi tynnu sylw at yr anawsterau y gall perchnogion anifeiliaid anwes eu hwynebu wrth geisio dod o hyd i lety yn y sector rhentu preifat, ac mae 78% o berchnogion anifeiliaid anwes yn dweud eu bod wedi cael problemau. Gwyddom fod mwyfwy o bobl, am amryw resymau, yn gorfod dod o hyd i lety yn y sector rhentu preifat, ac os yw prydles i'n gwahardd anifeiliaid anwes, mae'n amlwg bod hynny'n arwain at heriau enfawr. Mae'r Ymddiriedolaeth Gŵn yn cadw rhestr o asiantaethau gosod tai sy'n fodlon cymryd anifeiliaid anwes, ond yn anffodus dim ond un asiantaeth o'r fath yng Nghymru sydd wedi cofrestru. Weinidog, a ydych wedi cael unrhyw drafodaethau â'r sector i sefydlu arfer gorau a sicrhau nad yw perchnogion anifeiliaid anwes yn cael eu heithrio, neu a ydych yn bwriadu cael trafodaethau o'r fath?

**Huw Lewis:** I thank the Member for Cynon Valley for that question. I was not aware of this particular problem. I would say, although many people have missed it, that we are proposing in the White Paper not simply to regulate landlords, but also management and letting agencies, and to bring them on board in terms of minimum sets of standards and more ambition in terms of customer service. The aim is to help landlords, but also to get a better service for tenants. It is very much in my mind that the private rented sector of the future in Wales should be seen as a good option for families and for all age groups—not just for young singles, or just as a stopgap for people who are looking for something better elsewhere, but as a long-term option for families of all shapes and sizes. I would be happy to talk further about issues like this.

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Gwm Cynon am y cwestiwn hwnnw. Nid oeddwn yn ymwybodol o'r broblem benodol hon. Byddwn yn dweud, er bod llawer o bobl wedi ei fethu, ein bod yn y Papur Gwyn nid yn unig yn bwriadu rheoleiddio landlordiaid ond yn bwriadu rheoleiddio asiantaethau rheoli a gosod tai hefyd, a sicrhau eu bod yn cefnogi setiau gofynnol o safonau a mwy o uchelgais o ran gwasanaeth cwsmer. Y nod yw helpu landlordiaid, ond sicrhau gwasanaeth gwell i denantiaid hefyd. Rwyf yn sicr o'r farn y dylai'r sector rhentu preifat yng Nghymru yn y dyfodol gael ei ystyried yn opsiwn da i deuluoedd a phob grŵp oedran—nid yn opsiwn i bobl ifanc sengl yn unig neu fel cartref dros dro i bobl sy'n chwilio am ryw beth gwell mewn mannau eraill, ond yn opsiwn hirdymor i deuluoedd o bob math. Byddwn yn fodlon cael trafodaeth bellach ynghylch materion fel hyn.

**The Presiding Officer:** Question 6, OAQ(4)0144(HRH), is withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 6, OAQ(4)0144(HRH), yn ôl.

#### **Adeliadau Rhestredig**

#### **Listed Buildings**

**7. Rhodri Glyn Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch cyflwyno TAW ar gyfer

**7. Rhodri Glyn Thomas:** What discussions has the Minister had with the UK Government regarding the introduction of

*addasiadau i Adeiladau Rhestredig.  
OAQ(4)0136(HRH)*

**Huw Lewis:** Fraught discussions. The budget announcement by the UK Government in relation to VAT for listed buildings came as an unwelcome and bewildering surprise to the Welsh Government. I have written to the Chancellor to set out my concerns over the detrimental impact that this decision would have on the historic environment of Wales.

**Rhodri Glyn Thomas:** Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Rwy'n falch eich bod yn rhannu fy mhryderon am y sefyllfa sydd wedi codi o ganlyniad i hyn a'ch bod hefyd yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod yr adeiladau hyn yn cael eu cynnal a'u cadw, a bod y traddodiadau sy'n perthyn iddynt yn cael eu diogelu hefyd. Weinidog, mae bron i 30,000 o adeiladau wedi'u rhestru yng Nghymru—bron i 2,000 ohonynt yn sir Gaerfyrddin. Beth ydych chi, fel Gweinidog, yn mynd i'w wneud i sicrhau na fydd hyn yn digwydd? Mae costau addasu adeiladau sydd wedi'u rhestru gymaint yn fwy na chostau addasu adeiladau eraill ac roedd osgoi treth ar werth yn rhywfaint o gymorth i berchnogion preifat, capeli ac eglwysi a'u cynulleidfaoedd yn y sefyllfa honno.

**Huw Lewis:** I thank the Member for Carmarthen East and Dinefwr. I can tell him that, apart from writing to my equivalent in Westminster to express my concerns on this issue, I have also written to my equivalent in Scotland. I can tell him that the Scottish Government is equally concerned and bewildered by what is essentially a tax on adaptations to historic buildings, which is the business that you must get into if you are to bring historic buildings back into viable use. Without adaptations—fitting kitchens, heating systems, lavatories or whatever it may be—you cannot shift the use of a building at all. You cannot hope to have any kind of imaginative solution. Essentially, the UK Government has slapped a 20% tax on Wales's historic built environment before we can move in any direction whatsoever. It is insane.

*VAT for Listed Building alterations.  
OAQ(4)0136(HRH)*

**Huw Lewis:** Trafodaethau llawn tensiwn. Roedd y cyhoeddiad yn y gyllideb gan Lywodraeth y DU ynghylch TAW ar gyfer adeiladau rhestredig yn gyhoeddiad annisgwyl i Lywodraeth Cymru, nad oes croeso iddo ac sy'n peri dryswch. Rwyf wedi ysgrifennu at y Canghellor i amlinellu fy mhryderon ynghylch yr effaith andwyol y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar amgylchedd hanesyddol Cymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** Thank you for that reply, Minister. I am pleased that you share my concerns about the situation that has arisen as a result of this and that you are also aware of the need to ensure that these buildings are maintained and that the traditions associated with them are also safeguarded. Minister, there are almost 30,000 listed buildings in Wales—almost 2,000 of them are in Carmarthenshire. What are you going to do, as Minister, to ensure that this does not happen? The costs of alterations to listed buildings are significantly higher than the costs for other buildings and the avoidance of VAT was of some assistance to private owners, chapels and churches and their congregations in that situation.

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Ddwyrain Caerfyrddin a Dinefwr. Gallaf ddweud wrtho fy mod wedi ysgrifennu at y Gweinidog sy'n cyfateb imi yn yr Alban yn ogystal â'r Gweinidog sy'n cyfateb imi yn San Steffan i fynegi fy mhryderon ynghylch y mater hwn. Gallaf ddweud wrtho bod Llywodraeth yr Alban yr un mor bryderus ac wedi'i drysu i'r un graddau gan yr hyn sydd, yn ei hanfod, yn dreth ar addasiadau i adeiladau hanesyddol, sef y gwaith y mae'n rhaid ichi ei wneud os ydych am ailddechrau defnyddio adeiladau hanesyddol at ddiben ymarferol. Heb wneud addasiadau—megis gosod ceginau, systemau gwresogi, toiledau neu beth bynnag arall—ni allwch newid defnydd adeilad o gwbl. Ni allwch obeithio dod o hyd i unrhyw fath o ateb dychmygus. Yn y bôn, mae Llywodraeth y DU wedi gosod treth o 20% ar amgylchedd adeiledig hanesyddol Cymru cyn y gallwn symud i unrhyw gyfeiriad o gwbl. Mae'n wallgof.

**William Graham:** Minister, I am sure that you will agree that we need to preserve the rich heritage of Wales. Under the previous system, the future of Wales's heritage was perhaps placed in jeopardy, as there was an incentive towards the alteration of listed buildings rather than their preservation. I am sure that the Minister will join me in condemning the refund of VAT for the installation of swimming pools.

**Huw Lewis:** I really cannot get to grips with the logic behind William's remarks. Obviously, a well-managed listing system would necessarily preclude silly outcomes such as the one he described. The truth is that there are hundreds of worthy projects across Wales that I would like to become engaged with, alongside other partners, which are now put in jeopardy because of this UK Government step. This is really beyond understanding, as far as I am concerned, and represents a huge threat to any potential restoration project. I know that there are many already on the starting blocks throughout Wales, on which voluntary groups, quite often, have worked very hard, alongside other partners, to produce worthwhile plans. To have the rug pulled out from under them like this is inexplicable.

### Blaenoriaethau

**8. David Rees:** *Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnal ein treftadaeth yn Aberafan. OAQ(4)0135(HRH)*

**Huw Lewis:** Our programme for government outlines our commitment to support and promote Welsh heritage events and attractions throughout Wales and abroad. We aim to promote a sense of ownership and pride in Welsh heritage.

**David Rees:** Thank you for that answer, Minister. It has been highlighted that, in addition to many of our industrial buildings, in Aberavon in particular, a large proportion of our housing stock—34% across Wales—dates from prior to 1919. Therefore, we need to develop skills in our future workforce to maintain our older buildings and their heritage appropriately, and understand the

**William Graham:** Weinidog, rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod angen inni gadw treftadaeth gyfoethog Cymru. Dan y system flaenorol, roedd dyfodol treftadaeth Cymru mewn perygl efallai, gan fod cymhelliad i addasu adeiladau rhestredig yn hytrach na'u cadw. Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn fodlon ymuno â mi i gondemnio'r ffaith bod modd cael ad-daliad TAW ar waith gosod pyllau nofio.

**Huw Lewis:** Yn wir, ni allaf ddeall y rhesymeg y tu ôl i sylwadau William. Mae'n amlwg y byddai system restru a reolir yn dda yn gwahardd, o reidrwydd, ganlyniadau gwirion megis yr un a ddisgrifiodd. Y gwir amdani yw yr hoffwn ymwneud â channoedd o brosiectau teilwng ar draws Cymru, ochr yn ochr â phartneriaid eraill, sydd erbyn hyn mewn perygl oherwydd y cam hwn y mae Llywodraeth y DU wedi'i gymryd. Mae y tu hwnt i bob dealltwriaeth, o'm rhan i, ac mae'n fygythiad enfawr i unrhyw brosiect adfer posibl. Gwn fod llawer o brosiectau o'r fath eisoes ar fin dechrau ledled Cymru, lle y mae grwpiau gwirfoddol, yn eithaf aml, wedi bod yn gweithio'n galed iawn ochr yn ochr â phartneriaid eraill i gynhyrchu cynlluniau gwerth chweil. Mae eu tanseilio yn y modd hwn yn anesboniadwy.

### Priorities

**8. David Rees:** *What are the Welsh Government's priorities for maintaining our heritage in Aberavon. OAQ(4)0135(HRH)*

**Huw Lewis:** Mae ein rhaglen lywodraethu yn amlinellu ein hymrwymiad i gefnogi a hyrwyddo digwyddiadau ac atyniadau'n ymwneud â threftadaeth Cymru ledled Cymru a thramor. Ein nod yw hyrwyddo ymdeimlad o berchnogaeth a balchder yn nhreftadaeth Cymru.

**David Rees:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yn ogystal â llawer o'n hadeiladau diwydiannol, tynnwyd sylw at y ffaith bod cyfran helaeth o'n stoc tai—34% ar draws Cymru—yn dyddio'n ôl i gyfnod cyn 1919, ac mae hynny'n arbennig o wir am Aberafan. Felly, mae angen inni ddatblygu sgiliau yn ein gweithlu ar gyfer y dyfodol i gynnal a chadw ein hadeiladau hŷn a'u

building techniques involved. Could you outline what discussions you have had with your ministerial colleagues and the heritage sector in order to establish the delivery of heritage skills across Wales so that those buildings thrive?

**Huw Lewis:** I thank the Member for Aberavon for those points. As he will know, this conversation is ongoing. Following a successful traditional skills summit held in Caerphilly castle earlier this year and, indeed, another get together of various experts in the field in your own constituency very recently, I am now confident that we have consensus across the education world and the skills community, in terms of those who deliver skills, and also a recognition among those partners concerned with such things as the development of the heritage Bill, that we have a problem here in relation to skills in adequately maintaining and adapting pre-1919 properties, which comprise a third of Wales's housing stock. No matter how many new houses we build, unless we address the needs of older properties, which can be quite specific in terms of building skills and materials, we will have missed a very important priority in my view with regard to Wales's built heritage being a living part of our communities' future. I am keen to promote and pursue this agenda, and I will continue to do so.

**Byron Davies:** I believe that there is a real need to be concerned about the future protection of the heritage in places such as Aberavon and in other places across Wales. I will give you one example of where I think that Cadw has failed to protect key heritage by not granting listed status, and that is the Custom House, the home of the Port Talbot Railway and Dock Company, which transformed the town into an industrial powerhouse. Obviously, Cadw cannot list every building across Wales, but will you outline what scrutiny you are bringing to bear on organisations such as Cadw to ensure that our heritage and key buildings are protected and continue to be protected?

treftadaeth yn briodol, a deall y technegau adeiladu dan sylw. A allech amlinellu pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda'ch cydweithwyr sy'n Weinidogion a'r sector treftadaeth er mwyn sefydlu dull o gyflwyno sgiliau treftadaeth ar draws Cymru i sicrhau bod yr adeiladau hynny'n ffynnu?

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Aberafan am y pwyntiau hynny. Fel y gwyr yn iawn, mae'r drafodaeth hon yn parhau. Yn dilyn uwchgynhadledd lwyddiannus ar sgiliau traddodiadol, a gynhaliwyd yng nghastell Caerffili yn gynharach eleni, a chyfle arall, yn wir, i amryw arbenigwyr yn y maes ddod ynghyd yn eich etholaeth chi'n ddiweddar iawn, rwyf yn hyderus erbyn hyn bod gennym gonsensws ar draws y byd addysg a'r gymuned sgiliau, o safbwynt y sawl sy'n cyflwyno sgiliau, a chydabyddiaeth hefyd ymysg y partneriaid hynny sy'n ymwneud â phethau megis datblygu'r Bil treftadaeth, bod gennym broblem yma o ran sgiliau i gynnal a chadw ac addasu'n ddigonol eiddo a adeiladwyd cyn 1919, sef traean stoc tai Cymru. Ni waeth faint o dai newydd y byddwn yn eu hadeiladu, oni bai ein bod yn mynd i'r afael ag anghenion sy'n gysylltiedig ag eiddo hŷn, sy'n gallu bod yn eithaf penodol o ran sgiliau a deunyddiau adeiladu, byddwn wedi colli blaenoriaeth bwysig iawn, yn fy marn i, o safbwynt sicrhau bod treftadaeth adeiledig Cymru yn rhan fyw o ddyfodol ein cymunedau. Rwyf yn awyddus i hybu a dilyn yr agenda hon, a byddaf yn parhau i wneud hynny.

**Byron Davies:** Credaf fod gwir angen pryderu ynghylch y modd y caiff y dreftadaeth mewn lleoedd megis Aberafan a lleoedd eraill ar draws Cymru ei diogelu yn y dyfodol. Rhoddaf un enghraifft ichi o adeilad lle y mae Cadw, yn fy marn i, wedi methu â diogelu treftadaeth allweddol trwy beidio â chyflwyno statws rhestredig, sef Custom House, cartref Cwmni Rheilffordd a Dociau Port Talbot a drawsnewidiodd y dref yn bwerdy diwydiannol. Yn amlwg, ni all Cadw restru pob adeilad ar draws Cymru, ond a wnewch chi amlinellu'r modd yr ydych yn craffu ar sefydliadau megis Cadw er mwyn sicrhau bod ein treftadaeth a'n hadeiladau allweddol yn cael eu diogelu, a'u bod yn parhau i gael eu diogelu?



**Huw Lewis:** I understand Bryon Davies's concern, but I think that he chooses the wrong target to aim at. Cadw has very clear criteria for listing, which are very strict and are about national importance and so on. It was clear, in this instance, after several examinations of that particular building, that it did not meet the criteria for listing.

**Huw Lewis:** Rwyf yn deall pryder Byron Davies, ond credaf iddo ddewis y targed anghywir i'w feirniadu. Mae gan Cadw feini prawf clir iawn ar gyfer ei broses restru, sy'n llym iawn ac sy'n ymwneud â phwysigrwydd cenedlaethol ac yn y blaen. Yn yr achos hwn, roedd yn amlwg, ar ôl archwilio'r adeilad dan sylw droeon, nad oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cael ei restru.

2.00 p.m.

Perhaps the Member has missed the ongoing conversation about my hopes around the heritage Bill, and how that may introduce into our national dialogue, if you like, around built heritage, a form of protection that may not rely on listing in the traditional sense, and the historic importance in a national sense and so on that that demands, but may recognise local feeling as regards built heritage in a particular community as being important to that community. I think that that conversation has begun. It is going to be a little tricky to pin it down and to define exactly what we mean by 'local importance' and so on, and how we make this consistent across Wales, but the conversation is now open in the run-up to the heritage White Paper.

Efallai fod yr Aelod wedi colli'r drafodaeth barhaus am fy ngobeithion ynghylch y Bil treftadaeth, a sut y gallai'r Bil hwnnw gyflwyno i'n trafodaeth genedlaethol, os dymunwch, ynghylch treftadaeth adeiledig, ddull diogelu na fydd efallai'n dibynnu ar restru yn yr ystyr draddodiadol, a'r pwysigrwydd hanesyddol ar lefel genedlaethol ac yn y blaen y mae hynny'n ei fynnu, ond a allai gydnabod bod teimladau lleol ynghylch treftadaeth adeiledig mewn cymuned benodol yn bwysig i'r gymuned honno. Credaf fod y sgwrs honno wedi dechrau. Bydd ychydig yn anodd bod yn benodol a diffinio'n union beth a olygwn wrth 'bwysigrwydd lleol' ac yn y blaen, a sut y byddwn yn sicrhau bod hynny'n gyson ar draws Cymru, ond mae'r sgwrs bellach wedi dechrau yn y cyfnod a fydd yn arwain at y Papur Gwyn ynghylch treftadaeth.

**Bethan Jenkins:** Rwyf am fynd yn ôl at fater Custom House, ond o ongl wahanol. Byddwch yn cofio imi eich holi ar nifer o achlysuron ynghylch dymchwel Custom House a'r Adeiladau Brenhinol ym Mhort Talbot, a byddwch yn cofio eich bod wedi dweud ar fwy nag un achlysur bod y gallu i achub yr adeiladau hanesyddol pwysig hyn yn gorwedd yn nwylo'r awdurdod lleol. Ar eich cyngor, ysgrifennais at Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i ofyn iddo achub yr adeiladau hyn, a 'na' oedd yr ateb, yn blwmp ac yn blaen. Weinidog, a ydych yn cytuno bod y penderfyniad i achub Custom House yn gorwedd gyda chyngor Castell-nedd Port Talbot yn unig, a bod unrhyw fai am ddinistrio'r adeiladau poblogaidd hyn yn gorwedd yn gyfan gwbl gyda'r cyngor sir penodol hwnnw?

**Bethan Jenkins:** I want to return to the issue of Custom House, but from a different angle. You will remember that I have questioned you on a number of occasions about the demolition of Port Talbot's Custom House and Royal Buildings, and you will remember that you have said on more than one occasion that the ability to save these important historical buildings lies with the local authority. On your advice, I wrote to Neath Port Talbot County Borough Council to ask it to save these buildings, and the reply was a clear and resounding 'no'. Minister, do you agree that the decision to save Custom House lies with Neath Port Talbot council alone, and that any blame for the destruction of these popular buildings lies squarely with that particular county council?

**Huw Lewis:** I am not going to enter into any

**Huw Lewis:** Nid wyf am ymuno ag unrhyw

kind of dialogue as regards the allocation of blame around any particular issue in Neath Port Talbot. It is true that local authorities have the power to locally list buildings that need not necessarily be part of a national listing. The local authority, in this instance, chose not to exercise that power.

fath o drafodaeth ynghylch pwy sydd ar fai am unrhyw fater penodol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae'n wir bod gan awdurdodau lleol y pŵer i restru'n lleol adeiladau nad oes angen o reidrwydd iddynt fod yn rhan o restr genedlaethol. Yn yr achos hwn, dewisodd yr awdurdod lleol beidio â defnyddio'r pŵer hwnnw.

### Lesddeiliaid Preifat

**9. Jocelyn Davies:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y modd y mae Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo lesddeiliaid preifat. OAQ(4)0138(HRH)*

**Huw Lewis:** The recently published housing White Paper includes a commitment to enhance the service provided by the Leasehold Advisory Service and we will be working jointly towards establishing the volume and nature of problems facing leaseholders in Wales in order to inform future legislative proposals.

**Jocelyn Davies:** Minister, you probably know that leaseholders sometimes face considerable charges as a result of their contribution to Welsh housing quality standard improvements to their properties; they are generally charged on a pro rata basis. What is your view on the prospect that some may also face pro rata charges for the environmental improvements undertaken by their landlords, and how can you assist them?

**Huw Lewis:** This is a very real issue, and is something that I think we have to have a national conversation about. I have taken steps thus far to ensure that the Wales-based resources for the Leasehold Advisory Service are boosted. For the first time, the advisory service will have a Wales-based member of staff and this should, I hope, prove to be a considerable boost in order to help those leaseholders who currently find themselves in difficulties. I would say to the Member, though, that I am of the opinion that leasehold per se is problematic, and that there could be room here for a conversation, as we move towards the second housing Bill that I have announced, which will look at tenure reform in the round, to consider whether leaseholders are getting a square deal.

### Private Leaseholders

**9. Jocelyn Davies:** *Will the Minister make a statement on Welsh Government assistance for private leaseholders. OAQ(4)0138(HRH)*

**Huw Lewis:** Mae'r Papur Gwyn ynghylch tai a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynnwys ymrwymiad i wella'r gwasanaeth a ddarperir gan y Gwasanaeth Cynghori ar Lesddaliadau, a byddwn yn gweithio ar y cyd i ddarganfod maint a natur y problemau sy'n wynebu lesddeiliaid yng Nghymru er mwyn llywio cynigion deddfwriaethol yn y dyfodol.

**Jocelyn Davies:** Weinidog, mae'n debyg eich bod yn gwybod bod lesddeiliaid weithiau'n wynebu taliadau sylweddol o ganlyniad i'w cyfraniad i welliannau a wneir i'w heiddo er mwyn iddo gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru; at ei gilydd, codir tâl arnynt ar sail pro rata. Beth yw eich barn ynghylch y posibilrwydd y gallai rhai lesddeiliaid hefyd wynebu taliadau pro rata am y gwelliannau amgylcheddol a wneir gan eu landlordiaid, a sut y gallwch eu helpu?

**Huw Lewis:** Mae hon yn broblem real iawn, ac yn fy marn i, mae'n broblem y mae'n rhaid inni gael trafodaeth amdani ar lefel genedlaethol. Rwyf eisoes wedi cymryd camau i sicrhau y cynyddir yr adnoddau sydd ar gael yng Nghymru ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori ar Lesddaliadau. Am y tro cyntaf, bydd gan y gwasanaeth cynghori aelod o staff sy'n gweithio yng Nghymru, a dylai hynny, gobeithio, fod yn hwb sylweddol i helpu'r lesddeiliaid sydd mewn trafferthion ar hyn o bryd. Serch hynny, hoffwn ddweud wrth yr Aelod fy mod o'r farn bod lesddaliad ynddo'i hun yn broblematig, ac y gallai fod yma gyfle i gael trafodaeth wrth inni symud tuag at yr ail Fil tai yr wyf wedi'i gyhoeddi, a fydd yn edrych ar ddiwygio deiliadaethau yn gyffredinol, er mwyn ystyried a yw

lesddeiliaid yn cael bargaen deg.

### Eiddo Gwag

**10. Jocelyn Davies:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau i leihau nifer yr eiddo gwag. OAQ(4)0137(HRH)*

**Huw Lewis:** The latest available official statistics, for 2010-11, suggested that there were around 22,000 empty private sector properties in Wales. Reducing this number is a Welsh Government priority, which is why we launched the £10 million empty homes interest free recyclable loans initiative, Houses into Homes—as it is snappily entitled—earlier this year.

**Jocelyn Davies:** How will you ensure that any properties brought back into use with the support of the public purse will be affordable homes once they are fit for occupation?

**Huw Lewis:** At this stage, there is no compulsion upon the owner of a property to ensure that, within the strict definition, the home brought back into use is part of our affordable homes picture, although there is—and there will be at local level—encouragement to owners to ensure that they have that conversation, for instance with local housing associations, to consider that option. At the moment, the scheme brings the house back into use for sale or for rent. I will, however, closely monitor how this programme is taken advantage of by owners and I will take a look at the picture as it unfolds day by day to see what the end result of refurbishing these homes will be. This has never really been tried before in a Welsh context, and I am anxious for take-up to be at a maximum first of all.

**Janet Finch-Saunders:** Minister, in December, you announced an investment of £5 million for local authorities to develop a loan scheme that would help owners to bring empty properties back into use. However, the Welsh Government has not set targets to improve on the woeful number of just 995

### Empty Properties

**10. Jocelyn Davies:** *Will the Minister make a statement on plans to reduce the number of empty properties. OAQ(4)0137(HRH)*

**Huw Lewis:** Roedd yr ystadegau swyddogol diweddaraf sydd ar gael, sef y rhai ar gyfer 2010-11, yn awgrymu bod oddeutu 22,000 eiddo gwag yn y sector preifat yng Nghymru. Mae lleihau'r nifer hon yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, a dyna pam yr aethom ati'n gynharach eleni i lansio'r fenter sydd â theitl bachog—Troï Tai'n Gartrefi—sef y fenter benthyciadau ailgylchadwy di-log ar gyfer cartrefi gwag, sy'n werth £10 miliwn.

**Jocelyn Davies:** Sut y byddwch yn sicrhau bod unrhyw dai yr ailddechreuir eu defnyddio â chymorth pwrs y wlad yn dai fforddiadwy pan fyddant yn addas i fyw ynddynt?

**Huw Lewis:** Ar hyn o bryd, nid oes gorfodaeth ar berchennog eiddo i sicrhau, yn unol â'r diffiniad llym, bod y cartref yr ailddechreuir ei ddefnyddio yn rhan o'n darlun ar gyfer tai fforddiadwy, er bod—ac y bydd ar lefel leol—anogaeth i berchnogion sicrhau eu bod yn cael y drafodaeth honno, er enghraifft, gyda chymdeithasau tai lleol, er mwyn ystyried yr opsiwn hwnnw. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn sicrhau bod modd ailddechrau defnyddio'r tŷ er mwyn ei werthu neu'i osod ar rent. Fodd bynnag, byddaf yn monitro'n agos sut y bydd perchnogion yn manteisio ar y rhaglen hon, a byddaf yn edrych ar y darlun wrth iddo ddatblygu o ddydd i ddydd i weld beth fydd canlyniad adnewyddu'r cartrefi hyn yn y pen draw. Mewn gwirionedd, nid oes neb wedi ceisio gwneud hyn o'r blaen yng Nghymru, ac rwyf yn awyddus i gynifer o berchnogion ag sy'n bosibl fanteisio ar y rhaglen i ddechrau.

**Janet Finch-Saunders:** Weinidog, ym mis Rhagfyr, bu ichi gyhoeddi buddsoddiad o £5 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn iddynt ddatblygu cynllun benthyciadau a fyddai'n helpu perchnogion i ailddechrau defnyddio eiddo gwag. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau ar

properties brought back into use in 2010-11. In the absence of these targets, how will you evaluate the progress, success and/or failure of this scheme?

**Huw Lewis:** All that I can say to Janet Finch-Saunders is that she should ask her researcher to look more carefully into the facts. The target does exist: it is 5,000 homes in this Assembly term.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Given that there is £10 million for 5,000 homes and that you have just said to Jocelyn Davies that you intend to monitor it carefully, are you in a position, Minister, to say what the mechanism will be for distributing that money and how people can apply for it?

**Huw Lewis:** Local authorities take the lead on this. I can tell the leader of the Welsh Liberal Democrats that, of the £10 million up for offer at the moment, that figure has already been almost completely disbursed, at least in theory, because, although we are not at the stage of paperwork having been signed, interest has been shown across Wales to the tune of nearly £10 million already. Each loan is for a maximum of about £25,000, which would mean that that £10 million tranche of money would refurbish 400 homes as a minimum, although the actual number is likely to be at least 500 to 600. I remind Members that this is a recyclable loan, so as money is repaid to the Welsh Government, it goes back out to the community once more to be used to refurbish more homes.

### Targedau Cartrefi Fforddiadwy

**11. Peter Black:** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei dargedau cartrefi fforddiadwy. OAQ(4)0131(HRH)*

**Huw Lewis:** Thank you, Peter, for that question. I have set an ambitious target of 7,500 additional affordable homes to be developed during the term of our

gyfer gwella'r nifer druenus o adeiladau, sef 995 yn unig, yr ailddechreuwyd eu defnyddio yn ystod 2010-11. Yn absenoldeb targedau o'r fath, sut y byddwch yn gwerthuso llwyddiant a/neu fethiant y cynllun hwn a'r cynnydd y mae wedi'i wneud?

**Huw Lewis:** Y cyfan y gallaf ei ddweud wrth Janet Finch-Saunders yw y dylai ofyn i'w hymchwilydd ymchwilio'n fwy gofalus i'r ffeithiau. Mae'r targed yn bodoli, sef 5,000 o gartrefi yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** O gofio bod £10 miliwn ar gael ar gyfer 5,000 o gartrefi, a'ch bod newydd ddweud wrth Jocelyn Davies eich bod yn bwriadu monitro hynny'n ofalus, a ydych mewn sefyllfa, Weinidog, i ddweud pa ddull y byddwch yn ei ddefnyddio i ddsbarthu'r arian hwnnw a sut y gall pobl wneud cais amdano?

**Huw Lewis:** Awdurdodau lleol sy'n arwain yng nghyswllt y mater hwn. Gallaf ddweud wrth arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru bod y £10 miliwn sydd ar gael ar hyn o bryd eisoes wedi'i glustnodi bron yn gyfan gwbl, mewn egwyddor o leiaf, oherwydd, er nad ydym wedi cyrraedd sefyllfa lle y mae gwaith papur wedi'i lofnodi, dangoswyd diddordeb ar draws Cymru sydd eisoes yn gyfwerth â bron i £10 miliwn. Y swm uchaf y gellir ei fenthycu fydd oddeutu £25,000. Byddai hynny'n golygu y byddai'r don honno o £10 miliwn yn adnewyddu o leiaf 400 o gartrefi, er bod y nifer wirioneddol yn debygol o fod rhwng 500 a 600 o leiaf. Hoffwn atgoffa'r Aelodau bod hwn yn fenthyciad ailgylchadwy, felly wrth i arian gael ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru, bydd yn mynd yn ôl allan i'r gymuned unwaith eto i'w ddefnyddio i adnewyddu rhagor o gartrefi.

### Affordable Home Targets

**11. Peter Black:** *Will the Minister make a statement on his affordable home targets. OAQ(4)0131(HRH)*

**Huw Lewis:** Diolch, Peter, am y cwestiwn hwnnw. Rwyf wedi gosod targed uchelgeisiol i ddatblygu 7,500 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol yn ystod tymor ein Llywodraeth.

Government. Within that, I have also set targets of 500 co-operative homes and 500 affordable homes to be delivered on ex-public-sector land.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Minister. I note that you also referred in the statement that you made about this to the 5,000 target for empty homes, and we have not yet established whether those homes will be affordable. In relation to that particular aspect of your targets, can you explain how that policy will be driven forward when only 11 of the 22 local authorities in Wales have empty home officers or offices dedicated to bringing empty homes back into use? In some regions, such as my own of South Wales West, there are no empty homes officers at all, so who will be focusing on that policy and putting it into effect?

**Huw Lewis:** I thank the Member for South Wales West for those important points. He will be aware that, at present, I see no problem with maximising the amount of money that goes towards working on this problem, over at least the first tranche of the Houses into Homes programme. In fact, I think that the programme is likely to be oversubscribed. At the moment, there is a considerable 'carrot' for those local authorities that are not fully engaging with this agenda to get involved, and I hope that they will. If there are local authorities up and down Wales that still do not see empty properties as a priority for them, as a piece of work that they could do to make a real difference to their communities by using these interest-free loans, I am prepared to look at the situation again. However, at the moment, I think that the carrot is proving to be very attractive across Wales and I have yet to receive a report of any local authority in Wales not showing some kind of interest in taking this up.

**Russell George:** Minister, we know that there is a housing supply crisis and, while bringing more stock into the market is welcome, it is clear that these targets are well short of the stock required each year to fulfil

O fewn y ffigur hwnnw, rwyf hefyd wedi gosod targedau i ddarparu 500 o gartrefi cydweithredol a 500 o gartrefi fforddiadwy ar dir a arferai fod yn dir y sector cyhoeddus.

**Peter Black:** Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Nodaf ichi gyfeirio hefyd, yn y datganiad a wnaed gennych am y mater hwn, at y targed o 5,000 ar gyfer cartrefi gwag, ac nid ydym hyd yn hyn wedi sefydlu a fydd y cartrefi hynny'n fforddiadwy. O ran yr agwedd benodol honno ar eich targedau, a allwch esbonio sut y bydd y polisi hwnnw'n cael ei yrru ymlaen, o ystyried mai dim ond 11 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru sydd â swyddogion cartrefi gwag neu swyddogion sy'n ymwneud yn benodol ag aildddechrau defnyddio cartrefi gwag? Mewn rhai rhanbarthau, megis fy rhanbarth i, sef Gorllewin De Cymru, nid oes swyddogion cartrefi gwag ar gael o gwbl, felly pwy fydd yn canolbwyntio ar y polisi hwnnw ac yn ei roi ar waith?

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Orllewin De Cymru am y pwyntiau pwysig hynny. Bydd yn ymwybodol nad wyf ar hyn o bryd yn gweld problem o ran sicrhau bod cymaint o arian ag sy'n bosibl yn mynd tuag at ddatrys y broblem hon, o leiaf yn ystod cam cyntaf y rhaglen Troi Tai'n Gartrefi. Yn wir, credaf ei bod yn debygol y bydd gormod o alw am arian y rhaglen. Ar hyn o bryd, ceir cymhelliad sylweddol i'r awdurdodau lleol hynny nad ydynt yn ymgysylltu'n llawn â'r agenda hon gymryd rhan, a gobeithiaf y byddant yn gwneud hynny. Os ceir awdurdodau lleol ar hyd a lled Cymru sy'n dal i fethu ag ystyried eiddo gwag yn flaenoriaeth iddynt, fel gwaith y gallent ei gyflawni i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w cymunedau drwy ddefnyddio'r benthyciadau di-log hyn, rwyf yn barod i ailedrych ar y sefyllfa. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, credaf fod y cymhelliad yn ddeniadol iawn ar draws Cymru, a hyd yn hyn nid wyf wedi cael gwybod am unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru nad yw'n dangos rhyw fath o ddiddordeb mewn manteisio ar y rhaglen.

**Russell George:** Weinidog, gwyddom fod argyfwng o ran cyflenwi tai, ac er ein bod yn croesawu cyflwyno mwy o stoc i'r farchnad, mae'n amlwg nad yw'r targedau hyn, o bell ffordd, yn cyflenwi'r stoc sy'n ofynnol bob

the current level of demand. With Government new-build housing figures published last week showing the true extent of the problem that we face in Wales, is it not time that we had an urgent strategy to properly meet Wales's new building requirements?

**Huw Lewis:** All that I can say to Russell George is that I have been working hard on that strategy since I was appointed to this post a year ago and that the fastest and most efficient way of enabling the Welsh Government or any other actor in the housing scene to get back on top of the supply versus demand problem is to have a word with his colleagues in Westminster about the capital that they removed from the Welsh budget.

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwy'n falch i glywed yr hyn rydych yn ei ddweud am dai fforddiadwy ac am y ffaith eich bod yn edrych ar yr angen i fynd i'r afael â thai gwag a sicrhau eu bod yn cael eu haddasu ar gyfer defnydd. Fodd bynnag, i ba raddau yr ydych yn gallu sicrhau bod y tai fforddiadwy hyn yn ateb y gofyn lleol ac i ba raddau y gallwch sicrhau eu bod yn cael eu hadeiladu mewn mannau sydd yn gyfleus ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a gwaith? O'm profiad i, yn aml, mae'r datblygiadau hyn yn anaddas i ateb y galw a'r angen lleol.

**Huw Lewis:** Rhodri Glyn Thomas mentions an important problem, but the body that is strategically responsible for answering such questions is the relevant local authority. The coming housing Bill will, I hope, leave local authorities in no doubt that there will be greater expectations of them in the Welsh housing community to take that strategic lead and to run with it, to understand the needs of their local population, and that they will be constrained by law to attempt to meet those needs in a planned and effective fashion.

## Y Gemau Olympaidd

**12. Elin Jones:** *Sut y bydd y Llywodraeth yn sicrhau buddsoddiad strategol mewn cyfleusterau chwaraeon yn dilyn y Gemau Olympaidd. OAQ(4)0139(HRH)*

blwyddyn i fodloni'r galw presennol. Wrth i ffigurau'r Llywodraeth ar gyfer tai newydd, a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, ddangos gwir faint y broblem sy'n ein hwynebu yng Nghymru, onid yw'n bryd inni gael strategaeth frys i fodloni'n iawn y gofynion newydd sydd gan Gymru o ran adeiladu?

**Huw Lewis:** Y cyfan y gallaf ei ddweud wrth Russell George yw imi fod yn gweithio'n galed ar y strategaeth honno ers imi gael fy mhenodi i'r swydd hon flwyddyn yn ôl, ac mai'r ffordd gyflymaf a mwyaf effeithlon o alluogi Llywodraeth Cymru neu unrhyw gorff arall ym maes tai i ymdopi o'r newydd â'r anghydwysedd rhwng cyflenwad a galw yw trwy gael gair gyda'i gydweithwyr yn San Steffan am y cyfalaf y maent wedi'i dynnu o gyllideb Cymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** I am pleased to hear what you are saying about affordable housing and about the fact that you are looking at the need to address the problem of empty houses and to ensure that they are adapted for use. However, to what extent can you ensure that these affordable houses meet the local demand and to what extent can you ensure that they are built in places that are convenient for public services and employment? In my experience, these developments are frequently inappropriate in terms of meeting local demand and need.

**Huw Lewis:** Mae Rhodri Glyn Thomas yn sôn am broblem bwysig, ond y corff sy'n gyfrifol ar lefel strategol am ateb cwestiynau o'r fath yw'r awdurdod lleol perthnasol. Gobeithiaf y bydd y Bil tai sydd ar ddod yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn hollol ymwybodol o'r ffaith y bydd mwy o ddisgwyl ym maes tai yng Nghymru iddynt gymryd y rôl arweiniol strategol honno a pharhau i'w chyflawni, ac i ddeall anghenion eu poblogaeth leol, ac y byddant yn cael eu gorfodi gan y gyfraith i geisio diwallu'r anghenion hynny mewn modd bwriadus ac effeithiol.

## The Olympic Games

**12. Elin Jones:** *How will the Government ensure strategic investment in sporting facilities following the Olympic Games. OAQ(4)0139(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank the Member for Ceredigion for that question. Sport Wales continues to work with key stakeholders to develop an effective and sustainable network of facilities across Wales, which will help to create more opportunities for people of all ages to take part in sports.

**Elin Jones:** Nid oes trac rhedeg amldwydd yng ngorllewin y canolbarth ac mae consensws bod angen un yno. Mae ymgyrch nawr ar droed i hyrwyddo un ar gyfer Aberystwyth ac mae'r gefnogaeth i'r ymgyrch honno yn tyfu. Buasai cefnogaeth Llywodraeth Cymru hefyd i drac rhedeg amldwydd yn Aberystwyth yn dda i'w gael. A wnewch chi gytuno i gwrdd â mi a chefnogwyr eraill i drac rhedeg i Aberystwyth i drafod hyn ymhellach?

**Huw Lewis:** I am aware of the campaign for a running track and velodrome in Aberystwyth. I am not aware, however, of having been approached by anyone involved with the campaign with a request for me to become involved. Therefore, I will take your question as that request. As I say, I am always willing to meet good people with good ideas.

**Mohammad Asghar:** The Olympic flame enjoyed a fantastic tour of Wales and large crowds turned out to watch it from all parts of the country. This presents a tremendous opportunity to boost participation in sport in Wales. Given the Welsh Government's failure to make the most of the commercial opportunity already presented by the Olympics to boost Welsh business and to promote Wales, what assurance can the Minister give that the millions of pounds received as a consequential will be effectively and strategically invested in sporting facilities across Wales?

**Huw Lewis:** Presiding Officer, I may be rendered speechless, but I will try not to be. If the Member can point me towards the millions of pounds of consequentials that the Welsh Government has received as a result of the Olympics, I will gladly exploit them.

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Geredigion am y cwestiwn hwnnw. Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu rhwydwaith effeithiol a chynaliadwy o gyfleusterau ar draws Cymru, a fydd yn helpu i greu mwy o gyfleoedd i bobl o bob oed gymryd rhan mewn chwaraeon.

**Elin Jones:** There is no all-weather running track in western mid Wales and there is a consensus that there is a need for one there. A campaign is now afoot to promote one for Aberystwyth and support for that campaign is growing. The additional support of the Welsh Government for an all-weather running track in Aberystwyth would be welcome. Will you agree to meet with me and other supporters of a running track for Aberystwyth to discuss this further?

**Huw Lewis:** Rwyf yn ymwybodol o'r ymgyrch i gael trac rhedeg a felodrom yn Aberystwyth. Fodd bynnag, nid wyf yn ymwybodol bod neb sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch wedi cysylltu â mi i ofyn imi gymryd rhan. Felly, cymeraf fod eich cwestiwn yn gais o'r fath. Fel y dywedais, rwyf bob amser yn barod i gyfarfod â phobl dda sydd â syniadau da.

**Mohammad Asghar:** Cafodd y fflam Olympaidd daith wych trwy Gymru, a daeth torfeydd mawr o bob cwr o'r wlad i wylïo'r daith. Mae hwn yn gyfle gwych i hybu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru. O gofio methiant Llywodraeth Cymru i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle masnachol a gyflwynwyd eisoes gan y Gemau Olympaidd i roi hwb i fusnesau Cymru a hyrwyddo Cymru, pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi y bydd y miliynau o bunnoedd a gafwyd fel swm canlyniadol yn cael eu buddsoddi'n effeithiol ac yn strategol mewn cyfleusterau chwaraeon ar draws Cymru?

**Huw Lewis:** Lywydd, gallwn fod yn fud gan syndod, ond ceisiaf beidio â bod. Os gall yr Aelod fy nghyfeirio at y miliynau o bunnoedd o symiau canlyniadol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael o ganlyniad i'r Gemau Olympaidd, byddwn yn falch o fanteisio arnynt.

### Cynlluniau Dyrannu Statudol

**13. Julie Morgan:** *A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i adolygu cynlluniau dyrannu statudol awdurdodau tai lleol Cymru, a pholisïau dyrannu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig Cymru. OAQ(4)0134(HRH)*

**Huw Lewis:** The Welsh Government provides guidance for local authorities on housing allocation policies, and recently consulted on the revised code of guidance on the allocation of accommodation. The final document will be published shortly. Under the regulatory framework, RSLs should support the local authority in meeting housing need.

2.15 p.m.

**Julie Morgan:** I thank the Minister for that response. Will the Minister review local authorities' obligation to tell families or individuals how long they are likely to have to wait before being offered a house, and will he also review the right of review mechanism in the Housing Act 1996, with a view to trying to make these rights more helpful and effective in practice? In Cardiff, at the moment, the information that is being given to people who are seeking a house, or who are on a waiting list for one, is worthless.

**Huw Lewis:** We recently consulted on the code of guidance for local authorities on the allocation of accommodation and on homelessness. It addresses those points, with a view to making the allocation policies and applicants' right to review easier to understand. My understanding is that the final document will be published shortly, and I would welcome the Member's views on it when it is.

**Antoinette Sandbach:** Minister, many of the constituents with whom I speak highlight the difficulty in accessing social housing in north Wales due to the different allocation policies of local authorities and housing associations, which can make the system quite frustrating and difficult to navigate for individuals and

### Statutory Allocation Schemes

**13. Julie Morgan:** *Does the Minister have any plans to review the statutory allocation schemes of Welsh local housing authorities and allocation policies of Welsh registered social landlords. OAQ(4)0134(HRH)*

**Huw Lewis:** Mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau i awdurdodau lleol ar bolisiau dyrannu tai, a bu'n ymgynghori'n ddiweddar ynghylch y cod canllawiau diwygiedig ar ddyrannu llety. Caiff y ddogfen derfynol ei chyhoeddi cyn bo hir. Dan y fframwaith rheoleiddio, dylai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gefnogi'r awdurdod lleol i ddiwallu'r angen o ran tai.

**Julie Morgan:** Diolchaf i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. A wnaiff y Gweinidog adolygu'r orfodaeth ar awdurdodau lleol i ddweud wrth deuluoedd neu unigolion pa mor hir y maent yn debygol o orfod aros cyn cael cynnig tŷ, ac a wnaiff hefyd adolygu'r system hawl i adolygiad yn Neddf Tai 1996, gyda'r bwriad o geisio sicrhau bod yr hawliau hynny'n fwy defnyddiol ac effeithiol o safbwynt ymarferol? Yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi i bobl sy'n chwilio am dŷ, neu sydd ar restr aros am dŷ, yn ddiwerth.

**Huw Lewis:** Yn ddiweddar, buom yn ymgynghori ynghylch y cod canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar ddyrannu llety ac ar ddiartrefedd. Mae'r cod yn mynd i'r afael â'r pwyntiau hynny, gyda'r bwriad o sicrhau bod y polisiau dyrannu a hawl ymgeiswyr i adolygiad yn haws eu deall. Caf ar ddeall y bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyhoeddi'n fuan, a byddwn yn croesawu barn yr Aelod am y ddogfen bryd hynny.

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, mae llawer o'r etholwyr y byddaf yn siarad â hwy'n tynnu sylw at ba mor anodd yw cael mynediad i dai cymdeithasol yn y gogledd oherwydd y polisiau dyrannu gwahanol sydd gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, sy'n gallu golygu bod y system yn peri tipyn



families. Could you confirm whether the policy that is being brought forward will encourage the use of common allocation policies and common waiting lists by social housing providers, so that the system is easier to navigate for anyone who needs access to social housing?

**Huw Lewis:** I am not aware of any body or organisation within the Welsh housing community that has, as of yet, proposed that, as part of legislation, we have some kind of common list. I know that this has been a live topic of conversation between different registered social landlords over time. If the Member would write to me with more detail, I would be happy to address any particular problem that exists in north Wales.

**Llyr Huws Gruffydd:** The process by which social housing is allocated is complex and often not particularly transparent to the public. Unfortunately, this allows extremist organisations to misrepresent the process and to spread rumours about BME groups, for example, being given unjustified preference in relation to housing. Therefore, how is your department ensuring that the process of allocating social housing is transparent, and will you ensure that, when extremist organisations and the media misrepresent this process, they are actively challenged?

**Huw Lewis:** I thank Llyr Huws Gruffydd for those points, and it is quite right that he makes them. The shortage in the housing supply leads to problems that go beyond housing. It leads to problems of social cohesion that we all ought to be concerned about and address. Unfortunately, it is often not just extremist organisations that spread rumours and disinformation about how the scarce housing stock is allocated. Quite often, one need look no further than Fleet Street to see some quite extreme misinformation that leads, in my view, to social tensions being whipped up. Therefore, whenever that happens, we need to stamp on it as responsible representatives of our communities. I would encourage Llyr Huws Gruffydd to take another look at the housing White Paper. There are suggestions within the White Paper for items to be discussed,

o rwystredigaeth ac yn anodd i unigolion a theuluoedd ei defnyddio. A allech gadarnhau a fydd y polisi sy'n cael ei gyflwyno yn annog darparwyr tai cymdeithasol i ddefnyddio polisiau dyrannu cyffredin a rhestrau aros cyffredin, er mwyn sicrhau bod y system yn haws ei defnyddio i'r sawl y mae arnynt angen mynediad i dai cymdeithasol?

**Huw Lewis:** Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gorff neu sefydliad ym maes tai yng Nghymru sydd wedi cynnig, hyd yn hyn, y dylem gael rhyw fath o restr gyffredin, yn rhan o'r ddeddfwriaeth. Gwn fod llawer o drafod wedi bod ynghylch y mater hwn rhwng gwahanol landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn y gorffennol. Pe bai'r Aelod yn ysgrifennu ataf gyda rhagor o fanylion, byddwn yn fodlon mynd i'r afael ag unrhyw broblem benodol sy'n bodoli yn y gogledd.

**Llyr Huws Gruffydd:** Mae'r broses ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol yn gymhleth, ac yn aml nid yw'n dryloyw iawn i'r cyhoedd. Yn anffodus, mae hynny'n galluogi mudiadau eithafol i gamgyfleu'r broses a lledaenu sibrydion bod pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, er enghraifft, yn cael ffafriaeth anghyfiawn yng nghyswllt tai. Felly, sut y mae eich adran yn sicrhau bod y broses o ddyrannu tai cymdeithasol yn dryloyw, ac a fyddwch yn sicrhau y bydd mudiadau eithafol a'r cyfryngau'n cael eu herio'n weithredol pan fyddant yn camgyfleu'r broses hon?

**Huw Lewis:** Diolch i Llyr Huws Gruffydd am y pwyntiau hynny, ac mae'n hollol iawn ei fod yn tynnu sylw atynt. Mae'r prinder yn y cyflenwad tai yn arwain at broblemau sy'n mynd y tu hwnt i dai. Mae'n arwain at broblemau'n ymwneud â chydlyniant cymdeithasol, y dylai pob un ohonom fod yn poeni amdanynt ac yn mynd i'r afael â hwy. Yn anffodus, yn aml, nid mudiadau eithafol yn unig sy'n lledaenu sibrydion a gwybodaeth anghywir am y modd y caiff y stoc brin o dai ei dyrannu. Yn aml iawn, nid oes angen edrych ymhellach na Fleet Street i weld rhai achosion digon eithafol o gyhoeddi gwybodaeth anghywir, sydd, yn fy marn i, yn arwain at waethygu tensiynau cymdeithasol. Felly, pryd bynnag y bydd hynny'n digwydd, mae angen inni roi stop arno fel cynrychiolwyr cyfrifol ein cymunedau. Byddwn yn annog Llyr Huws Gruffydd i

with a view to their inclusion in the housing Bill, that would, I think, assist housing providers to discharge their duties in more flexible ways than has previously been the case, thereby easing some of the pressure on the supply.

fwrw golwg arall ar y Papur Gwyn ynghylch tai. Ceir awgrymiadau yn y Papur Gwyn ynghylch eitemau i'w trafod, gyda'r bwriad o'u cynnwys yn y Bil tai, a fyddai, yn fy marn i, yn cynorthwyo darparwyr tai i gyflawni eu dyletswyddau mewn modd mwy hyblyg nag o'r blaen, gan leihau rhywfaint o'r pwysau ar y cyflenwad.

### Ôl-ddyledion Rhent neu Forgais

**14. Jenny Rathbone:** *Pa gamau sy'n cael eu cymryd i wneud yn siwr nad yw pobl yng Nghaerdydd yn colli eu cartrefi oherwydd bod ganddynt ôl-ddyledion gyda'u rhent neu eu morgais. OAQ(4)0142(HRH)*

**Huw Lewis:** I thank the Member for Cardiff Central. The Welsh Government is supporting local action to minimise the loss of homes due to arrears, including guidance for local authorities, the regulation of housing associations, and greater funding for advice services. My White Paper on housing includes proposals to strengthen the prevention of homelessness through legislation and other measures.

**Jenny Rathbone:** Minister, I look forward to seeing that legislation for what is obviously a really important and growing problem. You will be aware that such organisations as Shelter Cymru are already reporting an increase in rent arrears casework. Mortgage arrears are going up, and people are falling into negative equity. That is even before the UK Government's welfare reforms in relation to housing benefit begin to bite. Is the Government planning to devise some overall guidance for all the different housing associations and councils involved in order to develop a strategy to deal with the tsunami that is coming down the road?

**Huw Lewis:** The Member uses the word 'tsunami', and I do not believe that she is being alarmist in any way. The affordability of a decent place in which to live will become more of an issue for families throughout the country. If you take housing benefit reform, and the so-called bedroom tax

### Rent or Mortgage Arrears

**14. Jenny Rathbone:** *What measures are being taken to prevent people in Cardiff losing their homes as a result of getting into arrears with their rent or mortgage. OAQ(4)0142(HRH)*

**Huw Lewis:** Diolch i'r Aelod dros Ganol Caerdydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi camau gweithredu lleol i sicrhau bod cyn lleied o bobl ag sy'n bosibl yn colli eu cartrefi oherwydd ôl-ddyledion, ac mae'r gefnogaeth honno'n cynnwys rhoi canllawiau i awdurdodau lleol, rheoleiddio cymdeithasau tai, a rhoi mwy o gyllid i wasanaethau cynghori. Mae fy Mhapur Gwyn ynghylch tai yn cynnwys cynigion i gryfhau dulliau o atal digartrefedd trwy ddeddfwriaeth a mesurau eraill.

**Jenny Rathbone:** Weinidog, edrychaf ymlaen at weld y ddeddfwriaeth honno ar gyfer problem y mae'n amlwg ei bod yn broblem wirioneddol bwysig sy'n gwaethygu. Byddwch yn ymwybodol bod mudiadau megis Shelter Cymru eisoes yn nodi cynnydd mewn gwaith achos sy'n ymwneud ag ôl-ddyledion rhent. Mae ôl-ddyledion morgais yn cynyddu, ac mae pobl yn llithro i ecwiti negyddol. Mae hynny hyd yn oed cyn i ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU o ran budd-dal tai ddechrau cael effaith. A yw'r Llywodraeth yn bwriadu llunio canllawiau cyffredinol o ryw fath ar gyfer yr holl wahanol gynghorau a chymdeithasau tai dan sylw, er mwyn datblygu strategaeth i ymdrin â'r tswnami sydd ar fin ein taro?

**Huw Lewis:** Mae'r Aelod yn defnyddio'r gair 'tswnami', ac nid wyf yn credu ei bod yn codi bwganod mewn unrhyw ffordd. Bydd fforddiadwyedd lle derbynol i fyw ynddo'n dod yn fwy o broblem i deuluoedd ledled y wlad. O ystyried y diwygiad i fudd-dal tai yn unig, a'r elfen a elwir yn dreth ar ystafelloedd

element of it, alone, as just one of the so-called 'welfare' reforms that the UK Government is implementing, I think that, before long, without too much mathematics being involved, you will be able to see that there is a threat here to thousands of families' ability to hold on to accommodation that, in many cases, they have lived in for many years and have been able to afford for all of that time. Suddenly, that situation will change through no fault of their own. Many of these families are in work and are working hard to hold on to a decent standard of living.

One of the ways in which we are seeking to mitigate this problem in Wales is by organising a national housing advisory service, with minimum housing standards and with expertise and advice available in every locality, so that we can assist people through this coming period.

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** Minister, a family or an individual can go through no greater trauma than to have their home taken away from them. It is vital that support is put in place for intervention as early as possible, so that assistance can be given. What meetings do you have with the Council of Mortgage Lenders and others in the business of tying up mortgages and loans on properties so that the situation here in Wales is well understood?

**Huw Lewis:** I have met several times with the Council of Mortgage Lenders, and I commend it on its responsible attitude and on its understanding of the difficulties facing families and households. However, this is not just about people who are mortgage payers; it is also about those who are in rented accommodation of all kinds being able to face up to the bills that your colleagues at Westminster will have dumped upon them. It is your colleagues at Westminster who will affect practically every household that draws housing benefit. Let us remember, Presiding Officer, that many of these households are families in work—[*Interruption.*] Affecting them to the tune of £546 per year—[*Interruption.*]

**The Presiding Officer:** Order, order.

gwely, fel un o'r diwygiadau 'lles' honedig y mae Llywodraeth y DU yn eu gweithredu, credaf y byddwch cyn bo hir, heb orfod gwneud gormod o fathemateg, yn gallu gweld bod bygythiad i allu miloedd o deuluoedd i ddal eu gafael ar lety y maent, mewn llawer o achosion, wedi byw ynddo ers blynyddoedd lawer ac wedi gallu ei fforddio gydol yr amser hwnnw. Yn sydyn, bydd y sefyllfa honno'n newid heb fod dim bai arnynt hwy. Mae llawer o'r teuluoedd hyn yn gweithio, ac maent yn gweithio'n galed i ddal eu gafael ar safon byw sy'n dderbyniol.

Un o'r ffyrdd yr ydym yn ceisio lleihau'r broblem hon yng Nghymru yw trwy drefnu gwasanaeth cynghori cenedlaethol ynghylch tai, a sicrhau bod safonau tai gofynnol ac arbenigedd a chynghor ar gael ym mhob ardal, er mwyn inni allu cynorthwyo pobl drwy'r cyfnod hwn sydd ar ddod.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Weinidog, ni all teulu neu unigolyn fynd trwy drawma gwaeth na chael eu cartref wedi'i gymryd oddi arnynt. Mae'n hanfodol bod cefnogaeth ar gael i ymyrryd cyn gynted ag y bo modd, er mwyn gallu rhoi cymorth. Pa gyfarfodydd yr ydych yn eu cael â Chyngor y Benthycwyr Morgeisi a chyrrff eraill sy'n ymwneud â chwblhau morgesei a benthyciadau ar eiddo, er mwyn sicrhau eu bod yn deall y sefyllfa'n iawn yma yng Nghymru?

**Huw Lewis:** Rwyf wedi cyfarfod droeon â Chyngor y Benthycwyr Morgeisi, a hoffwn ganmol ei agwedd gyfrifol a'i ddealltwriaeth o'r anawsterau sy'n wynebu teuluoedd ac aelwydydd. Fodd bynnag, nid oes a wnelo hyn â phobl sy'n talu morgais yn unig; mae a wnelo hefyd â sicrhau bod y sawl sydd mewn llety rhent o bob math yn gallu wynebu'r biliau y bydd eich cydweithwyr yn San Steffan wedi'u taflu atynt. Eich cydweithwyr chi yn San Steffan fydd yn effeithio ar bron pob aelwyd sy'n cael budd-dal tai. Gadewch inni gofio, Lywydd, mai teuluoedd sy'n gweithio yw llawer o'r aelwydydd hyn—[*Torri ar draws.*] Mae'n cael effaith arnynt a fydd yn cyfateb i oddeutu £546 y flwyddyn—[*Torri ar draws.*]

**Y Llywydd:** Trefn, trefn.

**Huw Lewis:** Do not challenge me on what the Welsh Government is doing to assist these families when it is your colleagues at Westminster who got them into this problem in the first place. *[Interruption.]* Worst of all, they threaten the social cohesion of Wales by their actions.

**The Presiding Officer:** Order, order. Minister, it is bad enough when you point at the leader of the opposition, but I do not like you pointing at me.

**Huw Lewis:** If I did, it was unintentional.

**The Presiding Officer:** Thank you, Minister.

**Huw Lewis:** Peidiwch â'm herio ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo'r teuluoedd hyn, o ystyried mai eich cydweithwyr chi yn San Steffan a achosodd y broblem hon iddynt yn y lle cyntaf. *[Torri ar draws.]* Y peth gwaethaf yw eu bod yn bygwth cydlyniant cymdeithasol Cymru trwy eu gweithredoedd.

**Y Llywydd:** Trefn, trefn. Weinidog, mae'n ddigon gwael pan fyddwch yn pwyntio bys at arweinydd yr wrthblaid, ond nid wyf yn hoffi'r ffaith eich bod yn pwyntio bys ataf fi.

**Huw Lewis:** Os bu imi wneud hynny, roedd yn anfwriadol.

**Y Llywydd:** Diolch, Weinidog.

### Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol Questions to the Counsel General

#### Archifau Gwladol

**1. Peter Black:** *A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am unrhyw gynnydd sydd wedi cael ei wneud gan yr Archifau Gwladol ynghylch ei waith i ddiweddarau 'Legislation.gov.uk', yn enwedig yng nghyswllt deddfwriaeth Cymru. OAQ(4)0036(CGE)*

**The Counsel General (Theodore Huckle):** Good afternoon, everyone. I am very grateful to you for your continued interest in these matters. Good progress has been made, but I will provide details in the oral statement that I will be making to the Assembly next week.

**Peter Black:** Thank you for that answer, Counsel General. You have put me in a difficult situation, as I did not anticipate that you would be making a statement. Will your statement indicate whether a budget will be available from the Welsh Government to fund this work?

**Theodore Huckle:** Oh. It may be. Thank you very much for the question. *[Laughter.]* I do not want to be evasive, obviously. As I think that you know, the position in relation to funding is that there have been funds allocated to this sort of activity, but a change

#### National Archives

**1. Peter Black:** *Will the Counsel General make a statement on any progress that has been made by the National Archives regarding its work to update 'Legislation.gov.uk', with particular regards to Welsh legislation. OAQ(4)0036(CGE)*

**Y Cwnsler Cyffredinol (Theodore Huckle):** Prynawn da, bawb. Rwyf yn ddiolchgar iawn ichi am eich diddordeb parhaus yn y materion hyn. Mae cynnydd da wedi'i wneud, ond byddaf yn rhoi manylion yn y datganiad llafar y byddaf yn ei wneud i'r Cynulliad yr wythnos nesaf.

**Peter Black:** Diolch am eich ateb, Gwnsler Cyffredinol. Rydych wedi fy rhoi mewn sefyllfa anodd, gan nad oeddwn yn rhagweld y byddech yn gwneud datganiad. A fydd eich datganiad yn nodi a fydd cyllideb ar gael gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r gwaith hwn?

**Theodore Huckle:** O. Mae'n bosibl. Diolch yn fawr iawn am y cwestiwn. *[Chwerthin.]* Wrth gwrs, nid wyf am osgoi ateb y cwestiwn. Fel y gwyddoch, rwyf yn credu, y sefyllfa o ran cyllid yw bod arian wedi ei neilltuo i'r math hwn o weithgarwch, ond

was made because of changing funding arrangements from the Assembly Commission and therefore the overall funding position has been awaiting final confirmation of what the arrangements would be from now on, on the basis that it is now the Welsh Government that has to take control of it altogether.

**Julie Morgan:** Does the Counsel General agree that the existence of an England-and-Wales unified legal jurisdiction makes it all the more important for website users to be able to distinguish the diverging legal position in Wales on any particular matter? Will he re-emphasise this and draw this to the attention of the team at the National Archives in the context of the need for the prompt updating of Welsh legislation?

**Theodore Huckle:** Thank you for the question. I very much agree that there is a need to better identify the provisions that are applicable to Wales and that it is somewhat crucial to be able to do so. The significance of the single English and Welsh jurisdiction in this context is that, traditionally, statutory provisions that apply differently across the UK have been identified by reference to their territorial extent. That extent is a reference to the jurisdictional extent, meaning that, for example, a provision extends either to England and Wales, to Scotland, or to Northern Ireland. In other words, extent does not, in itself, differentiate between England and Wales and therefore it does not take into account the new constitutional arrangements now prevailing.

The tool used to differentiate between England and Wales is in terms of the territorial application of a provision. I appreciate that this is rather jargonised, and I am sorry for that, but it is a technical matter. It is certainly true that this matter of application of a provision territorially is what needs to be clearly identified when legislation is published. Without going into the detail of what I will say next week on these matters, I think that I can say that it is not just a matter of my bringing this to the attention of the National Archives; we are working in a much more hands-on way with the National

gwnaed newid oherwydd newidiadau i'r trefniadau cyllido gan Gomisiwn y Cynulliad, ac felly, o safbwynt y sefyllfa gyllido gyffredinol, rydym wedi bod yn aros am gadarnhad terfynol ynghylch natur y trefniadau o hyn ymlaen, gan gymryd mai Llywodraeth Cymru sy'n gorfod rheoli'r cyfan yn awr.

**Julie Morgan:** A yw'r Cwnsler Cyffredinol yn cytuno bod y ffaith bod gennym awdurdodaeth gyfreithiol unedig ar gyfer Cymru a Lloegr yn golygu ei bod yn bwysicach fyth i ddefnyddwyr y wefan allu gweld ble y mae'r sefyllfa gyfreithiol yn wahanol yng Nghymru ar unrhyw fater penodol? A wnaiff bwysleisio hynny unwaith eto, a'i ddwyn i sylw'r tîm yn yr Archifau Gwladol yng nghyd-destun yr angen i ddiweddarau deddfwriaeth Cymru yn brydlon?

**Theodore Huckle:** Diolch am y cwestiwn. Rwyf yn cytuno'n gryf bod angen nodi'n well y darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru, a'i bod yn hollbwysig gallu gwneud hynny. Arwyddocâd yr awdurdodaeth sengl i Gymru a Lloegr yn y cyd-destun hwn yw bod darpariaethau statudol sy'n berthnasol mewn modd gwahanol ar draws y DU wedi cael eu nodi, yn draddodiadol, drwy gyfeirio at eu graddau tiriogaethol. Mae'r graddau hynny'n cyfeirio at raddau'r awdurdodaeth, sy'n golygu, er enghraifft, bod darpariaeth naill ai'n ymestyn i Gymru a Lloegr, i'r Alban, neu i Ogledd Iwerddon. Mewn geiriau eraill, nid yw'r graddau, ynddynt eu hunain, yn gwahaniaethu rhwng Cymru a Lloegr, ac felly nid ydynt yn ystyried y trefniadau cyfansoddiadol newydd sy'n bodoli erbyn hyn.

Mae'r dull a ddefnyddir i wahaniaethu rhwng Cymru a Lloegr yn ymwneud â'r modd y caiff darpariaeth ei chymhwyso o safbwynt tiriogaethol. Rwyf yn sylweddoli fy mod yn defnyddio tipyn o jargon, ac mae'n ddrwg gennyf am hynny, ond mae'n fater technegol. Wrth gyhoeddi deddfwriaeth, mae'n sicr yn wir bod angen i'r mater hwn sy'n ymwneud â chymhwyso darpariaeth o safbwynt tiriogaethol gael ei nodi'n glir. Heb fynd i fanylion yr hyn y byddaf yn ei ddweud yr wythnos nesaf am y materion hyn, credaf y gallaf ddweud bod angen gwneud mwy na dim ond tynnu sylw'r Archifau Gwladol at y

Archives and are involved in the provision of persons to do the job, if I can put it that way. The whole purpose of this is to give us a great deal more control over what is published, how it is published, and how these matters are designated so as to make it clear.

**Kirsty Williams:** Counsel General, given the negotiations that have been continuing to establish a budget for this important work, did you make any representations to the office of the First Minister that money allocated to the purchase of an insignia would be better used for this important work to make the law accessible to the people of Wales?

**Theodore Huckle:** I think that you are making reference to the proposed insignia for the office of Counsel General. If I may put it this way, I am a little surprised by the limited coverage in the media about this. There is no linkage at all between the money proposed to be allocated for that purpose and money that has hitherto been allocated by the Welsh Government for the purpose of making legislation available to the public and the work that we are doing, for example, with the National Archives. There is no linkage and the suggestion that money is being diverted, or could be diverted, from the one purpose to the other is just not correct. Therefore, the answer to the question is that I have not made any representations of that kind.

mater; rydym yn gwneud gwaith llawer mwy uniongyrchol gyda'r Archifau Gwladol, ac rydym yn ymwneud â darparu pobl i wneud y gwaith, os gallaf ei roi felly. Holl ddiben hyn yw rhoi llawer mwy o reolaeth inni dros beth sy'n cael ei gyhoeddi, sut y caiff ei gyhoeddi, a sut y caiff y materion hyn eu dynodi er mwyn gwneud y sefyllfa'n glir.

**Kirsty Williams:** Gwnsler Cyffredinol, o ystyried y trafodaethau sydd wedi bod yn mynd rhagddynt i bennu cyllideb ar gyfer y gwaith pwysig hwn, a fu ichi gyflwyno unrhyw sylwadau i swyddfa Prif Weinidog Cymru i nodi y byddai'n well pe bai'r arian a ddyrannwyd i brynu bathodyn yn cael ei ddefnyddio at ddiben y gwaith pwysig hwn o sicrhau bod y gyfraith yn hygyrch i bobl Cymru?

**Theodore Huckle:** Credaf eich bod yn cyfeirio at y bathodyn arfaethedig ar gyfer swydd y Cwnsler Cyffredinol. Os caf ei roi fel hyn, rwyf yn synnu braidd at yr ychydig sylw y mae'r mater wedi'i gael yn y cyfryngau. Nid oes unrhyw gysylltiad o gwbl rhwng yr arian y bwriedir ei ddyrannu at y diben hwnnw a'r arian sydd wedi'i ddyrannu hyd yn hyn gan Lywodraeth Cymru at ddiben sicrhau bod deddfwriaeth ar gael i'r cyhoedd ac at ddiben y gwaith yr ydym yn ei wneud, er enghraifft, gyda'r Archifau Gwladol. Nid oes unrhyw gysylltiad, ac mae'r awgrym bod arian yn cael ei ddargyfeirio neu y gallai gael ei ddargyfeirio o'r naill ddiben i'r llall yn gwbl anghywir. Felly, yr ateb i'r cwestiwn yw nad wyf wedi cyflwyno unrhyw sylwadau o'r fath.

## Cwestiwn Brys Urgent Question

### Trident

**The Presiding Officer:** I have accepted an urgent question under Standing Order No. 12.66. I call on Rhodri Glyn Thomas to ask it.

**Rhodri Glyn Thomas:** *A wnaiff y Prif Weinidog egluro ar frys beth yw ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddenu Taflegrau Niwclear Trident i Aberdaugleddau? EAQ(4)0615(FM)*

**Y Llywydd:** Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog Rhif 12.66. Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i'w ofyn.

**Rhodri Glyn Thomas:** *Will the First Minister urgently clarify the Welsh Government's efforts to attract Trident Nuclear Missiles to Milford Haven? EAQ(4)0615(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** I refer the Member to the answer that I gave yesterday.

**Rhodri Glyn Thomas:** Well, the answer that you gave yesterday, First Minister, was that you welcomed weapons of mass destruction to Milford Haven. Was that a Cabinet decision, because I remember from my days as chair of CND Cymru that a number of your Cabinet colleagues—

**The Presiding Officer:** Order. This is an urgent question, not a speech.

**Rhodri Glyn Thomas:** The question is: was it a Cabinet decision, because many of your colleagues were members of CND and, presumably, still are? Has there been any consultation with the people of south-west Wales? Has there been an assessment as to whether Milford Haven is a safe port in which to store nuclear weapons, because there was an assessment in 1963 and, at that time, with one oil refinery, it was deemed unsafe and it was claimed that the oil refinery would have to close. First Minister, will you now accept that oil, gas and nukes simply do not mix?

2.30 p.m.

**The First Minister:** Unless you are suggesting that nuclear missiles should be shot into the liquefied natural gas terminal, which is what you seem to suggest, then I fail to understand your point. On 1963, I will bow to your greater knowledge of that year. I refer you once again to the answer that I gave yesterday, which provides utter clarity.

**Jocelyn Davies:** Was it a Cabinet decision?

**The Presiding Officer:** Order. Your name is not down to speak, but if you wish to put your name down, please do. Paul Davies has the next question.

**Paul Davies:** Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi'i wneud yn gwbl glir nad oes unrhyw gynlluniau i ail-leoli'r llynges danfor,

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Hoffwn gyfeirio'r Aelod at yr ateb a roddais ddoe.

**Rhodri Glyn Thomas:** Wel, yr ateb a roesoch ddoe, Brif Weinidog, oedd eich bod yn croesawu arfau distryw mawr i Aberdaugleddau. Ai penderfyniad gan y Cabinet oedd hwnnw, oherwydd rwyf yn cofio o'm cyfnod fel cadeirydd CND Cymru bod nifer o'ch cydweithwyr yn y Cabinet—

**Y Llywydd:** Trefn. Cwestiwn brys yw hwn, nid araith.

**Rhodri Glyn Thomas:** Y cwestiwn yw: ai penderfyniad gan y Cabinet oedd hwn, oherwydd roedd llawer o'ch cydweithwyr yn aelodau o CND, ac rwyf yn cymryd eu bod yn aelodau o hyd? A fu unrhyw ymgynghori â phobl y de-orllewin? A gynhaliwyd asesiad i weld a yw Aberdaugleddau yn borthladd diogel i storio arfau niwclear ynddo, oherwydd cafwyd asesiad yn 1963, a bryd hynny, pan oedd un burfa olew yno, barnwyd ei fod yn anniogel a honnwyd y byddai'n rhaid i'r burfa olew gau. Brif Weinidog, a wnewch chi dderbyn yn awr nad oes modd cymysgu olew, nwy ac arfau niwclear?

**Y Prif Weinidog:** Oni bai eich bod yn awgrymu y dylid saethu taflegrau niwclear i mewn i'r derfynell nwy naturiol hylifedig, ac ymddengys mai dyna'r ydych yn ei awgrymu, yna nid wyf yn deall eich pwynt. O ran 1963, rwyf yn fodlon derbyn eich bod yn gwybod mwy na mi am y flwyddyn honno. Fe'ch cyfeiriau unwaith eto at yr ateb a roddais ddoe, sy'n darparu eglurder llwyr.

**Jocelyn Davies:** A oedd yn benderfyniad gan y Cabinet?

**Y Llywydd:** Trefn. Nid yw eich enw ar y rhestr o siaradwyr, ond os ydych yn dymuno rhoi eich enw ar y rhestr, mae croeso ichi wneud hynny. Paul Davies sydd â'r cwestiwn nesaf.

**Paul Davies:** The United Kingdom Government has made it quite clear that there are no plans to relocate the submarine fleet,

ond mae gan Aberdaugleddau draddodiad hir o dreftadaeth filwrol. Byddai prosiect o'r fath yn creu swyddi ar raddfa enfawr yn Aberdaugleddau—rhywbeth y byddem yn ei groesawu'n fawr iawn. Credaf fod gennym i gyd ddyletswydd i archwilio pob cyfle posibl am swyddi yn enwedig mewn lleoedd fel Aberdaugleddau a sir Benfro. Mae'n hanfodol bod asesiadau diogelwch priodol yn cael eu gwneud a bod ymgynghoriad llawn gyda'r bobl leol cyn i'r llynges danfor hon cael ei hail-leoli. O ystyried y gallai buddsoddiad ar y raddfa hon fod o fudd enfawr i'r ardal ac o ystyried bod Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddatblygiad economaidd, a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal unrhyw asesiad o'r effaith economaidd y byddai prosiect o'r fath yn cael ar Aberdaugleddau ac yn wir ar sir Benfro?

**Y Prif Weinidog:** Y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod Llywodraeth yr Alban wedi dweud nad yw am i'r ganolfan cael ei lleoli yn Faslane, felly bydd yn rhaid ei symud o'r fan honno i Loegr neu Gymru, ac mae'n bwysig bod Cymru yn cael ei ystyried fel lleoliad ar gyfer creu'r swyddi hyn.

**Peter Black:** If the Liberal Democrats had their way, there would not be a Trident missile to bring to Milford Haven. On your bid to move Trident to Milford Haven, what risk assessment has been carried out by the Welsh Government of the proposal? What assessment of the suitability of Milford Haven has been made and what discussions have you had with the UK Government on this issue?

**The First Minister:** As I said yesterday, the Scottish Government said that it did not want a nuclear base at Faslane. If that base, at some point in the future, has to move, then it is only right that Wales is considered, alongside England, as a home for that base and for the jobs that will be created as a result—something that at least one party in this Chamber seems to dismiss so lightly.

**Elin Jones:** Ni wnaethoch ateb y cwestiwn a ofynnwyd gan Rhodri Glyn Thomas. A yw Cabinet Llywodraeth Cymru wedi trafod y

but Milford Haven has a long tradition of military heritage. This kind of project would create jobs on a huge scale in Milford Haven—something that we would very much welcome. I think that we are all duty bound to investigate every possible job-creation opportunity, particularly in places such as Milford Haven and Pembrokeshire. It is essential that the appropriate safety assessments be carried out and that local people be consulted fully before the relocation of the submarine fleet. Given that an investment on this scale could be of great benefit to the area and given that the Welsh Government is responsible for economic development, does the Welsh Government intend to undertake any assessment of the economic impact that such a project could have on Milford Haven and, indeed, on Pembrokeshire?

**The First Minister:** The situation at present is that the Scottish Government has said that it no longer wants the base to be at Faslane, so it will have to be moved to either England or Wales, and it is important that Wales is considered as a possible location where these jobs could be created.

**Peter Black:** Pe bai'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cael eu ffordd, ni fyddai taflegryn Trident ar gael i'w gludo i Aberdaugleddau. O ran eich cais i symud Trident i Aberdaugleddau, pa asesiad risg y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal yng nghyswllt y cynnig? Pa asesiad sydd wedi'i gynnal o addasrwydd Aberdaugleddau a pha drafodaethau yr ydych wedi'u cael â Llywodraeth y DU ar y mater hwn?

**Y Prif Weinidog:** Fel y dywedais ddoe, dywedodd Llywodraeth yr Alban nad oedd am gael canolfan niwclear yn Faslane. Os oes yn rhaid i'r ganolfan honno symud ar ryw adeg yn y dyfodol, yna mae'n iawn bod Cymru yn cael ei hystyried, ochr yn ochr â Lloegr, fel cartref ar gyfer y ganolfan honno a'r swyddi a fydd yn cael eu creu o ganlyniad—ac ymddengys fod hynny'n rhywbeth y mae o leiaf un blaid yn y Siambr hon yn ei ddiystyru'n rhwydd iawn.

**Elin Jones:** You did not answer the question that Rhodri Glyn Thomas asked you. Has the Welsh Government Cabinet discussed the



gwahoddiad a roddwyd i arfau niwclear ddod i ddyfroedd Cymru ac a oedd consensws yn y Cabinet? A wnewch chi gyhoeddi'r papurau cyngor a rhoddwyd i'r Cabinet cyn gwneud y penderfyniad, os bu penderfyniad o gwbl?

**Y Prif Weinidog:** Nid oes anghytundeb ymhlith y Cabinet am y mater hwn. Rydym am sicrhau bod y swyddi yn dod i Gymru, ond mae Plaid Cymru yn erbyn hynny yn llwyr. Rydym yn gweld yr hyn fydd yn digwydd yn yr Alban, a dyna'r hyn y mae Plaid Cymru am ei weld yn digwydd yng Nghymru, sef llai o swyddi. Fel y dywedais ddoe, nid yw Llywodraeth yr Alban am gael y ganolfan yn yr Alban mwyach, felly rydym ni yng Nghymru am ystyried lleoliad priodol iddi er mwyn creu swyddi.

**Angela Burns:** Is this a policy or was it an off-the-cuff response to Vaughan Gething? Has it been tested in Cabinet and will you consult the people of Pembrokeshire if this were to come to pass?

**The First Minister:** The Scottish Government does not want a base in Scotland, therefore that base will have to be moved, regardless of Scotland's constitutional future. On that basis, the base would have to go to England or Wales. It is only right, therefore, that consideration be given at an appropriate stage to locating that base in Wales.

invitation for nuclear weapons to be brought into Welsh waters and was there consensus in Cabinet on that? Will you publish the Cabinet advice papers before making the decision, if, indeed, such a decision was made?

**The First Minister:** There is no dissent in the Cabinet on this point. We want to ensure that these jobs come to Wales, but Plaid Cymru is totally against that. We can see what will happen in Scotland, and that is what Plaid Cymru wants to see happening here in Wales, which will mean fewer jobs. As I said yesterday, the Scottish Government does not want this base in Scotland anymore, and so we in Wales want to consider a suitable location for it here in order to create jobs.

**Angela Burns:** Ai polisi yw hyn ynteu ymateb ffwrdd â hi i Vaughan Gething? A yw wedi'i brofi yn y Cabinet, ac a fyddwch yn ymgynghori â phobl sir Benfro os bydd hyn yn digwydd?

**Y Prif Weinidog:** Nid yw Llywodraeth yr Alban am gael canolfan yn yr Alban, felly bydd yn rhaid ei symud, ni waeth beth yw dyfodol cyfansoddiadol yr Alban. Ar sail hynny, byddai'n rhaid i'r ganolfan fynd i Gymru neu Loegr. Nid yw ond yn iawn, felly, bod lleoli'r ganolfan honno yng Nghymru yn rhywbeth a gaiff ei ystyried ar yr adeg briodol.

### **Cynnig i Ddiwygio Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Biliau Preifat a Gwelliannau Amrywiol**

#### **Motion to Amend Standing Orders in relation to Private Bills and Miscellaneous Amendments**

*Cynnig NDM5014 Rosemary Butler*

*Motion NDM5014 Rosemary Butler*

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:*

*To propose that the National Assembly, in accordance with Standing Order 33.2:*

*1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygiadau Arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog: Biliau Preifat a Newidiadau Amrywiol' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2012; a*

*1. Considers the Report of the Business Committee 'Proposed Amendments to Standing Orders: Private Bills and Miscellaneous Changes' laid in the Table Office on 13 June 2012; and*

*2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu'r Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiadau B a D i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.*

*2. Approves the proposal to revise Standing Orders, as set out in Annexes B and D of the Report of the Business Committee.*

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I move the motion.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Cynigiaf y cynnig.

**The Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that you do not. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

**Ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i  
Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy yng Nghymru  
The Communities, Equality and Local Government Committee's Inquiry into  
the Provision of Affordable Housing in Wales**

*Cynnig NDM5013 Ann Jones*

*Motion NDM5013 Ann Jones*

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*The National Assembly for Wales:*

*Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Ddarpariaeth Tai Fforddiadwy yng Nghymru, a gafodd ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ebrill 2012.*

*Notes the Report of the Communities, Equality and Local Government Committee: The provision of affordable housing in Wales which was laid in the Table Office on 23 April 2012.*

**Ann Jones:** I move the motion.

**Ann Jones:** Cynigiaf y cynnig.

I am very pleased to open this debate today on the Communities, Equality and Local Government Committee's report on the provision of affordable housing in Wales. At the beginning of this Assembly, the Welsh Government stated that it would be bringing forward a housing Bill to address issues across the whole range of the housing sector. It was with the intention of feeding into that process that the committee agreed to undertake an inquiry into the provision of affordable housing in Wales. The committee also looked back at the work undertaken by the Communities and Culture Committee of the third Assembly, in particular its report on the private rented sector. Members of that committee will see that the report we present today refers directly to their recommendations.

Rwyf yn falch iawn o gael agor y ddadl hon heddiw ar adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar ddarpariaeth tai fforddiadwy yng Nghymru. Ar ddechrau'r Cynulliad hwn, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cyflwyno Bil tai i fynd i'r afael â materion ar draws holl ystod y sector tai. Gyda'r bwriad o gyfrannu i'r broses honno y cytunodd y pwyllgor i gynnal ymchwiliad i ddarpariaeth tai fforddiadwy yng Nghymru. At hynny, bu'r pwyllgor yn edrych yn ôl ar y gwaith a wnaed gan Bwyllgor Cymunedau a Diwylliant y trydydd Cynulliad, ac yn arbennig ei adroddiad ar y sector rhentu preifat. Bydd aelodau'r pwyllgor hwnnw yn gweld bod yr adroddiad yr ydym yn ei gyflwyno heddiw yn cyfeirio'n uniongyrchol at eu hargymhellion.

The 14 recommendations in our report cover four main areas: strategic direction and collaboration; land, planning and empty properties; finance and subsidy; and welfare

Mae'r 14 o argymhellion yn ein hadroddiad yn ymdrin â phedwar prif faes: cyfeiriad strategol a chydweithio; tir, cynllunio ac eiddo gwag; cyllid a chymhorthdal; a

reform. I am pleased that the Minister has accepted all of the recommendations, either fully or in principle, and I welcome the positive response he has given to the report. I am also pleased that our work has informed the development of the Welsh Government's housing White Paper, and the committee looks forward to scrutinising the Bill in due course.

Turning to strategic direction and collaboration, the committee heard evidence from a number of witnesses about the importance of a whole-system approach. If affordable housing is going to be delivered, it needs to be provided in a range of ways, across the sector. We see the Welsh Government playing a strategic leadership role in this whole-system approach. In order for it to work, effective collaboration and partnership working is vital. We have encouraged the Welsh Government to be as proactive as possible in bringing together partners across the sector. Witnesses told us that they felt that targets worked in focusing people's minds, and we think that targets are needed across the whole sector, in line with the whole-system approach.

Local authorities, too, must take a lead. While we recognise that local authorities have many priorities, housing being just one of them, the committee felt that the additional benefits that come from good housing, including health and social benefits, and the cost benefits to the public purse as a consequence, means that housing should be a local authority's top priority. As part of this, we would like to see more co-ordination at a strategic level across local authorities.

I now turn to land, planning and empty properties. On the issue of availability of land, we felt that the Welsh Government's database of publicly owned land should be progressed as a matter of urgency. I welcome the Minister's commitment in his response to accelerating the land release programme. While we received a lot of evidence of the need for more publicly owned land to be made available, we also heard that there is a significant amount of land that has planning permission in place but which is not being developed. We would encourage the Welsh

diwygio lles. Rwyf yn falch bod y Gweinidog wedi derbyn pob un o'r argymhellion, naill ai yn llawn neu mewn egwyddor, a chroesawaf yr ymateb cadarnhaol a gafwyd ganddo i'r adroddiad. Rwyf hefyd yn falch bod ein gwaith wedi cyfrannu at ddatblygu Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar dai, ac mae'r pwyllgor yn edrych ymlaen at graffu ar y Bil maes o law.

Gan droi at gyfeiriad strategol a chydweithio, clywodd y pwyllgor dystiolaeth gan nifer o dystion am bwysigrwydd dull system gyfan. Os ydym am sicrhau tai fforddiadwy, mae angen eu darparu mewn amrywiaeth o ffyrdd, ar draws y sector. Rydym yn gweld Llywodraeth Cymru yn chwarae rôl arwain strategol yn y dull system gyfan hwn. Er mwyn iddo weithio, mae cydweithio effeithiol a gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol. Rydym wedi annog Llywodraeth Cymru i fod mor rhagweithiol ag y bo modd wrth ddwyn partneriaid ynghyd ar draws y sector. Dywedodd dystion wrthym eu bod yn teimlo bod targedau yn gweithio o ran rhoi ffocws i bobl, a chredwn fod angen targedau ar draws y sector cyfan, yn unol â'r dull system gyfan.

Rhaid i awdurdodau lleol hefyd, arwain y gwaith. Er ein bod yn cydnabod bod gan awdurdodau lleol nifer o flaenoriaethau, ac mai dim ond un o'r rheini yw tai, roedd y pwyllgor yn teimlo bod y manteision ychwanegol a ddaw o dai da, gan gynnwys manteision iechyd a chymdeithasol, a'r manteision o ran cost i bwrs y wlad o ganlyniad, yn golygu y dylai tai fod yn brif flaenoriaeth i awdurdodau lleol. Yn rhan o hyn, hoffem weld mwy o gydgysylltu ar lefel strategol ar draws awdurdodau lleol.

Trof yn awr at dir, cynllunio ac eiddo gwag. O ran argaeledd tir, roeddem yn teimlo bod angen datblygu cronfa ddata Llywodraeth Cymru o dir cyhoeddus fel mater o frys. Rwyf yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog yn ei ymateb i gyflymu'r rhaglen rhyddhau tir. Er inni gael llawer o dystiolaeth ynghylch yr angen i sicrhau bod mwy o dir cyhoeddus ar gael, clywsom hefyd fod swm sylweddol o dir sydd â chaniatâd cynllunio ond nad yw'n cael ei ddatblygu. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda phartneriaid ar draws y sector i archwilio

Government to work with partners across the sector to explore ways in which such sites can deliver new homes.

In terms of planning, we heard that there are a number of issues around section 106 agreements, and I welcome the Minister's assurance that guidance is being looked at, in consultation with stakeholders. On empty homes, we acknowledge the importance of bringing empty properties back into use and welcome the Government's investment in this area. We heard a strong argument from local authorities that they should be able to charge additional council tax on long-term empty homes, and the committee supports that argument. I am pleased that this issue is included in the Government's White Paper.

On finance and subsidy, it is vital that as much as possible is done to ensure value for public money during these difficult economic times. We encourage the Welsh Government and others across the sector to look at alternative approaches to get the most from the scarce funding. We also heard about the effectiveness of mortgage guarantee schemes and that they were being trialled by two local authorities. We felt that the Welsh Government should explore this option, and I am pleased that the Minister, in his response, has indicated that the Government is exploring this option through the housing White Paper.

The final area we looked at was welfare reform and the impact the UK Government's reforms will have on the housing sector in Wales. We are concerned that these changes will have a severe impact on people in Wales and we welcome the proactive approach taken by the Welsh Government in monitoring this issue. We encourage it to continue to monitor and to keep the Assembly updated on progress.

As I mentioned earlier, the Minister has accepted all of the committee's recommendations, either fully or in principle. I welcome his positive response to our report. Finally, I thank those who gave evidence to the committee, to the committee members themselves and to the officials who helped to produce the report.

ffyrdd o sicrhau bod safleoedd o'r fath yn gallu darparu cartrefi newydd.

O ran cynllunio, clywsom fod nifer o broblemau yn ymwneud â chytundebau adran 106, a chroesawaf sicrwydd y Gweinidog bod canllawiau'n cael eu hystyried, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. O ran cartrefi gwag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd ailddechrau defnyddio eiddo gwag ac yn croesawu buddsoddiad y Llywodraeth yn y maes hwn. Clywsom ddadl gref gan awdurdodau lleol y dylent fod yn gallu codi treth gyngor ychwanegol ar gartrefi sy'n wag yn yr hirdymor, ac mae'r pwyllgor yn cefnogi'r ddadl honno. Rwyf yn falch bod y mater hwn yn cael ei gynnwys ym Mhapur Gwyn y Llywodraeth.

O ran cyllid a chymhorthdal, mae'n hanfodol bod cymaint ag sy'n bosibl yn cael ei wneud i sicrhau gwerth am arian cyhoeddus yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru ac eraill ar draws y sector i edrych ar ddulliau amgen o gael y gorau o'r cyllid prin sydd ar gael. Clywsom hefyd am effeithiolrwydd cynlluniau gwarantu morgeisi a'u bod yn cael eu treialu gan ddau awdurdod lleol. Roeddem yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiwn hwn, ac rwyf yn falch bod y Gweinidog, yn ei ymateb, wedi dangos bod y Llywodraeth yn archwilio'r opsiwn hwn drwy'r Papur Gwyn ar dai.

Y maes olaf y bu inni edrych arno oedd diwygio lles a'r effaith y bydd diwygiadau Llywodraeth y DU yn ei chael ar y sector tai yng Nghymru. Rydym yn pryderu y bydd y newidiadau hyn yn cael effaith ddifrifol ar bobl yng Nghymru ac rydym yn croesawu dull rhagweithiol Llywodraeth Cymru o weithredu wrth fonitro'r mater hwn. Rydym yn ei hannog i barhau i fonitro a rhannu gwybodaeth am gynnydd â'r Cynulliad.

Fel y soniais yn gynharach, mae'r Gweinidog wedi derbyn pob un o argymhellion y pwyllgor, naill ai'n llawn neu mewn egwyddor. Rwyf yn croesawu ei ymateb cadarnhaol i'n hadroddiad. Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r rhai a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor, i aelodau'r pwyllgor eu hunain ac i'r swyddogion a fu'n helpu i gynhyrchu'r

adroddiad.

I am pleased that the committee has been able to feed into the development of the White Paper on housing. The committee looks forward to engaging positively with the Government during the housing Bill scrutiny process. Thank you.

**Janet Finch-Saunders:** Before I speak in the debate, I want to make an informal declaration of interest because my husband, my father and I own rental property. I wanted to place that on record. I did not need to do so under Standing Order No. 2.6.

I will begin by thanking committee staff for their hard work in bringing the report forward and the committee Chair, Ann Jones AM, for steering the committee report process so ably from start to finish. Thank you, Chair. There can be no doubt that housing in Wales has the potential to be a defining issue for the Assembly. In that regard, it is a timely report. The programme for government update shows that the gap between the estimated number of new homes needed in Wales every year and the number of homes built in 2010-11 was nearly 8,300 units. During the committee's call for evidence, Professor Steve Wilcox stated:

'In the years since devolution, the Welsh Government has given a relatively low priority to investment in new affordable housing. The level of supply and the level of funding have been lower in Wales relative to the trajectories in both England and Scotland in the devolution years.'

The report aims to address some of those problems and bring affordable housing back to the top of the agenda, where it belongs. Today, I would like to focus in particular on three areas that the report explores. The first is the need to work with local authorities to raise performance across the board. With regard to my earlier question, I was advised by my local authority this afternoon that no target has been set for it, and it has had to set its own target for bringing empty properties back into stock. There is a need to work with local authorities to raise performance and

Rwyf yn falch bod y pwyllgor wedi gallu cyfrannu at ddatblygu'r Papur Gwyn ar dai. Mae'r pwyllgor yn edrych ymlaen at ymwneud yn gadarnhaol â'r Llywodraeth yn ystod y broses o graffu ar y Bil tai. Diolch.

**Janet Finch-Saunders:** Cyn imi siarad yn y ddadl, rwyf am ddatgan budd anffurfiol oherwydd mae fy ngŵr, fy nhad a minnau yn berchen ar eiddo ar rent. Roeddwn am i hynny gael ei gofnodi. Nid oedd angen imi wneud hynny dan Reol Sefydlog Rhif 2.6.

Dechreuaf drwy ddiolch i staff y pwyllgor am eu gwaith caled wrth gyflwyno'r adroddiad ac i Gadeirydd y pwyllgor, Ann Jones AC, am lywio proses adroddiad y pwyllgor mor fedrus o'r dechrau i'r diwedd. Diolch, Gadeirydd. Nid oes amheuaeth nad oes gan dai yng Nghymru y potensial i fod yn fater diffiniol i'r Cynulliad. Yn hynny o beth, mae'n adroddiad amserol. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen lywodraethu yn dangos bod bwlch o bron i 8,300 o unedau rhwng yr amcangyfrif o nifer y cartrefi newydd y mae eu hangen yng Nghymru bob blwyddyn a nifer y cartrefi a adeiladwyd yn 2010-11. Yn ystod galwad y pwyllgor am dystiolaeth, dywedodd yr Athro Steve Wilcox:

Yn y blynyddoedd ers datganoli, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi blaenoriaeth gymharol isel i fuddsoddi mewn tai fforddiadwy newydd. Mae lefel y cyflenwad a lefel y cyllid wedi bod yn is yng Nghymru o'u cymharu â'r tueddiadau yn Lloegr a'r Alban yn y blynyddoedd ers datganoli.

Nod yr adroddiad yw mynd i'r afael â rhai o'r problemau hynny a gosod tai fforddiadwy yn ôl ar frig yr agenda, lle y dylai fod. Heddiw, hoffwn ganolbwyntio yn benodol ar dri maes y mae'r adroddiad yn eu harchwilio. Y cyntaf yw'r angen i weithio gydag awdurdodau lleol i wella perfformiad yn gyffredinol. O ran fy nghwestiwn cynharach, cefais wybod gan fy awdurdod lleol y prynhawn yma nad oes targed wedi ei osod ar ei gyfer, ac mae wedi gorfod gosod ei darged ei hun ar gyfer ailddechrau defnyddio eiddo gwag. Mae angen gweithio gydag awdurdodau lleol i

empty homes need to be brought back into use. There is also the issue of the difficulties that households and young families may have in trying to secure mortgage finance. As regards local authorities, the report noted that there was concern that effectiveness varies considerably between authorities and, furthermore, that local authority planning officers do not always understand the scope of the definition of affordable housing. Therefore, what steps do you, as Minister, intend to take to address these problems? Will you consider bringing forward new guidance on the definition of affordable housing? The definition of empty homes also needs further debate. I raised concerns about that in committee.

A related argument can be made with regard to publicly owned land on all levels of government. It has been estimated that the Welsh Government alone has inherited as much as £271 million of former Welsh Development Agency land. In these difficult economic times, I would like to see the Welsh Government doing more to release disused public land and to release equity for the purposes of affordable housing, and perhaps at a reduced rate as part of the incentive. Also, more than 15,000 people under threat of homelessness sought help from their local council in 2011. Given that that is the case, I urge the Minister to do more to bring the estimated 26,000 empty properties in Wales back into full domestic use.

Improving on the number of restored homes—the figure for 2010-11 was again disappointing, standing at 954—will help to rejuvenate communities and ensure that there is no unnecessary development on our greenfield sites. Moreover, it could offer more swift and cost-effective alternatives to building thousands more homes for the sake of it. Returning existing empty properties to the market is a particularly resonant point with communities currently facing unrealistic, incoherent and ad hoc housing projections—the same housing projections that are forming local development plans across Wales. That runs the risk of damaging the fabric of our local communities and no

wella perfformiad ac mae angen ailddechrau defnyddio cartrefi gwag. Mae'r anawsterau y gall aelwydydd a theuluoedd ifanc eu cael wrth geisio sicrhau cyllid morgais hefyd yn broblem. O ran awdurdodau lleol, nododd yr adroddiad fod pryder bod effeithiolrwydd yn amrywio'n sylweddol o'r naill awdurdod i'r llall ac, at hynny, nad yw swyddogion cynllunio awdurdodau lleol bob amser yn deall rhychwant y diffiniad o dai fforddiadwy. Felly, pa gamau yr ydych chi, fel Gweinidog, yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r problemau hyn? A wnewch chi ystyried cyflwyno canllawiau newydd ar y diffiniad o dai fforddiadwy? Mae angen trafodaeth bellach ar y diffiniad o gartrefi gwag hefyd. Codais bryderon am hynny yn y pwyllgor.

Gellir gwneud dadl gysylltiedig ynghylch tir cyhoeddus ar bob lefel o lywodraeth. Amcangyfrifwyd bod Llywodraeth Cymru yn unig wedi etifeddu cymaint â £271 miliwn o dir a oedd yn eiddo i Awdurdod Datblygu Cymru gynt. Yn y cyfnod economaidd anodd hwn, hoffwn weld Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy i ryddhau tir cyhoeddus nad yw'n cael ei ddefnyddio a rhyddhau ecwiti at ddibenion tai fforddiadwy, ac efallai ar gyfradd is fel rhan o'r cymhelliant. Hefyd, yn 2011, gwnaeth mwy na 15,000 o bobl a oedd yn wynebu bod yn ddigartref gais am gymorth gan eu cyngor lleol. O ystyried hynny, rwyf yn annog y Gweinidog i wneud mwy i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i ailddechrau defnyddio at ddibenion domestig y 26,000 o eiddo gwag yr amcangyfrifir eu bod yn bodoli yng Nghymru.

Bydd cynyddu nifer y cartrefi sydd wedi'u hadnewyddu—roedd y ffigur ar gyfer 2010-11, sef 954, yn siomedig eto—yn helpu i adfywio cymunedau a sicrhau nad oes gwaith datblygu diangen yn digwydd ar ein safleoedd tir glas. At hynny, gallai gynnig dewisiadau amgen mwy cyflym a chost-effeithiol nag adeiladu miloedd yn fwy o gartrefi dim ond er mwyn gwneud hynny. Mae dod ag eiddo gwag sy'n bodoli'n barod yn ôl i'r farchnad yn bwynt sy'n berthnasol iawn i gymunedau sydd ar hyn o bryd yn wynebu amcanestyniadau afrealistig, digyswllt ac ad hoc o'r angen am dai—sef yr un amcanestyniadau o'r angen am dai sy'n sail i gynlluniau datblygu lleol ar draws

more so than in my constituency of Aberconwy. With regard to recommendation 8 and the question of council tax on empty properties, it is a recommendation about which the Welsh Conservatives will have reservations. However, it should be considered a topic for further debate, as I have already said.

2.45 p.m.

I believe that fostering a property-owning democracy is one of the best ways to ensure prosperity for the future. However, current structural imbalances in the housing market and the wider economy are all too often making home ownership an unrealistic aspiration. The UK Government recently announced a mortgage indemnity scheme for up to 100,000 new-build homes in England, which allows lenders to provide mortgages of up to 95% with homebuilders, and the Government providing an indemnity.

**Mike Hedges:** As a member of the Communities, Equality and Local Government Committee that undertook the inquiry, I speak in favour of the recommendations. It is unfortunate that the housing White Paper was launched some weeks prior to this report, which was itself published in April before being debated in Plenary. I am however pleased to note in the Minister's statement that the work of this inquiry informed the development of the housing White Paper.

I will concentrate on four areas of the report. First, recommendation 8 was that:

'The Welsh Government should explore the possibility of allowing local authorities to charge more than 100 per cent council tax on long term empty properties.'

We need to distinguish between those properties that cannot be rented or sold and those where the owner will not rent or sell them. In many communities, there are houses in a very good state of repair that could easily be sold if the owner wanted to, or easily rented, but they are just left, and cause concern to the neighbours. There are

Cymru. Mae perygl i hynny niweidio gwedd ein cymunedau lleol ac mae hynny'n amlwg iawn yn fy etholaeth i yn Aberconwy. O ran argymhelliad 8 a'r cwestiwn am y dreth gyngor ar eiddo gwag, mae'n argymhelliad y bydd gan y Ceidwadwyr Cymreig amheuon yn ei gylch. Fodd bynnag, dylid ei ystyried yn bwnc i'w drafod ymhellach, fel y dywedais eisoes.

Credaf mai meithrin democratiaeth lle y mae pobl yn berchen ar eiddo yw un o'r ffyrdd gorau o sicrhau ffyniant yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r anghydbwysedd presennol yn strwythur y farchnad dai a'r economi ehangach yn gwneud perchentaeth yn ddyhead afrealistig yn aml iawn. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynllun indemniad morgais ar gyfer hyd at 100,000 o dai newydd yn Lloegr, sy'n caniatáu i fenthycwyr ddarparu morgais o hyd at 95% gydag adeiladwyr tai, a'r Llywodraeth yn darparu indemniad.

**Mike Hedges:** Fel aelod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a gynhaliodd yr ymchwiliad, rwyf yn siarad o blaid yr argymhellion. Mae'n anffodus bod y Papur Gwyn ar dai wedi'i lansio rai wythnosau cyn yr adroddiad hwn, a gafodd ei gyhoeddi ei hun ym mis Ebrill cyn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn. Fodd bynnag, rwyf yn falch o nodi, yn natganiad y Gweinidog, bod gwaith yr ymchwiliad hwn wedi cyfrannu at ddatblygu'r Papur Gwyn ar dai.

Byddaf yn canolbwyntio ar bedair rhan o'r adroddiad. Yn gyntaf, argymhelliad 8 oedd:

'Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o ganiatáu i awdurdodau lleol godi mwy na 100 y cant o dreth gyngor ar eiddo sy'n wag yn yr hirdymor.'

Mae angen inni wahaniaethu rhwng yr eiddo hwnnw nad oes modd ei rentu neu ei werthu ac eiddo nad yw'r perchennog am ei rentu neu ei werthu. Mewn llawer o gymunedau, ceir tai mewn cyflwr da iawn y gellid eu gwerthu yn hawdd pe bai'r perchennog am wneud hynny, neu y gellid eu rhentu yn hawdd, ond sy'n cael eu gadael, ac sy'n

properties in certain locations in Wales that, even in times of housing shortage, can neither be rented nor sold. I would like not to see those who inherit these properties, often from parents and grandparents, being financially disadvantaged because of it.

However, there is a large number of properties in Wales, many in the lowest council tax bands, that have been left empty—some for several years, and some for decades. Each is a lost housing opportunity, and many are a blot on the street scene. They can attract rodents and anti-social activity, and they certainly cause upset among neighbours. I would like to see a council tax escalator on these properties. Many have owners who are living away, and the escalator would see the council tax go up a band every two years if no action was taken to try to sell the property. Again, I stress, if only to avoid being misquoted in the future, that I am referring to properties where the owners make no effort to market, sell or rent the property.

I also want to mention recommendation 13:

‘The Welsh Government should continue its work around co-operatives and land trusts, and report back to the Assembly on progress.’

As the Minister is more than well aware, I have previously published an article on co-operative housing and have spent a lot of time both here and in other places promoting co-operative housing. We are very different in Britain in terms of co-operative housing. There are strong co-operative housing sectors in countries as diverse as Sweden, Canada, Austria and Turkey. In Sweden, for example, two large co-operative organisations provide over 0.75 million houses, which equates to 18% of the population living in co-operative housing. In Canada, which began developing housing co-operatives in the early 1970s, there are now 400,000 people living in co-operative housing. Placing Britain’s co-operative housing in perspective, there is more co-operative housing in Vancouver than in the whole of Great Britain.

achosi pryder i’r cymdogion. Ceir eiddo mewn rhai lleoliadau yng Nghymru na ellir ei rentu na’i werthu, hyd yn oed mewn cyfnod lle y ceir prinder tai. Ni hoffwn weld y rhai sy’n etifeddu eiddo o’r fath, yn aml gan rieni a neiniau a theidiau, yn dioddef anfantais ariannol oherwydd hynny.

Fodd bynnag, ceir nifer fawr o eiddo yng Nghymru, y mae llawer ohonynt ym mandiau isaf y dreth gyngor, sydd wedi cael eu gadael yn wag—rhai am nifer o flynyddoedd, a rhai ers degawdau. Mae pob un yn gyfle a gollwyd o ran tai, ac mae llawer yn ddolur llygad. Gallant ddenu llygod a gweithgarwch gwrth-gymdeithasol, ac maent yn sicr yn achosi gofid ymysg cymdogion. Hoffwn weld system o gynyddu’r dreth gyngor ar eiddo o’r fath. Mae gan lawer ohonynt berchnogion sy’n byw i ffwrdd, a byddai’r system yn gweld y dreth gyngor yn codi band bob dwy flynedd os na chymerir unrhyw gamau i geisio gwerthu’r eiddo. Unwaith eto, rwyf yn pwysleisio, a hynny yn anad dim er mwyn osgoi cael fy nghamddyfynnu yn y dyfodol, fy mod yn cyfeirio at eiddo lle nad yw’r perchnogion yn gwneud unrhyw ymdrech i’w farchnata, ei werthu neu ei rentu.

Rwyf hefyd am sôn am argymhelliad 13:

‘Dylai Llywodraeth Cymru barhau â’i gwaith gyda mentrau cydweithredol ac ymddiriedolaethau tir, ac adrodd yn ôl ar gynnydd i’r Cynulliad.’

Fel y gŵyr y Gweinidog yn dda, rwyf wedi cyhoeddi erthygl yn y gorffennol ar dai cydweithredol ac wedi treulio llawer o amser yn y fan hon ac mewn mannau eraill yn hyrwyddo tai cydweithredol. Rydym yn wahanol iawn ym Mhrydain o ran tai cydweithredol. Ceir sectorau tai cydweithredol cryf mewn gwledydd mor amrywiol â Sweden, Canada, Awstria a Thwrci. Yn Sweden, er enghraifft, mae dau sefydliad cydweithredol mawr yn darparu dros 0.75 miliwn o dai, sy’n golygu bod 18% o’r boblogaeth yn byw mewn tai cydweithredol. Yng Nghanada, lle y dechreuwyd datblygu tai cydweithredol yn y 1970au cynnar, mae 400,000 o bobl yn byw mewn tai cydweithredol erbyn hyn. Gan roi tai cydweithredol Prydain mewn persbectif, mae mwy o dai cydweithredol yn Vancouver



nag ym Mhrydain Fawr gyfan.

I welcome the Minister's response to this recommendation and believe that it will open up further opportunities for housing development in Wales. However, we really need to take advantage of co-operative housing. Anybody who watches television programmes will be well aware of the number of co-operatives that get mentioned in comedy programmes and so on in New York.

Rwyf yn croesawu ymateb y Gweinidog i'r argymhelliad hwn ac yn credu y bydd yn esgor ar gyfleoedd pellach i ddatblygu tai yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gwir angen inni fanteisio ar dai cydweithredol. Bydd unrhyw un sy'n gwyllo rhaglenni teledu yn ymwybodol iawn o nifer y mentrau cydweithredol sy'n cael eu crybwyll mewn rhaglenni comedi ac yn y blaen yn Efrog Newydd.

The third recommendation that I would like to comment on is recommendation 6:

Y trydydd argymhelliad yr hoffwn wneud sylwadau amdano yw argymhelliad 6:

'The Welsh Government should progress the development of the database of publicly owned land as a matter of urgency.'

'Dylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â datblygiad y gronfa ddata o dir cyhoeddus ar fyrder.'

The Welsh Government, via a number of its bodies, owns substantial parcels of land across Wales, and local authorities are also major land owners. I am pleased to note the Minister's commitment to accelerating the land release programme, which in my opinion, more than any other Welsh Government activity, increases the number of homes developed in Wales. It is important to make land available in order for people to build on it.

Mae Llywodraeth Cymru, drwy nifer o'i chyrff, yn berchen ar ddarnau sylweddol o dir ledled Cymru, ac mae awdurdodau lleol hefyd yn berchnogion tir mawr. Rwyf yn falch o nodi ymrwymiad y Gweinidog i gyflymu'r rhaglen rhyddhau tir sydd, yn fy marn i, yn gwneud mwy nag unrhyw weithgaredd arall gan Lywodraeth Cymru, i gynyddu nifer y tai a ddatblygir yng Nghymru. Mae'n bwysig sicrhau bod tir ar gael er mwyn i bobl adeiladu arno.

The last recommendation that I want to highlight is recommendation 7:

Yr argymhelliad olaf yr wyf am dynnu sylw ato yw argymhelliad 7:

'The Welsh Government should continue to work closely with stakeholders and partners to develop guidance on Section 106 agreements for affordable housing that is acceptable to all parties to allow development to take place.'

'Dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i ddatblygu canllawiau ar gytundebau Adran 106 ar gyfer tai fforddiadwy sy'n dderbyniol i bawb er mwyn i'r datblygiadau hyn allu mynd rhagddynt.'

While the release of land will increase the housing stock, using section 106 agreements in conjunction with the release of land is a way to ensure that a proportion of the new housing stock is affordable.

Er y bydd rhyddhau tir yn cynyddu'r stoc tai, mae defnyddio cytundebau adran 106 ar y cyd â rhyddhau tir yn ffordd o sicrhau bod cyfran o'r stoc tai newydd yn fforddiadwy.

I also welcome a practice guide produced to help local authorities deliver affordable housing using section 106 initiatives. We have a housing crisis in Britain, and Wales is not immune from it. The more land that can be made available, and the more houses that can be built, the better the chances of people

Rwyf hefyd yn croesawu canllaw arfer a gynhyrchwyd i helpu awdurdodau lleol i ddarparu tai fforddiadwy gan ddefnyddio mentrau adran 106. Mae gennym argyfwng tai ym Mhrydain, ac nid yw Cymru yn ddiogel rhagddo. Po fwyaf o dir y gellir sicrhau ei fod ar gael, a pho fwyaf o dai y

being able to find a home of their own. Again, to state the obvious, along with food, housing is the second of the great needs of people and it is our duty to provide it.

I believe that this report and the White Paper offer a way forward for affordable housing in Wales, and I hope that the recommendations will be taken forward.

**Llyr Huws Gruffydd:** Rwyf innau'n croesawu'r adroddiad ac yn diolch i'r pwyllgor a'i swyddogion am eu gwaith. Mae'r Papur Gwyn 'Cartrefi i Gymru' wedi ymddangos hefyd, ac rwy'n siŵr y bydd yr adroddiad yn cyfrannu'n bwysig at y drafodaeth honno'n benodol, ond hefyd at y ddadl ehangach ar dai fforddiadwy.

Mae'n werth inni atgoffa ein hunain mai hawl sylfaenol yw tŷ. Mae ymateb y Gweinidog yn cydnabod hynny, ac mae tystiolaeth gan nifer o fudd-ddeiliaid a gyfrannodd hefyd yn ategu'r pwynt hwnnw. Dylai cartref fod yn hawl sylfaenol i bawb, ac nid dim ond yn faint i'r rhai sy'n gallu ei fforddio. Yn hynny o beth, mae'r farchnad wedi methu, oherwydd mae chwyddiant mewn prisiau tai ar draws y Deyrnas Unedig wedi gwneud mynd ar yr ysgol dai yn anodd. Mae cyfartaledd oedran prynwyr tro cyntaf bellach yn 37 oed. Roedd lefel y blaendal roedd ei angen ychydig flynyddoedd yn ôl yn ddigon isel i alluogi rhai pobl i gymryd morgeisi mawr, ond mae'r argyfwng ariannol wedi gwneud cael morgais yn amhosibl i'r rheini sy'n methu â fforddio talu blaendal o rhyw 25%. Gyda chyfartaledd pris tai i brynwr tro cyntaf o gwmpas rhyw £100,000, gallwch weld bod yn rhaid cael blaendal o £25,000. Mae hynny'n amhosibl i'r rhan fwyaf o bobl erbyn hyn.

Yn fwy na hynny, os yw prynwyr tro cyntaf yn llwyddo i sicrhau morgais, gallant fod mewn sefyllfa reit fregus am y blynyddoedd cyntaf o berchnogaeth os ydynt wedi cymryd morgais rhy fawr. Felly, mae'n hanfodol bod cynlluniau ar gael i helpu prynwyr tro cyntaf yn enwedig, a cheisio sicrhau bod morgeisi yn fforddiadwy, a bod hynny'n digwydd ochr yn ochr ag ymdrechion i gynyddu'r cyflenwad tai a hefyd i reoli chwyddiant

gellir eu hadeiladu, y gorau fydd gobaith pobl o allu dod o hyd i'w cartref eu hunain. Unwaith eto, gan nodi'r hyn sy'n amlwg, ynghyd â bwyd, tai yw'r ail o anghenion mawr pobl ac mae'n ddyletswydd arnom i'w darparu.

Credaf fod yr adroddiad hwn a'r Papur Gwyn yn cynnig ffordd ymlaen ar gyfer tai fforddiadwy yng Nghymru, a gobeithiaf y bydd yr argymhellion yn cael eu datblygu.

**Llyr Huws Gruffydd:** I welcome this report and thank the committee and its officials for their work. The 'Homes for Wales' White Paper has also appeared, and I am sure that this report will make an important contribution to that discussion specifically, but also to the broader debate on affordable homes.

It is worth reminding ourselves that a home is a fundamental right. The Minister's response acknowledges that, and there is evidence from many stakeholders who have contributed that also endorses that point. A home should be a fundamental right for all, and not a privilege for those who are able to afford it. In that respect, the market has failed, because the inflation in house prices throughout the UK has made getting on the housing ladder very difficult. The average age of first-time buyers is now 37 years. Just a few years ago, the level of deposit required was low enough to enable people to take out large mortgages, but the financial crisis has made getting a mortgage impossible for those who cannot afford a deposit of some 25%. With the average house price for first-time buyers around £100,000, you can see that you would need a deposit of £25,000. That is impossible for most people these days.

In addition to that, if first-time buyers do secure a mortgage, they can be in quite a vulnerable situation for the first few years of ownership if they have taken out a mortgage that is too large. Therefore, it is crucial that schemes are available to help first-time buyers especially, trying to ensure that mortgages are affordable, and that that happens hand in hand with efforts to increase the supply of housing and also to manage

mewn prisiau tai. Fel y dywedais, nid yw ei adael i'r farchnad yn gweithio. Mae nifer o'r problemau sy'n wynebu prynwyr tai y dyddiau hyn yn gallu cael eu holrhain i nifer o'r penderfyniadau polisi a wnaed gan Lywodraethau Ceidwadol a Llafur y Deyrnas Unedig.

Rwy'n falch bod y Gweinidog wedi derbyn yr holl argymhellion neu eu derbyn mewn egwyddor, ond mae ychydig o bwyntiau mwy beirniadol hefyd yn codi o'r adroddiad. Mae gofid amlwg ymhlith nifer am y gostyngiad sylweddol yn y gyllideb sydd ar gael i sybsideiddio adeiladu tai, ac nad yw'r Gweinidog efallai wedi rhoi esboniad digon argyhoeddedig o ddulliau amgen i ariannu prosiectau. Efallai fod teimlad hefyd na fydd tai cydweithredol yn cael effaith sylweddol ar y gwaith o ddarparu tai fforddiadwy, er gwaethaf cefnogaeth y Gweinidog i'r sector hwnnw—cefnogaeth rwy'n ei chanmol a'i chroesawu, gyda llaw; byddaf yn ymhaelaethu yn nes ymlaen ar hynny. Mae hefyd angen nodi bod teimlad ymhlith rhai a roddodd dystiolaeth nad yw'r Llywodraeth wedi diffinio'n ddigonol beth yw tai fforddiadwy, a bod angen gwell dealltwriaeth o'r hyn a olygir gan y term.

Ar adeg pan fo nifer gynyddol o bobl yn cael eu hunain mewn llety anaddas ac anfforddiadwy, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru nid yn unig yn gwarchod arian cyfalaf ar gyfer tai fforddiadwy, ond hefyd yn gwneud popeth o fewn ei grym i gynyddu'r lefelau buddsoddiad sydd ar gael i ddiwallu'r angen. Mae'r mwyafrif helaeth o dai fforddiadwy yn cael eu darparu gan grant cyfalaf. Y llynedd, darparwyd 86% o unedau tai fforddiadwy newydd yn y modd hwn, ond dros y blynyddoedd diwethaf, er gymaint sydd wedi cael ei gyflawni, nid yw darpariaeth tai fforddiadwy wedi ateb hanner y galw, yn ôl yr amcangyfrif, o'r angen mewn gwirionedd. Bydd y toriadau mewn cyllid rydym yn eu hwynebu dros y blynyddoedd i ddod yn gwneud y bwlch hwnnw yn lletach.

Ar yr un pryd, mae tystiolaeth y byddai cynyddu buddsoddiad cyfalaf tai yn cynorthwyo adferiad economaidd cyflymach yng Nghymru. Dangosodd astudiaeth gan Shelter Cymru fod pob £1 o fuddsoddiad

house-price inflation. As I said, leaving it to the market does not work. Many of the problems facing house buyers these days can be traced back to many of the policy decisions taken by Conservative and Labour Governments at a UK level.

I am pleased that the Minister has accepted or accepted in principle all the recommendations, but there are a few more critical points that arise from the report. There is clear concern among many about the significant reduction in the budget available to subsidise house building, and that the Minister has not given a convincing enough explanation of alternative methods of funding these projects. There may also be a feeling that co-operative housing will not have a significant impact on the provision of affordable housing, despite the Minister's support for that sector—support that I applaud and welcome; I will expand on that a little later. We also need to note the feeling among some of those who gave evidence that the Government has not adequately defined what affordable housing means, and that there needs to be a better understanding of what is meant by that term.

At a time when an increasing number of people find themselves in unsuitable and unaffordable accommodation, it is crucial that the Welsh Government not only protects capital funding for affordable housing but does everything within its power to increase the level of investment available to meet the demand. The vast majority of affordable housing is provided through capital grants. Last year, 86% of affordable housing units were provided in this way, but over the past few years, despite all that has been achieved, the provision of affordable housing has not met even half of the real demand according to the estimates. The cuts that we are facing in funding over the coming years will make that gap even wider.

Simultaneously, there is evidence that increasing capital investment in housing would hasten economic recovery in Wales. A study by Shelter Cymru has demonstrated that every £1 of public investment in housing

cyhoeddus mewn tai yn cynhyrchu £3.51 o allbwn economaidd dim ond o safbwynt yr hwb i'r sector adeiladu tai. Nid yw hynny'n cynnwys yr effeithiau cymdeithasol ac economaidd ehangach o fuddsoddi mewn tai. Felly, mae lle i wneud mwy ac i weithredu gydag ychydig mwy o frys i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn.

Soniais hefyd am yr elfen gydweithredol o safbwynt twf darpariaeth tai. Dim ond 0.6% o gartrefi'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu darparu drwy'r dull hwnnw ar hyn o bryd, ond rwy'n cefnogi ymdrechion y Gweinidog i gynyddu hynny. Rwyf hefyd yn cefnogi sylwadau Mike Hedges bod y 18% o'r tai sy'n cael eu darparu yn Sweden drwy'r sector cydweithredol yn nod y dylem geisio ei efelychu—rhywbeth inni ymgyrraedd tuag ato. Ni fydd yn diwallu'r anghenion ar ei ben ei hun, ond mae gan hynny gyfraniad pwysig i'w wneud.

**Peter Black:** I also welcome the fact that the Minister has accepted all of the recommendations in the report. This was a really important inquiry, and one that highlighted the huge task facing not just the Government but the entire Assembly. The Government's own research has identified that we need just over 14,000 homes to be built each year in Wales, of which a significant proportion should be affordable homes. For Janet Finch-Saunders's benefit, that is normally defined as one requiring public subsidy or assistance to build. However, we are already falling behind on that target—or, if it is not a target, that aspiration. The task is growing bigger simply by virtue of the fact that the private sector is not building the houses that this study shows we require of it either. I think that last year was possibly the year with the lowest number of houses built by the private sector or as affordable homes for many years. As a result, the action that the Welsh Government needs to take is not just urgent, but critical. However, we all have to accept that we are never going to have the resources to be able to catch up with the aspiration set out in that study.

For that reason, it is really important that the resources available to the Welsh Government

produces £3.51 in economic output, just in terms of the boost to the construction industry. That does not include the social and economic impacts in a broader sense in terms of housing investment. Therefore, there is room to do more and to take action with a little more haste to get to grips with some of these issues.

I also mentioned the co-operative element in terms of the provision of housing. Only 0.6% of homes in the UK are provided through the co-operative method at present, but I support the Minister's attempts to increase that. I am also supportive of the comments made by Mike Hedges earlier that the 18% of homes provided in Sweden through the co-operative method is a target for us to try to emulate—something for us to aspire to. It will not meet all of the needs on its own, but it has an important contribution to make.

**Peter Black:** Rwyf innau'n croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi derbyn pob un o'r argymhellion yn yr adroddiad. Roedd hwn yn ymchwiliad pwysig iawn, ac yn un a oedd yn tynnu sylw at y dasg enfawr sy'n wynebu nid yn unig y Llywodraeth ond y Cynulliad cyfan. Mae ymchwil y Llywodraeth ei hun wedi nodi bod angen i ychydig dros 14,000 o gartrefi gael eu hadeiladu bob blwyddyn yng Nghymru, a dylai cyfran sylweddol ohonynt fod yn dai fforddiadwy. Er budd Janet Finch-Saunders, caiff hynny ei ddiffinio fel rheol fel un y mae angen cymhorthdal cyhoeddus neu gymorth i'w adeiladu. Fodd bynnag, rydym eisoes ar ei hôl hi o safbwynt y targed hwnnw—neu, os nad yw'n darged, y dyhead hwnnw. Mae'r dasg yn tyfu yn syml am nad yw'r sector preifat chwaith yn adeiladu'r tai y mae'r astudiaeth hon yn dangos bod angen iddo wneud. Credaf mai y llynedd o bosibl oedd y flwyddyn y gwelwyd y nifer leiaf o dai yn cael eu hadeiladu gan y sector preifat neu fel cartrefi fforddiadwy am flynyddoedd lawer. O ganlyniad, mae'r camau y mae angen i Lywodraeth Cymru eu cymryd yn rhai brys, a hefyd yn hanfodol. Fodd bynnag, rhaid i bob un ohonom dderbyn na fydd gennym fyth yr adnoddau i allu dal i fyny â'r dyhead a nodir yn yr astudiaeth honno.

Am y rheswm hwnnw, mae'n bwysig iawn bod yr adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth

are used properly and to most effect. That is why, of all the recommendations in this report, recommendation 10 with regard to getting the best value from scarce public subsidy, exploring all the options for alternative sources of public funding, is one of the most important. I note in the Minister's response that he is already looking at a number of issues that I would have raised as part of this debate, such as intermediate rent, ensuring that we recognise that there are different levels of affordability depending on the people aspiring to move into rented property and adjusting the subsidy accordingly, accelerating land release—something that Mike Hedges referred to earlier—and supporting special-purpose vehicles. Again, the development at Ely bridge is a good example of that.

We also need to look at the mortgage subsidy issue and the mortgage indemnity scheme. When this response was put together, the Minister had not made her announcement on that. I am very pleased indeed that, as a result of the deal that the Welsh Liberal Democrats did with the Government, we now have a scheme in Wales that will help 1,500 people to get a mortgage to live in a new-build home. That is also important with regard to the construction industry, because it was getting to the point where the construction industry was beginning to question why it should build in Wales as opposed to on the Welsh border or in England. Clearly, the fact that this is available will encourage housebuilders to believe that, if they build new properties in Wales, there will be a market and people who will be able to buy those homes. Earlier, reference was made to the fact that the average age of someone taking on their first mortgage has now gone up to about 35, and that is very important. We need to tackle that because we need to ensure that people who can afford to repay a mortgage but cannot raise a deposit are going to be assisted to buy a home.

A very important point, which Janet Finch-Saunders referred to, is the role of local councils in this whole initiative. Clearly, local councils are the strategic housing

Cymru yn cael eu defnyddio'n briodol ac i'r effaith fwyaf. Dyna pam, o'r holl argymhellion yn yr adroddiad hwn, mai argymhelliad 10 ynghylch cael y gwerth gorau o gymhorthdal cyhoeddus prin, gan archwilio'r holl opsiynau ar gyfer ffynonellau eraill o gyllid cyhoeddus, yw un o'r rhai pwysicaf. Nodaf yn ymateb y Gweinidog ei fod eisoes yn edrych ar nifer o faterion y byddwn i wedi'u codi yn rhan o'r ddadl hon, fel rhent canolradd, gan sicrhau ein bod yn cydnabod bod gwahanol lefelau o fforddiadwyedd yn dibynnu ar y bobl sy'n awyddus i symud i mewn i eiddo rhent ac addasu'r cymhorthdal yn unol â hynny, cyflymu prosesau rhyddhau tir—rhywbeth y cyfeiriodd Mike Hedges ato yn gynharach—a chefnogi cyfryngau at ddibenion arbennig. Unwaith eto, mae'r datblygiad ym mhont Trelái yn enghraifft dda o hynny.

Mae angen inni edrych ar fater cymhorthdal ar gyfer morgeisi hefyd a'r cynllun indemniad morgais. Pan luniwyd yr ymateb hwn, nid oedd y Gweinidog wedi gwneud ei chyhoeddiad ar hynny. O ganlyniad i'r fargen a gafodd ei tharo rhwng Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a'r Llywodraeth, rwyf yn hynod falch bod gennym gynllun yng Nghymru bellach a fydd yn helpu 1,500 o bobl i gael morgais i fyw mewn cartref sydd wedi'i adeiladu o'r newydd. Mae hynny hefyd yn bwysig o ran y diwydiant adeiladu, oherwydd roedd yn cyrraedd y pwynt lle'r oedd y diwydiant adeiladu yn dechrau amau pam y dylai adeiladu yng Nghymru yn hytrach nag ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr neu yn Lloegr. Yn amlwg, bydd y ffaith bod hwn ar gael yn annog adeiladwyr tai i gredu, os byddant yn adeiladu tai newydd yng Nghymru, y bydd marchnad iddynt a phobl a fydd yn gallu prynu'r cartrefi hynny. Yn gynharach, cyfeiriwyd at y ffaith bod oedran rhywun sy'n cymryd ei forgais cyntaf bellach wedi codi i ryw 35 ar gyfartaledd, ac mae hynny'n bwysig iawn. Mae angen inni fynd i'r afael â hynny oherwydd mae angen inni sicrhau bod pobl sy'n gallu fforddio talu morgais, ond na allant godi blaendal, yn cael cymorth i brynu cartref.

Pwynt pwysig iawn y cyfeiriodd Janet Finch-Saunders ato, yw rôl cynghorau lleol yn yr holl fenter. Yn amlwg, cynghorau lleol yw'r awdurdod tai strategol, a'u rôl hwy yn eu

authority, and it is their role in their areas to drive forward the initiatives referred to in this report for the provision of affordable homes, ensuring that land is available for new-build houses, ensuring that the recyclable loan scheme for empty homes or the mortgage indemnity scheme are actually delivered to local people. That is why we need to see more consistency across all 22 local authorities with regard to how they take on this responsibility. It is true to say that, for many years, local councils have taken an inconsistent approach to their duty as a strategic housing authority, and that has not been satisfactory in many areas of Wales.

3.00 p.m.

The Minister needs to redouble his efforts, I think, and stress to local councils their responsibilities as strategic housing providers, particularly their responsibility to work in partnership with other providers in the area and with all the agencies concerned, recognising that they cannot do this themselves. That is a key role in this, and I hope that the Minister can respond to that as part of his response to the debate.

**Joyce Watson:** Devolution has taught us that health, education and housing are linked. If we can get housing right, we shall solve lots of our problems in health and education at the same time. That is why I am so pleased that the Minister has accepted all the committee's recommendations either in full or in principle. That is reflected in the housing White Paper that the Minister published last month. One of the key recommendations is that the Welsh Government should explore the possibility of allowing local authorities to charge more than 100% council tax on long-term empty properties. How much a council might charge and what the money would be spent on—whether it should be ring-fenced to deal with local housing need, for example—is up for discussion, but I hope that the principle, at least, can be agreed.

**Janet Finch-Saunders:** Thank you for allowing my intervention. Naturally, I was disappointed earlier when the Minister said that he had set targets, when the point that I

hardaloedd yw gyrru yn eu blaen y mentrau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn ar gyfer darparu tai fforddiadwy, sicrhau bod tir ar gael ar gyfer tai sy'n cael eu hadeiladu o'r newydd, a sicrhau bod y cynllun benthyciadau ailgylchadwy ar gyfer cartrefi gwag neu'r cynllun indemnïad morgais yn cael eu darparu i bobl leol. Dyna pam y mae angen inni weld mwy o gysondeb ar draws pob un o'r 22 awdurdod lleol o ran sut y maent yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn. Mae'n wir dweud, am flynyddoedd lawer, bod dull cynghorau lleol o weithredu o ran eu dyletswydd fel awdurdod tai strategol wedi bod yn anghyson, ac nid yw hynny wedi bod yn foddhaol mewn sawl rhan o Gymru.

Credaf fod angen i'r Gweinidog ddyblu ei ymdrechion, a phwysleisio wrth gynghorau lleol eu cyfrifoldebau fel darparwyr tai strategol, yn enwedig eu cyfrifoldeb i weithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill yn yr ardal a chyda'r holl asiantaethau perthnasol, gan gydnabod na allant wneud hyn ar eu pen eu hunain. Mae hynny'n rôl allweddol yn hyn, ac rwyf yn gobeithio y gall y Gweinidog ymateb i hynny yn rhan o'i ymateb i'r ddadl.

**Joyce Watson:** Mae datganoli wedi ein dysgu bod cysylltiad rhwng iechyd, addysg a thai. Os gallwn gael tai yn iawn, byddwn yn datrys llawer o'n problemau ym maes iechyd ac addysg ar yr un pryd. Dyna pam yr wyf mor falch bod y Gweinidog wedi derbyn pob un o argymhellion y pwyllgor naill ai'n llawn neu mewn egwyddor. Caiff hynny ei adlewyrchu yn y Papur Gwyn ar dai a gyhoeddwyd gan y Gweinidog fis diwethaf. Un o'r argymhellion allweddol yw y dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o ganiatáu i awdurdodau lleol godi mwy na 100% o'r dreth gyngor ar eiddo sy'n wag yn yr hirdymor. Mater i'w drafod eto yw faint y gallai cyngor ei godi a'r hyn y byddai'r arian yn cael ei wario arno—p'un a ddylai'r arian gael ei neilltuo i ymdrin â'r angen lleol am dai, er enghraifft—ond rwyf yn gobeithio y gallwn gytuno ar yr egwyddor, o leiaf.

**Janet Finch-Saunders:** Diolch ichi am ganiatáu fy ymyriad. Yn naturiol, roeddwn yn siomedig yn gynharach, pan ddywedodd y Gweinidog ei fod wedi gosod targedau, pan

was making—

**The Presiding Officer:** Order. This is an intervention on Joyce Watson, not the Minister.

**Janet Finch-Saunders:** Okay. Would you not say that we as a committee should perhaps have added a recommendation that the Minister set an individual target for each local authority? Across Wales, it is 5,000 houses, but that does not give a definitive figure for each local authority.

**Joyce Watson:** I shall not be answering that. I shall leave that to those who answer later. It was an intervention, I thought.

The White Paper also sets out how private landlords will, in effect, need a licence to let homes, and I welcome that particularly. With housing shortages and the continuing difficulties that people face in getting a mortgage, which the Minister has also agreed to look at, it is indeed a seller's market out there. I have said in previous debates that the majority of private landlords are good, and we should seek to engage with them. However, we also need enforcement against negligent or exploitative ones. A consumer rights approach would, I think, help tenants to avoid bad landlords and would encourage good ones. We know that, in the past, local authorities' engagement with private landlords has varied from county to county, but there is good practice. Carmarthenshire council, for example, has worked hard to improve conditions for private tenants, and at least 500 landlords have signed up to the council's accreditation scheme. That helps tenants to make informed choices about potential landlords. The proposed licensing system could, I think, deliver that right across Wales.

Moving to the committee's recommendation for a Wales-wide mortgage indemnity scheme, I welcome the Minister's commitment to explore a support scheme for people who can afford mortgage repayments, but not the high deposits required. That

mai'r pwynt yr oeddwn yn ei wneud—

**Y Llywydd:** Trefn. Ymyriad yw hwn ar Joyce Watson, nid y Gweinidog.

**Janet Finch-Saunders:** Iawn. Oni fyddech yn dweud y dylem ni fel pwyllgor fod wedi ychwanegu argymhelliad bod y Gweinidog yn gosod targed unigol ar gyfer pob awdurdod lleol o bosibl? Ledled Cymru, mae'n 5,000 o dai, ond nid yw hynny'n rhoi ffigur pendant ar gyfer pob awdurdod lleol.

**Joyce Watson:** Ni fyddaf yn ateb y pwynt hwnnw. Gadawaf hynny i'r rhai a fydd yn ateb yn ddiweddarach. Roeddwn wedi meddwl mai ymyriad ydoedd.

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn nodi y modd y bydd angen i landlordiaid preifat, i bob pwrpas, gael trwydded i osod cartrefi, a chroesawaf hynny yn arbennig. Gyda phrinder tai a'r anawsterau parhaus y mae pobl yn eu hwynebu o ran cael morgais, sy'n fater y mae'r Gweinidog wedi cytuno i edrych arno hefyd, mae'n wir bod y farchnad yn un sy'n ffafrio gwerthwyr. Rwyf wedi dweud mewn dadleuon blaenorol bod y rhan fwyaf o landlordiaid preifat yn dda, ac y dylem geisio ymgysylltu â hwy. Fodd bynnag, mae hefyd angen cymryd camau gorfodi yn erbyn rhai esgeulus neu rai sy'n achub mantais. Credaf y byddai dull sy'n seiliedig ar hawliau defnyddwyr yn helpu tenantiaid i osgoi landlordiaid drwg ac yn annog rhai da. Gwyddom fod ymgysylltiad awdurdodau lleol â landlordiaid preifat wedi amrywio o sir i sir yn y gorffennol, ond mae arfer da yn bodoli. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, er enghraifft, wedi gweithio'n galed i wella amodau ar gyfer tenantiaid preifat, ac mae o leiaf 500 o landlordiaid wedi ymuno â chynllun achredu'r cyngor. Mae hynny'n helpu tenantiaid i wneud dewisiadau gwybodus am landlordiaid posibl. Credaf y gallai'r system drwyddedu arfaethedig gyflawni hynny ledled Cymru.

Gan symud at argymhelliad y pwyllgor ar gyfer cynllun indemnïad morgais Cymru gyfan, rwyf yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i ystyried cynllun cymorth i bobl sy'n gallu fforddio ad-dalu morgais ond na allant fforddio'r blaendal mawr sy'n ofynnol.

would help struggling aspiring first-time buyers particularly. However, in light of welfare reforms, I am deeply concerned by reports that some buy-to-let mortgage loan terms and conditions do not allow landlords to let properties to tenants who are on any kind of benefit or income support. I urge the Minister and the Welsh Government to challenge lenders on that.

Continuing on the theme of welfare reform, the Minister in his response to the committee quite rightly states that housing benefit is not devolved. However, the impact of those changes will be felt here in Wales, and I commend the work that he is undertaking to mitigate the worst effects of those benefit changes. As we know, and it has been mentioned today, since January, single people under the age of 35 have had their housing benefit restricted to the rate for a single room in a shared house. Approximately 4,000 young people in Wales are consequently worse off to the tune of £24 a week on average. From April 2013, social housing tenants will have their housing benefit cut by £40 a month if they have a spare room and by £70 if they have two. Will those people be rehoused if they cannot afford to make up the shortfall from their own pockets? The Minister will be aware that housing organisations are warning that there are simply not enough suitable homes to rehouse all the people who will receive letters telling them that they may have to move to smaller properties. In responding to this debate, can the Minister please clarify whether we yet know how many people will be affected by that situation in Wales and whether there has been an audit of suitable properties for Welsh households classified as under-occupiers under the incoming system?

**Rhodri Glyn Thomas:** Rwy'n croesawu'n fawr yr adroddiad hwn yn dilyn yr ymchwiliad a llongyfarch Cadeirydd y pwyllgor, Ann Jones, ar ei gwaith yn llywyddu'r trafodaethau. Diolch hefyd i'r ysgrifenyddiaeth am ei chefnogaeth ac i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, oherwydd heb eu gwaith hwy a'r cyngor arbenigol a

Byddai hynny yn arbennig yn helpu prynwyr tro cyntaf arfaethedig sy'n ei chael hi'n anodd. Fodd bynnag, yng ngoleuni diwygiadau lles, rwyf yn bryderus iawn am adroddiadau nad yw telerau ac amodau rhai benthyciadau morgais prynu-i-osod yn caniatáu i landlordiaid osod eiddo i denantiaid sydd ar unrhyw fath o fudd-dal neu gymhorthdal incwm. Anogaf y Gweinidog a Llywodraeth Cymru i herio benthycwyr ar hynny.

Gan barhau ar thema diwygio lles, dywed y Gweinidog yn ei ymateb i'r pwyllgor, a hynny'n gywir ddigon, nad yw budd-dal tai yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Fodd bynnag, bydd effaith y newidiadau hynny i'w theimlo yma yng Nghymru, a chymeradwyaf y gwaith y mae'n ei wneud i liniaru effeithiau gwaethaf y newidiadau hynny i'r budd-dal. Fel y gwyddom, ac mae wedi ei grybwyll heddiw, ers mis Ionawr, mae pobl senl dan 35 oed wedi gweld eu budd-dal tai yn cael ei gyfyngu i'r gyfradd ar gyfer ystafell senl mewn tŷ a rennir. O ganlyniad mae tua 4,000 o bobl ifanc yng Nghymru yn waeth eu byd, o tua £24 yr wythnos ar gyfartaledd. O fis Ebrill 2013, bydd tenantiaid tai cymdeithasol yn gweld eu budd-dal tai yn gostwng £40 y mis os oes ganddynt ystafell sbâr a £70 os oes ganddynt ddwy. A fydd y bobl hynny'n cael eu hailgartrefu os na allant fforddio gwneud yn iawn am y diffyg o'u pocedi eu hunain? Bydd y Gweinidog yn ymwybodol bod sefydliadau tai yn rhybuddio nad oes digon o gartrefi addas ar gael i ailgartrefu'r holl bobl a fydd yn cael llythyrau yn dweud wrthynt y gallai fod yn rhaid iddynt symud i eiddo llai. Wrth ymateb i'r ddatl hon, a all y Gweinidog egluro a ydym yn gwybod eto faint o bobl y bydd y sefyllfa honno'n effeithio arnynt yng Nghymru ac a gynhaliwyd archwiliad o eiddo a fyddai'n addas ar gyfer aelwydydd Cymru yr ystyrir bod eu cartref yn rhy fawr ar eu cyfer dan y system a gaiff ei chyflwyno?

**Rhodri Glyn Thomas:** I warmly welcome this report following the inquiry and congratulate the Chair of the committee, Ann Jones, for her work in steering the discussions. I also thank the secretariat for its support and the Members' Research Service, because without their work and the expert advice that we received, it would not have



gawsom, ni fyddai'r pwyllgor wedi gallu ymgymryd â'r ymchwiliad hwn fel y gwnaethpwyd. Mae'n ymchwiliad cynhwysfawr sy'n codi ystod eang o gwestiynau. Yr hyn sy'n galonogol yw bod cefnogaeth drawsbleidiol i hyn. Yn wir, mae'r Gweinidog wedi derbyn yr argymhellion i gyd.

Nid wyf yn mynd i ailadrodd y cwestiynau sydd wedi codi eisoes, ond mae tri maes sydd angen esboniad pellach gan y Gweinidog. Mae ei gyllideb, fel pob cyllideb arall, wedi cael ei heffeithio gan y toriadau gan y glymblaid yn San Steffan a bydd yr arian sydd ar gael ar gyfer y maes hwn yn cael ei effeithio. Mae llawer ohono yn arian cyfalaf a dyna le mae'r toriadau mwyaf eithafol wedi bod. Mae'r Gweinidog wedi cyfeirio, ond yn gyffredinol iawn, at ffynonellau ariannol eraill. A yw'n gallu cynnig ychydig mwy o eglurdeb i ni'r prynhawn yma ynglŷn â'r modd y gall ef weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r broblem ac i sicrhau bod adnoddau ariannol digonol yno?

Codais gwestiwn gyda chi, Weinidog, yn gynharach ynglŷn â thai fforddiadwy. Nid oes gan y Llywodraeth, hyd y gwelaf, ddiffiniad manwl penodol o dai fforddiadwy. Nid wyf yn gwybod a fydd y Gweinidog am geisio cynnig y fath ddiffiniad i ni'r prynhawn yma. Nid wyf am eiliad yn awgrymu bod hynny'n waith rhwydd, ond rwy'n credu bod angen y math hwnnw o ddiffiniad. Yn ogystal, sut yn union fyddwn wedyn yn sicrhau bod y tai fforddiadwy hynny sydd yn cael eu hadeiladu yn ateb y galw lleol ac wedi eu lleoli mewn safleoedd cymwys? Bydd angen i'r teuluoedd hyn fod mewn sefyllfa i fanteisio ar drafndiaeth gyhoeddus, er enghraifft, oherwydd eu sefyllfa ariannol. Hwyrach y bydd eu gallu i ddefnyddio trafndiaeth breifat yn gyfyngedig, gydag un car yn unig yn y teulu, neu hyd yn oed dim car o gwbl. Felly, nid yw adeiladu tai fforddiadwy mewn man lle nad oes mynediad i wasanaethau cyhoeddus yn fawr o werth. I deuluoedd, wrth gwrs, mae ysgolion, gwasanaethau meddygol a phethau eraill yn eithriadol o bwysig. Sut mae'r Gweinidog yn gweld yr angen i edrych ar hyn mewn ffordd gynhwysfawr a sicrhau bod y galw yn cael ei ateb?

been possible for the committee to have undertaken this inquiry in the way that it was done. It is a comprehensive inquiry and it raises a wide range of questions. What is heartening is that there is cross-party support for this. In fact, the Minister has accepted all the recommendations.

I will not repeat the questions that have already been raised, but there are three areas that require further clarification from the Minister. His budget, like every other budget, has been affected by the cuts imposed by the Westminster coalition and the funding that is available for this area will be affected. Much of it is capital funding, and that is where the most extreme cuts have taken place. The Minister has referred, but very generally, to alternative sources of funding. Can he give us slightly more clarification this afternoon on the way in which he can collaborate with partners to address the problem and to ensure that adequate financial resources are available?

I raised a question with you earlier, Minister, regarding affordable housing. The Government, as far as I can see, has no specific detailed definition of affordable housing. I do not know whether the Minister will wish to propose such a definition to us this afternoon. I am not for a minute suggesting that that would be an easy task, but such a definition is needed. In addition, how exactly will we ensure that the affordable houses that are built meet the local demand and are located in suitable locations? These families will have to be in a position to take advantage of public transport, for example, because of their financial situation. Their ability to use private transport might be restricted, as they might have only one car or even no car at all. So, building affordable houses in a location where there is no access to public services is hardly helpful. For families, of course, schools, medical services and other things are extremely important too. How does the Minister see the need to look at this in a comprehensive way to ensure that the demand is met?

Yng nghyd-destun y tai hyn hefyd, a wnaiff ef roi sicrwydd i ni'r prynhawn yma bod ei adran un ai wedi neu yn bwriadu edrych yn fanwl ar sut yn union y mae pobl sydd berchen ar y tai hyn yn llwyddo i gael morgeisi? Roedd, ac mae o hyd, o ran hynny, cynllun digon derbyniol o ran hawl cynllunio lleol yn sir Gaerfyrddin. Mae'n mynd i'r afael â'r bobl hynny nad ydynt yn gallu cystadlu yn y farchnad ac y mae'n eu galluogi i adeiladu y tu allan i'r cynllun datblygu unedol, ond oherwydd ei union eiriad, nid oedd pobl yn gallu cael mynediad i forgeisi ac yn sicr nid oeddynt yn cael y cyfle i edrych am forgais cystadleuol. Gallai hynny arwain at sefyllfa lle buasent yn gorfod talu mwy am eu morgais na phe bai ganddynt y cyfle i fynd o un benthyciwr i'r llall yn chwilio am forgais.

Felly, rwy'n croesawu'n fawr yr ymchwiliad. Mae'n waith pwysig. Rwy'n croesawu'n fawr y ffaith bod y Gweinidog wedi ymateb mor gadarnhaol i'r argymhellion. Y cwestiwn rwy'n ei ofyn, ac nid yw'n gwestiwn rhwydd, Weinidog, yw: sut yn union y byddwch yn gweithredu yn y mater hwn i sicrhau bod y galw yn cael ei ateb?

**Kenneth Skates:** I think that many people will agree that the provision of good quality and affordable housing will be one of the main delivery indicators upon which the Welsh Government will be judged over the next four years. That is why the committee's inquiry was so important. I, too, would like to thank all those who gave evidence. In particular, I would like to thank the Chair, Ann Jones, who provided vital guidance at all times.

As our report makes clear, while the complexity and scale of the challenge in this area is not being made any easier by the crisis in capitalism over the last five years, it certainly is not the cause of it. The shortage of affordable housing is a policy problem that pre-dates that crisis. The rise in land prices over the last decade and the sharp rise in house prices made the goal of home ownership a more distant aspiration for many people long before Lehman Brothers went bust.

In the context of these houses too, can he give us an assurance this afternoon that his department either has or intends to look in detail at how exactly the people who own these houses succeed in securing mortgages? There was, and, in fact, it still exists, an acceptable enough scheme as regards local planning consent in Carmarthenshire. It addresses the plight of those people who cannot compete in the market and enables them to build outwith the unitary development plan, but because of its exact wording, people could not access mortgages, and certainly did not get the opportunity to seek a competitive mortgage. That could lead to a situation in which they would have to pay more for their mortgage than if they had had the opportunity to shop around for it.

Therefore, I greatly welcome the inquiry. It is an important piece of work. I very much welcome the fact that the Minister has responded so positively to the recommendations. The question that I am posing, Minister, and it is not an easy question to answer, is: how exactly will you act on this matter to ensure that the demand is met?

**Kenneth Skates:** Credaf y bydd llawer o bobl yn cytuno y bydd darparu tai fforddiadwy o ansawdd da yn un o'r prif ddangosyddion cyflawni y caiff Llywodraeth Cymru ei mesur yn eu herbyn dros y pedair blynedd nesaf. Dyna pam yr oedd ymchwiliad y pwyllgor mor bwysig. Hoffwn innau ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth. Yn arbennig, hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd, Ann Jones, a roddodd arweiniad hollbwysig bob amser.

Fel y mae ein hadroddiad yn egluro, er nad yw'r argyfwng o safbwynt cyfalafiaeth dros y pum mlynedd diwethaf yn gwneud dim i leihau cymhlethdod a maint yr her yn y maes hwn, yn sicr nid dyna a'i hachosodd. Mae prinder tai fforddiadwy yn broblem polisi sy'n dyddio'n ôl i gyfnod cyn yr argyfwng hwnnw. Mae'r cynnydd mewn prisiau tir dros y degawd diwethaf a'r cynnydd sydyn mewn prisiau tai yn golygu bod y nod o fod yn berchen ar gartref yn ddyhead mwy pell i lawer o bobl ymhell cyn i Lehman Brothers fynd i'r wal.

As the report makes clear, long waiting lists for affordable housing have existed right across Wales for some time. Indeed, it was estimated that 80,000 households were waiting for social rented housing in April 2010, with more than 14,000 new homes needed every year for the next 15 years, and that is before we take into account the current unmet need. Of course, there were post-war societal changes that caused this, and population growth created an increased demand that many communities failed to meet with the supply of affordable homes. However, where the economic crash has had an important added impact is the dramatic squeeze on access to credit. As the report makes clear, mortgage finance has proved increasingly difficult to obtain because of income freezes and rising living costs, essentially raising the bar of mortgage affordability criteria by which lending is now agreed. This will only worsen with ongoing austerity measures. That is why the Welsh Government's target of building 7,500 new affordable homes by 2016 and bringing 5,000 empty properties back into use is to be applauded.

Tackling the demand for affordable housing should be a high priority for the Government, not only because of the desperate need for homes in Wales, but because every pound invested in creating homes is an investment in training, skills, employment and long-term economic and community regeneration. Key to the report were the recommendations that we wanted to make on the availability of land, the importance of the planning process and the urgent need to get more empty properties back into use. The availability of land, primarily publicly owned land, was raised by a number of the witnesses. Using public land as a subsidy to build affordable housing was highlighted as a central element of the overall solution to building more affordable homes. It became clear to us that, while we need to identify and put into use more publicly owned land, it was perhaps a little surprising to learn how much land that already has planning permission is not being used for development. While I can understand the difficulties that have been

Fel y mae'r adroddiad yn egluro, mae rhestrau aros hir am dai fforddiadwy wedi bodoli ledled Cymru ers peth amser. Yn wir, amcangyfrifwyd bod 80,000 o aelwydydd yn aros am dai rhent cymdeithasol ym mis Ebrill 2010, a bod angen mwy na 14,000 o gartrefi newydd bob blwyddyn am y 15 mlynedd nesaf, a hynny cyn inni ystyried yr angen nad yw wedi'i ddiwallu ar hyn o bryd. Wrth gwrs, cafwyd newidiadau cymdeithasol ar ôl y rhyfel a achosodd hyn, a chreodd twf yn y boblogaeth ragor o alw y methodd llawer o gymunedau â'i fodloni trwy ddarparu tai fforddiadwy. Fodd bynnag, un agwedd y mae'r chwalfa economaidd wedi cael effaith ychwanegol bwysig arni yw'r wasgfa ddramatig ar fynediad i gredyd. Fel y mae'r adroddiad yn egluro, bu'n fwyfwy anodd cael gafael ar gyllid morgais oherwydd bod incwm pobl wedi'i rewi a chostau byw wedi cynyddu ac mae hynny, i bob pwrpas, wedi codi'r meini prawf sy'n pennu a yw morgais yn fforddiadwy a ddefnyddir i gytuno ar fenthyciadau yn awr. Dim ond gwaethygu wnaiff hyn gyda mesurau cynilo parhaus. Dyna pam y dylid cymeradwyo targed Llywodraeth Cymru o adeiladu 7,500 o gartrefi fforddiadwy newydd erbyn 2016 ac aildechrau defnyddio 5,000 o eiddo gwag.

Dylai'r gwaith o fynd i'r afael â'r galw am dai fforddiadwy fod yn flaenoriaeth uchel i'r Llywodraeth, nid yn unig oherwydd yr angen dybryd am gartrefi yng Nghymru, ond oherwydd bod pob punt a fuddsoddir mewn creu cartrefi yn fuddsoddiad mewn hyfforddiant, sgiliau, cyflogaeth ac adfywio economaidd a chymunedol hirdymor. Yn allweddol i'r adroddiad roedd yr argymhellion yr oeddem am eu gwneud ar argaeledd tir, pwysigrwydd y broses gynllunio a'r angen brys i aildechrau defnyddio mwy o eiddo gwag. Cyfeiriodd nifer o'r tystion at argaeledd tir, ac yn bennaf tir cyhoeddus. Tynnwyd sylw at ddefnyddio tir cyhoeddus fel cymhorthdal i adeiladu tai fforddiadwy fel elfen ganolog o'r ateb cyffredinol i adeiladu mwy o dai fforddiadwy. Daeth yn amlwg inni, er bod angen inni nodi rhagor o dir cyhoeddus a'i ddefnyddio, ei fod efallai yn rhywfaint o syndod clywed faint o dir sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio ond nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer datblygu. Er y gallaf

caused by the economic downturn and the credit squeeze faced by commercial developers, it was the committee's view that there should be an important role for the Welsh Government in working with local planning authorities and with developers, lenders and housing associations to assess and record the exact amount of such land that is available and identify the reasons why it is currently not being utilised.

In terms of planning, many witnesses identified specific issues around section 106 agreements, particularly where conditions of occupancy for section 106 properties are causing some lenders to be reluctant to offer credit. I would also encourage the Minister to look at the way in which section 106 agreements are enforced. A recent investigation that I undertook highlighted that the amount outstanding from section 106 agreements with private developers due to Wrexham County Borough Council was nearly £450,000. In these straitened economic times, it is vital that councils are able to collect the money that they are legally entitled to receive. This type of funding stream is often used for the infrastructure around affordable housing, such as roads and play areas. I ask that the Welsh Government helps councils to collect the outstanding moneys that are owed and, if interest payments are due, that these are paid in full, too.

Finally, on the issue of empty homes, we now know that as many as 24,000 empty properties exist in the private sector alone. Although the Welsh Tenants Federation highlighted in its evidence the problems that councils encounter in accessing finance to refurbish their empty homes, I know from my own discussions and through correspondence with the Minister that this is an issue that is already high on his agenda.

3.15 p.m.

I welcome the extra £5 million that he has already pledged for local authorities to develop a new loan scheme to help owners bring properties back into use. I would encourage him to look at my own local

ddeall yr anawsterau a achoswyd gan y dirywiad economaidd a'r wasgfa gredyd y mae datblygwyr masnachol yn eu hwynebu, barn y pwyllgor oedd y dylai Llywodraeth Cymru chwarae rôl bwysig wrth weithio gydag awdurdodau cynllunio lleol a chyda datblygwyr, benthycwyr a chymdeithasau tai i asesu a chofnodi faint yn union o dir o'r fath sydd ar gael a nodi'r rhesymau pam nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

O ran cynllunio, roedd llawer o dystion wedi nodi problemau penodol sy'n ymwneud â chytundebau adran 106, yn enwedig lle y mae amodau meddiannaeth ar gyfer eiddo adran 106 yn achosi i rai benthycwyr fod yn amharod i gynnig credyd. Byddwn hefyd yn annog y Gweinidog i edrych ar y modd y mae cytundebau adran 106 yn cael eu gorfodi. Tynnodd ymchwiliad diweddar a gynhaliats sylw at y ffaith bod bron i £450,000 yn ddyledus i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam o gytundebau adran 106 gyda datblygwyr preifat. Yn y cyfnod hwn o gyni economaidd, mae'n hanfodol bod cynghorau yn gallu casglu'r arian y mae ganddynt hawl gyfreithiol i'w gael. Mae'r math hwn o ffrwd ariannu yn cael ei ddefnyddio yn aml ar gyfer y seilwaith sy'n gysylltiedig â thau fforddiadwy, megis ffyrdd a mannau chwarae. Gofynnaf i Lywodraeth Cymru helpu cynghorau i gasglu'r arian sy'n ddyledus iddynt ac, os oes taliadau llog yn ddyledus, bod y rhain yn cael eu talu'n llawn hefyd.

Yn olaf, o ran cartrefi gwag, rydym bellach yn gwybod bod cynifer â 24,000 o eiddo gwag yn bodoli yn y sector preifat yn unig. Er bod Ffederasiwn Tenantiaid Cymru wedi tynnu sylw yn ei dystiolaeth at y problemau y mae cynghorau yn dod ar eu traws wrth geisio cael mynediad i gyllid i adnewyddu eu cartrefi gwag, gwn o'm trafodaethau fy hun a thrwy ohebiaeth â'r Gweinidog fod hwn yn fater sydd eisoes yn uchel ar ei agenda.

Croesawaf y £5 miliwn ychwanegol y mae eisoes wedi'i addo i awdurdodau lleol i ddatblygu cynllun benthyciadau newydd i helpu perchnogion i aildechrau defnyddio eiddo. Byddwn yn ei annog i edrych ar fy

authority in Wrexham, which has a good track record of bringing empty homes back into use. Perhaps it could be used as a model of best practice for other local authorities. As a committee—

**The Presiding Officer:** Order. Your time is up. I now call on the Minister, Huw Lewis, to speak on behalf of the Government.

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** I would like to put on record my appreciation of the hard work carried out by the committee in collecting evidence and presenting its findings in its report. I welcome the committee's deliberations and its recommendations. The recommendations contained in the report fit closely with my policy direction, and I am pleased to be able to accept all of them in full or in principle. Specifically, I would like to note the work of this inquiry in relation to how it has helped to inform the content of the housing White Paper, which sets out our vision and proposals for action over the term of Government.

Ann Jones, as Chair of the committee, welcomed my positive response, and I have to say to Ann that it was easy to give. As I said, there is a remarkable degree of consensus between Members here, across parties, when it comes to identifying the problems in terms of quality, affordability, and supply in all housing sectors. In the spirit of cross-party co-operation, let me say this: housing is, and will be, a defining issue for this Assembly. That is a point on which I agree with Janet Finch-Saunders. However, let me also say this: it will be a defining issue for the UK Government too. Its actions in relation to the pressures that householders will be put under over the next few years will be critical in making or breaking the ability of any social actor in the housing field to succeed.

Mike Hedges, Llyr Huws Gruffydd, Peter Black, Joyce Watson, Rhodri Glyn Thomas and Ken Skates made very perceptive observations about the importance of empty properties. The need to push forward with a sense of urgency as regards co-operative

awdurdod lleol fy hun yn Wrecsam, sydd â hanes da o ailddechrau defnyddio cartrefi gwag. Efallai y gellid ei ddefnyddio fel model arfer gorau ar gyfer awdurdodau lleol eraill. Fel pwyllgor—

**Y Llywydd:** Trefn. Mae eich amser ar ben. Galwaf yn awr ar y Gweinidog, Huw Lewis, i siarad ar ran y Llywodraeth.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Hoffwn gofnodi fy ngwerthfawrogiad o'r gwaith caled a wnaed gan y pwyllgor wrth gasglu tystiolaeth a chyflwyno ei ganfyddiadau yn ei adroddiad. Rwyf yn croesawu trafodaethau'r pwyllgor a'i argymhellion. Mae'r argymhellion a geir yn yr adroddiad yn cyd-fynd yn agos â'm cyfeiriad polisi, ac rwyf yn falch o allu derbyn pob un ohonynt yn llawn neu mewn egwyddor. Yn benodol, hoffwn nodi gwaith yr ymchwiliad hwn mewn perthynas â'r modd y mae wedi helpu i ddylanwadu ar gynnwys y Papur Gwyn ar dai, sy'n nodi ein gweledigaeth a'n cynigion ar gyfer gweithredu dros dymor y Llywodraeth.

Croesawodd Ann Jones, fel Cadeirydd y pwyllgor, fy ymateb cadarnhaol, ac mae'n rhaid imi ddweud wrth Ann ei bod yn hawdd ymateb felly. Fel y dywedais, ceir cryn dipyn o gonsensws rhwng Aelodau yn y fan hon, ar draws y pleidiau, pan ddaw i nodi'r problemau o ran ansawdd, fforddiadwyedd a chyflenwad ym mhob sector tai. Yn ysbryd cydweithredu trawsbleidiol, gadewch imi ddweud hyn: bod tai yn fater diffiniol i'r Cynulliad hwn ac y bydd yn parhau felly. Mae hwn yn bwynt yr wyf yn cytuno â Janet Finch-Saunders yn ei gylch. Fodd bynnag, gadewch imi hefyd ddweud hyn: bydd yn fater diffiniol i Lywodraeth y DU hefyd. Bydd ei chymau gweithredu o ran y pwysau a roddir ar ddeiliaid tai dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn allweddol o safbwynt gallu neu anallu unrhyw weithredwr cymdeithasol ym maes tai i lwyddo.

Gwnaeth Mike Hedges, Llyr Huws Gruffydd, Peter Black, Joyce Watson, Rhodri Glyn Thomas a Ken Skates sylwadau treiddgar iawn am bwysigrwydd eiddo gwag. Gwnaed pwyntiau allweddol am yr angen i frw ymlaen gydag ymdeimlad o frys yng

housing, and the need to have a sense of urgency as regards the release of land, and how that impacts on our ability to keep on building and to keep on building affordable property, in particular, were key points made. Joyce Watson was quite right to underscore the essential role of the private rented sector, and the need to be wary of the benefit changes that are coming our way. I would like to respond specifically to one of Joyce's points by saying that we do not yet know precisely what impact such things as so-called under-occupation will have. I know that there are housing associations out there that are trying desperately to get a grip on the implications that UK Government reform will have for them and their tenants. The one thing that everyone is agreed upon is that it will be bad. It will be extraordinarily, epochally bad. It is something that we all need to be concerned about, if we are concerned about our constituents at all. Rhodri Glyn Thomas mentioned the degree of cross-party support that exists. I welcome it wholeheartedly, and he is right to say it. I hope that we can maintain that consensus across the parties as much as we possibly can through the pressured time that is ahead of us.

I would like to take this opportunity to summarise briefly three areas that demonstrate the Government's commitment to continuing the delivery of affordable homes. They respond to many of the issues raised by Members and in the committee report. First, we have set a target of delivering 7,500 affordable homes and bringing 5,000 empty properties back into use over the term of this Government. That much-needed housing will not only satisfy many people's housing requirements, but it will also create jobs and training opportunities and will help stimulate the economy. It represents doing more with less.

Secondly, alongside continuing to direct capital investment through the social housing grant programme, we will innovate and make budgets go further. That is something that several Members have mentioned this afternoon as being important. We will do such things as provide flexibility in grant rates to provide different rent models, which Peter Black mentioned. Continued support of

ngghyswllt tai cydweithredol, a'r angen i fod ag ymdeimlad o frys yng nghyswllt rhyddhau tir, a sut y mae hynny'n effeithio ar ein gallu i barhau i adeiladu ac i barhau i adeiladu eiddo fforddiadwy yn arbennig. Roedd Joyce Watson yn hollol iawn i danlinellu rôl hanfodol y sector rhentu preifat, a'r angen i fod yn wylidwrus o'r newidiadau sy'n cael eu cyflwyno i fudd-daliadau. Hoffwn ymateb yn benodol i un o bwyntiau Joyce drwy ddweud nad ydym yn gwybod eto pa effaith yn union a gaiff pethau megis tanfeddiannu fel y'i gelwir. Gwn am gymdeithasau tai sy'n gwneud pob ymdrech posibl i geisio deall y goblygiadau y bydd diwygiadau Llywodraeth y DU yn eu cael iddynt hwy a'u tenantiaid. Yr un peth y mae pawb yn cytuno yn ei gylch yw y bydd yn ddrwg. Bydd yn eithriadol, ac yn hanesyddol o ddrwg. Mae'n rhywbeth y mae angen i bob un ohonom bryderu yn ei gylch, os ydym yn pryderu am ein hetholwyr o gwbl. Soniodd Rhodri Glyn Thomas am lefel y gefnogaeth drawsbleidiol sy'n bodoli. Rwyf yn ei chroesawu'n galonnog, ac mae'n iawn i ddweud hynny. Gobeithio y gallwn gynnal y consensws hwnnw ar draws y pleidiau gymaint ag sy'n bosibl drwy'r cyfnod o bwysau sydd o'n blaenau.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i grynhoi yn fyr dri maes sy'n dangos ymrwymiad y Llywodraeth i barhau i ddarparu tai fforddiadwy. Maent yn ymateb i nifer o'r materion a godwyd gan Aelodau ac yn adroddiad y pwyllgor. Yn gyntaf, rydym wedi gosod targed o ddarparu 7,500 o dai fforddiadwy ac ailddechrau defnyddio 5,000 o dai gwag dros dymor y Llywodraeth hon. Yn ogystal â bodloni gofynion tai llawer o bobl, bydd y tai hynny, y mae mawr eu hangen, hefyd yn creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi a byddant yn helpu i roi hwb i'r economi. Mae'n golygu gwneud mwy gyda llai.

Yn ail, ochr yn ochr â pharhau i gyfeirio buddsoddiad cyfalaf drwy'r rhaglen grant tai cymdeithasol, byddwn yn arloesi ac yn gwneud i gyllidebau fynd ymhellach. Mae hynny'n rhywbeth y mae nifer o Aelodau wedi dweud ei fod yn bwysig y prynhawn yma. Byddwn yn gwneud pethau megis darparu hyblygrwydd mewn cyfraddau grant i ddarparu gwahanol fodolau rhent, y soniodd

the Welsh housing partnership will be important to provide homes at intermediate rent, such as at the Ely Mill development. We will accelerate our programme for releasing public sector land—I now have a dedicated team of expert civil servants working on that matter alone. We will develop a Welsh housing bond, and we are serious about the development of co-operative housing. This is not a decorative alternative; it is a commitment to a new housing sector being launched in Wales from scratch. We will also put in place projects such as the special purpose vehicle at Ely bridge in Cardiff, which I have already mentioned.

We have also been successful in attracting additional Welsh Government investment through the Wales infrastructure investment plan, such as the £6 million for the Welsh housing partnership, which will create up to 280 more intermediate rent homes across Wales, and £10 million to support the Welsh Government's recyclable loans initiative to deal with empty properties, as I have mentioned. All that adds up to good news and reflects cross-Government support for tackling the shortage of affordable homes across the country.

Finally, I would re-emphasise that the Government's commitment to affordable housing contained within the pages of 'Homes for Wales: A White Paper for Better Lives and Communities' is there for all to see. It sets out the legislative and non-legislative actions for how we intend to continue to innovate and work together to deliver housing that is affordable, of a high standard, and that meets people's needs.

Our achievements thus far have been based on working together, pooling resources, sharing best practice and on being innovative, flexible and, I would say, ambitious. This approach will inform future delivery. I look forward to working across Government, across parties, and with all the stakeholder organisations out there, to make this agenda a reality.

**Ann Jones:** I thank the Members who are on the committee, and those not on the

Peter Black amdano. Bydd parhau i gefnogi partneriaeth tai Cymru yn bwysig o safbwynt darparu cartrefi ar rent canolradd, megis datblygiad Melin Trelái. Byddwn yn cyflymu ein rhaglen ar gyfer rhyddhau tir y sector cyhoeddus—bellach mae gennyf dîm o weision sifil arbenigol sy'n gweithio'n benodol ar y mater hwnnw'n unig. Byddwn yn datblygu bond tai Cymru, ac rydym o ddifrif ynghylch datblygu tai cydweithredol. Nid rhyw addurn o ddewis amgen mo hwn; ond ymrwymiad i lansio sector tai newydd sbon yng Nghymru. Byddwn hefyd yn rhoi prosiectau ar waith fel y cyfrwng at ddibenion arbennig ym mhont Trelái yng Nghaerdydd, yr wyf eisoes wedi sôn amdano.

Rydym hefyd wedi llwyddo i ddenu buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru drwy gynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru, megis y £6 miliwn ar gyfer partneriaeth tai Cymru, a fydd yn creu hyd at 280 yn fwy o gartrefi rhent canolradd ledled Cymru, a £10 miliwn i gefnogi menter benthyciadau ailgylchadwy Llywodraeth Cymru i ymdrin ag eiddo gwag, fel yr wyf wedi sôn. Mae hyn i gyd yn newyddion da ac yn adlewyrchu cefnogaeth ar draws y Llywodraeth i fynd i'r afael â'r prinder tai fforddiadwy ledled y wlad.

Yn olaf, hoffwn ailbwysleisio bod ymrwymiad y Llywodraeth i dai fforddiadwy sydd wedi'i gynnwys yn nhudalennau 'Cartrefi i Gymru: Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell' yno i bawb ei weld. Mae'n nodi'r camau deddfwriaethol a'r camau eraill y bwriadwn eu cymryd i barhau i arloesi a chydweithio i ddarparu tai sy'n fforddiadwy, sydd o safon uchel, ac sy'n diwallu anghenion pobl.

Mae ein cyflawniadau hyd yma wedi'u seilio ar gydweithio, cyfuno adnoddau, a rhannu arfer gorau ac ar fod yn arloesol, yn hyblyg a, mentraf ddweud, yn uchelgeisiol. Bydd y dull hwn o weithredu yn sail i'r hyn a gyflawnir yn y dyfodol. Edrychaf ymlaen at weithio ar draws y Llywodraeth, ar draws y pleidiau, a chyda phob sefydliad sy'n rhanddeiliad, i wireddu'r agenda hon.

**Ann Jones:** Rwyf yn diolch i'r aelodau sydd ar y pwyllgor, a'r rhai nad ydynt ar y

committee, for taking part in this debate. Given that the Minister has just made his contribution, I will say that it is good to see that, as a committee, we have been able to influence the White Paper on housing, which is important to everybody. The majority of speakers spoke about the mortgage indemnity scheme—thank you, Peter; we could not do without the Lib Dems. I might not say that ever again in this Chamber, so take the glory now. [Laughter.] It is something that, across the parties, people feel strongly about, but I will let you have your moment in the sun, as somebody once said to me, and we will see where we go.

It is right to say that we should look at issues around how we can help people to afford their homes, and I am glad that Mike Hedges and Llyr Huws Gruffydd raised the co-operative model of housing, as I think that it is one that we should be looking to.

This report has really just scratched the surface, but it was able to raise some of the very important issues that we now find in the White Paper. Janet, with regard to your definition of empty homes, I think that you can move that forward yourself; you can go and look for yourself and feed what you find into the White Paper consultation. It was quite clever of you to try to intervene on Joyce to get an answer. That should have been a point that you made in committee. You signed the report off, as we all did, and that point was not mentioned. I do not remember you raising that point at all when we signed off the report. However, you can put your views through in the White Paper consultation—that is what it is about.

Welfare reform is an issue that we had to look at—and Joyce and several others have touched on this—in terms of what will happen further down the road. It is no good us trying to build houses and to set targets for doing so if people will not be able to afford them, let alone without the mortgage indemnity scheme. Given the way in which the UK Government is relentless about some

pwyllogor, am gymryd rhan yn y ddadl hon. O ystyried bod y Gweinidog newydd wneud ei gyfraniad, hoffwn ddweud ei bod yn dda gweld, ein bod, fel pwyllogor, wedi gallu dylanwadu ar y Papur Gwyn ar dai, sy'n bwysig i bawb. Soniodd y rhan fwyaf o'r siaradwyr am y cynllun indemniad morgais—diolch ichi, Peter; ni allem fod heb y Democratiaid Rhyddfrydol. Efallai na fyddaf yn dweud hynny fyth eto yn y Siambr hon, felly cymerwch y clod yn awr. [Chwerthin.] Mae'n rhywbeth y mae pobl yn teimlo'n gryf yn ei gylch, ar draws y pleidiau, ond gadawaf ichi gael eich awr fawr, fel y dywedodd rhywun wrthyf unwaith, a chawn weld i ble'r awn.

Mae'n iawn dweud y dylem edrych ar faterion sy'n ymwneud â sut y gallwn helpu pobl i fforddio eu cartrefi, ac rwyf yn falch bod Mike Hedges a Llyr Huws Gruffydd wedi codi'r model tai cydweithredol, gan fy mod yn credu ei fod yn un y dylem fod yn edrych arno.

Crafu'r wyneb yn unig y mae'r adroddiad hwn wedi'i wneud mewn gwirionedd, ond llwyddodd i godi rhai o'r materion pwysig iawn yr ydym bellach yn eu gweld yn y Papur Gwyn. Janet, o ran eich diffiniad o gartrefi gwag, credaf y gallwch symud hynny yn ei flaen eich hun; gallwch fynd i edrych drosoch chi eich hun a bwydo'r hyn y byddwch yn ei ganfod i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Roedd yn eithaf clyfar ohonoch i geisio ymyrryd ar Joyce i gael ateb. Dylech fod wedi gwneud y pwynt hwnnw yn y pwyllogor. Bu ichi gymeradwyo'r adroddiad, fel y gwnaethom i gyd, ac ni chafodd y pwynt hwnnw ei grybwyll. Nid wyf yn cofio ichi godi'r pwynt hwnnw o gwbl pan oeddem yn cymeradwyo'r adroddiad. Fodd bynnag, gallwch fynegi eich barn yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn—dyna yw ei bwrpas.

Mae diwygio lles yn fater y bu'n rhaid inni edrych arno—ac mae Joyce a sawl un arall wedi cyffwrdd â hyn—o ran beth fydd yn digwydd ymhellach i lawr y ffordd. Nid oes diben inni geisio adeiladu tai a gosod targedau ar gyfer gwneud hynny os na fydd pobl yn gallu eu fforddio, heb sôn am wneud hynny heb y cynllun indemniad morgais. O ystyried agwedd ddidostur Llywodraeth y



people's benefits, I think that we will find that we will be storing up trouble for ourselves in later life.

In closing, no debate on housing in the Assembly would be complete without me mentioning sprinklers. I have to mention the sprinkler law and the fact that the regulations are now being written. However many houses we build, certainly in the case of affordable homes, I hope that they will all have sprinklers in, whether the regulations are written or not, because the law has been passed. That will make our homes safer and sustainable in the future.

**The Presiding Officer:** The proposal is to note the Communities, Equality and Local Government Committee's report. Does any Member object? I see that there is no objection. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd Dros Dro (Rhodri Glyn Thomas) i'r Gadair am 3.25 p.m.  
The Temporary Deputy Presiding Officer (Rhodri Glyn Thomas) took the Chair at 3.25 p.m.*

## **Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate**

### **Cysylltiadau Trafnidiaeth Transport Connectivity**

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Mae'r Llywydd wedi dethol gwelliannau 1, 3, 4, 6, 9 a 10 yn enw Aled Roberts, gwelliannau 2, 5 ac 8 yn enw Jocelyn Davies, a gwelliant 7 yn enw Jane Hutt. Os derbynir gwelliant 7, caiff gwelliant 8 ei ddad-dethol.

*Cynnig NDM5015 William Graham*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau trafndiaeth ar gyfer twf economaidd yng Nghymru;*

DU at fudd-daliadau rhai pobl, credaf y byddwn yn gweld ein bod yn creu trafferth inni ein hunain yn nes ymlaen.

Wrth gloi, ni fyddai unrhyw ddadl am dai yn y Cynulliad yn gyflawn heb imi sôn am systemau chwistrellu. Rhaid imi sôn am y gyfraith sy'n gysylltiedig â systemau chwistrellu a'r ffaith bod y rheoliadau bellach yn cael eu hysgrifennu. Pa faint bynnag o dai y byddwn yn eu hadeiladu, yn sicr yn achos tai fforddiadwy, rwyf yn gobeithio y caiff systemau chwistrellu eu gosod ym mhob un, p'un a yw'r rheoliadau wedi eu hysgrifennu ai peidio, oherwydd mae'r gyfraith wedi'i phasio. Bydd hynny'n gwneud ein cartrefi'n fwy diogel ac yn gynaliadwy yn y dyfodol.

**Y Llywydd:** Y cynnig yw nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The Presiding Officer has selected amendments 1, 3, 4, 6, 9 and 10 in the name of Aled Roberts, amendments 2, 5 and 8 in the name of Jocelyn Davies, and amendment 7 in the name of Jane Hutt. If amendment 7 is agreed, amendment 8 will be deselected.

*Motion NDM5015 William Graham*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Recognises the importance of transport connectivity for economic growth in Wales;*

2. *Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol, ASau Cymru a'r Adran Drafnidiaeth i drydaneiddio Prif Reilffordd y Great Western i Abertawe a thrydaneiddio rheilffyrdd cymoedd De Cymru;*

3. *Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu strategaeth integredig i gysylltu De a Gorllewin Cymru i'r brif reilffordd wedi'i thrydaneiddio; a*

4. *Yn gresynu bod Llywodraethau olynol yng Nghymru o dan arweiniad Llafur wedi methu â chysylltu cymunedau ar draws Cymru drwy rwydwaith trafnidiaeth integredig.*

**Byron Davies:** I move the motion.

This is an important motion, if not the most important motion of this Assembly term. Transport connectivity is integral to economic growth across Wales, especially in areas such as South Wales West. We need to open up north Wales, north-west Wales, mid and west Wales and the borders to our centres of population. Our motion holds back on some punches, because we want to concentrate on where we can agree as an Assembly and build on the constructive lobby surrounding electrification and other major investments that are on the horizon. We all want the best for Wales; it is just that sometimes we do not agree on the best way to fulfil that aim. I will touch on the plethora of amendments in a moment, and outline which ones we support and which we do not.

We all see the great potential for economic regeneration, spreading the challenges of growth and connecting our communities through a sustainable and safe public transport network, which projects such as the south Wales metro system would create. The vision of a metro system in south Wales may centre in Cardiff, but it is important to remember that it will not work without connecting to the greater area of south Wales. It will come as no surprise to hear me say that Swansea is a key partner in south Wales and, indeed, in Wales. It is another potential economic powerhouse. I welcome the continuing sense of partnership with regard to

2. *Calls on the Welsh Government to work with local authorities, Welsh MPs and the Department for Transport to deliver electrification of the Great Western Main Line to Swansea and electrification of the South Wales valley lines;*

3. *Calls on the Welsh Government to outline an integrated strategy to connect South and West Wales to the electrified main rail line; and*

4. *Regrets that successive Labour led Governments in Wales have failed to connect communities across Wales through an integrated transport network.*

**Byron Davies:** Cynigaf y cynnig.

Mae hwn yn gynnig pwysig, a allai fod yn gynnig pwysicaf y tymor hwn yn y Cynulliad. Mae cysylltiadau trafnidiaeth yn rhan annatod o dwf economaidd ledled Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd megis Gorllewin De Cymru. Mae angen inni agor y gogledd, y gogledd-orllewin, y canolbarth a'r gorllewin a'r gororau i'n canolfannau poblogaeth. Mae ein cynnig yn ymatal rhag gwneud ambell ergyd, gan ein bod am ganolbwyntio ar yr agweddau hynny lle y gallwn gytuno fel Cynulliad a datblygu'r lobi adeiladol sy'n ymwneud â thrydaneiddio a buddsoddiadau mawr eraill sydd ar y gorwel. Mae pob un ohonom am gael y gorau i Gymru; ond weithiau, nid ydym yn cytuno ar y ffordd orau o gyflawni'r nod hwnnw. Byddaf yn sôn am y lluo o welliannau yn y man, a byddaf yn nodi pa rai yr ydym a pha rai nad ydym yn eu cefnogi.

Mae pob un ohonom yn gweld y potensial mawr ar gyfer adfywio economaidd, lledaenu'r heriau sy'n ymwneud â thwf a chysylltu ein cymunedau trwy rwydwaith cynaliadwy a diogel o drafnidiaeth gyhoeddus, y byddai prosiectau megis system fetro de Cymru yn ei greu. Efallai fod y weledigaeth o gael system fetro yn y de'n canolbwyntio ar Gaerdydd, ond mae'n bwysig cofio na fydd yn gweithio heb gysylltu ag ardal ehangach de Cymru. Ni fydd neb yn synnu o'm clywed yn dweud bod Abertawe yn bartner allweddol yn y de ac, yn wir, yng Nghymru. Mae'n bwerdy economaidd posibl arall. Croesawaf yr

proving the business case for electrification of the railway line to Swansea.

I very much welcome the continued commitment of the Conservative-led UK Government to the Great Western main line electrification programme, which will extend to Cardiff and, hopefully, to Swansea. The Minister, Carl Sargeant, has outlined that he believes that the Welsh Government and Network Rail have produced a sound business case for electrification of the Valleys lines for the UK Department for Transport. We await the results of that. Whatever the scope, electrification of the Valleys lines and to Swansea will deliver immediate benefits. New and/or cascaded electric rolling stock is less costly to run and maintain, reducing operational costs by as much as 20%. The electrified network will provide faster services, greater capacity, and more frequent services, thus improving access across the region to employment opportunities in Cardiff and beyond. The use of electric rolling stock will also reduce the carbon dioxide emissions associated with the current inefficient and life-expired diesel fleet.

Through the sense of urgency that I hope the motion will create today, we must give our business case the final push, in terms of lobbying, that is needed for it to clear the final hurdle with the Department for Transport. I have demonstrated my passion for electrification to Swansea and my plea for all here and for businesses across south Wales—especially in Swansea—to join us in that final push on the Department for Transport in the last few days before the decision is made. I also have a genuine passion for ensuring that the younger generation has opportunities for employment and ease of access to our cultural heartlands via public transport. That is essential to ensure that we do not have a forgotten generation. Public transport is essential to many in our communities and it is unthinkable not to invest in that area, which has been neglected for so long, as a priority.

ymdeimlad parhaus o bartneriaeth o ran profi'r achos busnes dros drydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe.

Rwyf yn croesawu'n fawr iawn ymrwymiad parhaus Llywodraeth y DU, a gaiff ei harwain gan y Ceidwadwyr, i raglen drydaneiddio prif reilffordd y Great Western, a fydd yn ymestyn i Gaerdydd a, gobeithio, i Abertawe. Mae'r Gweinidog, Carl Sargeant, wedi nodi ei fod yn credu bod Llywodraeth Cymru a Network Rail wedi llunio achos busnes cadarn dros drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd ar gyfer Adran Drafnidiaeth y DU. Rydym yn aros am ganlyniadau hynny. Beth bynnag fo rhychwant y gwaith, bydd trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a'r rheilffordd i Abertawe yn esgor ar fanteision yn syth. Mae cerbydau trydan newydd a/neu rai wedi'u rhaedru yn llai costus i'w rhedeg a'u cynnal a'u cadw, gan leihau costau gweithredol gymaint ag 20%. Bydd y rhwydwaith wedi'i drydaneiddio yn darparu gwasanaethau cyflymach, mwy o gapasiti, a gwasanaethau amlach, gan wella mynediad ar draws y rhanbarth i gyfleoedd o ran cyflogaeth yng Nghaerdydd a thu hwnt. Bydd defnyddio cerbydau trydan hefyd yn lleihau'r allyriadau carbon deuocsid sy'n gysylltiedig â'r fflyd gyfredol o gerbydau diesel aneffeithlon y mae eu hoes wedi dirwyn i ben.

Trwy'r ymdeimlad o frys yr wyf yn gobeithio y bydd y cynnig yn ei greu heddiw, mae'n rhaid inni sicrhau bod ein hachos busnes yn cael yr hwb olaf, o ran lobiö, y mae arno ei angen i oresgyn y rhwystr olaf o safbwynt yr Adran Drafnidiaeth. Rwyf wedi dangos fy awydd cryf i weld y rheilffordd i Abertawe yn cael ei thrydaneiddio, a'm ple i bawb sydd yma a'm ple i fusnesau ar draws y de—yn enwedig yn Abertawe—yw iddynt ymuno â ni i wneud yr ymdrech olaf o safbwynt yr Adran Drafnidiaeth yn ystod yr ychydig ddyddiau sy'n weddill cyn i'r penderfyniad gael ei wneud. Rwyf hefyd yn wirioneddol awyddus i sicrhau bod y genhedlaeth iau'n cael cyfleoedd o ran cyflogaeth a'i bod yn gallu cyrraedd ein cadarnleoedd diwylliannol yn rhwydd ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae hynny'n hanfodol er mwyn sicrhau na fydd gennym genhedlaeth anghofiedig. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol i lawer yn ein cymunedau, ac ni ellir ystyried peidio

â rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi yn y maes hwnnw sydd wedi'i esgeuluso ers cyhyd.

I will take the amendments in turn. Amendment 1 in the name of Aled Roberts is a sound amendment, adding a matter of fact. We did not want to include that fact in our original motion because we want to build on consensus, but we cannot vote against it, because it is a matter of fact. The previous UK Labour Government did not have any plans to electrify the Valleys lines. In fact, the Welsh Government did not have any plans to do so either. It took the UK Conservative-led Government to bring this project to bear. My political jibes end there for now.

**Ieuan Wyn Jones:** As a matter of fact, since he is talking about facts, it was always the intention of the One Wales Government to support electrification of the Valleys lines. It is important to put that on record.

**Byron Davies:** I accept that, but it has taken the Conservative-led Government to bring it into being. Moving on, amendment 2 in the name of Jocelyn Davies is again stating a matter of fact. It seems superfluous, but I am feeling charitable, so we will support that amendment.

3.30 p.m.

Aled Roberts's amendment 3 takes another bash at the previous UK Labour Government. Again, I have outlined my reasons and I did not want to be tribal, but I cannot fault you because it is another matter of fact: the previous UK Labour Government did not electrify a single mile of the Great Western main line, so we will support amendment 3. In fact, only today, I heard, during Deputy Prime Minister's questions, that Labour built only nine miles of electrified track during its time in office, and that was not in Wales.

Aled Roberts's amendment 4 is where my

Hoffwn ymdrin â'r gwelliannau yn eu tro. Mae gwelliant 1 yn enw Aled Roberts yn welliant cadarn, ac yn ychwanegu ffaith. Nid oeddem am gynnwys y ffaith honno yn ein cynnig gwreiddiol oherwydd ein bod am adeiladu ar gonsensws, ond ni allwn bleidleisio yn ei erbyn, oherwydd mae'n ffaith. Nid oedd gan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU unrhyw gynlluniau i drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. Yn wir, nid oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i wneud hynny chwaith. Bu'n rhaid cael Llywodraeth yn y DU a gaiff ei harwain gan y Ceidwadwyr i alluogi'r prosiect i ddwyn ffrwyth. Nid wyf am geisio sgorio rhagor o bwyntiau gwleidyddol am y tro.

**Ieuan Wyn Jones:** Fel y mae'n digwydd, gan ei fod wrthi'n sôn am ffeithiau, bwriad Llywodraeth Cymru'n Un gydol yr amser oedd cefnogi trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. Mae'n bwysig cofnodi hynny.

**Byron Davies:** Rwyf yn derbyn hynny, ond bu'n rhaid cael Llywodraeth a gaiff ei harwain gan y Ceidwadwyr i sicrhau bod hynny'n digwydd. Gan symud ymlaen, mae gwelliant 2 yn enw Jocelyn Davies hefyd yn nodi ffaith. Mae'n ymddangos yn ddiangen, ond rwyf yn teimlo'n garedig, felly byddwn yn cefnogi'r gwelliant hwnnw.

Mae gwelliant 3 gan Aled Roberts yn ymosodiad arall ar Lywodraeth Lafur flaenorol y DU. Unwaith eto, rwyf wedi amlinellu fy rhesymau ac nid oeddwn am fod yn llwythol, ond ni allaf weld bai arnoch oherwydd mae'n ffaith arall: ni lwyddodd Llywodraeth Lafur flaenorol y DU i drydaneiddio'r un filltir o brif reilffordd y Great Western, felly byddwn yn cefnogi gwelliant 3. Yn wir, mor ddiweddar â heddiw, clywais, yn ystod cwestiynau'r Dirprwy Brif Weinidog, mai dim ond naw milltir o drac wedi'i drydaneiddio a adeiladwyd gan y Blaid Lafur tra oedd mewn grym, ac nid oedd hynny yng Nghymru.

Mae fy ngharedigrwydd yn dechrau pylu

charity begins to wane. We cannot support it, mainly because it is a little pedantic. Jocelyn Davies's amendment 5 calls on the Welsh Government to seek the devolution of Network Rail's budget and all other rail infrastructure responsibilities. We cannot support it, not because I am unconvinced by its merits, but because this Government is yet to prove competence with its current budget, never mind anything more just yet. We support Aled Roberts's amendment 6 on an Oyster card. I hope that before long, I can travel from Gower to Cardiff and up to Bangor and back with my Oyster Cymru card.

We will not support Jane Hutt's amendment 7, which is an obvious attempt to rewrite the history books, so we cannot allow that. We would never support amendment 8 in the name of Jocelyn Davies because, clearly, Plaid Cymru's greatest problem is an unwillingness to recognise that a Welsh Government of any colour can do wrong—it is always the fault of Westminster. Needless to say, successive UK Governments did not fail to improve the A470 from Cardiff to Merthyr Tydfil or develop the A55 or M4. It is a UK Government that is pushing electrification. This amendment, therefore, has no value.

Amendment 9, tabled by Aled Roberts, is another sound one that we will support because we must ensure that west coast main line services to Holyhead are not adversely affected by HS2. Finally, we also support Aled Roberts's amendment 10 in calling for the reopening of stations in Bow Street and Carno.

In conclusion, as the transport portfolio holder for the Welsh Conservatives, I want to pay tribute and call attention to two comments of recent note: first, by the Chancellor of the Exchequer, who singled out electrification of the south Wales Valleys lines as a key infrastructure priority in the budget; secondly, and not insignificantly, by the Prime Minister, who confirmed his personal commitment to the electrification

wrth droi fy sylw at welliant 4 gan Aled Roberts. Ni allwn ei gefnogi, yn bennaf oherwydd ei fod braidd yn bedantig. Mae gwelliant 5 gan Jocelyn Davies yn galw ar Lywodraeth Cymru i geisio datganoli cyllideb Network Rail a'r holl gyfrifoldebau eraill yn ymwneud â seilwaith rheilffyrdd. Ni allwn ei gefnogi, nid am nad wyf wedi fy argyhoeddi gan ei rinweddau, ond oherwydd nad yw'r Llywodraeth hon wedi profi ei gallu eto i ymdrin yn gymwys â'i chyllideb bresennol, heb sôn am ddim byd mwy. Rydym yn cefnogi gwelliant 6 gan Aled Roberts ynghylch cerdyn Oyster. Cyn bo hir, rwyf yn gobeithio y gallaf deithio o Benrhyn Gŵyr i Gaerdydd ac i fyny i Fangor ac yn ôl gyda'm cerdyn Oyster Cymru.

Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 7 gan Jane Hutt, sy'n ymgais amlwg i ailysgrifennu llyfrau hanes, felly ni allwn ganiatáu hynny. Ni fyddem byth yn cefnogi gwelliant 8 yn enw Jocelyn Davies, oherwydd mae'n amlwg mai problem fwyaf Plaid Cymru yw amharodrwydd i gydnabod bod Llywodraeth Cymru, beth bynnag fo'i lliw, yn gallu gwneud unrhyw beth o'i le—Llywodraeth San Steffan sydd bob amser ar fai. Afraid dweud na fethodd Llywodraethau olynol y DU â gwella'r A470 o Gaerdydd i Ferthyr Tudful neu ddatblygu'r A55 neu'r M4. Llywodraeth y DU sy'n gwthio trydaneiddio. Felly, nid oes unrhyw werth i'r gwelliant hwn.

Mae gwelliant 9, a gyflwynwyd gan Aled Roberts, yn welliant cadarn arall y byddwn yn ei gefnogi, oherwydd mae'n rhaid inni sicrhau na fydd HS2 yn cael effaith anffafriol ar wasanaethau prif reilffordd arfordir y gorllewin i Gaerdybi. Yn olaf, rydym hefyd yn cefnogi gwelliant 10 gan Aled Roberts, sy'n galw am ailagor gorsafoedd yn Bow Street ac yng Ngharno.

I gloi, fel deiliad y portffolio trafnidiaeth ar ran y Ceidwadwyr Cymreig, hoffwn amlygu dau sylw o bwys a wnaed yn ddiweddar a rhoi teyrnged iddynt: yn gyntaf, sylw gan Ganghellor y Trysorlys a nododd yn benodol fod trydaneiddio rheilffyrdd Cymoedd y de yn flaenoriaeth allweddol o ran seilwaith yn y gyllideb; yn ail, ac yn bwysig iawn, sylw gan Brif Weinidog y DU, a gadarnhaodd ei ymrwymiad personol i'r rhaglen

when he visited Wales earlier this year. That was a clear commitment for Wales from the top of the UK Government.

I believe that we are pushing at an open door on electrification. I am not complacent because I know that other regions of England are pushing the same door. It is incumbent on all in the Chamber and on the greater business community to continue pushing that door and to write to the Secretary of State to push for the electrification of the south Wales Valleys lines and for continuing electrification of the main line to Swansea. We have clear competition for this investment and we need to work together and to share every weapon in the arsenal to lobby effectively.

On sharing information, the Welsh Government must take a lead; we must work together across all parties, across local government and across our business community. I hope that all relevant information in the business case has been shared. I know that time will tell when we get the eventual publication of lobbying and other evidence. Again, I commend the cross-party nature of the debate and commend the motion to the Chamber. It is now important that we turn these words into action.

*Gwelliant 1 Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt 2 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:*

*Yn gresynu nad oedd gan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU unrhyw gynlluniau i drydaneiddio Rheilffordd y Cymoedd.*

*Gwelliant 3 Aled Roberts*

*Cynnwys ar ddechrau pwynt 2:*

*'Yn nodi na wnaeth Llywodraeth Lafur flaenorol y DU drydaneiddio'r un filltir o Brif Lein Great Western ac'*

*Gwelliant 4 Aled Roberts*

*Ym mhwynt 2, dylid dileu 'ASau Cymru' a rhoi 'ASau' yn ei le.*

drydaneiddio pan ymwelodd â Chymru yn gynharach eleni. Roedd yn ymrwymiad clir i Gymru o frig Llywodraeth y DU.

Rwyf yn credu ein bod yn gwthio yn erbyn drws agored wrth bwysu am drydaneiddio. Nid wyf am laesu dwylo, oherwydd gwn fod rhanbarthau eraill o Loegr yn gwthio yn erbyn yr un drws. Mae'n ddyletswydd ar bawb yn y Siambr ac ar y gymuned fusnes ehangach i barhau i wthio yn erbyn y drws hwnnw, ac i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol i bwysu am drydaneiddio rheilffyrdd Cymoedd y de a pharhau i drydaneiddio'r brif reilffordd i Abertawe. Mae gennym gystadleuaeth glir am y buddsoddiad hwn, ac mae angen inni gydweithio a rhannu pob arf sydd gennym i lloïo'n effeithiol.

O ran rhannu gwybodaeth, rhaid i Lywodraeth Cymru arwain y ffordd; rhaid inni weithio gyda'n gilydd ar draws pob plaid, ar draws llywodraeth leol ac ar draws ein cymuned fusnes. Rwyf yn gobeithio bod yr holl wybodaeth berthnasol yn yr achos busnes wedi cael ei rhannu. Gwn mai amser a ddengys, pan gyhoeddir y wybodaeth am lloïo a thystiolaeth arall maes o law. Unwaith eto, hoffwn gymeradwyo natur drawsbleidiol y ddadl a chymeradwyo'r cynnig i'r Siambr. Mae'n bwysig yn awr ein bod yn gwneud yn ogystal â dweud.

*Amendment 1 Aled Roberts*

*Add as new point 2 and re-number accordingly:*

*Regrets that the previous UK Labour government had no plans to electrify the Valleys Line.*

*Amendment 3 Aled Roberts*

*Insert at start of point 2:*

*'Notes that the previous UK Labour government did not electrify a single mile of the Great Western Main Line and'*

*Amendment 4 Aled Roberts*

*In point 2, delete 'Welsh MPs' and replace with 'MPs'*

*Gwelliant 6 Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt 4 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganfod pa mor ymarferol yw cyflwyno cerdyn Oyster ar gyfer Cymru gyfan, gan weithio gyda chwmnïau trên a chwmnïau bysiau i sicrhau bod pobl yn gallu teithio o amgylch Cymru yn rhwydd.*

*Gwelliant 9 Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Gogledd Cymru yn gallu manteisio ar HS2, ac i sicrhau na fydd unrhyw newidiadau yn cael effaith anffafriol ar wasanaethau prif lein West Coast i Gaerdybi.*

*Gwelliant 10 Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn cefnogi'r ddadl dros ailagor gorsafoedd yn Bow Street ac yng Ngharno.*

**William Powell:** I move amendments 1, 3, 4, 6, 9 and 10 in the name of Aled Roberts.

It is a great privilege to be taking part in this debate today. I thank the proposer of the motion for going through the amendments so systematically and for his consensual and team-building approach; that is very much to be welcomed.

A fully integrated transport system across the whole of Wales is vital for economic growth and the further integration of our communities. Across Wales, and especially in my own region of Mid and West Wales, people of all ages and from all walks of life struggle daily to use public transport effectively, simply due to the lack of routes and the limited frequency of buses and trains. However, this is about not just having buses and trains, but making them work together. Take an individual who works in Newtown and wants to travel, for example, by public

*Amendment 6 Aled Roberts*

*Add as new point 4 and re-number accordingly:*

*Calls on the Welsh Government to establish the feasibility of introducing a Wales-wide Oystercard, working with train and bus companies to ensure that people can travel around Wales easily.*

*Amendment 9 Aled Roberts*

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to ensure that north Wales is able to take advantage of HS2 and ensure that West Coast main line services to Holyhead are not adversely affected by any changes.*

*Amendment 10 Aled Roberts*

*Add as new point at end of motion:*

*Supports the case for the re-opening of stations in Bow Street and Carno.*

**William Powell:** Cynigaf welliannau 1, 3, 4, 6, 9 a 10 yn enw Aled Roberts.

Mae'n ffraind fawr cael cymryd rhan yn y ddadl hon heddiw. Diolch i'r cynigydd am fynd drwy'r gwelliannau mewn modd mor systematig ac am ei agwedd gydsyniol a'i awydd i adeiladu tîm; mae hynny i'w groesawu'n fawr.

Mae system drafndiaeth hollol integredig ar draws Cymru gyfan yn hanfodol ar gyfer twf economaidd ac i integreiddio ein cymunedau ymhellach. Ar draws Cymru, ac yn enwedig yn fy rhanbarth i, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae pobl o bob oed ac o bob cefndir yn cael trafferth bob dydd wrth geisio defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn effeithiol, yn syml iawn oherwydd y diffyg llwybrau a'r ffaith nad yw bysiau a threnau'n rhedeg yn aml iawn. Fodd bynnag, yn ogystal â'r angen i gael bysiau a threnau, mae a wnelo hyn hefyd â chael bysiau a threnau i

transport down the road to Welshpool, which is a mere 15 miles. Unlike many other towns in Powys, Newtown and Welshpool are blessed with both train and bus services. However, the bus and train services that leave Newtown do so within 20 minutes of each other currently, and there is then a gap of almost two hours before the next bus or train leaves. We need a more joined-up and rational approach here. It is a wasteful use of limited resources for the two services to be operating on their current timetables. The Welsh Government, which subsidises trains and buses in the region, could intervene and give Wales the integrated transport that we desperately need.

It will come as no surprise to Members in the Chamber that my party backs the electrification of the Valleys lines and the Great Western main line from Cardiff to Swansea. I know that my colleagues, both here and in Westminster, have been lobbying hard on this for some time, especially the case for the Valleys lines, and I thank them for that. Electrification will help both the economy and the environment. New trains will be built and overhead cables will be installed, both creating much needed employment in the short term and reducing journey times. That will help, both with new jobs and wider economic opportunities for south Wales in the long term. The environmental benefits of electrification are well rehearsed and are something that I am sure we would all agree upon. It is a matter to be welcomed that the Labour Party has come on board in the campaign for electrification, admittedly after years of inaction when the party was in power in Westminster. However, this new development is to be welcomed. Despite that deficit, I am pleased that the current UK coalition Government has committed itself to electrifying the main lines, including diversionary routes from the English capital to the Welsh capital.

weithio gyda'i gilydd. Cymerwch unigolyn sy'n gweithio yn y Drenewydd ac sydd am deithio, er enghraifft, ar drafnidiaeth gyhoeddus i'r Trallwng, sydd 15 milltir yn unig i ffwrdd. Yn wahanol i lawer o drefi eraill ym Mhowys, mae'r Drenewydd a'r Trallwng yn ddigon ffodus i gael gwasanaethau trenau a bysiau. Fodd bynnag, mae'r gwasanaethau bysiau a threnau sy'n gadael y Drenewydd yn gwneud hynny o fewn 20 munud i'w gilydd ar hyn o bryd, ac yna ceir bwlch o bron i ddwy awr cyn y bydd y bws neu'r trê'n nesaf yn gadael. Mae angen dull mwy cydgysylltiedig a rhesymegol o weithredu yn y cyswllt hwn. Mae'r ffaith bod y ddau wasanaeth yn gweithredu'n unol â'u hamserlenni cyfredol yn ddefnydd gwastraffus o adnoddau cyfyngedig. Gallai Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi cymhorthdal i drenau a bysiau yn y rhanbarth, ymyrryd a rhoi i Gymru y system drafnidiaeth integredig y mae arnom ei hangen yn fawr.

Ni fydd yn syndod i Aelodau yn y Siambr bod fy mhlaid yn cefnogi trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a phrif reilffordd y Great Western o Gaerdydd i Abertawe. Gwn fod fy nghydweithwyr, yma ac yn San Steffan, wedi bod yn lobiö'n galed ynghylch y mater hwn ers tro, yn enwedig ynghylch yr achos dros reilffyrdd y Cymoedd, a diolchaf iddynt am hynny. Bydd trydaneiddio yn helpu'r economi a'r amgylchedd. Bydd trenau newydd yn cael eu cynhyrchu a bydd ceblau'n cael eu gosod uwchben, a fydd yn creu cyflogaeth y mae ei hangen yn fawr yn y tymor byr ac a fydd yn lleihau amseroedd teithio. Bydd hynny'n helpu o safbwynt swyddi newydd ac o safbwynt cyfleoedd economaidd ehangach ar gyfer y de yn y tymor hir. Mae manteision amgylcheddol trydaneiddio wedi eu nodi droeon, ac rwyf yn siŵr y byddem i gyd yn cytuno â hwy. Mae'r ffaith bod y Blaid Lafur wedi ymuno â'r ymgyrch dros drydaneiddio i'w groesawu, er bod yn rhaid cyfaddef bod hynny ar ôl blynyddoedd o ddiffyg gweithredu pan oedd y blaid mewn grym yn San Steffan. Fodd bynnag, mae'r datblygiad newydd hwn i'w groesawu. Er gwaethaf y diffyg, rwyf yn falch bod Llywodraeth glymblaid bresennol y DU wedi ymrwmo i drydaneiddio'r prif reilffyrdd, gan gynnwys y llwybrau dargyfeirio o brifddinas Lloegr i brifddinas Cymru.



My party is calling for a feasibility study to look into the possible introduction of a Wales-wide Oyster card. Currently, residents aged 60 and over are entitled to free bus travel through the use of an electronic ticket. Fare-paying passengers travelling on buses run by Cardiff Bus and Newport Bus are able to enjoy the benefits of cashless travel, although sadly, not on competitors' buses. The introduction of a Wales-wide Oyster card will make journeys easier and more accessible to residents in every corner of Wales. No longer will a passenger be left stranded because they do not have any cash on them, and no longer will passengers be refused a ticket because they only have a £20 note and the driver has no change. A benefit that users of Cardiff Bus have enjoyed is the facility to even go overdrawn in an emergency situation when using their card. Cardiff Bus has become the first transport operator in the UK to offer an overdraft equivalent to a day-to-go ticket, so that you are always able to go home whatever the circumstances.

We as Liberal Democrats would also like to reiterate our long-held belief that stations closed under the Beeching review of the 1960s—and I refer to Bow Street, Carno and St Clears—should be reopened. Since 1983, 33 stations have either been reopened or opened in Wales, most notably the great success of the Ebbw Vale, Vale of Glamorgan and Maesteg lines, and, in March this year, the Welsh Government and Arriva worked together to reopen Fishguard and Goodwick station, which has been warmly welcomed in that part of my region. We strongly believe that there is local demand and footfall for such a development to benefit Bow Street, Carno and St Clears. We all want to get the best deal for Wales; we want a modern and efficient transport system that serves the people of Wales. Let us work constructively with the UK Government to make the most of the opportunity this brings and for the benefit of all the people of Wales.

Mae fy mhlaidd yn galw am astudiaeth ddichonoldeb i ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno cerdyn Oyster ar gyfer Cymru gyfan. Ar hyn o bryd, mae gan drigolion 60 oed a throsodd hawl i deithio am ddim ar fysiau drwy ddefnyddio tocyn electronig. Mae teithwyr sy'n talu am eu tocynnau ac sy'n teithio ar fysiau a gaiff eu rhedeg gan Fws Caerdydd a Bysiau Casnewydd yn gallu mwynhau manteision teithio heb arian parod, er nad ydynt, yn anffodus, yn gallu gwneud hynny ar fysiau cwmnïau eraill sy'n cystadlu â hwy. Bydd cyflwyno cerdyn Oyster ar gyfer Cymru gyfan yn golygu bod teithiau'n haws ac yn fwy hygyrch i drigolion ym mhob cwr o Gymru. Bydd yn golygu diwedd ar weld teithwyr yn sownd am nad oes ganddynt arian parod, a diwedd ar sefyllfaedd lle na chaiff teithwyr brynu tocyn am nad oes ganddynt ddim byd llai na phapur £20 ac am nad oes gan y gyrrwr newid. Un o'r manteision y mae defnyddwyr Bws Caerdydd wedi eu mwynhau yw'r gallu hyd yn oed i fynd i ddyled mewn argyfwng wrth ddefnyddio eu cerdyn. Bws Caerdydd yw'r gweithredwr trafniadaeth cyntaf yn y DU i gynnig cyfleuster lle y gellir mynd i ddyled sy'n cyfateb i bris tocyn diwrnod-i-fynd, er mwyn sicrhau eich bod bob amser yn gallu mynd adref beth bynnag fo'r amgylchiadau.

Fel Democratiaid Rhyddfrydol, byddem hefyd yn hoffi ailddatgan ein cred ers amser y dylid ailagor gorsafoedd a gaewyd dan adolygiad Beeching yn yr 1960au—rwyf yn cyfeirio at Bow Street, Carno a Sanclêr. Er 1983, mae 33 o orsafoedd naill ai wedi'u hailagor neu'u hagor yng Nghymru, a'r llwyddiannau mwyaf nodedig yw rheilffyrdd Glynebwy, Bro Morgannwg a Maesteg. Ym mis Mawrth eleni, bu Llywodraeth Cymru ac Arriva yn gweithio gyda'i gilydd i ailagor gorsaf Abergwaun ac Wdig, sydd wedi cael croeso cynnes yn y rhan honno o'r rhanbarth. Rydym yn credu'n gryf bod digon o alw lleol a digon o bobl i sicrhau y byddai datblygiad o'r fath o fudd i Bow Street, Carno a Sanclêr. Mae pob un ohonom am gael y fargen orau i Gymru; rydym am gael system drafniadaeth fodern ac effeithlon sy'n gwasanaethu pobl Cymru. Gadewch inni weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU i wneud yn fawr o'r cyfle y mae hwn yn ei gynnig ac i sicrhau budd i bawb yng

Nghymru.

*Gwelliant 2 Jocelyn Davies*

*Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:*

*'Yn nodi nad yw'r gwariant ar seilwaith rheilffyrdd wedi'i ddatganoli ac mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydyw, a bod gwariant Network Rail wedi'i ddatganoli i Lywodraeth yr Alban yn 2006.'*

*Gwelliant 5 Jocelyn Davies*

*Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:*

*'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i geisio datganoli cyllideb Network Rail a'r holl gyfrifoldebau eraill yn ymwneud â seilwaith rheilffyrdd.'*

*Gwelliant 8 Jocelyn Davies*

*Ym mhwynt 4, dileu: 'Yn gresynu bod Llywodraethau olynol yng Nghymru o dan arweiniad Llafur' a rhoi yn ei le:*

*'Yn gresynu bod Llywodraethau olynol yn y DU o dan arweiniad Llafur a'r Ceidwadwyr'.*

**Ieuan Wyn Jones:** Cynigiau welliannau 2, 5 ac 8 yn enw Jocelyn Davies.

Diolch yn fawr iawn, ddirprwy Lywydd Dros Dro. Rwyf yn falch iawn o'r cyfle i gymryd rhan yn y drafodaeth hon. Cyn mis Mai 2011, roeddwn yn cymryd rhan mewn nifer o drafodaethau ar drafnidiaeth, ac rwy'n falch o gael y cyfle i wneud hynny eto yn awr. Diolchaf hefyd i Byron Davies am ei gyflwyniad, a oedd yn awgrymu bod y Blaid Geidwadol yn edrych am gonsensws ar nifer o faterion. Rwy'n hapus iawn i estyn llaw brawdoliaeth i Byron ac i weddill y grŵp am hynny. Rwy'n gobeithio y bydd brawdoliaeth a chwaeroliaeth ar draws y Siambr.

Y broblem fawr, yn anffodus, gyda chynnig y Ceidwadwyr yw cymal 4, lle maent yn dweud, am ryw reswm, nad oes rwydwaith trafnidiaeth integredig ar gael ar gyfer Cymru. Nid yw hynny yn wir oherwydd roeddwn yn falch iawn o allu cyflwyno'r

*Amendment 2 Jocelyn Davies*

*Insert as new point 2 and renumber accordingly:*

*'Notes that rail infrastructure spending is not devolved and is the responsibility of the UK Government and that Network Rail spending was devolved to the Scottish Government in 2006.'*

*Amendment 5 Jocelyn Davies*

*Insert as new point 3 and renumber accordingly:*

*'Calls on the Welsh Government to seek the devolution of Network Rail's budget and all other rail infrastructure responsibilities.'*

*Amendment 8 Jocelyn Davies*

*In point 4 delete: 'Regrets that successive Labour led Governments in Wales' and replace with:*

*'Regrets that successive Labour and Conservative led UK Governments'.*

**Ieuan Wyn Jones:** I move amendments 2, 5 and 8 in the name of Jocelyn Davies.

Thank you very much, temporary Deputy Presiding Officer. I am very pleased to have this opportunity to participate in this debate. Before May 2011, I participated in many debates on transport, and I am pleased to have the opportunity to do so again. I also thank Byron Davies for his opening remarks, which suggested that the Conservative Party was seeking consensus on a number of issues. I am very happy to extend the hand of fraternity to Byron and the rest of the group in that sense. I hope that there will be fraternity and sorority across the Chamber.

The major problem, of course, with the Conservative motion is clause 4, where they say for some reason that there is no integrated transport plan available for Wales. That is not true, because I was very pleased to be able to introduce the national transport plan during

cynllun trafniadaeth cenedlaethol yn ystod fy nghyfnod fel Gweinidog. Holl fwriad y cynllun hwnnw oedd cael cynllun integredig ar draws Cymru. Os darllenwch chi'r adroddiad hwnnw, fe welwch y bu inni ddewis nifer o goridorau—coridor y de, coridor y gogledd, ac o'r dwyrain i'r gorllewin, a'r de i'r gogledd—i gyd gyda'i gilydd, yn ffyrdd, rheilffyrdd, porthladdoedd a meysydd awyr. Felly, mae cynllun integredig i Gymru ar gael, a dyna pam na allwn gefnogi cymal 4.

Mae'n wir dweud bod gennym nid yn unig gynllun trafniadaeth integredig ar gyfer Cymru, ond cynllun i sicrhau bod trydaneiddio yn digwydd nid yn unig ar gyfer rheilffordd y de, ond yn y cymoedd hefyd. Roedd y Llywodraeth yr oeddwn i'n aelod ohoni yn gefnogol iawn o'r adroddiad, ac fe'i croesawodd. Nid wyf yn siŵr o ble y daw'r syniad mai dim ond y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol sydd wedi cyflwyno cynllun; cyflwynwyd cynllun gan yr Arglwydd Adonis ar ymweliad â Chaerdydd, gan ddweud ei fod am drydaneiddio rheilffordd y de; rydym ni am weld rheilffordd y gogledd yn cael yr un ystyriaeth. Rwy'n cofio yn y 1980au a'r 1990au, pan oeddwn yn Aelod Seneddol, mai rheilffordd y gogledd oedd y rheilffordd yr oedd galw mawr am iddo gael ei drydaneiddio, ac rwy'n siŵr bod fy nghyfeillion a oedd yno gyda mi ar y pryd yn cofio hynny yn hynod dda. Felly, rwy'n meddwl bod y syniad hwn o gael consensws ar draws y Siambr ar drydaneiddio yn beth da iawn, ac rydym yn hapus iawn i chwarae rhan yn hynny.

Os caf i dynnu blewyn o drwyn Byron, dywedodd nad ydyw'n cefnogi trosglwyddo cyfrifoldeb am gyllid a phwerau Network Rail i Gymru. Wrth gwrs, mae Network Rail wedi penderfynu eisoes ei fod eisiau gweld hynny'n digwydd. Mae'n edrych yn debyg fod Llywodraeth San Steffan yn fodlon ystyried hynny. Rwy'n ei chael hi'n rhyfedd iawn, felly, fod y Ceidwadwyr Cymreig yn dweud 'na' i hynny. Hynny yw, os ydym o ddifrif ynglŷn â gweld *shift* sylweddol yn y buddsoddi mewn rheilffyrdd, onid y ffordd orau o wneud hynny yw drwy drosglwyddo cyfrifoldeb am y cyllid a'r polisi i Gymru? Rwy'n gofyn i'r Blaid Geidwadol ailystyried

my tenure as Minister. The whole intention of that plan was to have an integrated transport plan for Wales. Of course, if you read that report, you will see that we chose a number of corridors: the south Wales corridor, the north Wales corridor and east-west and north-south corridors, and all linked through roads, railways, ports and airports. So, there is an integrated plan available for Wales, and that is why we cannot support point 4 of the motion.

It is true to say that we have not only an integrated transport plan for Wales, but a plan to ensure that electrification happens, and not only for south Wales main line, but for the Valleys lines. The Government that I was a member of was very supportive of that, and we welcomed the report. I am not sure where the idea has come from that it is only the Conservatives and Liberal Democrats that have introduced anything of this sort; Lord Adonis introduced a proposal on a visit to Cardiff when he said that his party wanted to electrify the south Wales main line, and we want to see the north Wales line given the same consideration. I recall in the 1980s and 1990s when I was a Member of Parliament that the north Wales line was the one where there was great demand for electrification, and I am sure that some of my colleagues from that time will recall that only too well. So, this idea of having consensus across the Chamber on electrification is positive, and we are pleased to be playing our part in that.

This could well upset Byron a little, but he says that he does not support the transfer of responsibility for the powers and funding of Network Rail to Wales. However, Network Rail has already decided that it wants to see that happen, and it appears that the Westminster Government is willing to consider it. I find it very strange, therefore, that the Welsh Conservatives are saying 'no' to that. If we are serious about seeing a significant shift in investment in our railways, is not the best way of doing that to transfer responsibility for the funding and the policy to Wales? I would ask the Conservatives to reconsider their opposition

ei gwrthwynebiad i'r cysylltiad hwnnw.

Pan oeddwn yn Weinidog, roeddwn yn sylweddoli bod tensiynau o hyd o ran blaenoriaethau daearyddol o safbwynt trafnidiaeth, boed yn drafnidiaeth y ffyrdd neu'n drafnidiaeth gyhoeddus, ond un peth roeddwn yn gwbl benderfynol yn ei gylch oedd bod angen cynllun i Gymru gyfan. Dyna oedd yr hyn a weithredwyd gennym. Er mwyn cael cynllun integredig go iawn, mae angen mwy o fuddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus, ac rwy'n cytuno â nifer o'r pwyntiau a wnaeth William Graham ynglŷn â'r angen i gael gwell cydweithrediad rhwng y bysiau a'r trenau ac amserlenni. O dan bolisi Llywodraeth Cymru'n Un, gwelwyd *shift* eithaf sylweddol oddi wrth adeiladu ffyrdd tuag at drafnidiaeth integredig. Am y tro cyntaf yn hanes Cymru ar ôl datganoli, mae'r Llywodraeth yn gwario mwy o arian ar drafnidiaeth gyhoeddus nag ar ffyrdd. Rwy'n meddwl bod hynny'n rhywbeth lle gwelwn *shift* pellach yn y dyfodol.

Rwy'n hapus iawn i chwarae rhan yn y consensws, ond rwy'n gobeithio bydd y Ceidwadwyr yn gweld pa mor bwysig ydyw i Gymru gael mwy o bwerau i sicrhau ein bod yn gallu cael cynllun integredig go iawn.

*Gwelliant 7 Jane Hutt*

*Ym mhwynt 4, dileu popeth cyn 'cymunedau' a rhoi 'Yn croesawu'r gwaith sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru'n Un a'r Llywodraeth Lafur bresennol i gysylltu' yn ei le.*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I move amendment 7 in the name of Jane Hutt.

3.45 p.m.

**William Graham:** The current Welsh Affairs Committee review of cross-border road and rail connectivity in Wales emphasises that the M4 and A55 are designated as part of the TEN-T network, and provide important access to markets in England, Ireland and Europe. The Welsh Government recognised this fact in its presentation to the committee, and stated that the M4 corridor is a trans-European network

to that particular link.

When I was a Minister, I realised that there are always tensions in terms of geographical priorities for transport, be that road or public transport, but I was entirely determined that we needed an all-Wales plan, and that is what we developed. Having a really integrated plan means more investment in public transport, and I agree with many of the points that William Graham made on the need to have better collaboration and integration between the trains, buses and timetabling. Under the policies of the One Wales Government we saw a significant shift from road-building towards public transport. For the first time in the history of post-devolution Wales, the Government is spending more on public transport than on road-building, and I believe that that is something that we will see an even greater shift towards in future.

I am happy to be playing my part in the consensus, but I hope that the Conservatives will realise the importance of Wales having greater powers to ensure that we can have a truly integrated plan in place.

*Amendment 7 Jane Hutt*

*In point 4, delete all before 'to connect communities' and replace with 'Welcomes the work undertaken by both the One Wales and the current Labour Governments'.*

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Cynigiau welliant 7 yn enw Jane Hutt.

**William Graham:** Mae adolygiad cyfredol y Pwyllgor Materion Cymreig o gysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd trawsffiniol yng Nghymru yn pwysleisio bod yr M4 a'r A55 wedi'u dynodi yn rhan o'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd, a'u bod yn darparu mynediad pwysig i farchnadoedd yn Lloegr, Iwerddon ac Ewrop. Cydnabu Llywodraeth Cymru y ffaith hon yn ei chyflwyniad i'r pwyllgor, a dywedodd fod

and therefore of strategic importance to Wales and England.

Successive Assembly Governments have failed to grasp the reality that the economic and social development of south Wales relies upon free-flowing traffic along the M4 corridor. Some 10 years ago, in March 2002, I presented a short debate entitled 'M4 Motorway Relief Road: When?' Fortuitously, this debate coincided with the Minister for environment's announcement on the trunk road programme for Wales. Unfortunately, in 2002, an M4 relief road was not on the then Assembly Government's programme. Over the last 10 years, Assembly, Welsh and United Kingdom Labour Governments have announced proposals not to construct, then to construct, to consider tolls, to finance with private finance initiative, then to abandon, to investigate alternatives, and, finally, to consult on the necessity for an M4 relief road.

There is one feature of the M4 around Newport that makes a relief road a necessity; I refer, of course, to the Brynglas tunnels. It took a vehicle fire last July that closed the tunnels to drive this realisation home to the Welsh Government, and we currently have a consultation that closes on 6 July. In 2007, two fatal accidents required the M4 to be closed between junctions 24 and 28. Traffic was diverted along the southern distributor road, causing gridlock throughout Newport city and several miles of tailback on the approaches to these junctions.

I am saddened that the experiences gained on these occasions are not detailed in the Welsh Government's consultation document, especially as the southern distributor road, with a variety of adaptations, is central to two of the four options in the consultation. The gridlock endured in 2007 indicates that these options, no matter what adaptations are made, are not feasible.

coridor yr M4 yn rhan o'r rhwydwaith traws-Ewropeaidd a'i fod, felly, o bwysigrwydd strategol i Gymru a Lloegr.

Mae Llywodraethau olynol y Cynulliad wedi methu â deall y ffaith bod datblygiad economaidd a chymdeithasol y de'n dibynnu ar draffig sy'n llifo'n rhydd ar hyd coridor yr M4. Ryw 10 mlynedd yn ôl, ym mis Mawrth 2002, cyflwynais ddadl fer dan y teitl 'Ffordd Liniaru Traffordd yr M4—Pryd?' Drwy hap a damwain, roedd y ddadl honno'n cyd-daro â chyhoeddiad y Gweinidog dros yr amgylchedd ynghylch y rhaglen gefnffyrdd i Gymru. Yn anffodus, yn 2002, nid oedd ffordd liniaru ar gyfer yr M4 yn rhan o raglen Llywodraeth y Cynulliad ar y pryd. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae Llywodraethau Llafur y Cynulliad a Llywodraethau Llafur Cymru a'r Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi cynigion i beidio ag adeiladu, yna i adeiladu, ystyried tollau ac ariannu â menter cyllid preifat, yna i roi'r gorau i hynny ac ymchwilio i opsiynau eraill, ac yn olaf, i ymgynghori ynghylch yr angen am ffordd liniaru ar gyfer yr M4.

Mae un nodwedd yn perthyn i'r M4 yng nghyffiniau Casnewydd sy'n golygu bod yn rhaid cael ffordd liniaru; rwyf yn cyfeirio, wrth gwrs, at dwnelau Bryn-glas. Bu'n rhaid cael tân a achoswyd gan gerbyd fis Gorffennaf diwethaf, a gaeodd y twnelau, i wneud i Lywodraeth Cymru sylweddoli hynny, ac ar hyn o bryd mae gennym ymgynghoriad sy'n dod i ben ar 6 Gorffennaf. Yn 2007, bu'n rhaid cau'r M4 rhwng cyffyrdd 24 a 28 oherwydd dwy ddamwain angheuol. Cafodd traffig ei ddargyfeirio ar hyd y ffordd ddsbarthu ddeheuol, a achosodd dagfeydd ar draws dinas Casnewydd a milltiroedd lawer o dagfeydd ar y ffyrdd sy'n arwain at y cyffyrdd hyn.

Mae'n fy nhristáu nad yw dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru yn manylu ar y profiadau a gafwyd ar yr achlysuron hynny, yn enwedig gan fod y ffordd ddsbarthu ddeheuol, gydag amrywiaeth o addasiadau, yn ganolog i ddau o'r pedwar opsiwn yn yr ymgynghoriad. Mae'r tagfeydd a ddioddefwyd yn 2007 yn dangos nad yw'r opsiynau hyn, ni waeth pa addasiadau a wneir, yn ymarferol.

The option to construct a further tunnel at Brynglas is not practicable. The geology, location and design of the original tunnels, together with the need to demolish homes and disrupt traffic along the M4 for some seven years, make this option unpractical and unsustainable.

As I outlined 10 years ago, the original 1991 proposal by the Conservative Welsh Office of an M4 relief road between Magor and Castleton remains the only option that meets all the criteria for a major transport artery of strategic importance to Wales and England; that is highway option A described in the consultation.

A study commissioned by Newport council highlighted that one of the key factors that deterred major manufacturers from locating or investing in south Wales was the Brynglas tunnels.

Highway option A offers the safest sustainable solution, has positive social and economic benefits for Newport, and provides uncompromised transit from Wales to England, Ireland and mainland Europe, allowing south Wales to realise its maximum potential in attracting future investment.

I acknowledge that there are environmental concerns with regard to this option. I believe that enhanced construction methods, together with reduced carbon emissions from vehicles, will have a diminishing impact upon the resident population, flora and fauna along the proposed route.

I hope that the Welsh Government will effectively collaborate with the United Kingdom Government to ensure that the options for additional funding for improvements to the M4, outlined by the Chancellor of the Exchequer, will finally ensure the construction of an M4 relief road.

In March 2002, in her reply to my debate, the

Nid yw'r opsiwn i adeiladu twnnel arall ym Mryn-glas yn ymarferol. Mae daeareg, lleoliad a dyluniad y twnelau gwreiddiol, ynghyd â'r angen i ddymchwel cartrefi ac amharu ar draffig ar hyd yr M4 am oddeutu saith mlynedd, yn golygu nad yw'r opsiwn hwn yn ymarferol nac yn gynaliadwy.

Fel yr amlinellais 10 mlynedd yn ôl, y cynnig gwreiddiol a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gymreig Geidwadol yn 1991 ynghylch ffordd liniaru ar gyfer yr M4 rhwng Magwyr a Chas-bach yw'r unig opsiwn o hyd sy'n bodloni'r holl feini prawf ar gyfer priffordd allweddol i drafnidiaeth, sydd o bwys strategol i Gymru a Lloegr; dyma briffordd opsiwn A a ddisgrifir yn yr ymgynghoriad.

Amlygodd astudiaeth a gomisiynwyd gan gyngor Casnewydd mai un o'r ffactorau allweddol a oedd yn rhwystro gweithgynhyrchwyr mawr rhag dod i dde Cymru neu fuddsoddi yno oedd twnelau Bryn-glas.

Priffordd opsiwn A sy'n cynnig yr ateb cynaliadwy mwyaf diogel, ac mae'n cynnig manteision cymdeithasol ac economaidd cadarnhaol i Gasnewydd ac yn darparu llwybr hwylus o Gymru i Loegr, Iwerddon a thir mawr Ewrop, gan ganiatáu i ardal de Cymru wireddu ei photensial eithaf o ran denu buddsoddiad yn y dyfodol.

Rwyf yn cydnabod bod pryderon amgylcheddol ynghylch yr opsiwn hwn. Credaf y bydd dulliau adeiladu gwell a llai o allyriadau carbon gan gerbydau'n arwain at lai o effaith ar y boblogaeth breswyl ac ar ffloera a ffawna ar hyd y llwybr arfaethedig.

Rwyf yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithredu'n effeithiol â Llywodraeth y Deyrnas Unedig i wneud yn siŵr y bydd yr opsiynau o ran cyllid ychwanegol ar gyfer gwelliannau i'r M4, a amlinellwyd gan Ganghellor y Trysorlys, yn sicrhau o'r diwedd bod ffordd liniaru ar gyfer yr M4 yn cael ei hadeiladu.

Ym mis Mawrth 2002, yn ei hymateb i'm

then Minister for Environment mentioned the importance of the Ebbw Vale to Newport passenger rail link and how this would relieve some of the traffic pressures on the M4. Ten years on, traffic pressures along the M4 have increased and we still await the Ebbw Vale to Newport rail link.

Wales generates approximately 2% of all United Kingdom rail passenger movements, and receives or dispatches about 15% of all UK rail freight. A typical freight train can remove 50 lorries from Welsh roads. Over the last six years, throughout the United Kingdom, rail freight is estimated to have saved 2 million tonnes of pollutants, almost 4 billion lorry miles or 31.5 million lorry journeys. The rail link with Ebbw Vale through Newport to markets in England and mainland Europe is vital if we are to sustain the economic viability of an enterprise zone around Ebbw Vale, and the long-awaited completion of the over-budgeted Heads of the Valleys road.

I acknowledge the effective campaigning by rail passenger groups in south east Monmouthshire that has resulted in an increased number of trains stopping at Chepstow station, realising a 9% increase in passengers. However, to ensure maximum impact upon M4 traffic, more trains need to stop at Caldicot and Severn Tunnel Junction, together with a new train station serving the residential development to the east of Newport.

In concluding, I wish to briefly refer to the Severn bridges. The operating company has a concession limited by law to a maximum of 30 years. The actual end date will be when it has collected a set sum, and this is expected to be during 2017. Whichever Government acts as administrator for the bridges when they are returned to public ownership, it must acknowledge that the rate of toll on these bridges has an impact on the road freight sector directly and constitutes a direct tax on business operators in Wales.

dadl, soniodd y Gweinidog dros yr amgylchedd ar y pryd am bwysigrwydd cyswllt rheilffordd i deithwyr o Lynebwy i Gasnewydd, a'r modd y byddai'n lleddfu rhywfaint o'r pwysau o ran traffig ar yr M4. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, mae'r pwysau o ran traffig ar hyd yr M4 wedi cynyddu ac rydym yn dal i aros am y cyswllt rheilffordd o Lynebwy i Gasnewydd.

Mae Cymru yn cynhyrchu tua 2% o holl symudiadau teithwyr ar reilffyrdd y Deyrnas Unedig, ac mae'n derbyn neu'n anfon tua 15% o'r holl nwyddau a gludir ar reilffyrdd y DU. Gall trê'n nwyddau nodweddiadol dynnu 50 o lorïau oddi ar ffyrdd Cymru. Dros y chwe blynedd diwethaf, ledled y Deyrnas Unedig, amcangyfrifir bod cludo nwyddau ar reilffyrdd wedi arbed 2 filiwn o dunelli o lygryddion, sef bron i 4 biliwn o filltiroedd lori neu 31.5 miliwn o deithiau lori. Mae'r cyswllt rheilffordd â Glynebwy drwy Gasnewydd i farchnadoedd yn Lloegr a thir mawr Ewrop yn hanfodol os ydym am gynnal hyfywedd economaidd ardal fenter o amgylch Glynebwy a chwblhau ffordd Blaenau'r Cymoedd, y bu disgwyl mawr amdani ac sydd wedi costio mwy na'r gyllideb a ddyrannwyd ar ei chyfer.

Rwyf yn cydnabod yr ymgyrchu effeithiol gan grwpiau teithwyr rheilffyrdd yn neddwyrain Sir Fynwy, sydd wedi arwain at gynnydd yn nifer y trenau sy'n aros yng ngorsaf Cas-gwent ac sydd wedi sicrhau cynnydd o 9% yn nifer y teithwyr. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar draffig yr M4, mae angen i fwy o drenau stopio yng Nghil-y-coed a Chyffordd Twannel Hafren, ac mae angen gorsaf drenau newydd i wasanaethu'r datblygiad preswyl i'r dwyrain o Gasnewydd.

I gloi, hoffwn gyfeirio'n fyr at bontydd Hafren. Mae gan y cwmni gweithredu gonsesiwn a gyfyngir gan y gyfraith i uchafswm o 30 mlynedd. Y dyddiad gorffen gwirioneddol fydd y dyddiad pan fydd y cwmni wedi casglu swm penodol, a disgwylir i hynny ddigwydd yn ystod 2017. Pa Lywodraeth bynnag a fydd yn gweinyddu'r pontydd pan fyddant yn cael eu dychwelyd i berchnogaeth gyhoeddus, bydd yn rhaid iddi gydnabod bod cyfradd y doll ar y pontydd hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar y sector

cludo nwyddau ar y ffyrdd, a bod y doll yn gyfystyr â threth uniongyrchol ar weithredwyr busnesau yng Nghymru.

**Vaughan Gething:** I am very pleased to speak once again about the benefits of improved transport connectivity. Since becoming an Assembly Member, I have taken a particular interest in the development of passenger rail across the whole of south Wales, and I acknowledge that that started from a fairly narrow constituency perspective. In the east of my constituency, through Rumney, Trowbridge, St Mellons and Llanrumney, there is no passenger rail link to Newport or the middle of Cardiff. That means that, if you live in that part of the city and you need to get to work, go shopping or do anything in the middle of Cardiff, it will take you at least 45 minutes, probably more like an hour, to get there. That has a huge impact on people's social activity and economic circumstances, including their ability to access jobs and their ability and willingness to go to work.

I was interested in the prospect of having passenger rail through the east of my constituency. I have had conversations with people from Network Rail and other transport bodies, and they were very clear that the only way that we could really do that was if electrification happened across the whole south Wales network and if a metro network was also created. I then took a much greater interest in more strategic and wide-ranging considerations. Therefore, I am not surprised to find that passenger rail has increased and expanded. Every time new lines have been put in and new station capacity has been created in recent years, the carriages have filled up because there is the demand. On some Valleys lines, demand has risen by 80% over the past decade, and it is certainly at least 6% overall. Over the next few years, we will have a confluence of different events, as we all know. There will be a new franchise to be awarded, and there needs to be new rolling stock for the new franchise as well.

**Vaughan Gething:** Rwyf yn falch iawn o gael siarad unwaith eto am fanteision cysylltiadau trafndiaeth gwell. Ers dod yn Aelod o'r Cynulliad, rwyf wedi cymryd diddordeb arbennig yn y gwaith o ddatblygu rheilffyrdd i deithwyr ledled y de, ac rwyf yn cydnabod bod hynny wedi dechrau o safbwynt eithaf cul a oedd yn ymwneud â'm hetholaeth. Yn nwyrain fy etholaeth, trwy Dredelerch, Trowbridge, Llaneirwg a Llanrhymni, nid oes cyswllt rheilffordd i deithwyr i Gasnewydd na chanol Caerdydd. Felly, os ydych yn byw yn y rhan honno o'r ddinas ac os oes angen ichi fynd i'r gwaith, mynd i siopa neu wneud unrhyw beth yng nghanol Caerdydd, bydd yn cymryd o leiaf 45 munud, neu'n debycach i awr, fwy na thebyg, ichi gyrraedd yno. Mae hynny'n cael effaith enfawr ar weithgarwch cymdeithasol ac amgylchiadau economaidd pobl, gan gynnwys eu gallu i gael swyddi a'u gallu a'u parodrwydd i fynd i weithio.

Roedd gennyf ddiddordeb yn y gobaith o gael rheilffordd i deithwyr drwy ddwyrain fy etholaeth. Rwyf wedi cael sgysiaau â phobl o Network Rail a chyrrff trafndiaeth eraill, a bu iddynt nodi'n glir iawn mai'r unig ffordd y gallem wneud hynny mewn gwirionedd oedd pe bai trydaneiddio'n digwydd ledled holl rwydwaith y de a phe bai rhwydwaith metro'n cael ei greu hefyd. Yna, cymerais lawer mwy o ddiddordeb mewn ystyriaethau ehangach a mwy strategol. Felly, nid wyf yn synnu o ddarganfod bod rheilffyrdd i deithwyr wedi cynyddu ac ehangu. Bob tro y mae rheilffyrdd newydd wedi cael eu gosod ac y mae capasiti newydd wedi ei greu mewn gorsafoddd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r cerbydau wedi llenwi oherwydd bod galw amdanynt. Ar rai o reilffyrdd y Cymoedd, mae'r galw wedi cynyddu 80% dros y degawd diwethaf, ac mae'n sicr wedi cynyddu o leiaf 6% yn gyffredinol. Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd llawer o wahanol ddigwyddiadau'n cyd-daro, fel y gwyddom i gyd. Bydd angen dyfarnu masnachfaint newydd, a bydd angen cerbydau newydd ar gyfer y fasnachfaint newydd hefyd.



This brings us back to why, across all the parties, we are all saying that electrification is not just a generational opportunity, but that it is so important to ensure that we get electrification through the whole south Wales Valleys network. If we do not, we will not get Swansea main line electrification. If we do not, we will have additional costs locked into the next franchise of a double procurement exercise for two different rolling stocks and a double maintenance cost of maintaining an electric stock and a diesel fleet. These are points that the cross-party group on rail, which I chair, has made in our meetings and in the lobbying session that we had in the House of Commons, where we had cross-party representation from this Chamber going to make the case on behalf of Wales. We were really pleased to have the Welsh Minister responsible for transport, Carl Sargeant, the Minister for Communities and Local Government, there to make the business case that the Welsh Government has been working on with officials from the Department for Transport.

As I said, the full electrification of the south Wales network is essential for a metro to be real and for the Swansea main line. I am really pleased to see that local government, before and after the recent elections, is on board and recognises the opportunities that exist. The South East Wales Transport Alliance and the South West Wales Integrated Transport Consortium are signed up to the concept of a metro. In fact, SEWTA has been very clear that any future development and strategic transport planning will have to be metro-compliant. That means that it will have to be something that helps with the potential to deliver a metro in future rather than something that could stop it taking place. The point has already been made about freight. I am looking at my colleague David Rees, who is always reminding us and me that we must not forget about rail freight, because 15% of the UK's rail freight goes through Port Talbot.

Daw hynny â ni'n ôl at y rheswm pam, ar draws pob plaid, yr ydym i gyd yn dweud nad cyfle i genhedlaeth yn unig yw trydaneiddio, ond ei bod yn bwysig sicrhau bod holl rwydwaith Cymoedd y de'n cael ei drydaneiddio. Os na wnawn hynny, ni fyddwn yn gweld y brif reilffordd i Abertawe yn cael ei thrydaneiddio. Os na wnawn hynny, bydd gennym gostau ychwanegol ynghlwm wrth y fasnachfaint nesaf, a fydd yn deillio o orfod caffael dau fath gwahanol o gerbydau a thalu cost cynnal a chadw cerbydau trydan a cherbydau diesel. Dyma'r pwyntiau y mae'r grŵp trawsbleidiol ar reilffyrdd, yr wyf yn ei gadeirio, wedi eu gwneud yn ein cyfarfodydd ac yn y sesiwn lobïo a gawsom yn Nhŷ'r Cyffredin, lle'r aeth cynrychiolaeth drawsbleidiol o'r Siambr hon i gyflwyno'r achos ar ran Cymru. Roeddem yn wirioneddol falch o gael cwmni Gweinidog Cymru sy'n gyfrifol am drafnidiaeth, Carl Sargeant, sef y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, i gyflwyno'r achos busnes y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio arno gyda swyddogion o'r Adran Drafnidiaeth.

Fel y dywedais, mae trydaneiddio holl rwydwaith y de'n hanfodol er mwyn cael metro ac er mwyn y brif reilffordd i Abertawe. Rwyf yn wirioneddol falch o weld bod llywodraeth leol, cyn ac ar ôl yr etholiadau diweddar, yn gefnogol ac yn cydnabod y cyfleoedd sy'n bodoli. Mae Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru a Chonsortium Cludiant Integredig De-orllewin Cymru wedi ymrwymo i'r cysyniad o fetro. Yn wir, mae Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru wedi dweud yn glir iawn y bydd yn rhaid i unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol ac unrhyw waith cynllunio trafnidiaeth strategol fod yn gydnaws â metro. Mae hynny'n golygu y bydd yn rhaid iddo fod yn rhywbeth sy'n helpu'r potensial i ddarparu metro yn y dyfodol yn hytrach nag yn rhywbeth a allai ei atal rhag digwydd. Gwnaed y pwynt ynghylch cludo nwyddau eisoes. Rwyf yn edrych ar fy nghydweithiwr, David Rees, sydd bob amser yn ein hatgoffa ni ac yn fy atgoffa i bod yn rhaid inni beidio ag anghofio am gludo nwyddau ar y rheilffyrdd, oherwydd mae 15% o'r nwyddau sydd ar reilffyrdd y DU yn mynd trwy Bort Talbot.

However, it is important to recognise that we have significant challenges from other parts of the UK. High-speed rail is going to happen. I am sure about that. We know that other transport authorities in the UK city regions are bidding for projects, and, if we get left behind, there will be a structural deficit with regard to how we move people and jobs around the whole of the south Wales economy that it will take us many years to recover from. It may be a gap that we would never recover from. I welcome the fact that, with the same unity that we have found here, businesses across the whole of south Wales have come on board with the case for electrification across south Wales up to Swansea, with the recognition that Swansea is a gateway to west Wales and that it is not just about the narrow corridor around the Cardiff travel-to-work area or the city of Swansea. This is an issue that affects the whole of the south Wales economy. In voting later today, and as we continue to lobby our colleagues in Parliament, we should recognise that we all have an essential interest in seeing the UK Government make the right decision. It is its responsibility; it is not a devolved area. We need to ensure that we continue to speak with a unified voice to get the very best deal for Wales.

**Mohammad Asghar:** The Conservative-led Government at Westminster has embarked on the biggest rail investment programme since the Victorian era. As part of this programme, the Department for Transport announced last year that the Great Western main line would be electrified between London and Cardiff, at a cost of £1 billion. This will reduce journey times from London to Cardiff by 17 minutes, and London to Swansea by 20 minutes. This investment is in stark contrast to what was done by the last Labour Government, which did not electrify one single mile of track in Wales in its 13 years in power. Work is also being done on the viability of extending electrification to Swansea and the Valleys lines network. It is on the Valleys lines that I wish to concentrate my remarks today.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod heriau sylweddol yn ein hwynebu o rannau eraill o'r DU. Bydd rheilffyrdd cyflym yn cael eu cyflwyno. Rwyf yn siŵr o hynny. Gwyddom fod awdurdodau trafniadaeth eraill yn ninas-ranbarthau'r DU yn gwneud cais am brosiectau, ac os cawn ein gadael ar ôl, bydd diffyg strwythurol o ran sut y byddwn yn symud pobl a swyddi o gwmpas holl economi'r de, a fydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w lenwi. Gallai fod yn fwch na fyddem byth yn ei lenwi. Croesawaf y ffaith bod busnesau ledled y de, gyda'r un undod ag yr ydym wedi ei weld yma, wedi cefnogi'r achos dros drydaneiddio ar draws y de hyd at Abertawe, gan gydnabod bod Abertawe yn borth i'r gorllewin ac nad oes a wnelo â'r coridor cul yn unig o amgylch ardal teithio i'r gwaith Caerdydd neu ddinas Abertawe. Mae hwn yn fater sy'n effeithio ar holl economi'r de. Wrth bleidleisio'n nes ymlaen heddiw, ac wrth inni barhau i lobio ein cydweithwyr yn y Senedd yn San Steffan, dylem gydnabod bod budd hanfodol i bob un ohonom mewn gweld Llywodraeth y DU yn gwneud y penderfyniad cywir. Ei chyfrifoldeb hi ydyw; nid yw'n faes sydd wedi'i ddatganoli. Mae angen inni sicrhau ein bod yn parhau i siarad ag un llais er mwyn sicrhau'r fargen orau posibl i Gymru.

**Mohammad Asghar:** Mae'r Llywodraeth a gaiff ei harwain gan y Ceidwadwyr yn San Steffan wedi dechrau ar y rhaglen fuddsoddi fwyaf mewn rheilffyrdd ers Oes Fictoria. Yn rhan o'r rhaglen honno, cyhoeddodd yr Adran Drafniadaeth y llynedd y byddai prif reilffordd y Great Western yn cael ei thrydaneiddio rhwng Llundain a Chaerdydd, am gost o £1 biliwn. Bydd hynny'n golygu y bydd y daith o Lundain i Gaerdydd 17 munud yn llai, ac y bydd y daith o Lundain i Abertawe 20 munud yn llai. Mae'r buddsoddiad hwn yn hollol wahanol i'r hyn a wnaed gan y Llywodraeth Lafur ddiwethaf, na lwyddodd i drydaneiddio'r un filltir o drac yng Nghymru yn ystod y 13 blynedd y bu mewn grym. Mae gwaith yn cael ei wneud hefyd ar hyfywedd ymestyn y gwaith trydaneiddio i Abertawe a rhwydwaith rheilffyrdd y Cymoedd. Hoffwn ganolbwyntio heddiw ar reilffyrdd y Cymoedd.

Investing in rail electrification is one of the

Buddsoddi mewn trydaneiddio rheilffyrdd yw

most effective ways to grow the economy in Wales. It was a Conservative Government that first made the case for electrification of the Valleys lines, when it was announced in 2011. The then Secretary of State for Transport, Philip Hammond, said that the Valleys electrification represented the best value for money rail electrification investment that can be made in Wales. He went on to say that

‘it would have a significant effect on the economy of Cardiff and the valleys by deepening labour markets, improving connectivity and significantly enhancing the attractiveness of the area to investors.’

**David Rees:** Will you take an intervention?

**Mohammad Asghar:** Let me finish my speech first, please.

It is not just about the economy, it would bring a big benefit with regard to jobs and tourism, and Labour has continuously failed to improve tourism in Wales. Improving the Valleys lines infrastructure will reduce the barriers to employment. People living in the Heads of the Valleys would be able to access jobs in Cardiff. In other words, we would take people to the jobs rather than jobs to the people. As the chair of the South East Wales Transport Alliance, Andrew Morgan, has said, rail electrification has the potential to act as a catalyst for the wider economic regeneration of the region by increasing the travel to work area. We also need to look at increasing the frequency of trains in order to maximise economic benefit to the full.

I am a strong believer in the need to enhance the rail service between Ebbw Vale and Newport by providing an hourly service. I know that the Welsh Government’s national transport plan refers to the introduction of a trial bus service between Rogerstone and Newport as a first step towards introducing hourly rail services. This bus trial service commenced in January 2012 and will be

un o’r ffyrdd mwyaf effeithiol o dyfu’r economi yng Nghymru. Llywodraeth Geidwadol oedd y llywodraeth gyntaf i gyflwyno’r achos dros drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, pan gafodd ei gyhoeddi yn 2011. Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ar y pryd, Philip Hammond, mai trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd oedd y buddsoddiad gorau y gellid ei wneud yng Nghymru o ran trydaneiddio rheilffyrdd mewn modd a oedd yn sicrhau gwerth am arian. Aeth ymlaen i ddweud y

byddai’n cael effaith sylweddol ar economi Caerdydd a’r cymoedd drwy ddyfnhau marchnadoedd llafur, gwella cysylltiadau a chymryd camau sylweddol i wella apêl yr ardal i fuddsoddwyr.

**David Rees:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Mohammad Asghar:** Gadewch imi orffen fy araith yn gyntaf, os gwelwch yn dda.

Nid oes a wnelo hyn â’r economi’n unig; byddai’n dod â budd mawr o ran swyddi a thwristiaeth, ac mae’r Blaid Lafur wedi methu’n barhaus â gwella twristiaeth yng Nghymru. Bydd gwella seilwaith rheilffyrdd y Cymoedd yn lleihau’r rhwystrau i gyflogaeth. Byddai pobl sy’n byw ym Mlaenau’r Cymoedd yn gallu cael mynediad i swyddi yng Nghaerdydd. Mewn geiriau eraill, byddem yn mynd â phobl at y swyddi yn hytrach na mynd â swyddi at y bobl. Fel cadeirydd Cynghair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru, mae Andrew Morgan wedi dweud bod gan drydaneiddio rheilffyrdd y potensial i sbarduno adfywiad economaidd ehangach yn y rhanbarth trwy ymestyn yr ardal teithio i’r gwaith. Mae angen hefyd inni edrych ar gynyddu amllder trenau er mwyn sicrhau’r budd economaidd mwyaf posibl.

Rwyf yn credu’n gryf yn yr angen i wella’r gwasanaeth rheilffordd rhwng Glynebwy a Chasnewydd drwy ddarparu gwasanaeth bob awr. Gwn fod cynllun trafnidiaeth cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at gyflwyno cynllun peilot ar gyfer gwasanaeth bws rhwng Tŷ-du a Chasnewydd fel cam cyntaf tuag at gyflwyno gwasanaethau rheilffordd bob awr.

evaluated after six and 12 months of operation. The results will be incorporated into the business case appraisal of an hourly rail service. I urge the Minister to look favourably on this proposal and to take into consideration the economic benefit—

**Carl Sargeant:** I am grateful to the Member for raising the issue and, of course, William Graham and many other Members have raised the Rogerstone express that links into the Valleys lines; Jocelyn Davies has also raised this matter. You have often raised this subject with me; have you ever used that service?

**Mohammad Asghar:** Minister, I live only a few hundred yards from Rogerstone.

**Carl Sargeant:** Yes, but have you used the service?

**Mohammad Asghar:** Yes, I have used it once—not many times, but I did once.

**Carl Sargeant** *rose*—

**Mohammad Asghar:** Thank you for your question; you have now had your answer. I am sure that you will consider this sympathetically. I urge the Minister to look upon this favourably.

I am sure that everyone in the Chamber recognises the importance of investing in transport infrastructure. It is vital if we are to improve economic growth in Wales and to attract inward investment that we improve our railway infrastructure.

4.00 p.m.

I call on the Minister to work with the Government at Westminster to deliver further rail electrification and to provide an efficient and effective rail service. That would give a much-needed and welcome boost to the Welsh economy.

Dechreuodd y cynllun peilot hwn ym mis Ionawr 2012, a bydd yn cael ei werthuso ar ôl chwech a 12 mis o weithredu. Bydd y canlyniadau'n cael eu hymgorffori yn arfarniad yr achos busnes o wasanaeth rheilffordd bob awr. Anogaf y Gweinidog i edrych yn ffafriol ar y cynnig hwn ac ystyried y budd economaidd—

**Carl Sargeant:** Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am godi'r mater, ac wrth gwrs, mae William Graham a nifer o Aelodau eraill wedi sôn am wasanaeth bws cyflym Tŷ-du sy'n cysylltu â rheilffyrdd y Cymoedd; mae Jocelyn Davies wedi codi'r mater hwn hefyd. Rydych wedi codi'r pwnc hwn yn aml gyda mi; a ydych erioed wedi defnyddio'r gwasanaeth?

**Mohammad Asghar:** Weinidog, rwyf yn byw ychydig gannoedd o lathenni'n unig o Dŷ-du.

**Carl Sargeant:** Ydych, ond a ydych wedi defnyddio'r gwasanaeth?

**Mohammad Asghar:** Ydw, rwyf wedi'i ddefnyddio unwaith—nid droeon, ond fe'i defnyddiais unwaith.

**Carl Sargeant** *a gododd*—

**Mohammad Asghar:** Diolch am eich cwestiwn; rydych wedi cael eich ateb yn awr. Rwyf yn siŵr y byddwch yn ystyried y mater yn garedig. Anogaf y Gweinidog i edrych arno'n ffafriol.

Rwyf yn siŵr bod pawb yn y Siambr yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn seilwaith trafndiaeth. Os ydym am wella twf economaidd yng Nghymru a denu mewnffuddsodiad, mae'n hanfodol ein bod yn gwella ein seilwaith rheilffyrdd.

Galwaf ar y Gweinidog i weithio gyda'r Llywodraeth yn San Steffan er mwyn sicrhau bod rhagor o reilffyrdd yn cael eu trydaneiddio a darparu gwasanaeth rheilffyrdd sy'n effeithlon ac yn effeithiol. Byddai hynny'n rhoi hwb derbyniol y mae ei angen yn fawr i economi Cymru.

**Julie Morgan:** I am also pleased to be speaking in this important debate because, as other speakers have said, transport is the key to economic regeneration, to jobs, to homes, and to tackling poverty.

Like everyone else here—and I am glad that there is all-party consensus on this—I strongly support the electrification of the Great Western main line between Cardiff and Swansea and the Valleys lines. The business case currently being considered is the case for Swansea and all the Valleys lines, including Maesteg, Ebbw Vale and the Vale of Glamorgan. We are keeping our fingers crossed for a good announcement from the Department for Transport in July. All that we can do together, across the parties, will be very important.

There is already a huge demand on the Valleys lines. I am well aware of that because they run down through my Cardiff North constituency. At peak hours, the stations at Llandaff North in particular and at Heath High Level are extremely busy. However, the fact that so many people want to use them is a sign of the success of Cardiff and of the rail system. The additional carriages that were paid for by the Welsh Government have relieved the pressure to some extent, and it is not so great now as it has been in the past. However, the trains are often full and people have to stand. With electrification, there will be 50% more seating in the new trains on those lines, so electrification is urgently needed for the greater capacity that it would bring. The trains have to be replaced in any case, and so there is a clear case for using that opportunity to electrify the lines.

I want to make the point that the previous Labour Government at Westminster made a commitment to electrify the railway line from Paddington to Swansea, and went into the last general election with that commitment. It is important that we make these political points, but it is also important that we all try to work together at this stage and try to move forward rather than hark backwards.

**Julie Morgan:** Rwyf innau'n falch o gael siarad yn y ddadl bwysig hon oherwydd, fel y mae siaradwyr eraill wedi dweud, trafndiaeth yw'r allwedd i adfywiad economaidd, swyddi, cartrefi, a chymau i fynd i'r afael â thlodi.

Fel pawb arall yma—ac rwyf yn falch bod pob plaid yn cytuno ar hyn—rwyf yn gryf o blaid trydaneiddio prif reilffordd y Great Western rhwng Caerdydd ac Abertawe a thrydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd. Yr achos busnes a ystyrir ar hyn o bryd yw'r achos dros Abertawe a holl reilffyrdd y Cymoedd, gan gynnwys rheilffyrdd Maesteg, Glynebwy a Bro Morgannwg. Rydym yn croesi ein bysedd am gyhoeddiad da gan yr Adran Drafndiaeth ym mis Gorffennaf. Bydd y cyfan y gallwn ei wneud gyda'n gilydd, ar draws pob plaid, yn bwysig iawn.

Ceir galw mawr eisoes ar reilffyrdd y Cymoedd. Rwyf yn ymwybodol iawn o hynny oherwydd mae'r trenau'n rhedeg drwy fy etholaeth, sef Gogledd Caerdydd. Yn ystod yr oriau brig, mae gorsaf Ystum Taf yn enwedig a gorsaf Mynydd Bychan Uchaf yn hynod o brysur. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod cynifer o bobl am eu defnyddio yn arwydd o lwyddiant Caerdydd a'r system reilffyrdd. Mae'r cerbydau ychwanegol y talodd Llywodraeth Cymru amdanynt wedi lleihau'r pwysau i ryw raddau, ac nid yw gymaint yn awr ag y bu yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae'r trenau yn aml yn llawn ac mae'n rhaid i bobl sefyll. O drydaneiddio, bydd nifer y seddau yn y trenau newydd ar y rheilffyrdd hynny 50% yn fwy, felly mae angen trydaneiddio ar frys er mwyn sicrhau'r cynnydd mewn capasiti a fyddai'n dod yn ei sgîl. Mae'n rhaid cael trenau newydd beth bynnag, felly ceir achos clir dros ddefnyddio'r cyfle hwnnw i drydaneiddio'r rheilffyrdd.

Rwyf am wneud y pwynt bod y Llywodraeth Lafur flaenorol yn San Steffan wedi ymrwymo i drydaneiddio'r rheilffordd o Paddington i Abertawe, ac aeth i mewn i'r etholiad cyffredinol diwethaf gyda'r ymrwymiad hwnnw. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud y pwyntiau gwleidyddol hyn, ond mae hefyd yn bwysig ein bod i gyd yn ceisio gweithio gyda'n gilydd ar hyn o bryd a'n bod yn ceisio symud ymlaen yn hytrach nag

It is vital that an integrated transport network be developed as well as the electrification of the lines. We need more bus lanes to give buses priority over cars. We need secure park-and-ride facilities. We need cheap fares. In Cardiff, we need a bus station where the vast majority of buses stop, so that people coming by bus from my constituency of Cardiff North will know where they will end up, and any stranger arriving at Cardiff Central train station can go out the front door and have a clear way forward, with clear information about how to travel by public transport to any part of the city. That is not the case at the moment.

I cannot support point 4 of the Conservatives' motion. I think that it is negative and wrong to say that previous Welsh Governments have 'failed to connect communities' across Wales. Ieuan Wyn Jones mentioned the Ebbw Vale line, which is a huge success and is wildly oversubscribed. It also has well-used park-and-ride facilities. It is essential for any integrated transport system to have park-and-ride facilities and stations that are well maintained, where people feel safe. Then, of course, there is also the Vale of Glamorgan line.

There is an important point to make on the deterrents to people currently planning to use public transport. I will give one illustration of the anomalies that exist. Cardiff Bus operates an Iff card, which allows travellers to top up a card with credit and to swipe it whenever they get onto one of its buses. However, there are no cards that can be used across the different bus companies. If you are standing on Whitchurch high street, in my constituency, four or five Stagecoach buses may drive past, heading to the city centre from the Valleys, but you cannot use your Iff card on those buses and so you have to wait for a Cardiff Bus service to arrive. There must be some way of co-ordinating the services, so that you do not have to wait to get on particular buses if you have such a

edrych yn ôl i'r gorffennol.

Mae'n hanfodol datblygu rhwydwaith trafnidiaeth integredig yn ogystal â thrydaneiddio'r rheilffyrdd. Mae arnom angen rhagor o lonydd bysiau i roi blaenoriaeth i fysiau dros geir. Mae arnom angen cyfleusterau parcio a theithio diogel. Mae arnom angen tocynnau rhad. Yng Nghaerdydd, mae arnom angen gorsaf fysiau lle y mae'r rhan fwyaf o'r bysiau'n stopio, fel bod pobl sy'n dod ar y bws o'm hetholaeth i, sef Gogledd Caerdydd, yn gwybod ymhle y bydd eu taith yn dod i ben, ac fel y gall unrhyw ddieithryn sy'n cyrraedd gorsaf drenau Caerdydd Canolog fynd allan drwy'r drws ffrynt gan wybod i ble y maent yn mynd, gyda gwybodaeth glir am sut i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus i unrhyw ran o'r ddinas. Nid felly y mae ar hyn o bryd.

Ni allaf gefnogi pwynt 4 cynnig y Ceidwadwyr. Rwyf yn credu ei bod yn anghywir ac yn negyddol dweud bod Llywodraethau blaenorol Cymru wedi 'methu â chysylltu cymunedau' ar draws Cymru. Soniodd Ieuan Wyn Jones am reilffordd Glynebwy, sy'n llwyddiant ysgubol ac y mae gormod o lawer o bobl yn ei defnyddio. Mae ganddi hefyd gyfleusterau parcio a theithio poblogaidd. Mae cael cyfleusterau parcio a theithio a gorsafoedd a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda, lle y mae pobl yn teimlo'n ddiogel, yn hanfodol ar gyfer unrhyw system drafnidiaeth integredig. Yna, wrth gwrs, ceir reilffordd Bro Morgannwg.

Mae pwynt pwysig i'w wneud ynghylch y rhwystrau i bobl sy'n cynllunio i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar hyn o bryd. Hoffwn roi un enghraifft o'r anghysonderau sy'n bodoli. Mae Bws Caerdydd yn gweithredu cerdyn Iff sy'n caniatáu i deithwyr roi credyd ar gerdyn a gadael i beiriant ei sganio pryd bynnag y byddant yn mynd ar un o fysiau'r cwmni. Fodd bynnag, nid oes cardiau y gellir eu defnyddio ar draws gwahanol gwmnïau bysiau. O sefyll ar y brif stryd yn yr Eglwys Newydd yn fy etholaeth i, gallai pedwar neu bump o fysiau Stagecoach yrru heibio o'r Cymoedd i gyfeiriad canol y ddinas, ond ni allwch ddefnyddio eich cerdyn Iff ar y bysiau hynny a rhaid, felly, ichi aros am un o wasanaethau Bws Caerdydd. Rhaid bod rhyw ffordd o gydgyfylltu'r

card. Therefore, I am sympathetic to the idea of expanding the use of one card wherever possible. I ask the Minister to respond on that particular point later.

Finally, we have been talking about integrated transport, which also includes cycling and walking. Everything that we do should include those options and make it easier for people to cycle and to walk. The Welsh Government is committed to an integrated transport plan, and the key thing now is to succeed with electrification and do all that we can together to make that happen next month.

**Russell George:** I am pleased to have the opportunity to contribute to this important debate this afternoon. How people move about and transport goods is central to our economy and way of life, and the transport network plays a vital role in supporting economic growth. That is why, as an Assembly Member who represents a large rural constituency, I know that how effectively and efficiently our transport system operates is felt more acutely by residents of mid Wales than of most other parts of Wales. You only need to see the issues in and around Newtown to see what they have to put up with. My concern is that the Government is failing to fully comprehend the impact that some of its policies and lack of urgent action are having on the day-to-day lives of my constituents and those who visit mid Wales on holiday and on business. My postbag is inundated with residents' complaints about traffic, the lack of connectivity between communities across mid Wales and the lack of investment in critical infrastructure.

The Minister will not like this, but I have a shopping list of issues to raise with him, and I will try to go through it as quickly as I can, temporary Deputy Presiding Officer. However, Minister, this is not just my shopping list, but the shopping list of the people of mid Wales. I know that you will refer to capital funding being cut, but this is

gwasanaethau, fel nad oes yn rhaid ichi aros i fynd ar fysiau arbennig os oes gennych gerdyn o'r fath. Felly, rwyf yn cefnogi'r syniad o ehangu'r defnydd o un cerdyn pryd bynnag y bo modd. Gofynnaf i'r Gweinidog ymateb i'r pwynt penodol hwnnw'n ddiweddarach.

Yn olaf, rydym wedi bod yn siarad am drafnidiaeth integredig, sydd hefyd yn cynnwys beicio a cherdded. Dylai popeth a wnawn gynnwys yr opsiynau hynny a'i gwneud yn haws i bobl feicio a cherdded. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gynllun trafnidiaeth integredig, a'r peth allweddol yn awr yw llwyddo i drydaneiddio a gwneud popeth a allwn gyda'n gilydd i sicrhau bod hynny'n digwydd y mis nesaf.

**Russell George:** Rwyf yn falch o gael y cyfle i gyfrannu i'r ddaol bwysig hon y prynhawn yma. Mae'r modd y mae pobl yn symud o gwmpas ac yn cludo nwyddau'n ganolog i'n heconomi a'n ffordd o fyw, ac mae'r rhwydwaith trafnidiaeth yn chwarae rhan hanfodol o ran cefnogi twf economaidd. Dyna pam, fel Aelod o'r Cynulliad sy'n cynrychioli etholaeth wledig fawr, y gwn fod effeithlonrwydd ac effeithlonrwydd y modd y caiff ein system drafnidiaeth ei gweithredu yn effeithio'n fwy difrifol ar drigolion y canolbarth na thrigolion y rhan fwyaf o ardaloedd eraill Cymru. Nid oes ond angen ichi weld y problemau sydd yn y Drennewydd ac o amgylch y dref i weld beth y mae'n rhaid iddynt ei oddef. Fy mhryder i yw bod y Llywodraeth yn methu â deall yn iawn yr effaith y mae rhai o'i pholisïau ac y mae diffyg camau gweithredu brys yn ei chael ar fywydau o ddydd i ddydd fy etholwyr a'r sawl sy'n ymweld â'r canolbarth ar wyliau ac ar fusnes. Mae fy mag post yn orlawn o gwynion gan drigolion am draffig, diffyg cysylltiadau rhwng cymunedau ar draws y canolbarth a diffyg buddsoddi mewn seilwaith hollbwysig.

Ni fydd y Gweinidog yn hoffi hyn, ond mae gennyf restr siopa o faterion i'w codi gydag ef, a cheisiaf fynd drwyddi cyn gynted ag y gallaf, Ddirprwy Lywydd dros dro. Fodd bynnag, Weinidog, nid fy rhestr siopa i'n unig mo hon, ond rhestr siopa pobl y canolbarth. Gwn y byddwch yn cyfeirio at dorri cyllid cyfalaf, ond mae a wnelo hyn â

about priorities.

I will start positively: I welcome the commitments that were made in the revised transport plan at the end of last year. The commitments to the Newtown bypass and to the hourly service on the Cambrian line were key highlights for mid Wales and are very much welcomed. My only plea now is that you get on with delivering them. In terms of the timetable, the hourly service should already have been implemented. The Newtown bypass, which was, again, welcomed, has slipped by 12 months; in the last 12 months, it has been pushed back an extra year. I urge you, Minister, to do all that you can to pull back that year, and I know that your specific comments on that would be welcomed by my constituents.

The short-term solutions to the Newtown traffic problems are simply not being addressed. This is not a Newtown issue, but a regional issue that affects the whole of mid Wales. The Minister commissioned a study to examine the traffic issues in Newtown, and the outcome was that the published report said that everything was fine and that flows have improved. Minister, you only need to stand by the McDonald's in Newtown—you could even go inside, buy yourself a burger and sit watching from the window—to see that that is fundamentally not the case. If there has been any sign of improvement at all, it is because of the fact that people have been avoiding Newtown and mid Montgomeryshire in their droves. Tourists are taking back tales of their traffic woes and chaos and are advising people not to bother visiting. In recent weeks, we have seen queues of 600 cars from the traffic lights out towards Welshpool. People are taking one and a half hours to travel just 2 miles. Businesspeople are telling me that the town is being economically strangled because of the traffic problems, and I agree with them. Powys County Council is looking to invest in the development of local growth zones to try to revive the mid Wales economy, but what sort of footing will it be on if the status quo continues? I also offer you an invitation, Minister, to come and visit some of the businesses in Newtown with me. If you

blaenoriaethau.

Hoffwn ddechrau'n gadarnhaol: croesawaf yr ymrwymadau a wnaed yn y cynllun trafndiaeth diwygiedig ddiwedd y llynedd. Roedd yr ymrwymadau i ffordd osgoi'r Drenwydd a'r gwasanaeth bob awr ar reilffordd y Cambrian yn uchafbwyntiau allweddol i'r canolbarth, ac maent i'w croesawu'n fawr. Fy mhle yn awr yw ichi fwrw ymlaen i'w cyflawni. O ran yr amserlen, dylai'r gwasanaeth bob awr fod wedi'i weithredu eisoes. Mae ffordd osgoi'r Drenwydd, a oedd, unwaith eto, i'w chrosawu, 12 mis ar ei hól hi; yn ystod y 12 mis diwethaf, mae wedi cael ei gohirio am flwyddyn ychwanegol. Fe'ch anogaf, Weinidog, i wneud popeth o fewn eich gallu i ddileu'r flwyddyn honno o ohirio, a gwn y byddai fy etholwyr yn croesawu eich sylwadau penodol ar hynny.

Yn syml iawn, nid yw'r atebion tymor byr i'r problemau traffig yn y Drenwydd yn cael sylw. Nid mater i'r Drenwydd yn unig mohono, ond mater rhanbarthol sy'n effeithio ar y canolbarth i gyd. Comisiynodd y Gweinidog astudiaeth i archwilio problemau traffig yn y Drenwydd, a'r canlyniad oedd i'r adroddiad a gyhoeddwyd ddweud bod popeth yn iawn a bod llif y traffig wedi gwella. Weinidog, nid oes ond angen ichi sefyll wrth ymyl McDonald's yn y Drenwydd—gallech hyd yn oed fynd i mewn, prynu byrgyr ac eistedd yno gan edrych allan drwy'r ffenestr—i weld nad yw hynny'n wir mewn gwirionedd. Os bu unrhyw arwydd o welliant o gwbl, mae hynny wedi digwydd oherwydd bod lluo o bobl wedi bod yn osgoi'r Drenwydd a chanol Sir Drefaldwyn. Mae twristiaid yn mynd adref ac yn sôn am eu trafferthion o ran traffig a'r anhrefn, ac yn cynghori pobl i beidio â thrafferthu ymweld â'r lle. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi gweld ciwiau o 600 o geir o'r goleuadau traffig allan i gyfeiriad y Trallwng. Mae pobl yn cymryd awr a hanner i deithio 2 filltir yn unig. Dywed pobl fusnes wrthyf fod y dref yn cael ei thagu'n economaidd oherwydd y problemau traffig, ac rwyf yn cytuno â hwy. Mae Cyngor Sir Powys yn ystyried buddsoddi mewn datblygu parthau twf lleol i geisio adfywio economi'r canolbarth, ond ar ba fath o sail y bydd hynny'n digwydd os



commit to that today, I will even agree to buy you a burger in that Newtown McDonald's. [*Interruption.*] Fine, I will make it a double burger.

Next is the issue of Dyfi bridge. I know that I am not the only Member who has raised this with you in recent weeks. As in Newtown, the status quo simply cannot be an option. Local people want a decision—one that has been promised for months now—about the future of the bridge. Is the Minister in a position to make a commitment on new infrastructure here today? I know that my constituents, and those of Dafydd Elis-Thomas, would be overjoyed if that commitment could be made.

Finally, I welcome the amendment tabled in the name of Aled Roberts regarding the proposals to reopen Bow Street and Carno stations. I have been involved in this issue, working closely with my colleagues across mid Wales. The community has worked extremely hard on this, and I know that it welcomes the support that the Government has provided in the preparation of its business case. I believe that there is a case for reopening these stations, and I would be interested to hear the Minister's comments on that. I will just finish by saying that this is not about capital funding being cut; this is about priorities. Please do not forget mid Wales.

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I would like to thank William Graham and the Conservatives for tabling this motion today. I also thank Members for their interesting contributions. I welcome the opportunity to emphasise the importance of electrification, and I welcome what started out as a non-partisan discussion on the transport infrastructure in Wales. I welcome Members' comments on that.

We are committed to improving connectivity and journey times, and to delivering capacity for growth. We prioritise the national transport plan to make the biggest difference

bydd y sefyllfa sydd ohoni'n parhau? Hoffwn estyn gwahoddiad ichi hefyd, Weiniog, i ddod i ymweld â rhai o'r busnesau yn y Drenewydd gyda mi. Pe baech yn ymrwymo i hynny heddiw, byddwn hyd yn oed yn cytuno i brynu byrgyr ichi yn y McDonald's hwnnw yn y Drenewydd. [*Torri ar draws.*] Iawn, rwyf yn fodlon prynu byrgyr dwbl.

Pont Dyfi yw'r mater nesaf. Gwn nad fi yw'r unig Aelod sydd wedi codi'r mater hwn gyda chi yn ystod yr wythnosau diwethaf. Fel yn y Drenewydd, ni all y sefyllfa sydd ohoni fod yn opsiwn. Mae pobl leol am gael penderfyniad—un sydd wedi'i addo ers misoedd bellach—am ddyfodol y bont. A yw'r Gweinidog mewn sefyllfa i ymrwymo i seilwaith newydd yma heddiw? Gwn y byddai fy etholwyr, a rhai Dafydd Elis-Thomas hefyd, wrth eu bodd pe gellid cael ymrwymiad o'r fath.

Yn olaf, croesawaf y gwelliant a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts ynghylch y cynigion i ailagor gorsafoedd Bow Street a Charno. Rwyf wedi bod yn ymwneud â'r mater hwn, gan weithio'n agos gyda fy nghydweithwyr ar draws y canolbarth. Mae'r gymuned wedi gweithio'n eithriadol o galed ar y mater hwn, a gwn ei bod yn croesawu'r gefnogaeth y mae'r Llywodraeth wedi ei darparu wrth baratoi ei hachos busnes. Rwyf yn credu bod achos dros ailagor y gorsafoedd hyn, a byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed sylwadau'r Gweinidog ar hynny. Hoffwn orffen drwy ddweud nad oes a wnelo hyn â thorri cyllid cyfalaf; mae a wnelo â blaenoriaethau. Peidiwch ag anghofio am y canolbarth.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Hoffwn ddiolch i William Graham a'r Ceidwadwyr am gyflwyno'r cynnig hwn heddiw. Hoffwn ddiolch hefyd i'r Aelodau am eu cyfraniadau diddorol. Croesawaf y cyfle i bwysleisio pwysigrwydd trydaneiddio, a chroesawaf yr hyn a ddechreuodd fel trafodaeth amhleidiol ynghylch y seilwaith trafniadaeth yng Nghymru. Croesawaf sylwadau'r Aelodau ar hynny.

Rydym wedi ymrwymo i wella cysylltiadau ac amseroedd teithio, a darparu capasiti ar gyfer twf. Rydym yn blaenoriaethu'r cynllun trafniadaeth cenedlaethol er mwyn gwneud y

in people's lives and to support the economy. This covers all modes of transport for which we have responsibility, and it has taken place against a backdrop of increasing financial constraints. Maybe Russell George could note the reduction in capital spend that we have had in order to reprioritise his shopping list. We have responded to that challenge by working smarter and by investing in smaller and innovative schemes that make significant improvements to connectivity without breaking the bank, such as the junctions at Coldra in Newport and the improvements in the A470 sliproad at Coryton. Those are all recent.

An effective rail network is a key component of the infrastructure needed to underpin economic growth, and rail plays an important part in the labour market of Wales. It provides the connectivity to ensure that key economic centres can continue to grow. The next rail investment period offers a unique opportunity to have a step change in rail for Wales. Colleagues will know that the electrification of the Great Western main line from Cardiff to Swansea will provide a strengthened east-west economic corridor, and that it will enhance Swansea's role as an economic hub. The electrification of all the Valleys lines provides the starting point for the metro-style regional integrated transport system that Vaughan Gething and many other Members raised today. It will provide better connectivity for over two thirds of the population of Wales. The electrification of the Valleys lines, including the Ebbw Vale line—the route from Cardiff to Maesteg, via Barry—was assessed as a gap in early 2009. I direct Members to the Network Rail electrification strategy, based on the situation in October 2009, for details on that. Some of the amendments tabled by Members of the opposition parties are not strictly accurate.

The decision on the infrastructure investments will be specified in the high-level output specification, and this is a matter for the Secretary of State for Transport.

gwahaniaeth mwyaf i fywydau pobl a chefnogi'r economi. Mae'n ymdrin â phob math o drafndiaeth yr ydym yn gyfrifol amdani, ac mae wedi digwydd yn erbyn cefndir o gyfyngiadau ariannol cynyddol. Efallai y gallai Russell George nodi'r gostyngiad mewn gwariant cyfalaf yr ydym wedi'i gael er mwyn ailflaenoriaethu ei restr siopa. Rydym wedi ymateb i'r her honno trwy weithio'n gallach a thrwy fuddsoddi mewn cynlluniau arloesol a llai o faint sy'n gwneud gwelliannau sylweddol i gysylltiadau heb dorri'r banc, megis gwelliannau i'r cyffyrdd yn y Coldra yng Nghasnewydd a'r gwelliannau i ffordd ymadael yr A470 yn Coryton. Mae'r gwelliannau hynny i gyd yn rhai diweddar.

Mae rhwydwaith rheilffyrdd effeithiol yn elfen allweddol o'r seilwaith y mae ei angen i ategu twf economaidd, ac mae rheilffyrdd yn chwarae rhan bwysig yn y farchnad lafur yng Nghymru. Mae'n darparu cysylltiadau i sicrhau bod canolfannau economaidd allweddol yn gallu parhau i dyfu. Mae'r cynnod nesaf o fuddsoddi mewn rheilffyrdd yn cynnig cyfle unigryw i sicrhau newid sylweddol mewn rheilffyrdd i Gymru. Bydd fy nghydweithwyr yn gwybod y bydd trydaneiddio prif reilffordd y Great Western o Gaerdydd i Abertawe yn darparu coridor economaidd cadarnach o'r dwyrain i'r gorllewin, ac y bydd yn gwella rôl Abertawe fel canolfan economaidd. Mae trydaneiddio holl reilffyrdd y Cymoedd yn darparu man cychwyn ar gyfer y system drafndiaeth integredig ranbarthol tebyg i Fetro, y soniodd Vaughan Gething a llawer o Aelodau eraill amdani heddiw. Bydd yn darparu cysylltiadau gwell ar gyfer dros ddwy ran o dair o boblogaeth Cymru. Aseswyd bod trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, gan gynnwys rheilffordd Glynebwy—y llwybr o Gaerdydd i Faesteg, trwy'r Barri—yn fwllch, a hynny'n gynnar yn 2009. Hoffwn gyfeirio'r Aelodau at strategaeth drydaneiddio Network Rail, sy'n seiliedig ar y sefyllfa ym mis Hydref 2009, i gael manylion am hynny. Nid yw rhai o'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Aelodau'r gwrthbleidiau yn gwbl gywir.

Bydd y penderfyniad ynghylch y buddsoddiadau mewn seilwaith yn cael ei nodi yn y fanyleb allbwn lefel uchel, ac mae hwnnw'n fater i'r Ysgrifennydd Gwladol

However, we led on the development of the business case for electrification, working very closely with the Department for Transport. Members will be aware of the previous UK Government's commitment, in 2009, to fund the electrification of the Great Western main line from Paddington to Swansea, and I would ask Members to reflect on that issue as well.

In 2011, the decision was taken to stop the electrification at Cardiff. Following this, we took the lead in asking the Department for Transport to review the business case. The process of realising the commitment to electrify the Great Western main line, announced in 2009, is only now under way. I am grateful to the former Deputy First Minister, in his capacity as the former Minister for transport, for the work that the One Wales Government pursued with the former UK Labour Government, and he is right about the vision for integrated transport across Wales. We make reference to that in our amendments. We now have a strong case for continuing to Swansea. At the same time, we have established a very strong case for the Valleys lines. I press the importance of electrification during meetings with MPs and UK Ministers who are in a position to support and influence this investment. I also support colleagues in their calls for further lobbying at this very critical time. I recently wrote to AMs and MPs in south Wales, providing them with an update on the business case for electrification and asking for their continued support. Again, yesterday, I shared the detail of that with the cross-party group on rail—I was grateful for the invitation to join it.

4.15 p.m.

If the electrification projects are included in the Secretary of State's high-level output specification announcement, we will continue to work with local authorities, Assembly Members and MPs to deliver the benefit of that important investment.

dros Drafnidiaeth. Fodd bynnag, bu inni arwain y gwaith o ddatblygu'r achos busnes dros drydaneiddio, gan weithio'n agos iawn gyda'r Adran Drafnidiaeth. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o ymrwymiad Llywodraeth flaenorol y DU, yn 2009, i ariannu'r gwaith o drydaneiddio prif reilffordd y Great Western o Paddington i Abertawe, a hoffwn ofyn i'r Aelodau fyfyrto ynghylch y mater hwnnw hefyd.

Yn 2011, penderfynwyd gorffen y gwaith trydaneiddio yng Nghaerdydd. Yn dilyn hynny, bu inni arwain y ffordd o ran gofyn i'r Adran Drafnidiaeth adolygu'r achos busnes. Nid yw'r broses o wireddu'r ymrwymiad i drydaneiddio prif reilffordd y Great Western, a gyhoeddwyd yn 2009, wedi dechrau tan yn awr. Rwyf yn ddiolchgar i'r cyn-Ddirprwy Brif Weinidog, yn rhinwedd ei swydd fel y cyn-Weinidog dros drafnidiaeth, am y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru'n Un gyda Llywodraeth Lafur flaenorol y DU, ac mae'n gywir ynghylch y weledigaeth ar gyfer trafndiaeth integredig ledled Cymru. Rydym yn cyfeirio at hynny yn ein gwelliannau. Erbyn hyn, mae gennym achos cryf dros barhau hyd Abertawe. Ar yr un pryd, rydym wedi sefydlu achos cryf iawn dros reilffyrdd y Cymoedd. Rwyf yn tynnu sylw at bwysigrwydd trydaneiddio yn ystod cyfarfodydd gydag Aelodau Seneddol a Gweinidogion y DU sydd mewn sefyllfa i gefnogi'r buddsoddiad hwn a dylanwadu arno. Rwyf hefyd yn cefnogi cydweithwyr sy'n galw am ragor o lobïo ar yr adeg dyngedfennol hon. Yn ddiweddar, ysgrifennais at Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol yn ne Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am yr achos busnes dros drydaneiddio ac i ofyn am eu cefnogaeth barhaus. Unwaith eto, ddoe, rhennais y manylion am hynny â'r grŵp trawsbleidiol ar reilffyrdd—roeddwn yn ddiolchgar am y gwahoddiad i ymuno ag ef.

Os caiff y prosiectau trydaneiddio eu cynnwys yng nghyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch y fanyleb allbwn lefel uchel, byddwn yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol, Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol i wireddu budd y buddsoddiad pwysig hwnnw.

I want to see the benefits of electrification extend further, and I want to see north Wales properly connected to the electrified rail network in Liverpool. I have instructed my officials to examine that in relation to the Wales and border re-franchising process. This is critical to a long-lasting impact on Wales. It is true that a whole, integrated programme in relation to journey times, whether journeys are by road, rail or cycle, must be built in, and I recognise the issues that the Member from Mid and West Wales raised.

As Members have quite rightly mentioned—Russell George almost alluded to this, but sidestepped the issue—the funding of this is critical in terms of how we can make decisions for the future. I have been clear that the Welsh Government would like to have a greater say in decisions on rail infrastructure that affect Wales, but we have to be certain of the funding. I will support Plaid Cymru's amendment 5, because the principle is absolutely right. I am very supportive of that principle, but it does not come without caveats, and we have to understand completely the issue of what funding would follow such powers. It is important to remember that. I am sure that Members are aware of the sensitivities of the current negotiations on electrification, so I cannot support any measures that would compromise their success. I will support the amendment on that, but I would be grateful to Members if they could show understanding of our position.

Later this year, I will set out the range of outcomes that we believe the railways must contribute to achieving. Following this, I will ask the industry and users to give their views, including on how to take advantage of opportunities, address challenges and tackle financial pressures in the franchise for the future. Members will recall our debates on the Government's plans for an integrated transport network in Wales, which are set out in the national transport plan and again emphasised in our regeneration and economic

Rwyf am weld manteision trydaneiddio'n ymestyn ymhellach, ac rwyf am weld y gogledd yn cael ei gysylltu'n iawn â'r rhwydwaith o reilffyrdd sydd wedi'u trydaneiddio yn Lerpwl. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion archwilio hynny yng nghyswllt y broses o ailddyfarnu'r fasnachfaint ar gyfer rheilffordd Cymru a'r gororau. Mae hynny'n hollbwysig o ran sicrhau effaith barhaol ar Gymru. Mae'n wir bod yn rhaid ymgorffori rhaglen gyfan, integredig o safbwynt amseroedd teithio, boed ar gyfer teithiau ar y ffyrdd, ar y rheilffyrdd neu ar feic, ac rwyf yn cydnabod y materion y mae'r Aelod o Ganolbarth a Gorllewin Cymru wedi'u codi.

Fel y soniodd yr Aelodau yn gywir ddigon—bu Russell George bron iawn â chyfeirio at y mater, ond fe'i hosgôdd—mae'r cyllid ar gyfer hynny'n hollbwysig o safbwynt sut y gallwn wneud penderfyniadau ar gyfer y dyfodol. Rwyf wedi nodi'n glir y byddai Llywodraeth Cymru yn hoffi cael mwy o lais mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru o safbwynt seilwaith rheilffyrdd, ond mae'n rhaid inni fod yn sicr o'r cyllid. Byddaf yn cefnogi gwelliant 5 Plaid Cymru, oherwydd mae'r egwyddor yn hollol gywir. Rwyf yn gefnogol iawn i'r egwyddor honno, ond mae rhybuddion ynghlwm wrthi hefyd, ac mae'n rhaid inni ddeall yn llwyr pa gyllid fyddai'n dilyn pwerau o'r fath. Mae'n bwysig cofio hynny. Rwyf yn siŵr bod yr Aelodau yn ymwybodol o agweddau sensitif y trafodaethau presennol ynghylch trydaneiddio, felly ni allaf gefnogi unrhyw fesurau a fyddai'n peryglu eu llwyddiant. Byddaf yn cefnogi'r gwelliant ynghylch hynny, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Aelodau gydymdeimlo â'n sefyllfa.

Yn ddiweddarach eleni, byddaf yn nodi'r ystod o ganlyniadau y credwn fod yn rhaid i'r rheilffyrdd gyfrannu at eu cyflawni. Yn dilyn hynny, byddaf yn gofyn i'r diwydiant ac i ddefnyddwyr roi eu barn, gan gynnwys eu barn am sut i fanteisio ar gyfleoedd, ymdrin â heriau a mynd i'r afael â phwysau ariannol yn y fasnachfaint ar gyfer y dyfodol. Bydd yr Aelodau'n cofio ein dadleuon am gynlluniau'r Llywodraeth ar gyfer rhwydwaith trafndiaeth integredig yng Nghymru, a nodir yn y cynllun trafndiaeth

plans. We are already delivering major improvements in this area, but we must continue to do so.

We will continue to make progress in addressing the key priorities, which include improving accessibility and mobility, thereby making a significant difference to people's lives, with the undercurrent of ensuring that we poverty-check our decisions to ensure mobility for the people of Wales.

We have invested in lines such as the Ebbw Vale line, and in Goodwick station. I was with Members at the recent reopening of that station. Bow Street and Carno stations are not featured in the national transport plan, but they are of interest to the regional transport consortia, and they must progress a business case if those stations are their priorities. We can then assess the strength of that business case. That is not new news, and Members will be fully apprised of the situation.

We are also redoubling the single track between Saltney and Wrexham, and between Gowerton and the Loughor, which are currently capacity-constrained. We are improving accessibility on stations as part of refurbishments. I went to open the refurbished Swansea station on 11 June and it was good to see Members of the Assembly there to support that.

In addition to funding the popular concessionary bus fares, I am also funding concessionary travel on selected rural rail lines where bus travel is less available.

Julie Morgan raised the issue of travel cards. The development of a 'Go Cymru' card is under way—initial technology trials with Newport Bus and Arriva Bus have been completed and are being evaluated before wider trials can begin in Newport, Cardiff and Bangor later this summer.

enedlaethol ac a bwysleisir unwaith eto yn ein cynlluniau adfywio a'n cynlluniau economaidd. Rydym eisoes yn sicrhau gwelliannau sylweddol yn y maes hwn, ond mae'n rhaid inni barhau i wneud hynny.

Byddwn yn parhau i wneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r blaenoriaethau allweddol, sy'n cynnwys gwella hygyrchedd a symudoledd gan wneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau pobl, ac ymhlyg yn hynny y bydd yr angen i sicrhau ein bod yn gwirio ein penderfyniadau o safbwynt tlodi er mwyn sicrhau symudoledd i bobl Cymru.

Rydym wedi buddsoddi mewn rheilffyrdd megis rheilffordd Glynabw, ac yng ngorsaf Wdig. Roeddwn gydag Aelodau wrth i'r orsaf honno gael ei hailagor yn ddiweddar. Nid yw gorsaf Bow Street a Charno wedi'u cynnwys yn y cynllun trafndiaeth cenedlaethol, ond maent o ddiddordeb i'r consortia trafndiaeth rhanbarthol, a rhaid iddynt fwrw ymlaen ag achos busnes os y gorsaf hynny yw eu blaenoriaethau. Yna, gallwn asesu cryfder yr achos busnes. Nid yw hynny'n newyddion newydd, a bydd yr Aelodau yn hollol ymwybodol o'r sefyllfa.

Rydym hefyd yn ailddyblu'r trac sengl rhwng Saltney a Wrecsam, a rhwng Tre-gŵyr a Chasllwchwr, lle y mae capasiti wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd. Rydym yn gwella hygyrchedd mewn gorsafedd yn rhan o waith adnewyddu. Euthum i agor gorsaf Abertawe ar ei newydd wedd ar 11 Mehefin, ac roedd yn braf gweld Aelodau o'r Cynulliad yno i gefnogi hynny.

Yn ogystal ag ariannu'r tocynnau rhatach ar gyfer bysiau, sy'n boblogaidd, rwyf hefyd yn ariannu teithiau rhatach ar rai rheilffyrdd gwledig lle nad oes cynifer o deithiau bysiau ar gael.

Cododd Julie Morgan y mater sy'n ymwneud â chardiau teithio. Mae cerdyn 'Go Cymru' wrthi'n cael ei ddatblygu—mae cynlluniau cychwynnol i dreialu'r dechnoleg gyda Bysiau Casnewydd a Bysiau Arriva wedi eu cwblhau, ac maent yn cael eu gwerthuso cyn y gall cynlluniau peilot ehangach ddechrau yng Nghasnewydd, Caerdydd a Bangor yn ddiweddarach yr haf hwn.

This has been an interesting debate. What we now need to focus on collectively is securing full electrification of the Great Western main line to Swansea and of all the Valleys lines and then building on that to achieve an infrastructure for Wales that is fit for the future. I am sure that Members throughout this Chamber can support me on that.

**Antoinette Sandbach:** I am very pleased that Byron Davies has presented this motion, and particularly welcome the fact that he emphasised the consensus across the Chamber. He spoke about the partnership approach in seeking electrification to Swansea. It was very good to hear from across the Chamber about the good level of co-operation with the Department for Transport, especially from the Minister, Carl Sargeant. William Powell supported the team-building approach. He described the struggle, which many of us in the Chamber will recognise, that people, particularly in rural communities, face in trying to access integrated transport, particularly in relation to bus networks. It is a real problem. It is a shame that Carl Sargeant did not mention the review of the community transport schemes, which are under threat. Those schemes provide valuable support in local communities and a demand-responsive service. William Powell also reminded us that the Welsh Government can intervene to get more seamless services and that does not require further devolution. He also reminded us of the years of inaction when Labour failed to electrify the railways.

The proposal for a Welsh Oystercard received support from Julie Morgan and I think that many people in the Chamber like the idea of being able to use one card to access travel services. I was particularly interested to learn about the overdraft facility, as it were, in Cardiff. I am sure that all Members will remember reading in the press recently about the tragic rape of a young lady who did not have enough money for her bus fare—I think that she was 25p short. That kind of Oystercard would make a huge

Mae'r ddadl hon wedi bod yn ddiddorol. Yn awr, mae angen inni ganolbwyntio gyda'n gilydd ar sicrhau bod prif reilffordd y Great Western i Abertawe a holl reilffyrdd y Cymoedd yn cael eu trydaneiddio'n llawn, ac yna adeiladu ar hynny i sicrhau seilwaith i Gymru sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Rwyf yn siŵr y gall Aelodau ym mhob rhan o'r Siambr hon fy nghefnogi o ran hynny.

**Antoinette Sandbach:** Rwyf yn falch iawn bod Byron Davies wedi cyflwyno'r cynnig hwn, ac rwyf yn croesawu'n benodol y ffaith iddo bwysleisio'r consensws ar draws y Siambr. Soniodd am weithredu mewn partneriaeth wrth geisio sicrhau bod y rheilffordd i Abertawe yn cael ei thrydaneiddio. Roedd yn braf iawn clywed gan bob rhan o'r Siambr am y lefel dda o gydweithio â'r Adran Drafnidiaeth, yn enwedig gan y Gweinidog, Carl Sargeant. Roedd William Powell yn cefnogi'r awydd i adeiladu tîm. Disgrifiodd y frwydr, y bydd llawer ohonom yn y Siambr yn ei hadnabod, y mae pobl, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, yn ei hwynebu wrth geisio cael mynediad i drafnidiaeth integredig, yn enwedig yng nghyswllt rhwydweithiau bysiau. Mae'n broblem go iawn. Mae'n drueni na soniodd Carl Sargeant am yr adolygiad o gynlluniau cludiant cymunedol, sydd dan fygythiad. Mae'r cynlluniau hynny'n darparu cymorth gwerthfawr mewn cymunedau lleol ac yn darparu gwasanaeth sy'n ymateb i'r galw. Atgoffodd William Powell ni hefyd y gall Llywodraeth Cymru ymyrryd i gael gwasanaethau mwy cydgysylltiedig, ac nad oes angen rhagor o ddatganoli ar gyfer hynny. Fe'n hatgoffodd hefyd o'r holl flynyddoedd o ddiffyg gweithredu pan fethodd y Blaid Lafur â thrydaneiddio'r rheilffyrdd.

Cafodd y cynnig ynghylch cerdyn Oyster ar gyfer Cymru ei gefnogi gan Julie Morgan, a chredaf fod llawer o bobl yn y Siambr yn hoffi'r syniad o allu defnyddio un cerdyn i gael mynediad i wasanaethau teithio. Roedd gennyf ddiddordeb arbennig mewn clywed am y cyfleuster mynd i ddyled, fel petai, yng Nghaerdydd. Rwyf yn siŵr y bydd pob un o'r Aelodau yn cofio darllen yn y wasg yn ddiweddar am y digwyddiad trasig lle y cafodd menyw ifanc nad oedd ganddi ddigon o arian i dalu am ei thocyn bws ei threisio—

difference—not only in terms of integrated transport but personal safety.

I was delighted to hear about the calls for electrification in north Wales from Ieuan Wyn Jones. It is something that I very much support for north Wales. Byron Davies has also supported that and has come up to north Wales to talk to the rail providers there in order to see how we could help to move that forward. Ieuan Wyn Jones reminded us that he introduced the national transport plan. I do not think that the issue is about whether or not the plan has been introduced: the issue is around its delivery, not whether or not there is a plan.

I can hold out, once more, the hand of fraternity from the Conservatives to Plaid to say that we support the devolution of rail to Wales. Our concern relates to how the Welsh Government will handle the budget. I believe that this has been offered to the Assembly on a number of occasions and that Labour Governments have turned down that offer of devolving further powers to Wales.

**Lord Elis-Thomas:** Would the Member like to join me in congratulating my distinguished constituent, who lives in the best house on the Mawddach estuary, Richard Parry-Jones, on being named chairman-designate of Network Rail, and in wishing him as well in that and in his forthcoming marriage? Would she also join me in saying that we will, in him, have a champion for rail services in Wales that will equal his contribution to the motor industry?

**Antoinette Sandbach:** I am delighted to have had that intervention from Dafydd Elis-Thomas. [Laughter.] Of course, I welcome both of those developments, which I am sure will bring much benefit to north Wales. North Wales often gets left out of the equation in the electrification debate.

William Graham emphasised the importance of the trans-European network and the strategic approach to not only rail, but roads,

rwyf yn credu mai 25c yn brin yr oedd hi. Byddai'r math hwnnw o gerdyn Oyster yn gwneud gwahaniaeth enfawr—nid yn unig o safbwynt trafndiaeth integredig ond o safbwynt diogelwch personol hefyd.

Roeddwn yn falch o glywed am y galwadau gan Ieuan Wyn Jones i drydaneiddio yn y gogledd. Mae'n rhywbeth yr wyf yn gefnogol iawn iddo ar gyfer y gogledd. Mae Byron Davies hefyd wedi cefnogi hynny ac wedi dod i fyny i'r gogledd i siarad â'r darparwyr rheilffyrdd yno er mwyn gweld sut y gallem helpu i symud hynny yn ei flaen. Cawsom ein hatgoffa gan Ieuan Wyn Jones iddo gyflwyno'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol. Nid wyf yn credu bod a wnelo hyn â ph'un a yw'r cynllun wedi'i gyflwyno ai peidio: nid oes a wnelo â ph'un a oes cynllun ar gael ai peidio, mae a wnelo â gweithredu'r cynllun.

Unwaith eto, gallaf estyn llaw brawdoliaeth y Ceidwadwyr i Blaid Cymru gan ddweud ein bod yn cefnogi datganoli rheilffyrdd i Gymru. Mae ein pryder yn ymwneud â sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'r gyllideb. Credaf fod hynny wedi'i gynnig i'r Cynulliad droeon, a bod Llywodraethau Llafur wedi gwrthod y cynnig hwnnw i ddatganoli rhagor o bwerau i Gymru.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** A hoffai'r Aelod ymuno â mi i longyfarch fy etholwr adnabyddus sy'n byw yn y tŷ gorau ar aber afon Mawddach, sef Richard Parry-Jones, ar gael ei enwi'n ddarpar gadeirydd Network Rail, ac i ddymuno'n dda iddo yn y swydd honno ac yn ei briodas cyn bo hir? A hoffai ymuno â mi hefyd i ddweud y bydd gennym, ynddo ef, hyrwyddwr dros wasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru, y bydd ei gyfraniad i'r gwasanaethau hynny gyfwerth â'i gyfraniad i'r diwydiant moduron?

**Antoinette Sandbach:** Rwyf yn falch o fod wedi derbyn yr ymyriad hwnnw gan Dafydd Elis-Thomas. [Chwerthin.] Wrth gwrs, rwyf yn croesawu'r ddau ddatblygiad hynny, ac rwyf yn siŵr y byddant o fudd mawr i'r gogledd. Caiff y gogledd ei ddiystyru'n aml yn y ddadl am drydaneiddio.

Pwysleisiodd William Graham bwysigrwydd y rhwydwaith traws-Ewropeaidd a'r dull strategol o ymdrin nid yn unig â rheilffyrdd

and the failure to progress the M4 relief road. He also spoke about the importance of rail freight. That point was echoed by Vaughan Gething and, although he did not make a contribution, by reference to David Rees and his frequent emphasis on the importance of rail freight.

Vaughan Gething described the experience that many of us newer Assembly Members have had of joining the Assembly and starting to approach matters on a constituency basis, and then being forced to look at the wider picture in order to see how we can integrate and receive the best for Wales in terms of our transport objectives. It was very pertinent that Vaughan Gething raised the additional cost of the rolling stock and how that may affect our transport networks in future. Mohammad Asghar reminded us that the UK Conservative Government is making a £1 billion investment in Wales via electrification; that is £1 billion more than the Labour Government made. He also reminded us that Philip Hammond, in March 2011, had supported electrification of the Valleys lines.

**David Rees:** Will you take an intervention?

**Antoinette Sandbach:** I do not have much time left.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** No, no; you have two minutes left.

**Antoinette Sandbach:** Will you give me extra time for taking the intervention?

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Yes.

**Antoinette Sandbach:** In that case, I give way.

**David Rees:** Thank you for taking the intervention, and, thank you, temporary Deputy Presiding Officer, for allowing the extra time. Philip Hammond supported electrification of what he called the core Valleys lines; he did not include the Ebbw

ond â ffyrdd hefyd, a'r methiant i fwrw ymlaen â ffordd liniaru'r M4. Soniodd hefyd am bwysigrwydd cludo nwyddau ar y rheilffyrdd. Cafodd y pwynt hwnnw ei adleisio gan Vaughan Gething ac, er na chafwyd cyfraniad ganddo, drwy gyfeirio at David Rees a'i bwyslais cyson ar ba mor bwysig yw cludo nwyddau ar y rheilffyrdd.

Disgrifiodd Vaughan Gething y profiad y mae llawer ohonom sy'n Aelodau mwy newydd o'r Cynulliad wedi'i gael, sef dechrau ymdrin â materion ar sail etholaeth wrth ymuno â'r Cynulliad, ac yna cael ein gorfodi i edrych ar y darlun ehangach er mwyn gweld sut y gallwn integreiddio a chael y gorau i Gymru o ran ein hamcanion ar gyfer trafndiaeth. Roedd cyfeiriad Vaughan Gething at gost ychwanegol y cerbydau, a'r modd y gallai hynny effeithio ar ein rhwydweithiau trafndiaeth yn y dyfodol, yn berthnasol iawn. Cawsom ein hatgoffa gan Mohammad Asghar bod Llywodraeth Geidwadol y DU yn buddsoddi £1 biliwn yng Nghymru drwy drydaneiddio; sy'n £1 biliwn yn fwy nag a fuddsoddwyd gan y Llywodraeth Lafur. Cawsom ein hatgoffa ganddo hefyd bod Philip Hammond, ym mis Mawrth 2011, wedi cefnogi trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd.

**David Rees:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Antoinette Sandbach:** Nid oes gennyf lawer o amser ar ôl.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Na, na; mae gennych ddau funud yn weddill.

**Antoinette Sandbach:** A wnewch chi roi amser ychwanegol imi am dderbyn yr ymyriad?

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Gwnaf.

**Antoinette Sandbach:** Os felly, rwyf yn fodlon ildio.

**David Rees:** Diolch am dderbyn yr ymyriad, a diolch, Ddirprwy Lywydd dros dro, am ganiatáu amser ychwanegol. Roedd Philip Hammond o blaid trydaneiddio'r hyn a alwodd yn rheilffyrdd craidd y Cymoedd; ni chafodd rheilffordd Glynebwy, rheilffordd



Vale line, the Maesteg line or the Vale of Glamorgan line. So, in fact, he was not talking about all of the Valleys lines, but just a small portion—about half—of them.

**Antoinette Sandbach:** I am sure that the argument is being well made by the cross-party rail group, but it is clear that he talked about Cardiff and the Valleys, so he was looking at that position.

Julie Morgan spoke of the advantages of electrification and the need to co-ordinate services. I was very glad to hear her mention cycling and walking, which I know will have been much appreciated by organisations such as Sustrans. Russell George came up with his shopping list; he made the irresistible offer to Carl Sargeant of a burger at McDonald's in Newtown. He has been tireless in raising the issue of the Newtown bypass and he raised many other transport problems that his constituents face. We know from other evidence that those problems will be made by worse by transportation relating to potential windfarms in mid Wales and their associated infrastructure.

I thank Carl Sargeant for his enlightened response and his confirmation of how close his working relationship is with the Department for Transport in London. I very much welcome his championing of north Wales and electrification of railways there. We have a great problem with the Holton loop, which I will not go into, but it is important that we get a better service up there and that further improvements take place. It is a disgrace that it takes longer to get from north Wales to Cardiff than from north Wales to London. We need real improvements to the north-south rail link.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod, ac felly gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Maesteg na rheilffordd Bro Morgannwg eu cynnwys ganddo. Felly, mewn gwirionedd, nid oedd yn sôn am holl reilffyrdd y Cymoedd, dim ond cyfran fach ohonynt—tua'u hanner.

**Antoinette Sandbach:** Rwyf yn siŵr bod y ddadl yn cael ei chyflwyno'n dda gan y grŵp trawsbleidiol ar reilffyrdd, ond mae'n amlwg ei fod yn sôn am Gaerdydd a'r Cymoedd, felly roedd yn edrych ar y sefyllfa honno.

Soniodd Julie Morgan am fanteision trydaneiddio a'r angen i gydgyssylltu gwasanaethau. Roeddwn yn falch iawn o'i chlywed yn sôn am feicio a cherdded, a gwn y bydd sefydliadau megis Sustrans yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Cyflwynodd Russell George ei restr siopa; cafodd Carl Sargeant gynnig ganddo sy'n anodd iawn ei wrthod, sef cyfle i gael byrgyr yn McDonald's yn y Drenewydd. Mae wedi ymdrechu'n ddiflino i godi'r mater sy'n ymwneud â ffordd osgoi'r Drenewydd, a thynnodd sylw at broblemau eraill o ran trafnidiaeth y mae ei etholwyr yn eu hwynebu. Gwyddom o dystiolaeth arall y bydd y problemau hynny'n cael eu gwaethygu gan drafnidiaeth sy'n ymwneud â ffermydd gwynt posibl yn y canolbarth, a'u seilwaith cysylltiedig.

Diolchaf i Carl Sargeant am ei ymateb goleuedig ac am gadarnhau ei berthynas waith agos â'r Adran Drafnidiaeth yn Llundain. Rwyf yn croesawu'n fawr y ffaith ei fod yn hyrwyddo'r gogledd a'r angen i drydaneiddio rheilffyrdd yno. Mae gennym broblem fawr gyda'r ddolen yn Holton, nad wyf am fanylu arni, ond mae'n bwysig ein bod yn cael gwasanaeth gwell yno a bod gwelliannau pellach yn digwydd. Mae'n warthus ei bod yn cymryd mwy o amser i deithio o'r gogledd i Gaerdydd nag o'r gogledd i Lundain. Mae angen gwelliannau go iawn i'r cyswllt rheilffyrdd rhwng y gogledd a'r de.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The question is that the motion be agreed without amendment. Are there any objections? I see that there are, and so I postpone all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.  
Voting deferred until voting time.*

**Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Welsh Liberal Democrats Debate**

**Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol  
Maternity and Neonatal Services**

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Mae'r Llywydd wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, gwelliant 2 yn enw Jocelyn Davies a gwelliant 3 yn enw William Graham.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** The Presiding Officer has selected amendment 1 in the name of Jane Hutt, amendment 2 in the name of Jocelyn Davies and amendment 3 in the name of William Graham.

*Cynnig NDM5016 Aled Roberts*

*Motion NDM5016 Aled Roberts*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn credu:*

*1. Believes that:*

*a) nad oes lle i fod yn hunanfodlon yng nghyswllt cyflenwi gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ar draws Cymru;*

*a) there is no room for complacency in delivering maternity and neonatal services across Wales;*

*b) mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddal Byrddau Iechyd Lleol i gyfrif drwy fecanwaith ystyrion ar gyfer monitro ansawdd gofal mamolaeth a newyddenedigol ar draws Cymru;*

*b) it is the responsibility of the Welsh Government to hold Local Health Boards to account through a meaningful mechanism for monitoring the quality of maternity and neonatal care across Wales;*

*c) bod Cymru yn wynebu sialensiau newydd a bod cyd-destun cymdeithasol ac economaidd gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn newid yn gyson;*

*c) there are new challenges facing Wales and that the social and economic context in which maternity and neonatal services operate is constantly changing;*

*d) y dylai pob menyw yng Nghymru, ni waeth ble mae hi'n byw ac ni waeth beth yw ei chefnidir cymdeithasol neu ei hethnigrwydd, allu cael gafael ar a derbyn gofal mamolaeth a newyddenedigol diogel o ansawdd uchel;*

*d) every woman in Wales, irrespective of her location, social background, circumstances or ethnicity, should have access to, and receive, safe high quality maternity and neonatal care;*

*e) na fu gwelliant sylweddol mewn gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol er 1999; a*

*e) there has been a lack of significant improvement in maternity and neonatal Services since 1999; and*

*f) bod yr ystadegau cyfredol ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol a mamolaeth yn annerbyniol.*

*f) that the current statistics for neo-natal and maternity services are unacceptable.*

*2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*2. Calls on the Welsh Government to:*

*a) ddarparu arweinyddiaeth strategol a chryf*

*a) provide strong, strategic leadership to*

*i Fyrddau Iechyd Lleol ledled Cymru i sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn gwella;*

*b) sicrhau bod unrhyw adolygiad o wasanaethau newyddenedigol a wneir gan Fyrddau Iechyd Lleol yn cael ei gymeradwyo gan y Rhwydwaith Newyddenedigol i sicrhau nad yw unrhyw gynigion yn peryglu darparu gwasanaeth Cymru gyfan cynhwysfawr; ac*

*c) sicrhau bod unrhyw adolygiad o wasanaethau mamolaeth a wneir gan Fyrddau Iechyd Lleol yn cael ei gymeradwyo gan Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan i sicrhau nad yw unrhyw gynigion yn peryglu darparu gwasanaeth Cymru gyfan cynhwysfawr.*

**Aled Roberts:** Cynigiau y cynnig.

Wrth gynnig y cynnig, mae'n rhaid i mi gydnabod bod gwaith ar y gweill gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ynghylch y gwasanaethau arbennig hyn. Fodd bynnag, yn ystod yr haf bydd nifer o benderfyniadau yn cael eu gwneud yn dilyn adolygiadau o'r gwasanaethau hyn yn y gogledd a hefyd, hyd y deallaf, yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Felly, mae'n rhaid inni ofyn i'r Senedd ystyried y sefyllfa bresennol a'r dystiolaeth i'r pwyllgorau wrth edrych ar y gwasanaethau arbennig hyn.

Wrth wneud hynny, mae'n rhaid cydnabod bod y rhain yn feysydd ar wahân, ond, er ein bod yn cydnabod fel plaid eu bod yn wynebu sialensiau unigol, maent hefyd yn hollol ddibynnol ar ei gilydd. Mae hynny'n glir o'r adolygiadau sydd yn digwydd o fewn y byrddau iechyd lleol. Mae'n rhaid i ni ystyried y sefyllfa o ddifrif er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu rhedeg yn integredig, ond hefyd er mwyn inni leihau'r pwysau ar famau a babanod ifanc.

4.30 p.m.

A number of challenges are facing maternity and neonatal services in Wales. Those of us who sit on the health and children's committees have heard evidence about this. We have a shortfall in the number of midwives, a lack of specialist paediatricians

*Local Health Boards throughout Wales to ensure that maternity and neonatal services improve;*

*b) ensure that any review of neo-natal services undertaken by Local Health Boards are endorsed by the Neonatal Network to ensure that any proposals do not compromise the provision of a comprehensive All-Wales service; and*

*c) ensure that any review of maternity services undertaken by Local Health Boards are endorsed by the All Wales Implementation Group to ensure that any proposals do not compromise the provision of a comprehensive All-Wales service.*

**Aled Roberts:** I move the motion.

In moving the motion, I have to recognise that work is in hand by the Health and Social Care Committee and the Children and Young People Committee in relation to these particular services. However, during the summer a number of decisions will be made following reviews of these services in north Wales and also, as I understand it, in the Hywel Dda Local Health Board area. Therefore, we must ask the Senedd to consider the current situation and the evidence to the committees in looking at these particular services.

In doing so, we have to recognise that these are separate fields, but, although we recognise as a party that they face individual challenges, they are also interdependent. That is clear from the reviews taking place within the local health boards. We as a Senedd have to look seriously at the situation in order to ensure that services are truly integrated, and to reduce the pressures on mothers and young babies.

Mae nifer o heriau'n wynebu gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yng Nghymru. Mae'r rheini ohonom sy'n eistedd ar y pwyllgor iechyd a'r pwyllgor plant wedi clywed tystiolaeth am hyn. Mae gennym ddiffyg yn nifer y bydwagedd sydd ar gael a

and neonatologists, and the potential restructuring of many neonatal and maternity services across Wales. We must also recognise that there have been pressures from outside Wales, particularly the EU working time directive.

On top of these problems, there is also a greater demand for neonatal and maternity services in Wales. There is notable evidence with regard to the increasing birth rate in Wales, particularly in Cardiff and the north-east, over the last decade. That has put more pressure on neonatal and maternity services.

The Royal College of Midwives publishes an annual report on the state of maternity services in the four nations of the United Kingdom. The dramatic fall in the number of midwives in Wales clearly concerns the royal college, which notes that there was a 7% drop in the number of midwives in Wales between 2008 and 2010. This means that Wales has moved from a situation where it had a surplus of 72 midwives four years ago to a situation where it has a shortage of 136. As the royal college says, this is almost entirely due to a cut in the number of midwives. If as many midwives working in Wales in 2008 were still in post, there would be no meaningful shortfall. This is self-inflicted and is not due to an unforeseen or sudden rise in the number of births.

All health boards are struggling with a shortage of neonatal nurses. The neonatal capacity review puts the shortfall at 83 full-time equivalent nurses across Wales. In most instances, as the Children and Young People Committee has heard in evidence, there is great reliance on bank nurses to make up the numbers, a situation that most of us would want to avoid due to the financial consequences.

In my region, Betsi Cadwaladr University Local Health Board is struggling to staff

phrinder pediatregwyr a neonatolegwyr arbenigol, ac mae'n bosibl y bydd llawer o wasanaethau newyddenedigol a mamolaeth yn cael eu haildrefnu ledled Cymru. Rhaid inni gydnabod hefyd bod pwysau wedi dod o'r tu allan i Gymru, yn enwedig gan gyfarwydddeb oriau gwaith yr UE.

Ar ben y problemau hyn, ceir mwy o alw am wasanaethau newyddenedigol a mamolaeth yng Nghymru. Ceir tystiolaeth sylweddol ynghylch y gyfradd genedigaethau sy'n cynyddu yng Nghymru, yn enwedig yng Nghaerdydd a'r gogledd-ddwyrain, dros y degawd diwethaf. Mae hynny wedi rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau newyddenedigol a mamolaeth.

Mae Coleg Brenhinol y Bydwagedd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyflwr gwasanaethau mamolaeth ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig. Mae'n amlwg bod y gostyngiad dramatig yn nifer y bydwagedd yng Nghymru yn peri pryder i'r coleg brenhinol, sy'n nodi y bu gostyngiad o 7% yn nifer y bydwagedd yng Nghymru rhwng 2008 a 2010. Mae hynny'n golygu bod Cymru wedi symud o sefyllfa lle'r oedd ganddi 72 yn ormod o fydwragedd bedair blynedd yn ôl i sefyllfa lle y mae ganddi brinder o 136. Fel y mae'r coleg brenhinol yn dweud, mae hynny bron yn gyfan gwbl o ganlyniad i doriad yn nifer y bydwagedd. Pe bai nifer y bydwagedd a oedd yn gweithio yng Nghymru yn 2008 yn dal yn eu swyddi, ni fyddai unrhyw ddiffyg ystyrllon. Mae hon yn broblem a achoswyd gennym ni, ac nid yw wedi digwydd o ganlyniad i gynnydd annisgwyl neu sydyn yn nifer y genedigaethau.

Mae prinder nyrsys y newydd-anedig yn broblem i bob bwrdd iechyd. Mae'r adolygiad o gapasiti gwasanaethau newyddenedigol yn nodi diffyg o 83 o nyrsys cyfwerth ag amser llawn ledled Cymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, fel y mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wedi clywed mewn tystiolaeth, dibynnir yn helaeth ar nyrsys cronfa i wneud iawn am y diffyg, sy'n sefyllfa y byddai'r rhan fwyaf ohonom am ei hosgoi oherwydd y canlyniadau ariannol.

Yn fy rhanbarth i, mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cael trafferth

neonatal services at an appropriate level, currently employing one full-time and one part-time neonatal consultant in its three units, whereas the staffing level, as set out and accepted by this Assembly in 2008, suggests that eight full-time consultants are required across north Wales. This understaffing means that Betsi Cadwaladr LHB often operates at overcapacity and relies upon using neonatal services in Merseyside regularly, and, on occasions, as far away as Leeds, as we heard in evidence.

A shortage of staff can have a damaging effect on the health of newborn babies. As the Royal College of Paediatrics and Child Health in Wales said, sick babies will continue to be managed for too long in units that do not have the appropriate staff or experience for the level of care needed.

The Children and Young People Committee is currently seeking more evidence with regard to the Royal College of Nursing's assertion that nurses are not being provided with training in some instances because units are understaffed and staff cannot be released.

We are concerned that local health boards are not meeting their neonatal standards. This concern is echoed by organisations such as the Royal College of Nursing and Bliss. The Welsh Government says that it is its responsibility to hold local health boards to account to ensure that neonatal and maternity services improve. We agree with this. The Welsh Government has been too quick and ready in recent years to pass the buck to local health boards. For example, it is quite appropriate that decisions regarding reconfiguration are taken locally, but there needs to be a strong lead from the Welsh Government to ensure that services meet the needs of patients. It also needs to ensure that there is national strategic planning so that the decisions taken in one local health board do not mean that resources are taken away from two adjoining areas, leaving a huge dearth in

staffio gwasanaethau newyddenedigol ar lefel briodol. Ar hyn o bryd, mae'n cyflogi un meddyg ymgynghorol y newydd-anedig sy'n gweithio'n llawn amser ac un sy'n gweithio'n rhan amser yn ei dair uned, er bod y lefel staffio a bennwyd ac a dderbyniwyd gan y Cynulliad hwn yn 2008 yn awgrymu bod angen wyth meddyg ymgynghorol llawn amser ledled y gogledd. Mae'r lefel staffio annigonol hon yn golygu bod Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr yn aml yn gweithredu ar lefel sy'n uwch na'i gapasiti a'i fod yn dibynnu ar ddefnyddio gwasanaethau newyddenedigol yng Nglannau Mersi yn rheolaidd, a gwasanaethau sydd mor bell i ffwrdd â Leeds ar adegau, fel y clywsom mewn tystiolaeth.

Gall prinder staff gael effaith niweidiol ar iechyd babanod newydd-anedig. Fel y dywedodd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yng Nghymru, bydd babanod sâl yn parhau i gael eu rheoli'n rhy hir mewn unedau nad oes ganddynt y staff na'r profiad priodol i ddarparu lefel y gofal y mae ei angen.

Ar hyn o bryd, mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc wrthi'n ceisio cael mwy o dystiolaeth ynghylch honiad Coleg Brenhinol y Nyrsys nad yw nyrsys yn cael hyfforddiant mewn rhai achosion am nad oes digon o staff mewn unedau ac nad oes modd i staff gael eu rhyddhau.

Rydym yn pryderu nad yw byrddau iechyd lleol yn bodloni eu safonau o safbwynt gwasanaethau newyddenedigol. Mae sefydliadau megis Coleg Brenhinol y Nyrsys a Bliss yn pryderu am hynny hefyd. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud mai ei chyfrifoldeb hi yw dwyn byrddau iechyd lleol i gyfrif er mwyn sicrhau bod gwasanaethau newyddenedigol a mamolaeth yn gwella. Rydym yn cytuno â hynny. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhy barod i fwrw'r cyfrifoldeb ar unwaith ar fyrddau iechyd lleol. Er enghraifft, mae'n gwbl briodol bod penderfyniadau ynghylch ad-drefnu yn cael eu gwneud yn lleol, ond mae angen arweiniad cryf gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion cleifion. Mae angen hefyd iddi sicrhau bod cynllunio strategol yn digwydd yn genedlaethol fel nad

the middle of any particular region.

Our motion calls on the Welsh Government to provide strong, strategic leadership to local health boards to ensure that we can be satisfied that the current standards, which we believe should not be accepted at a national level, are improved. If there are reviews, it must surely be the responsibility of the Government to ensure that the standards in neonatal care can be improved in the new reconfiguration.

The Government claims that it is helping, but the actions it is taking are not sufficient. Earlier this year, the Minister responded to the Children and Young People Committee by saying that local health boards were addressing staff shortfalls. However, she was not referring to a new initiative proposed by the Government. Instead, she was referring to the long-term goals that local health boards already had in place to meet shortfalls over a long period of time. Similarly, with maternity services, the Government released its maternity strategy last autumn. We welcome this; it is a step in the right direction. However, it does not provide the necessary leadership that will help local health boards to improve services. For example, the strategy did not explain how the Government will help local health boards to meet its targets on, for example, the alarming rate of caesarean births in Wales, which we heard about in committee last week.

Finally, our motion calls on the Government to ensure that, whatever reviews are taken of maternity and neonatal services, they will not compromise the provision of services, as I have suggested previously. We would like to hear on the floor of the Senedd what the Government is intending to do to ensure that services are maintained and improved and not put under threat in future. The current situation is not acceptable, and that is why we will oppose the Government's amendment. We will support Plaid Cymru's amendment

yw'r penderfyniadau a wneir mewn un bwrdd iechyd lleol yn golygu bod adnoddau'n cael eu tynnu oddi ar ddwy ardal gyfagos, gan adael bwlch mawr yng nghanol rhanbarth penodol.

Mae ein cynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu arweiniad strategol a chryf i fyrddau iechyd lleol er mwyn sicrhau y gallwn fod yn fodlon bod y safonau presennol, na ddylent gael eu derbyn ar lefel genedlaethol yn ein barn ni, yn gwella. Os oes adolygiadau'n cael eu cynnal, rhaid mai cyfrifoldeb y Llywodraeth yw sicrhau bod modd gwella safonau gofal newyddenedigol dan y drefn newydd.

Mae'r Llywodraeth yn honni ei bod yn helpu, ond nid yw'r camau y mae'n eu cymryd yn ddigonol. Yn gynharach eleni, ymatebodd y Gweinidog i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc drwy ddweud bod byrddau iechyd lleol yn mynd i'r afael â phrinder staff. Fodd bynnag, nid cyfeirio at fenter newydd a gynigiwyd gan y Llywodraeth yr oedd. Yn hytrach, roedd yn cyfeirio at y nodau hirdymor a oedd gan fyrddau iechyd lleol yn barod i fynd i'r afael â phrinder staff dros gyfnod hir. Yn yr un modd, gyda gwasanaethau mamolaeth, cyhoeddodd y Llywodraeth ei strategaeth mamolaeth yr hydref diwethaf. Rydym yn croesawu hynny; mae'n gam i'r cyfeiriad iawn. Fodd bynnag, nid yw'n darparu'r arweiniad angenrheidiol a fydd yn helpu byrddau iechyd lleol i wella gwasanaethau. Er enghraifft, nid oedd y strategaeth yn esbonio sut y bydd y Llywodraeth yn helpu byrddau iechyd lleol i gyrraedd ei thargedau ynghylch y gyfradd frawychus o enedigaethau Cesaraidd yng Nghymru, er enghraifft, y clywsom amdani yn y pwyllgor yr wythnos diwethaf.

Yn olaf, mae ein cynnig yn galw ar y Llywodraeth i sicrhau, ni waeth pa adolygiadau a gynhelir yng nghyswllt gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, na fyddant yn peryglu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau, fel yr wyf wedi awgrymu o'r blaen. Hoffem glywed ar lawr y Senedd beth y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnal a'u gwella a sicrhau nad ydynt yn dod dan fygythiad yn y dyfodol. Nid yw'r sefyllfa bresennol yn dderbyniol, a dyna pam y

because we believe that it assists our overall motion. However, I regret to inform the Conservatives that, given that we took a stance on the budget discussions earlier, we do not feel it would be appropriate to support their amendment.

*Gwelliant 1 Jane Hutt*

*Dileu is-bwyntiau 1e ac 1f.*

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I move amendment 1 in the name of Jane Hutt.

*Gwelliant 2 Jocelyn Davies*

*Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:*

*cyllunio'r gweithlu yn yr hirdymor er mwyn sicrhau bod digon o staff arbenigol ar gael ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol ledled y wlad.*

**Jocelyn Davies:** I move amendment 2 tabled in my name.

We should acknowledge that there is a clear distinction between maternity and neonatal services and that the vast majority of those accessing maternity services will not require neonatal services. I will be dealing with them separately, and I am grateful that Aled Roberts also recognised that distinction. On maternity services, it is worth bearing in mind the increase in the number of births and that the number of midwives has not kept pace. As we have already heard, the Royal College of Midwives has pointed out that we no longer have enough midwives to meet needs and that we require an increase of 11% in order to properly meet the required service standards. The proposal to centralise maternity services is more about the failure to recruit sufficient staff than anything else. The Government's own strategy acknowledges that care should be provided as close to home as possible, and we ought to acknowledge that there is no evidence that centralisation will lead to better outcomes.

byddwn yn gwrthwynebu gwelliant y Llywodraeth. Byddwn yn cefnogi gwelliant Plaid Cymru, oherwydd credwn ei fod yn cynorthwyo ein cynnig cyffredinol. Fodd bynnag, mae'n ddrwg gennyf hysbysu'r Ceidwadwyr, o gofio inni gymryd safbwynt ar y trafodaethau ynghylch y gyllideb yn gynharach, nad ydym yn teimlo y byddai'n briodol inni gefnogi eu gwelliant hwy.

*Amendment 1 Jane Hutt*

*Delete sub-points 1e and 1f.*

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Cynigiau welliant 1 yn enw Jane Hutt.

*Amendment 2 Jocelyn Davies*

*Add as new sub-point at end of point 2:*

*undertake long-term work force planning to ensure sufficient specialist staff are available for neonatal services throughout the country.*

**Jocelyn Davies:** Cynigiau welliant 2 a gyflwynwyd yn fy enw i.

Dylem gydnabod bod gwahaniaeth amlwg rhwng gwasanaethau mamolaeth a gwasanaethau newyddenedigol, ac na fydd ar y mwyafrif helaeth o'r sawl sy'n defnyddio gwasanaethau mamolaeth angen gwasanaethau newyddenedigol. Byddaf yn ymdrin â hwy ar wahân, ac rwyf yn ddiolchgar bod Aled Roberts hefyd wedi cydnabod y gwahaniaeth hwnnw. O ran gwasanaethau mamolaeth, mae'n werth cofio'r cynnydd yn nifer y genedigaethau a'r ffaith na chafwyd cynnydd yn nifer y bydwragedd i gyd-fynd â hynny. Fel y clywsom eisoes, mae Coleg Brenhinol y Bydwragedd wedi tynnu sylw at y ffaith nad oes gennym bellach ddigon o fydwragedd i ddiwallu anghenion a bod arnom angen cynnydd o 11% er mwyn bodloni'r safonau gwasanaeth gofynnol yn iawn. Mae'r cynnig i ganoli gwasanaethau mamolaeth yn ymwneud â'r methiant i recriwtio digon o staff yn fwy na dim byd arall. Mae strategaeth y Llywodraeth ei hun yn cydnabod y dylid darparu gofal mor agos i'r

cartref ag sy'n bosibl, a dylem gydnabod nad oes dim tystiolaeth i awgrymu y bydd canoli yn arwain at ganlyniadau gwell.

This is supported by the Welsh Government's own report into service centralisation, which said of maternity and paediatric services that there is no evidence of a consistent relationship between outcomes and size of unit and, as such, no clear conclusions can be established from published research

Caiff hynny ei ategu gan adroddiad Llywodraeth Cymru ei hun ar ganoli gwasanaethau, a ddywedodd yng nghyswllt gwasanaethau mamolaeth a phediatrig nad oes dim tystiolaeth bod perthynas gyson rhwng canlyniadau a maint uned ac, o'r herwydd, nad oes modd dod i unrhyw gasgliadau clir o ymchwil a gyhoeddwyd.

Of course, we must also consider the issue of health inequalities. Locating services away from easily accessible places will result in additional barriers to access to treatment by women, and, for some, this barrier will be substantial. English research on access to maternity services among the hard-to-reach groups, such as those on low incomes, those with a chaotic lifestyle, those in abusive relationships and those with addictions, found that outcomes in pregnancy were particularly adversely affected by the lack of local services. Therefore, for some women, travel is a barrier, and we need better pregnancy outcomes. I am not convinced that centralising maternity services achieves that.

Wrth gwrs, rhaid inni ystyried anghydraddoldebau iechyd hefyd. Bydd lleoli gwasanaethau i ffwrdd o fannau hawdd eu cyrraedd yn golygu bod menywod yn wynebu rhwystrau ychwanegol o ran cael mynediad i driniaeth, ac, i rai, bydd y rhwystr hwnnw'n un sylweddol. Mewn gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn Lloegr ar fynediad i wasanaethau mamolaeth ymhlith grwpiau anodd eu cyrraedd, megis y rhai sydd ar incwm isel, y rhai sydd â ffordd gythryblus o fyw, y rhai sydd mewn perthynas lle y cânt eu cam-drin a'r rhai sy'n dibynnu ar sylweddau, gwelwyd bod diffyg gwasanaethau lleol yn cael effaith niweidiol iawn ar ganlyniadau yn ystod beichiogrwydd. Felly, i rai menywod, mae teithio yn rhwystr, ac mae arnom angen gwell canlyniadau yn ystod beichiogrwydd. Nid wyf wedi fy argyhoeddi bod canoli gwasanaethau mamolaeth yn cyflawni hynny.

The arguments around the reconfiguration of neonatal services are different, and we will all soon see the report of the Children and Young People Committee and its recommendations. I do not want to pre-empt those, but I am sure that it will be an agreed report as the evidence has been convincing. Sadly, there have been numerous reviews of neonatal services in the past, but sufficient progress has not yet been made. Looking back at the previous recommendations, many of them would still stand today.

Mae'r dadleuon ynghylch ad-drefnu gwasanaethau newyddenedigol yn wahanol, a chyn hir byddwn i gyd yn gweld adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a'i argymhellion. Nid wyf am achub y blaen ar y rheini, ond rwyf yn siŵr y bydd yn adroddiad y cytunir arno gan fod y dystiolaeth wedi bod yn argyhoeddiadol. Yn anffodus, mae gwasanaethau newyddenedigol wedi cael eu hadolygu droeon yn y gorffennol, ond nid oes digon o gynnydd wedi'i wneud eto. O edrych yn ôl ar yr argymhellion blaenorol, byddai llawer ohonynt yn dal yn berthnasol heddiw.

It would be unfair to say that there has been no progress, but the Minister told us that the current urgency on this by local health boards has been prompted by our announcing and holding our review and keeping the political spotlight on this issue. I find that extremely

Byddai'n annheg dweud na fu dim cynnydd, ond dywedodd y Gweinidog wrthym mai'r ffaith inni gyhoeddi ein hadolygiad a mynd ati i'w gynnal a'r ffaith inni gadw'r chwyddwydr gwleidyddol ar y mater hwn sydd i gyfrif am y pwys a roddir arno ar hyn



saddening but, at the same time, I am pleased that action is being taken. However, once again, staffing remains a major issue. This point was not challenged by any witness who came before us. The service is stretched and local health boards have told us that they continue to rely heavily on the goodwill of existing staff to cover sickness and absences. Therefore, I feel that urgent attention needs to be paid to workforce planning. There is a critical shortage of trained neonatal nurses and neonatologists. Every local health board and every unit is affected by this. The evidence that we have heard has been shocking and I am sure that we will hear more of that when the report is debated in the Chamber. The recruitment of suitably trained staff will go a very long way to raising standards in the units and will potentially result in savings as there will be better outcomes for sick babies; their future medical needs will be reduced.

I know that the Minister will tell us that this is a matter for each local health board. She sets the standards and perhaps there is a valid argument that it is a matter for each local health board as to how they achieve those standards, but it is not a matter for them to decide whether they reach the standards. That is firmly a matter for which the Minister must take responsibility.

*Gwelliant 3 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn nodi toriadau Llywodraeth Cymru i gyllideb y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru a oedd yn fwy nag erioed o'r blaen, a bod modd i'r rhain beryglu unrhyw ymdrechion i wella gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ledled Cymru.*

**Angela Burns:** I move amendment 3 in the name of William Graham.

I am saddened that it was only in September that we last debated maternity services in the Chamber, when the Welsh Government

o bryd gan fyrddau iechyd lleol. Rwyf o'r farn bod hynny'n drist iawn, ond, ar yr un pryd, rwyf yn falch bod camau'n cael eu cymryd. Fodd bynnag, unwaith eto, mae staffio yn parhau'n broblem fawr. Ni chafodd y pwynt hwnnw ei herio gan unrhyw dyst a ddaeth ger ein bron. Mae'r gwasanaeth dan bwysau ac mae byrddau iechyd lleol wedi dweud wrthym eu bod yn parhau i ddibynnu'n helaeth ar ewylllys da staff presennol i gyflenwi adeg salwch ac absenoldebau. Felly, teimlaf fod angen rhoi sylw ar fyrder i gynllunio'r gweithlu. Ceir prinder difrifol o nyrsys y newydd-anedig a neonatolegwyr sydd wedi'u hyfforddi. Mae hynny'n effeithio ar bob bwrdd iechyd lleol a phob uned. Mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed wedi bod yn syfrdanol, ac rwyf yn siŵr y byddwn yn clywed mwy am hynny pan fydd yr adroddiad yn cael ei drafod yn y Siambr. Bydd recriwtio staff a hyfforddwyd yn briodol yn gwneud llawer iawn i godi safonau yn yr unedau, a bydd yn arwain at arbedion, o bosibl, gan y bydd y canlyniadau ar gyfer babanod sâl yn well ac y bydd eu hanghenion meddygol yn y dyfodol yn llai.

Gwn y bydd y Gweinidog yn dweud wrthym mai mater i bob bwrdd iechyd lleol yw hwn. Hi sy'n gosod y safonau, ac efallai fod dadl ddilys mai mater i bob bwrdd iechyd lleol yw penderfynu sut y mae cyrraedd y safonau hynny, ond nid mater iddynt hwy yw penderfynu a fyddant yn cyrraedd y safonau. Mae hwnnw'n sicr yn fater y mae'n rhaid i'r Gweinidog gymryd cyfrifoldeb amdano.

*Amendment 3 William Graham*

*Add as new point at end of motion:*

*Notes the Welsh Government's record-breaking cuts to the Welsh National Health Service budget and that these have the potential to jeopardise any attempts to improve maternity and neonatal services across Wales.*

**Angela Burns:** Cynigiau welliant 3 yn enw William Graham.

Buom yn trafod gwasanaethau mamolaeth yn y Siambr mor ddiweddar â mis Medi, pan lansiodd Llywodraeth Cymru ei dull

launched its new approach, 'A Strategic Vision for Maternity Services in Wales', and yet there is already a need to bring this issue to the forefront of our discussions once again. The Welsh Conservatives are very grateful to the Liberal Democrats for tabling this debate because there are still concerns and, as others have said, staffing levels are very worrying indeed. Nothing seems to have changed, very little has improved, and we must take action.

We heard last September that the Minister had written to the NHS chief executives and chairs, calling on them to deliver the expectations set out in the vision, but where are we with that work, because one in nine babies born in Wales is admitted into neonatal care? These are the smallest and sickest babies—the most vulnerable members of our society. With Wales still not meeting the relevant standards in this discipline, the Welsh Government, is, I fear, letting these tiny babies down.

In 2009, the Wales Audit Office published a national report on maternity services in Wales, which highlighted the unacceptable variety in practices and performance in maternity care in Wales. In July 2010, the Health, Wellbeing and Local Government Committee published its report on its inquiry into neonatal care in Wales. In September 2011, the Welsh Government published its new approach to maternity services. As Jocelyn Davies has already mentioned, the Children and Young People Committee is now undertaking yet another inquiry into neonatal care. It is disappointing that, three years on from the original report, which has been discussed at each point that I have just mentioned, the Auditor General for Wales is still not happy with maternity care. He considers that progress on maternity services needs to be accelerated, and I agree with him.

Caesarean section rates are still too high. They have risen since 2007 in some hospitals.

gweithredu newydd, 'Gweledigaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru', ac mae'n fy nialonni bod angen eisoes inni roi lle amlwg i'r mater hwn yn ein trafodaethau unwaith eto. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn ddiolchgar iawn i'r Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno'r ddadl hon gan fod pryderon o hyd ac, fel y mae eraill wedi dweud, bod lefelau staffio yn destun pryder mawr. Ymddengys nad oes dim byd wedi newid ac nad oes fawr ddim wedi gwella, ac mae'n rhaid inni weithredu.

Clywsom fis Medi diwethaf fod y Gweinidog wedi ysgrifennu at brif weithredwyr a chadeiryddion y GIG, yn galw arnynt i gyflawni'r disgwyliadau a nodir yn y weledigaeth, ond ble'r ydym arni â'r gwaith hwnnw, gan fod un o bob naw o fabanod a enir yng Nghymru yn cael ei dderbyn i ofal newyddenedigol? Y rhain yw'r babanod lleiaf a'r rhai mwyaf sâl—y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Gan nad yw Cymru yn cyrraedd y safonau perthnasol yn y ddisgyblaeth hon o hyd, rwyf yn ofni bod Llywodraeth Cymru yn gwneud cam â'r babanod bach hyn.

Yn 2009, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau mamolaeth yng Nghymru, a oedd yn tynnu sylw at yr amrywiaeth annerbyniol mewn arferion a pherfformiad mewn gofal mamolaeth yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2010, cyhoeddodd y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol adroddiad ar ei ymchwiliad i ofal newyddenedigol yng Nghymru. Ym mis Medi 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei dull gweithredu newydd ar gyfer gwasanaethau mamolaeth. Fel y mae Jocelyn Davies wedi crybwyll eisoes, mae'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc bellach yn cynnal ymchwiliad arall eto i ofal newyddenedigol. Dair blynedd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad gwreiddiol, sydd wedi'i drafod yn ystod pob cam yr wyf newydd ei grybwyll, mae'n siomedig nad yw Archwilydd Cyffredinol Cymru yn fodlon â gofal mamolaeth o hyd. Mae o'r farn bod angen cyflymu'r cynnydd a wneir yng nghyswllt gwasanaethau mamolaeth, ac rwyf yn cytuno ag ef.

Mae cyfraddau toriadau Cesaraidd yn rhy uchel o hyd. Maent wedi codi er 2007 mewn

There is a need to increase staffing and to increase capacity. I think that Aled Roberts mentioned that neonatal admissions in Betsi Cadwaladr University Local Health Board have increased by nearly 40%. As Jocelyn Davies has mentioned, evidence presented to the Children and Young People Committee raised concerns with all of us regarding the way in which hospital reconfiguration will impact upon an already struggling service.

In January and February this year, the neonatal unit at Singleton Hospital was fully open for only four days. Occupancy levels at Singleton are already averaging at over 90% and the health board has said that, ideally, it needs more neonatal cots. Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board already provides considerable support to other health boards, such as Hywel Dda Local Health Board in my constituency. I have real concerns about what will happen when reconfiguration plans go ahead and there will be more pressure on places like Singleton. It cannot be acceptable for a centre for neonatal care, and it is a prime example of the shortage that exists in neonatal care.

4.45 p.m.

The Minister will no doubt highlight the Government's 'A Strategic Vision for Maternity Services in Wales' as a major success, I am sure, but its production was incredibly slow. It was so slow that the auditor general once again judges that it is too early even to measure its impact. Three years is long enough. These babies and their families deserve much more. For example, the number of midwives at Betsi Cadwaladr, Hywel Dda, the Cardiff and Vale and the Cwm Taf local health boards still falls below that required under clinical excellence guidance, and the majority of LHBs cannot even prove that all their staff are properly trained. Surely appropriate staffing is one of the simplest ways of ensuring good care. Acceptable levels are not met and, on top of staffing concerns, mothers and babies still find themselves travelling incredibly long

rhai ysbytai. Mae angen cynyddu lefelau staffio a chynyddu capasiti. Credaf i Aled Roberts sôn bod nifer y babanod a dderbynnir i ofal newyddenedigol yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cynyddu bron i 40%. Fel y mae Jocelyn Davies wedi crybwyll, cododd tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc bryderon ymhlith pob un ohonom ynglŷn â'r modd y bydd ad-drefnu ysbytai yn effeithio ar wasanaeth sydd eisoes dan bwysau.

Ym mis Ionawr a Chwefror eleni, dim ond am bedwar diwrnod y bu'r uned i'r newydd-anedig yn Ysbyty Singleton ar agor yn llawn. Ar gyfartaledd, mae lefel y lleoedd a ddefnyddir yn Singleton eisoes dros 90%, ac mae'r bwrdd iechyd wedi dweud, yn ddefnyddol, bod arno angen mwy o gotiau i'r newydd-anedig. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg eisoes yn darparu cefnogaeth sylweddol i fyrddau iechyd eraill, megis Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn fy etholaeth i. Mae gennyf bryderon gwirioneddol ynghylch beth fydd yn digwydd pan fydd cynlluniau ad-drefnu'n mynd yn eu blaen a phan fydd mwy o bwysau ar leoedd megis Singleton. Ni all fod yn sefyllfa dderbyniol i ganolfan ar gyfer gofal newyddenedigol, ac mae'n enghraifft wych o'r prinder sy'n bodoli mewn gofal newyddenedigol.

Mae'n siŵr y bydd y Gweinidog yn tynnu sylw at gyhoeddiad y Llywodraeth, 'Gweledigaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru' fel llwyddiant mawr, ond bu'r gwaith o'i gynhyrchu yn hynod araf. Roedd mor araf nes i'r archwilydd cyffredinol ddweud unwaith eto ei bod yn rhy gynnar hyd yn oed i fesur ei effaith. Mae tair blynedd yn ddigon hir. Mae'r babanod hyn a'u teuluoedd yn haeddu llawer mwy. Er enghraifft, mae nifer y bydwagedd yn ardaloedd byrddau iechyd lleol Betsi Cadwaladr, Hywel Dda, Caerdydd a'r Fro a Chwm Taf yn dal yn is na'r hyn sy'n ofynnol dan arweiniad ynghylch rhagoriaeth glinigol, ac ni all y rhan fwyaf o fyrddau iechyd lleol hyd yn oed brofi bod eu staff i gyd wedi'u hyfforddi'n briodol. Rhaid mai staffio priodol yw un o'r ffyrdd symlaf o sicrhau gofal da. Nid yw lefelau derbyniol yn

distances to access specialist treatment.

I am sure that we all recall the story in the press earlier this year of the Merthyr mother who was expecting twins after IVF. Six months into her pregnancy, she suffered a bleed and had to endure a four-hour ambulance journey, without her husband, to Liverpool to receive treatment. Weeks later, when her babies had been prematurely delivered, she was still there with them, and the grandparents and friends were racking up large travelling bills. She and her husband were unable to work, as they had to be with their children, so they were under massive financial strain, which is unacceptable. In north Wales, patients regularly have to travel over the border to Chester and Liverpool to access level 3 treatment, and the problem is compounded when the lack of 24-hour transport is entered into the mix.

We have concerns, too, about the uncertainty over ambulance transfers. When questioned recently, two local health board officials did not know the time it took for an ambulance to travel between two neonatal units in their area, which was within their remit. How can doctors and nurses prioritise those who need neonatal care if they do not know some of these absolute basics?

I realise that I have run out of time, and I have more to say on this important issue. However, I will finish by saying that this debate today is very important and we simply cannot sit back and accept these poor services year after year, when political parties, the auditor general and healthcare professionals have all been saying for three consecutive years that this is simply not good enough. Surely three years is enough time to start making things better.

**Peter Black:** It has been highlighted in previous contributions that, despite numerous

cael eu bodloni ac, ar ben y pryderon am staffio, mae mamau a babanod yn dal i orfod teithio pellter mawr i gael mynediad i driniaeth arbenigol.

Rwyf yn siŵr ein bod i gyd yn cofio'r stori yn y wasg yn gynharach eleni am y fam o Ferthyr a oedd yn disgwyl gefeilliaid ar ôl cael triniaeth IVF. A hithau'n feichiog ers chwe mis, cafodd achos o waedu a bu'n rhaid iddi ddiodeff taith bedair awr mewn ambiwlans, heb ei gŵr, i Lerpwl i gael triniaeth. Wythnosau'n ddiweddarach, wedi i'w babanod gael eu geni cyn pryd, roedd yn dal yno gyda nhw, ac roedd y neiniau a'r teidiau a ffrindiau yn mynd i gostau mawr i deithio i'w gweld. Nid oedd hi a'i gŵr yn gallu gweithio, gan fod yn rhaid iddynt fod gyda'u plant, felly, roeddent dan bwysau ariannol mawr, sy'n annerbyniol. Yn y gogledd, mae cleifion yn gorfod teithio dros y ffin i Gaer a Lerpwl yn rheolaidd i gael triniaeth lefel 3, ac mae'r broblem yn waeth fyth o ystyried nad oes trafndiaeth ar gael 24 awr y dydd.

Mae gennym bryderon hefyd am yr ansicrwydd ynghylch trosglwyddo cleifion mewn ambiwlans. Pan gawsant eu holi yn ddiweddar, nid oedd dau swyddog o fwrdd iechyd lleol yn gwybod faint o amser yr oedd yn ei gymryd i ambiwlans deithio rhwng dwy uned i'r newydd-anedig yn eu hardal, er bod hynny o fewn eu cylch gwaith. Sut y gall meddygon a nyrsys flaenoriaethu'r rheini y mae arnynt angen gofal newyddenedigol os nad ydynt yn gwybod rhai o'r pethau hyn sy'n hollol sylfaenol?

Rwyf yn sylweddoli bod fy amser ar ben, ac mae gennyf fwy i'w ddweud am y mater pwysig hwn. Fodd bynnag, hoffwn orffen drwy ddweud bod y ddadl hon heddiw yn bwysig iawn ac na allwn eistedd yn ôl a derbyn y gwasanaethau gwael hyn flwyddyn ar ôl blwyddyn, pan fydd pleidiau gwleidyddol, yr archwilydd cyffredinol a gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd i gyd wedi bod yn dweud am dair blynedd o'r bron nad yw hynny'n ddigon da. Does bosibl nad yw tair blynedd yn ddigon o amser i ddechrau gwella pethau.

**Peter Black:** Er gwaethaf nifer o adroddiadau, ymchwiliadau, astudiaethau a

reports, inquiries, investigations and strategies, there is little evidence that the situation has improved over the past decade. When we debated neonatal care three years ago, Wales had the lowest infant mortality rate of the four UK nations. At the time, I praised the Welsh Government for having such a low rate. Now, however, Wales has slipped behind and has the highest infant mortality rate in the UK, which is an alarming state of affairs.

Staffing shortages will only worsen unless action is taken by the Government. The biggest problem from what I have seen in my casework is staffing levels. Although staff are committed and hard-working, they are overstretched, not properly supported and often unable to cope. One constituent of mine was taken to Singleton Hospital at 12.30 p.m. but was left unattended and unexamined for two hours. Staff attempted to give her gas and air but both canisters were empty. They also failed to give her an epidural even though that was in her birth plan. The baby was born at 8.35 p.m. followed by two attempts to give her stitches, both times without an effective anaesthetic. From then until 12.20 a.m. she was left on the bed in a pool of blood, strapped in the delivery position with her baby crying, out of her reach. When her mother arrived, she bathed her and made her comfortable, but she was not given anything to eat in the 24 hours for which she was in hospital. That is a case that I am currently taking up for that constituent.

Another constituent found the bathrooms at Singleton Hospital filthy and covered in blood, which was all over the floor and the toilet seats. She contracted three types of infection and had to take two different sorts of antibiotic.

Back in September, the local paper reported that Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board had eight midwife vacancies to fill after recalculating demand following a 6% increase in births in the previous year. The health board said that it had increased the number of nursery nurses

strategaethau, nodwyd mewn cyfraniadau blaenorol mai prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod y sefyllfa wedi gwella dros y degawd diwethaf. Pan fuom yn trafod gofal newyddenedigol dair blynedd yn ôl, Cymru oedd â'r gyfradd isaf o farwolaethau babanod o blith pedair gwlad y DU. Ar y pryd, bu imi ganmol Llywodraeth Cymru am gael cyfradd mor isel. Yn awr, fodd bynnag, mae Cymru ar ei hôl hi ac mae ganddi'r gyfradd uchaf o farwolaethau babanod yn y DU, sy'n sefyllfa frawychus.

Dim ond gwaethygu y bydd prinder staff oni bai bod y Llywodraeth yn cymryd camau gweithredu. O'r hyn yr wyf wedi'i weld yn fy ngwaith achos, y broblem fwyaf yw lefelau staffio. Er bod y staff yn ymroddedig ac yn gweithio'n galed, maent dan bwysau mawr, nid ydynt yn cael eu cefnogi'n briodol, ac nid ydynt yn gallu ymdopi'n aml. Bu'n rhaid i un o'm hetholwyr fynd i Ysbyty Singleton am 12.30 p.m., ond cafodd ei gadael ar ei phen ei hun a heb ei harchwilio am ddwy awr. Ceisiodd y staff roi nwy ac aer iddi ond roedd y ddau silindr yn wag. Bu iddynt fethu â rhoi epidwral iddi hefyd er bod hynny'n rhan o'i chynllun geni. Cafodd y baban ei eni am 8.35 p.m., ac yna rhoddwyd dau gynnig ar roi pwythau iddi, heb anesthetig effeithiol y ddau dro. O'r amser hwnnw hyd 12.20 a.m., fe'i gadawyd ar y gwely mewn pwll o waed, wedi'i strapio yn yr ystum esgor gyda'i baban yn crio, allan o'i chyrraedd. Pan gyraeddodd ei mam, fe'i golchodd a'i gwneud yn gyfforddus, ond ni chafodd ddim i'w fwyta yn ystod y 24 awr y bu yn yr ysbyty. Mae hwn yn achos yr wyf yn ymdrin ag ef ar hyn o bryd ar ran yr etholwr dan sylw.

Gwelodd etholwr arall fod yr ystafelloedd ymolchi yn Ysbyty Singleton yn frwnt ac yn waed i gyd, a oedd dros y llawr ac ar seddi'r toiledau. Cafodd dri math o haint, a bu'n rhaid iddi gymryd dau fath gwahanol o wrthfotig.

Yn ôl ym mis Medi, adroddodd y papur lleol fod gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wyth swydd wag ar gyfer bydwagedd i'w llenwi ar ôl ailgyfrifo'r galw yn dilyn cynnydd o 6% yn nifer y genedigaethau yn ystod y flwyddyn flaenorol. Dywedodd y bwrdd iechyd ei fod

on its postnatal wards to support midwives in providing essential care for babies, such as feeding and bathing, and said that it had no plans for changing its maternity units. Some expectant mothers complained that they were being transferred to other maternity units within the ABMU area. Those are some examples of the issues that I have, and they are largely down to the fact that the units are not being properly staffed to meet the demand placed on them.

The Welsh Government does not have a great record on sensible workforce planning. Neonatal and maternity services are not the only elements of the health service that are suffering from poor staff planning. For a number of years, we have been raising the issue of the constant use of locum banks to make up for the lack of doctors. This not only creates uncertainty for the maternity or neonatal units and limits the availability of services, but it often ends up costing the NHS more money in the long run. The reality is that future planning will be crucial to the success of maternity and neonatal services. The number of births in Wales has fallen dramatically and subsequently increased dramatically over the last 25 years. Future planning needs to be responsive to any potential fluctuations in the birth rate. It is unclear whether the Government has the necessary flexibility to plan staffing levels for future provision, given that it has taken almost two years to complete the latest review of neonatal staffing.

The wider problem for maternity and neonatal services is that the drastic reduction in staff and the ongoing shortfall in numbers results in frequent closure of admission to units up and down the country. A recent survey by the charity Bliss showed that eight out of the nine neonatal units that responded to the survey had closed for a total of more than 440 days to babies born in the hospitals

wedi cynyddu nifer y nyrsys meithrin ar ei wardiau ôl-enedigol i gynorthwyo bydwagedd i ddarparu gofal hanfodol i fabanod, megis bwydo ac ymolchi, a dywedodd nad oedd ganddo unrhyw gynlluniau i newid ei unedau mamolaeth. Roedd rhai mamau beichiog yn cwyno eu bod yn cael eu trosglwyddo i unedau mamolaeth eraill yn ardal Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Dyna rai enghreifftiau o'r materion yr wyf am eu codi, ac mae a wnelont i raddau helaeth â'r ffaith nad yw'r unedau'n cael eu staffio'n briodol i gwrdd â'r galw sydd arnynt.

Nid oes gan Lywodraeth Cymru hanes gwych o gynllunio'r gweithlu mewn modd synhwyrol. Nid gwasanaethau newyddenedigol a mamolaeth yw'r unig elfennau o'r gwasanaeth iechyd sy'n dioddef o ganlyniad i gynllunio staff yn wael. Ers nifer o flynyddoedd, rydym wedi bod yn codi'r mater sy'n ymwneud â defnyddio cronfeydd o feddygon locwm yn gyson i wneud iawn am ddiffyg meddygon. Yn ogystal â chreu ansicrwydd ar gyfer yr unedau mamolaeth neu'r unedau i'r newydd-anedig a chyfyngu ar y gwasanaethau sydd ar gael, mae'n aml yn costio mwy i'r GIG yn y tymor hir. Y realiti yw y bydd cynllunio ar gyfer y dyfodol yn hollbwysig i lwyddiant gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Dros y 25 mlynedd diwethaf, mae nifer y genedigaethau yng Nghymru wedi gostwng yn ddramatig ac yna wedi cynyddu'n ddramatig. Mae angen i waith cynllunio ar gyfer y dyfodol ymateb i unrhyw amrywiadau posibl yn y gyfradd genedigaethau. Nid yw'n glir a oes gan y Llywodraeth yr hyblygrwydd angenrheidiol i gynllunio lefelau staffio ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol, o ystyried ei bod wedi cymryd bron i ddwy flynedd i gwblhau'r adolygiad diweddaraf o drefniadau staffio gwasanaethau newyddenedigol.

Y broblem ehangach ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yw bod y gostyngiad sylweddol yn nifer y staff a'r diffyg parhaus mewn niferoedd yn arwain yn aml at wrthod derbyn babanod i unedau ar hyd a lled y wlad. Dangosodd arolwg diweddar gan yr elusen Bliss fod wyth o'r naw uned i'r newydd-anedig a ymatebodd i'r arolwg wedi cau am gyfanswm o dros 440 o

where they are located and 890 days to babies born elsewhere. The Government needs to be smarter about how it organises services.

In our opinion, maternity services need to be combined with neonatal services to achieve maximum utilisation of resources and deliver a seamless pathway of care for both mother and baby. As present neonatal staffing levels do not allow all available cots to be staffed at all times and do not meet the Wales neonatal staffing standards, neonatal and maternity services are suffering the same problems as each other. Addressing them together and having a joined-up, seamless service would enhance the experience of all those involved. However, the Government's maternity strategy, released in the autumn, makes only passing reference to neonatal services. It recognises the obvious links between the two, but the overall strategy is far from intending to create a more unified service. The Children and Young People Committee recommended that the Government should ensure joint working and closer collaboration between neonatal and maternity services. Unfortunately, that recommendation was dismissed by the Minister, who said that each service is represented on the other's steering group and that there is, therefore, no need for any closer formal working. I ask her to think again.

**Jenny Rathbone:** This is an important debate, and I will endeavour to confine my remarks to the neonatal service. Although I am interested in the causes of an increase in caesarean sections, that is not what we are discussing today. It is important that we note Jocelyn Davies's amendment, amendment 2, about the importance of having

'long term work force planning to ensure sufficient specialist staff are available for neonatal services'.

If you read the neonatal capacity review that was published by clinicians in January, it is

ddiwrnodau i fabanod a anwyd yn ysbytai'r ardal y maent wedi'u lleoli ynnddi, ac am 890 o ddiwrnodau i fabanod a anwyd mewn manau eraill. Mae angen i'r Llywodraeth fod yn fwy craff wrth drefnu gwasanaethau.

Yn ein barn ni, mae angen i wasanaethau mamolaeth gael eu cyfuno â gwasanaethau newyddenedigol er mwyn defnyddio adnoddau i'r graddau eithaf posibl a darparu llwybr di-dor o ofal i'r fam a'r baban. Gan nad yw lefelau staffio presennol mewn gwasanaethau newyddenedigol yn caniatáu i'r holl gotiau gael eu staffio drwy'r amser, a chan nad ydynt yn bodloni safonau staffio Cymru ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol, yr un yw'r problemau sy'n wynebu gwasanaethau newyddenedigol a gwasanaethau mamolaeth. Byddai mynd i'r afael â hwy ar y cyd a chael gwasanaeth cydgysylltiedig, di-dor yn gwella profiad pawb dan sylw. Fodd bynnag, dim ond wrth fynd heibio y mae strategaeth mamolaeth y Llywodraeth, a gyhoeddwyd yn yr hydref, yn cyfeirio at wasanaethau newyddenedigol. Mae'n cydnabod y cysylltiadau amlwg rhwng y ddau, ond mae'r strategaeth gyffredinol ymhell o fod yn ceisio creu gwasanaeth mwy unedig. Argymhellodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y dylai'r Llywodraeth sicrhau bod gwasanaethau newyddenedigol a gwasanaethau mamolaeth yn gweithio ar y cyd ac yn cydweithredu'n agosach. Yn anffodus, cafodd yr argymhelliad hwnnw ei wrthod gan y Gweinidog, a ddywedodd fod y naill wasanaeth yn cael ei gynrychioli ar grŵp llywio'r llall ac, felly, nad oes angen unrhyw gydweithio ffurfiol agosach. Gofynnaf iddi ailystyried.

**Jenny Rathbone:** Mae hon yn ddadl bwysig, a cheisiaf gyfyngu fy sylwadau i'r gwasanaeth newyddenedigol. Er bod gennyf ddiddordeb yn yr hyn sy'n achosi cynnydd yn nifer y toriadau Cesaraid, nid dyna sy'n cael ei drafod gennym heddiw. Mae'n bwysig ein bod yn nodi gwelliant Jocelyn Davies, sef gwelliant 2, ynghylch pwysigrwydd

'cynllunio'r gweithlu yn yr hirdymor er mwyn sicrhau bod digon o staff arbenigol ar gael ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol'.

O ddarllen yr adolygiad o gapasiti gwasanaethau newyddenedigol a

perfectly clear that one of the reasons why neonatal cots are not available when they need to be for very premature babies is because many of those cots are being occupied by babies who do not need neonatal care. That is an issue around the continuing professional development of midwives and maternity nurses working on postnatal wards. We have to ensure that cotblocking is not happening because people are not appropriately trained to do the basics around the feeding and care of babies.

Where a baby requires intensive neonatal care, it is important that we do not kid their family into thinking that we are offering them intensive neonatal care when we are actually offering them high-dependency care. They are very different and they require different levels of staffing. When somebody has a baby of 26 weeks gestation, who fits onto the palm of an adult hand, the quality of the specialist care that needs to be available, 24-hours a day, from both doctors and nurses can be the difference between that baby surviving or not or having long-term complications or not. That simply cannot be provided in every single district maternity hospital; it is just not possible. It is neither possible in terms of the resources that we have available, nor is it possible in terms of the clinical governance that needs to be in place. Clinicians need to see a reasonably high proportion of that type of baby to maintain their clinical skills. It also cannot be ignored that there is a shortage of these specialist neonatal clinicians and nurses, not just in Wales but throughout the UK. We simply have to realise that we are in competition to ensure that we have the right people.

**Angela Burns:** I am very grateful to you for taking the intervention. I agree that there is a skills shortage here. However, do you not agree that it is compounded by the fact that many doctors who require the additional three days' training in neonatal care find it very hard to be released by their health

gyhoeddwyd gan glinigwyr ym mis Ionawr, mae'n gwbl amlwg mai un o'r rhesymau pam nad yw cotiau i'r newydd-anedig ar gael pan fo'u hangen ar gyfer babanod sy'n cael eu geni'n gynnar iawn, yw oherwydd bod llawer o'r cotiau hynny'n cael eu defnyddio gan fabanod nad oes arnynt angen gofal newyddenedigol. Mae a wnelo hynny â datblygiad proffesiynol parhaus bydwragedd a nyrsys mamolaeth sy'n gweithio ar wardiau ôl-enedigol. Mae'n rhaid inni sicrhau nad yw cotiau i'r newydd-anedig yn cael eu defnyddio'n hwy nag sydd raid am nad yw pobl yn cael eu hyfforddi'n briodol i wneud y pethau sylfaenol sy'n gysylltiedig â bwydo babanod a gofalu amdanynt.

Pan fydd ar faban angen gofal dwys i'r newydd-anedig, mae'n bwysig nad ydym yn twyllo'r teulu i feddwl ein bod yn cynnig gofal dwys i'r newydd-anedig iddynt, pan mai'r hyn yr ydym yn ei gynnig iddynt mewn gwirionedd yw gofal dibyniaeth fawr. Mae'r ddau beth yn wahanol iawn, ac mae angen gwahanol lefelau staffio ar eu cyfer. Pan fydd rhywun yn cael baban ar ôl 26 wythnos o feichiogrwydd, sy'n ddigon bach i orwedd ar gleidr llaw oedolyn, gall ansawdd y gofal arbenigol y mae angen iddo fod ar gael 24 awr y dydd gan feddygon a nyrsys olygu'r gwahaniaeth rhwng goroesi neu beidio â goroesi, neu rhwng cael cymhlethdodau hirdymor neu beidio â'u cael. Yn syml, nid oes modd darparu gofal o'r fath ym mhob ysbyty mamolaeth dosbarth; nid yw'n bosibl. Nid yw'n bosibl o ran yr adnoddau sydd ar gael inni, ac nid yw'n bosibl o ran y trefniadau llywodraethu clinigol y mae angen iddynt fod ar waith. Mae angen i glinigwyr weld cyfran gymharol uchel o'r math hwnnw o faban i gynnal eu sgiliau clinigol. At hynny, ni ellir anwybyddu'r ffaith bod prinder clinigwyr a nyrsys arbenigol o'r fath i'r newydd-anedig, nid yn unig yng Nghymru ond ledled y DU. Yn syml, rhaid inni sylweddoli ein bod yn cystadlu i sicrhau bod y bobl gywir gennym.

**Angela Burns:** Rwyf yn ddiolchgar iawn ichi am dderbyn yr ymyriad. Rwyf yn cytuno bod gennym brinder sgiliau. Fodd bynnag, onid ydych yn cytuno bod y sefyllfa'n cael ei gwaethygu gan y ffaith bod llawer o feddygon y mae arnynt angen y tridiau ychwanegol o hyfforddiant mewn gofal



boards to take that on? Also, many nurses find it difficult to be released for the very small amount of training that would put the health board into the 'safe' category. Do you also not consider it a matter of regret that the Welsh Government has almost halved the places available for children and young people's nursing positions at universities?

**Jenny Rathbone:** I would not disagree that it is really important that people are released for the training that they need. However, in order to be able to safely supervise staff on neonatal wards, we have to be able to attract people with the right level of experience. If we are in competition with other units throughout the UK, we have to be able to provide a level of critical mass and a size of unit that would mean that a specialist neonatal consultant or nurse would wish to come to Wales, as opposed to going to some other part of the UK. That is an absolutely crucial part of the debate, and one that means that we cannot shy away from reorganising our neonatal services so that they are appropriate for the whole of the population, and that people get the care that they need when they need it.

**Aled Roberts:** Do you accept that one issue that has come up in the evidence heard by the Children and Young People Committee is that there has been no problem in recruiting neonatal nurses when the recruitment processes have been started? The difficulty is that there has been little or no effort to carry out recruitment.

**Jenny Rathbone:** I will deliberate on that point. I am not sure if I agree with you. Anyway, my time has run out. I think that we need to move very carefully. We need a strategic plan and we need to look across the whole of Wales, as well as in conjunction with our partners in adjacent English health boards, which we do already. That cannot be ignored either.

**William Powell:** The Government's strategy points out that there are still inequalities

newyddenedigol yn ei chael yn anodd iawn cael eu rhyddhau gan eu byrddau iechyd i ymgymryd â'r hyfforddiant hwnnw? Yn ogystal, mae'n anodd i lawer o nyrsys gael eu rhyddhau i gael y lefel fach iawn o hyfforddiant a fyddai'n golygu bod y bwrdd iechyd yn y categori 'diogel'. Onid ydych o'r farn hefyd ei bod yn destun gofid bod Llywodraeth Cymru bron wedi haneru nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer nyrsys plant a phobl ifanc mewn prifysgolion?

**Jenny Rathbone:** Ni fyddwn yn anghytuno ei bod yn bwysig iawn bod pobl yn cael eu rhyddhau ar gyfer yr hyfforddiant y mae arnynt ei angen. Fodd bynnag, er mwyn gallu goruchwyllo staff yn ddiogel ar wardiau i'r newydd-anedig, mae'n rhaid inni allu denu pobl sydd â'r lefel iawn o brofiad. Os ydym yn cystadlu ag unedau eraill ledled y DU, mae'n rhaid inni allu darparu lefel o fâs critigol ac unedau sydd o faint a fyddai'n golygu y byddai nyrs neu feddyg ymgynghorol arbenigol i'r newydd-anedig yn dymuno dod i Gymru, yn hytrach na mynd i ryw ran arall o'r DU. Mae hynny'n rhan hollbwysig o'r ddadl, ac yn un sy'n golygu na allwn osgoi ad-drefnu ein gwasanaethau newyddenedigol er mwyn eu gwneud yn briodol i'r boblogaeth gyfan, ac er mwyn i bobl gael y gofal y mae arnynt ei angen ar yr adeg pan fydd arnynt ei angen.

**Aled Roberts:** A ydych yn derbyn mai un o'r materion sydd wedi codi yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yw nad yw recriwtio nyrsys y newydd-anedig wedi bod yn broblem ar ôl i'r prosesau recriwtio ddechrau? Yr anhawster yw na chafwyd fawr ddim ymdrech i fynd ati i recriwtio.

**Jenny Rathbone:** Byddaf yn ystyried y pwynt hwnnw. Nid wyf yn siŵr a wyf yn cytuno â chi. Fodd bynnag, mae fy amser ar ben. Credaf fod angen inni symud yn ofalus iawn. Mae arnom angen cynllun strategol ac mae angen inni edrych ar draws Cymru gyfan, yn ogystal â chyda'n partneriaid mewn byrddau iechyd cyfagos yn Lloegr, sy'n rhywbeth yr ydym yn ei wneud eisoes. Ni ellir anwybyddu hynny chwaith.

**William Powell:** Mae strategaeth y Llywodraeth yn nodi bod

across Wales in maternity services. The strategy highlights this as one of the main priorities that needs to be tackled. For example, services in rural areas are not as extensive as those in urban areas, for fairly evident reasons. The Powys Teaching Local Health Board area, for example, will only deal with low-risk and non-induced births, whereas hospitals in Cardiff, Newport, Swansea and elsewhere can cater for high-risk pregnancies and more complex needs. Maternity patients in Powys will frequently have to travel to hospitals in Hereford, Telford or even Birmingham. Clearly, this creates difficulties in the delivery of a first-class maternity service. Likewise, with neonatal services, as Powys does not have, and has no prospect of having, a district general hospital, families have to rely on facilities in other health board areas or in primary care trusts in England. This can create other, unforeseen issues for patients in mid Wales. English PCTs should take into account the needs of Welsh patients when developing their own capacity reviews. However, this can work on occasion to the detriment of patients, as has been the case recently. In Shropshire, a proposal has been made to move neonatal services from Shrewsbury to Telford, and this means an additional 20-mile trip when travelling from Wales. This can really make a difference in certain situations.

Clearly, there are issues with ensuring equality of care across Wales, especially in a context where timing is critical to the survival of a baby. One of the problems with ensuring equality of access to maternity and neonatal services in Wales is trying to establish exactly who is in charge of ensuring what happens, and when.

5.00 p.m.

Inequalities are not all to do with rural geography, however. There is plenty of

anhydrraddoldebau'n parhau ar draws Cymru mewn gwasanaethau mamolaeth. Mae'r strategaeth yn nodi bod hynny'n un o'r prif flaenoriaethau y mae angen mynd i'r afael â hi. Er enghraifft, nid yw gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig mor helaeth â'r rhai a geir mewn ardaloedd trefol, am resymau eithaf amlwg. Er enghraifft, dim ond genedigaethau risg isel na chânt eu hysgogi y mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn fodlon ymdrin â hwy, tra gall ysbytai yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe ac mewn mannau eraill ddarparu ar gyfer beichiogrwydd risg uchel ac anghenion mwy cymhleth. Bydd cleifion mamolaeth ym Mhowys yn aml yn gorfod teithio i ysbytai yn Henffordd, Telford neu hyd yn oed Birmingham. Yn amlwg, mae hynny'n creu anawsterau o ran darparu gwasanaeth mamolaeth o'r radd flaenaf. Yn yr un modd, yn achos gwasanaethau newyddenedigol, gan nad oes gan Bowys ysbyty cyffredinol dosbarth, a chan nad oes gobaith ganddi gael un, rhaid i deuluoedd ddibynnu ar gyfleusterau mewn ardaloedd byrddau iechyd eraill neu mewn ymddiriedolaethau gofal sylfaenol yn Lloegr. Gall hynny greu problemau eraill na ellir eu rhagweld i gleifion yn y canolbarth. Dylai ymddiriedolaethau gofal sylfaenol yn Lloegr ystyried anghenion cleifion o Gymru wrth ddatblygu eu hadolygiadau eu hunain o gapasiti. Fodd bynnag, gall hynny fod yn anfantais i gleifion, ar adegau, fel sydd wedi digwydd yn ddiweddar. Yn Swydd Amwythig, cynigiwyd symud gwasanaethau newyddenedigol o Amwythig i Telford, ac mae hynny'n golygu taith o 20 milltir ychwanegol wrth deithio o Gymru. Gall hynny wneud gwahaniaeth go iawn mewn rhai sefyllfaoedd.

Yn amlwg, ceir problemau o ran sicrhau gofal cyfartal ledled Cymru, yn enwedig mewn cyd-destun lle y mae amser yn hollbwysig o safbwynt sicrhau bod baban yn goroesi. Un o'r problemau o ran sicrhau mynediad cyfartal i wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yng Nghymru yw ceisio pennu pwy'n union sy'n gyfrifol am sicrhau beth sy'n digwydd, a phryd.

Fodd bynnag, nid daeryddiaeth wledig yw'r unig ffactor sy'n gysylltiedig ag

evidence, as has been accepted by all the relevant experts, to show that a woman's social position has a significant impact on her pregnancy and on the baby's health at birth. As a result, areas of the country where there is a higher level of deprivation often require a more intensive level of neonatal provision. Local health boards report that the low birth weight of babies is directly linked to areas of social deprivation—so, too, is the number of teenage pregnancies. Babies with a low birth weight and babies born to teenage mothers have a greater chance of needing additional care after birth. If we can see that there is a difference of need across the country, it needs to be addressed.

The biggest problem of all with the current provision of both maternity and neonatal services is that there are huge variations in quality across the country. This we need to address for the sake of the mother and the baby. Clearly, a lot still remains to be done to provide Wales with a world-leading service that does not depend upon your postcode. That is why I urge you to support the motion today.

**Antoinette Sandbach:** I welcome the opportunity to speak in this debate. Maternity and neonatal care is an issue that is dear to my heart, as it is for many Members here. North Wales in particular has a deeply troubling record. Neither Glan Clwyd nor Wrexham Maelor has a unit that is even approaching compliance with the all-Wales neonatal standards on staffing. I do not sit on the committee that is looking into this matter, but I have been horrified by what I have read in the evidence presented to that committee. There is simply insufficient access to dedicated neonatal consultants and middle-grade doctors, as well as specialist nursing staff. At one time, north Wales had just one consultant and a locum, when it is accepted that the region should be served by eight. What am I to say to a constituent of mine who lost her baby at full term just a few months ago, when she finds out that Betsi Cadwaladr was not staffed to the required

anhydraddoldebau. Ceir digon o dystiolaeth, sydd wedi ei derbyn gan yr holl arbenigwyr perthnasol, i ddangos bod safle cymdeithasol menyw'n cael effaith sylweddol ar ei beichiogrwydd ac ar iechyd y baban adeg ei eni. O ganlyniad, bydd angen lefel fwy dwys o ddarpariaeth i'r newydd-anedig yn aml mewn ardaloedd o'r wlad lle y ceir lefel uwch o amddifadedd. Mae byrddau iechyd lleol yn adrodd bod cysylltiad uniongyrchol rhwng pwysau geni isel babanod ac ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol—ac mae hynny'n wir hefyd am nifer yr achosion o feichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau. Mae'n fwy tebygol y bydd angen gofal ychwanegol ar ôl geni ar fabanod sydd â phwysau geni isel a babanod a enir i famau yn eu harddegau. Os gallwn weld bod gwahaniaeth yn yr angen ar draws y wlad, mae angen rhoi sylw i hynny.

Y broblem fwyaf oll gyda'r ddarpariaeth bresennol o safbwynt gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yw bod amrywiadau mawr yn ansawdd y gwasanaethau hynny ledled y wlad. Mae angen inni fynd i'r afael â hynny er lles y fam a'r baban. Yn amlwg, mae llawer o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod gan Gymru wasanaeth o'r radd flaenaf nad yw'n dibynnu ar eich cod post. Dyna pam yr wyf yn eich annog i gefnogi'r cynnig heddiw.

**Antoinette Sandbach:** Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl hon. Mae gofal mamolaeth a newyddenedigol yn fater sy'n agos i'm calon, fel y mae i lawer o Aelodau yn y fan hon. Mae'r sefyllfa yn y gogledd yn benodol yn un sy'n peri gofid mawr. Nid oes gan Ysbyty Glan Clwyd nac Ysbyty Maelor Wrecsam uned sydd hyd yn oed yn agos at gydymffurfio â safonau Cymru gyfan ar gyfer staffio gwasanaethau newyddenedigol. Nid wyf yn aelod o'r pwyllgor sy'n edrych ar y mater hwn, ond mae'r hyn yr wyf wedi'i ddarllen yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwnnw wedi codi arswyd arnaf. Yn syml, nid oes mynediad digonol i feddygon ymgynghorol penodol i'r newydd-anedig a meddygon gradd ganol, yn ogystal â staff nyrsio arbenigol. Ar un adeg, dim ond un meddyg ymgynghorol a locwm oedd ar gael yn y gogledd, pan dderbynnir y dylai'r rhanbarth gael ei wasanaethu gan wyth. Beth y dylwn ei ddweud wrth un o'm hetholwr a

neonatal standard?

As Jenny Rathbone said, it is partly about training and recruiting the consultants. The problem is the rotation between north Wales and south Wales. I have spoken to the British Medical Association and been told that if there was a rotation between north Wales, Liverpool and Manchester, with a cross-border approach rather than an all-Wales internal one, it would make a huge difference in terms of recruitment. It is that kind of imaginative approach that we need to see from this Government. We need to see that the Government is prepared to look over the border.

With regard to care, north Wales has a rate of 5.7 deaths for every 1,000 live births—it is the second worst rate in the whole of the UK. As Aled Roberts said to the committee, it is worse than anywhere in Ireland, France, Italy, Spain or Germany. All these issues were highlighted in the hard-hitting evidence that the Bliss charity gave to the Children and Young People Committee's inquiry.

I would highlight one further thing, which is the importance of the emotional and psychological support for mothers and families. There is a very real need for people who can help to pick up the pieces when it all goes wrong. In north Wales, we have the excellent example of the North Wales Chrysalis Trust, which was set up by Lord Dafydd Wigley. I declare an interest as a patron of this trust. It is a charity that delivers an enormously valuable service, and it provides professional counselling to parents who have lost a child. Early intervention is vital for the mental health and wellbeing of parents, yet Betsi Cadwaladr health board will not put that charity on a service-level agreement. Given that there were 44 deaths in north Wales in 2009, I think that that is a disgrace.

It is clear that taking an imaginative approach

gollodd ei baban ychydig fisoedd yn ôl ar ôl beichiogrwydd cyfnod llawn, pan ddaw i wybod nad oedd Betsi Cadwaladr wedi'i staffio i'r safon sy'n ofynnol ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol?

Fel y dywedodd Jenny Rathbone, mae a wnelo'n rhannol â hyfforddi a recriwtio'r meddygon ymgynghorol. Y broblem yw'r cylchdroi rhwng y gogledd a'r de. Rwyf wedi siarad â Chymdeithas Feddygol Prydain, a dywedwyd wrthyf y byddai'n gwneud gwahaniaeth mawr o safbwynt recriwtio pe bai cylchdroi'n digwydd rhwng y gogledd, Lerpwl a Manceinion, gyda dull gweithredu trawsffiniol yn hytrach na dull gweithredu mewnol ar gyfer Cymru gyfan. Dyna'r math o ddull gweithredu creadigol y mae angen inni ei weld gan y Llywodraeth hon. Mae angen inni weld bod y Llywodraeth yn barod i edrych dros y ffin.

O ran gofal, mae gan y gogledd gyfradd o 5.7 o farwolaethau i bob 1,000 o fabanod a enir yn fyw—y gyfradd waethaf ond un yn y DU gyfan. Fel y dywedodd Aled Roberts wrth y pwyllgor, mae'n waeth nag yn unman yn Iwerddon, Ffrainc, yr Eidal, Sbaen neu'r Almaen. Amlygwyd yr holl faterion hyn yn y dystiolaeth rymus a gyflwynwyd gan yr elusen Bliss i ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

Hoffwn dynnu sylw at un peth arall, sef pwysigrwydd cefnogaeth emosiynol a seicolegol i famau a theuluoedd. Mae angen gwirioneddol am bobl a all helpu i ymdrin â'r canlyniadau pan fydd popeth yn mynd o chwith. Yn y gogledd, mae gennym un enghraifft wych, sef Ymddiriedolaeth Chrysalis Gogledd Cymru, a sefydlwyd gan yr Arglwydd Dafydd Wigley. Rwyf yn datgan budd fel un o noddwyr yr ymddiriedolaeth. Mae'n elusen sy'n cynnig gwasanaeth hynod werthfawr, ac mae'n darparu gwasanaeth cwnsela proffesiynol i rieni sydd wedi colli plentyn. Mae ymyrryd yn gynnar yn hanfodol ar gyfer iechyd meddwl a lles rhieni, ond eto i gyd, nid yw bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yn fodlon rhoi cytundeb lefel gwasanaeth i'r elusen honno. O gofio bod 44 o farwolaethau yn y gogledd yn 2009, credaf fod hynny'n warth.

Mae'n amlwg y byddai ymdrin â hyfforddiant

to the training, which would involve the Government working with the Royal Colleges to change rotations, would improve not only neonatal service recruitment, but recruitment to the many other consultancies where there are difficulties. There has been an unwillingness to look over the border to try to get rotations that work for Wales in helping to get that specialist rotation into both north Wales and south Wales. It might provide vital collaborative partnerships with other university hospitals or teaching hospitals over the border.

I was shocked to read some of the evidence that was submitted to the committee. In 2011, admissions to Arrowe Park Hospital and Liverpool Women's Hospital from north Wales had effectively doubled. That was the evidence from Dr Harrington, the specialist. Making a distinction between Arrowe Park Hospital and Liverpool Women's Hospital, it is probably fair to say that all the care delivered by Arrowe Park was not intended. In other words, it was a safety default when we did not have the capacity ourselves. We do not have the capacity because of insufficient nursing staff. He went on to say:

'if we look back at times when we have had to close to admissions, it was usually because of insufficient nursing staff.'

I know that vacancies have been advertised at Betsi Cadwaladr local health board, but they have not gone through the recruitment process. It is a disgrace and the Minister, ultimately, has responsibility for that.

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I thank Members for their contributions to this afternoon's important debate. The importance of safe, sustainable and high-quality maternity and neonatal services across Wales cannot be overstated. There is a difference between the two and I am pleased that Members have recognised that today.

mewn modd creadigol, a fyddai'n golygu cael y Llywodraeth i weithio gyda'r Colegau Brenhinol i newid patrymau cylchdroi, yn gwella'r sefyllfa, nid yn unig o ran recriwtio staff i wasanaethau newyddenedigol, ond o ran recriwtio staff i lawer o'r swyddi eraill ar gyfer meddygon ymgynghorol lle y ceir anawsterau. Bu amharodrwydd i edrych dros y ffin i geisio cael patrymau cylchdroi sy'n gweithio i Gymru, o ran helpu i gael y patrwm cylchdroi arbenigol hwnnw i'r gogledd a'r de. Gallai ddarparu partneriaethau cydweithredol hanfodol ag ysbytai athrofaol neu ysbytai addysgu eraill dros y ffin.

Cefais fy synnu o ddarllen rhywfaint o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor. Yn 2011, roedd nifer y menywod o'r gogledd a dderbyniwyd i Ysbyty Arrowe Park ac Ysbyty Menywod Lerpwl wedi dyblu i bob pwrpas. Dyna oedd y dystiolaeth gan Dr Harrington, yr arbenigwr. O wahaniaethu rhwng Ysbyty Arrowe Park ac Ysbyty Menywod Lerpwl, mae'n debyg ei bod yn deg dweud nad oedd yr holl ofal a ddarparwyd gan Arrowe Park wedi'i fwriadu. Hynny yw, roedd yn gam a gymerwyd i sicrhau diogelwch pan nad oedd gennym y capasiti ein hunain. Nid oes gennym y capasiti oherwydd nifer annigonol o staff nyrsio. Aeth yn ei flaen i ddweud:

O edrych yn ôl ar adegau pan fu'n rhaid inni wrthod derbyn cleifion, roedd hynny, fel rheol, oherwydd nifer annigonol o staff nyrsio.

Gwn fod swyddi gwag wedi cael eu hysbysebu ym mwrdd iechyd lleol Betsi Cadwaladr, ond nid ydynt wedi mynd drwy'r broses recriwtio. Mae'n warth, a'r Gweinidog, yn y pen draw, sy'n gyfrifol am hynny.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'r ddadl bwysig hon y prynhawn yma. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol diogel, cynaliadwy o safon ledled Cymru. Mae gwahaniaeth rhwng y ddau, ac rwyf yn falch bod yr Aelodau wedi cydnabod hynny heddiw.

First, I absolutely agree that there is no room for complacency. We have made real progress, but I have stated clearly, particularly in evidence to the Children and Young People Committee, that there is much more to be done. Importantly, we have a clear direction that gives a sharp focus on what we need to do next. Getting the right care during pregnancy and ensuring the best start for our children is crucial to the future wellbeing and prosperity of Wales as a nation. I am holding our health boards to account to ensure that women and babies are better off as a result of improvements to maternity and neonatal services.

Only last September, we debated the Welsh Government's document 'A Strategic Vision for Maternity Services in Wales'. Since then, we have agreed a fresh set of outcome indicators that will show us how the health of women and babies improves over time. We have agreed performance measures to monitor the effectiveness of NHS maternity services in Wales. These will be issued to local health boards in the next two weeks. The all-Wales neonatal network will continue to play a key role in our drive for quality improvements. It provides regular updates against the rigorous demands of the Wales neonatal care standards. The evidence it gathers is an essential tool to drive improvements right across Wales.

We are all aware of the social and economic context for women and their babies. The Welsh Government has a clear commitment and intent to deliver real improvements in health outcomes for pregnant women, their babies and families by supporting them in choosing healthy lifestyles.

I oppose the Conservatives' amendment 3. This Government is protecting the cash funding to the NHS in Wales, despite the significant cuts to the Welsh budget imposed by their Government in Westminster. Indeed, in last year's budget, we invested a further £288 million for this year and the next two

Yn gyntaf, rwyf yn cytuno'n llwyr nad oes lle i fod yn hunanfodlon. Rydym wedi gwneud cynnydd go iawn, ond rwyf wedi datgan yn glir, yn enwedig mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, bod llawer mwy o waith i'w wneud. Yr hyn sy'n bwysig yw bod gennym gyfeiriad clir sy'n rhoi ffocws pendant ar yr hyn y mae angen inni ei wneud nesaf. Mae cael y gofal iawn yn ystod bechiogrwydd a sicrhau bod ein plant yn cael y dechrau gorau yn hollbwysig i les a ffyniant Cymru fel cenedl yn y dyfodol. Rwyf yn dwyn ein byrddau iechyd i gyfrif er mwyn sicrhau bod menywod a babanod yn well eu byd o ganlyniad i welliannau i wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

Mor ddiweddar â mis Medi diwethaf cawsom ddadl ar ddogfen Llywodraeth Cymru, sef 'Gweledigaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru'. Ers hynny, rydym wedi cytuno ar set newydd o ddangosyddion canlyniadau a fydd yn dangos inni sut y mae iechyd menywod a babanod yn gwella dros amser. Rydym wedi cytuno ar fesurau perfformiad i fonitro effeithiolrwydd gwasanaethau mamolaeth y GIG yng Nghymru. Bydd y rhain yn cael eu rhoi i fyrddau iechyd lleol yn ystod y pythefnos nesaf. Bydd rhwydwaith newyddenedigol Cymru gyfan yn parhau i chwarae rhan allweddol yn ein hymgyrch i wella ansawdd. Mae'n darparu'r manylion diweddaraf yn rheolaidd yng nghyswllt gofynion trylwyr safonau Cymru ar gyfer gofal newyddenedigol. Mae'r dystiolaeth y mae'n ei chasglu yn adnodd hanfodol i sbarduno gwelliannau ledled Cymru.

Mae pob un ohonom yn ymwybodol o'r cyddestun cymdeithasol ac economaidd ar gyfer menywod a'u babanod. Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad a bwriad clir i sicrhau gwelliannau gwirioneddol mewn canlyniadau iechyd i fenywod beichiog, eu babanod a'u teuluoedd drwy eu cynorthwyo i ddewis ffyrdd iach o fyw.

Rwyf yn gwrthwynebu gwelliant 3 gan y Ceidwadwyr. Mae'r Llywodraeth hon yn diogelu'r cyllid i'r GIG yng Nghymru, er gwaethaf y toriadau sylweddol a wnaed i gyllideb Cymru gan eu Llywodraeth yn San Steffan. Yn wir, yng nghyllideb y llynedd, bu inni fuddsoddi £288 miliwn arall ar gyfer y

years to place the NHS on a firm financial footing. I totally oppose the inference that this Government is cutting funding for maternity and neonatal services.

Women and babies in Wales do have the right to receive high-quality maternity and neonatal care irrespective of social background and geographical location. That is a core principle of 'A Strategic Vision for Maternity Services in Wales'. It must be evident why the Government's amendment 1 aims to delete points 1(e) and 1(f) of the original motion. It is simply wrong to say there has been a lack of action on improvement in maternity and neonatal services and that the current statistics are unacceptable. Infant and neonatal mortality rates both continue to show a downward trend. The rate of stillbirths has stayed more or less static and almost half of all stillbirths have an unknown cause. Work is in train through our 1000 Lives Plus Programme to consider action to further reduce these rates.

While I am prepared to support the spirit of part 2 of the motion on the need for the Welsh Government to provide strong, strategic leadership to improve these services, I must say that I resent the implication this is not already the case. We established last year the all-Wales maternity implementation group to drive and co-ordinate our ambitious improvements. This group is co-chaired by the Chief Nursing Officer for Wales and a service user, because I believe that user involvement in shaping maternity services is very important, and is an excellent way to demonstrate strategic leadership. Perhaps Aled Roberts recognises this leadership role in the last part of this section of the motion.

Both Aled Roberts and Peter Black mentioned the maternity workforce, but there has been no dramatic fall in the number of midwives. Since 1999, there has been a 12% increase in the number of midwives, and

flwyddyn hon a'r ddwy flynedd nesaf er mwyn gosod y GIG ar sylfaen ariannol gadarn. Rwyf yn gwrthwynebu'n llwyr yr awgrym bod y Llywodraeth hon yn torri cyllid ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

Mae gan fenywod a babanod yng Nghymru yr hawl i gael gofal mamolaeth a newyddenedigol o safon, ni waeth beth yw eu cefndir cymdeithasol na ble y maent yn byw. Mae hynny'n un o egwyddorion craidd 'Gweledigaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru'. Rhaid ei bod yn amlwg pam y mae gwelliant 1 y Llywodraeth yn ceisio dileu pwyntiau 1(e) ac 1(f) y cynnig gwreiddiol. Yn syml, mae'n anghywir dweud y bu diffyg gweithredu o safbwynt gwella gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, a bod yr ystadegau cyfredol yn annerbyniol. Mae cyfraddau marwolaethau babanod a babanod newydd-anedig yn parhau i ostwng. Mae'r gyfradd marw-enedigaethau wedi parhau'n sefydlog, fwy neu lai, ac ni wyddys beth sy'n achosi oddeutu hanner yr holl achosion o farw-enedigaethau. Mae gwaith ar y gweill drwy ein Rhaglen 1000 o Fywydau a Mwy i ystyried camau i leihau'r cyfraddau hyn ymhellach.

Er fy mod yn barod i gefnogi ysbryd rhan 2 y cynnig, ynghylch yr angen i Lywodraeth Cymru ddarparu arweiniad strategol a chryf i wella'r gwasanaethau hyn, rhaid imi ddweud bod yr ensyniad nad yw hynny eisoes yn wir yn fy nigio. Y llynedd, bu inni sefydlu grŵp gweithredu Cymru gyfan ar gyfer gwasanaethau mamolaeth er mwyn sbarduno a chydgyssylltu ein gwelliannau uchelgeisiol. Mae'r grŵp hwn yn cael ei gadeirio ar y cyd gan Brif Swyddog Nyrsio Cymru a defnyddiwr gwasanaeth, gan fy mod o'r farn bod cynnwys defnyddwyr wrth lunio gwasanaethau mamolaeth yn bwysig iawn, ac yn ffordd wych o ddangos arweiniad strategol. Efallai fod Aled Roberts yn cydnabod y rôl hon o ran arwain yn rhan olaf yr adran hon o'r cynnig.

Bu i Aled Roberts a Peter Black ill dau grybwyll y gweithlu mamolaeth, ond ni fu gostyngiad dramatig yn nifer y bydragedd. Er 1999, cafwyd cynnydd o 12% yn nifer y bydragedd, ac ni nodwyd yng nghynlluniau

midwifery staffing was not identified in the 2011 workforce plans as either a recruitment or a retention issue. One very important point is that our midwifery workforce is getting younger, not older.

Jocelyn Davies mentioned the neonatal workforce. There are significant shortfalls in the levels of staffing required by the all-Wales neonatal standards in terms of nursing, and I addressed that when I gave evidence. I expect LHBs to use the latest information and advice from the neonatal network to identify and take prompt action on nursing staffing shortfalls, and to put them on a safe and sustainable footing.

On neonatal services, we have been closely monitoring health board neonatal action plans. I recognise that while we have made progress, there is more to be done. My medical director and chief nursing officer are visiting each health board individually to discuss the detail of their plans. Taking a long-term approach to planning and meeting workforce needs, particularly for more specialised services, is important, so I am happy to support Plaid Cymru's amendment 2.

Jenny Rathbone emphasised the differences in specialist care within neonatal services, and that is very important. The current position is that the action plans that will be reviewed by my officials in April do not fully address all the issues, so this work is being closely monitored by officials at the present time.

More generally, maternity and neonatal services will feature prominently as part of health board plans to place all NHS services on a safe and sustainable basis in the future. I want services to be as local as possible, but without compromising safety and quality, to ensure we get the best outcomes for women and babies.

gweithlu 2011 bod staffio gwasanaethau bydweigiaeth yn broblem o safbwynt recriwtio neu gadw staff. Un pwynt pwysig iawn yw bod ein gweithlu bydweigiaeth yn mynd yn iau yn hytrach nag yn hŷn.

Crybwyllodd Jocelyn Davies y gweithlu gwasanaethau newyddenedigol. Ceir diffygion sylweddol yn y lefelau staffio sy'n ofynnol gan safonau Cymru gyfan ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol, o ran nyrsio, ac euthum i'r afael â hynny wrth roi tystiolaeth. Rwyf yn disgwyl i'r byrddau iechyd lleol ddefnyddio'r wybodaeth a'r cyngor diweddaraf gan y rhwydwaith newyddenedigol i nodi diffygion o ran staff nyrsio a gweithredu'n brydlon i ymateb i'r diffygion hynny, a rhoi'r gwasanaethau ar sylfaen ddiogel a chynaliadwy.

O ran gwasanaethau newyddenedigol, rydym wedi bod yn monitro'n ofalus gynlluniau gweithredu'r byrddau iechyd ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol. Er ein bod wedi gwneud cynnydd, rwyf yn cydnabod bod mwy i'w wneud. Mae fy nghyfarwyddwr meddygol a'm prif swyddog nyrsio yn ymweld â phob bwrdd iechyd yn unigol i drafod manylion eu cynlluniau. Mae mabwysiadu agwedd hirdymor at gynllunio a diwallu anghenion o ran y gweithlu, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau mwy arbenigol, yn bwysig, ac felly rwyf yn fodlon cefnogi gwelliant 2 gan Blaid Cymru.

Pwysleisiodd Jenny Rathbone y gwahaniaethau o ran gofal arbenigol mewn gwasanaethau newyddenedigol, ac mae hynny'n bwysig iawn. Y sefyllfa bresennol yw nad yw'r cynlluniau gweithredu a fydd yn cael eu hadolygu gan fy swyddogion ym mis Ebrill yn mynd i'r afael yn llawn â'r holl faterion, felly mae'r gwaith hwn yn cael ei fonitro'n agos gan swyddogion ar hyn o bryd.

Yn fwy cyffredinol, bydd gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn cael lle amlwg yng nghynlluniau'r byrddau iechyd i osod holl wasanaethau'r GIG ar sylfaen ddiogel a chynaliadwy yn y dyfodol. Rwyf am i wasanaethau fod mor lleol ag sy'n bosibl, ond heb beryglu diogelwch ac ansawdd, er mwyn sicrhau ein bod yn cael y canlyniadau gorau i fenywod a babanod.



As a Government, we are not afraid to debate the significant health challenges we face in Wales, so I welcome this debate today, but as I have said before, you cannot have it both ways: you cannot insist on strong, strategic leadership for maternity and neonatal services and, at the same time, dismiss the wider, and more formidable, leadership challenges facing the NHS in Wales as a whole. So, I reiterate that I would like all Members to step up to the plate and show firm political leadership for the sake of our NHS. Let us stop pretending that we accept the case for change in principle and then oppose it locally. Maternity and neonatal services are a good case in point.

**Angela Burns:** Will you take an intervention?

**Lesley Griffiths:** Let us show we are prepared to accept changes to services locally, so that collectively we can ensure safe and sustainable standards of treatment and care at every point of service delivery.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro (Rhodri Glyn Thomas):** Nid oes rheidrwydd ar y Gweinidog, neu unrhyw Aelod arall, i dderbyn ymyrraeth. Dewis yr Aelod yw e.

**Kirsty Williams:** I thank colleagues for their contributions to this afternoon's debate. Pregnancy and childbirth should be one of the most exciting and pleasurable times of a woman's life. Even when the outcome is a live, healthy, bouncing baby, the way in which those services have been delivered to that woman and her family in the preceding nine months can have a profound effect on the rest of that woman's life, and indeed her baby's.

5.15 p.m.

It is not a service that responds well to waiting times initiatives; after all, you cannot tell a woman to hang on. As a result, I often feel that it is a service that has not been given the investment and importance that it

Fel Llywodraeth, nid ydym yn ofni trafod yr heriau sylweddol o ran iechyd yr ydym yn eu hwynebu yng Nghymru, felly croesawaf y ddadl hon heddiw, ond fel y dywedais o'r blaen, ni allwch ei chael hi bob ffordd: ni allwch fynnu arweiniad strategol a chryf ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ac, ar yr un pryd, diystyru'r heriau ehangach a mwy enbyd o ran arweiniad sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru gyfan. Felly, dywedaf eto y byddwn yn hoffi i'r Aelodau i gyd ymateb i'r her a dangos arweiniad gwleidyddol cadarn er mwyn ein GIG. Gadewch inni roi'r gorau i esgus ein bod yn derbyn yr achos dros newid mewn egwyddor, ac yna ei wrthwynebu yn lleol. Mae gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn enghraifft dda o hynny.

**Angela Burns:** A wnewch chi dderbyn ymyriad?

**Lesley Griffiths:** Gadewch inni ddangos ein bod yn barod i dderbyn newidiadau i wasanaethau yn lleol, fel y gallwn, gyda'n gilydd, sicrhau triniaeth a gofal sy'n cyrraedd safonau diogel a chynaliadwy ym mhob man lle y caiff gwasanaethau eu darparu.

**The Temporary Deputy Presiding Officer (Rhodri Glyn Thomas):** There is no compulsion for the Minister, or any other Member, to accept an intervention. It is up to the Member.

**Kirsty Williams:** Hoffwn ddiolch i'm cydweithwyr am eu cyfraniadau i'r ddadl y prynhawn yma. Dylai beichiogrwydd a genedigaeth fod yn un o'r adegau mwyaf cyffrous a phleserus ym mywyd menyw. Hyd yn oed pan geir baban byw, holliaich sy'n llond ei groen ar ddiwedd y cyfan, gall y modd y mae'r gwasanaethau hynny wedi cael eu darparu i'r fenyw a'i theulu yn ystod y naw mis blaenorol gael effaith fawr ar weddill bywyd y fenyw, ac yn wir, ar fywyd ei baban.

Nid yw'n wasanaeth sy'n ymateb yn dda i fentrau amseroedd aros; wedi'r cyfan, ni allwch ddweud wrth fenyw am aros. O ganlyniad, rwyf yn aml yn teimlo ei fod yn wasanaeth nad yw wedi cael y buddsoddiad

deserves.

I am grateful to my colleague, Aled Roberts, for outlining the case for the Liberal Democrat motion before us this afternoon, and for the support of Jocelyn Davies and Angela Burns. Jocelyn repeated the points made by Aled Roberts with regard to the Royal College of Midwives. The Minister for health obviously does not agree with the Royal College of Midwives, but its evidence about staffing numbers in Wales is quite clear and quite stark. We simply do not have enough midwives to provide the levels of care that women could expect and that midwives want to give. That is not because of a sudden and huge rise in the birth rate; it is an issue that could have been foreseen and overcome by some decent workforce planning.

The same is also true of neonatal nurses, neonatologists and specialist paediatricians. It is quite clear from evidence given to this Assembly and to the Minister that current staffing standards are not being met.

Angela Burns went on to highlight the gap between the Government's vision and the reality of services on the ground. You are quite right, Angela, that these problems are not new. They have been debated previously, and what is so depressing is that we are constantly having to go back to talk about them. The Minister says that she has been monitoring the situation, as have previous Ministers for health. It seems that what they have been monitoring is their own neglect of these particular services. That neglect was graphically highlighted by my colleague, Peter Black, with regard to what can go horribly wrong for a woman if staffing levels are not right. Women can be left in an undignified state, and they will carry that experience with them for the rest of their lives.

We know that there are real pressures on specialist care cots in Wales. Again, this has

a'r flaenoriaeth y mae'n eu haeddu.

Rwyf yn ddiolchgar i'm cydweithiwr, Aled Roberts, am amlinellu'r achos o blaid cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol sydd ger ein bron y prynhawn yma, ac rwyf yn ddiolchgar am gefnogaeth Jocelyn Davies ac Angela Burns. Ailadroddodd Jocelyn y pwyntiau a wnaed gan Aled Roberts ynghylch Coleg Brenhinol y Bydwagedd. Mae'n amlwg nad yw'r Gweinidog iechyd yn cytuno â Choleg Brenhinol y Bydwagedd, ond mae ei dystiolaeth ynghylch nifer y staff yng Nghymru yn eithaf clir ac yn eithaf arswydus. Yn syml, nid oes gennym ddigon o fydwagedd i ddarparu'r lefelau o ofal y gallai menywod ei ddisgwyl ac y mae bydwagedd am ei roi. Nid cynnydd sydyn ac enfawr yn y gyfradd genedigaethau sydd i gyfrif am hynny; mae'n fater y gellid bod wedi ei ragweld a'i oresgyn ag ychydig o waith priodol o safbwynt cynllunio'r gweithlu.

Mae'r un peth yn wir hefyd am nyrsys y newydd-anedig, neonatolegwyr a phediatregwyr arbenigol. Mae'n eithaf amlwg o'r dystiolaeth a roddwyd i'r Cynulliad hwn ac i'r Gweinidog nad yw safonau staffio presennol yn cael eu bodloni.

Aeth Angela Burns yn ei blaen i dynnu sylw at y bwlch rhwng gweledigaeth y Llywodraeth a realiti gwasanaethau ar lawr gwlad. Rydych yn llygad eich lle, Angela, wrth ddweud nad yw'r problemau hyn yn newydd. Maent wedi cael eu trafod o'r blaen, a'r hyn sy'n dorcalonnus yw ein bod yn gorfod mynd yn ôl dro ar ôl tro i'w trafod eto. Mae'r Gweinidog yn dweud ei bod wedi bod yn monitro'r sefyllfa, fel y gwnaeth Gweinidogion iechyd blaenorol. Ymddengys mai'r hyn y maent wedi bod yn ei fonitro yw'r modd y maent hwy eu hunain wedi esgeuluso'r gwasanaethau penodol hyn. Cafodd yr esgeulustod hwnnw ei ddarlunio'n glir iawn gan fy nghydweithiwr, Peter Black, o safbwynt yr hyn sy'n gallu mynd o chwith yn ofnadwy i fenyw os nad yw'r lefelau staffio yn iawn. Gall menywod gael eu gadael mewn cyflwr diurdas, a bydd y profiad hwnnw'n aros gyda nhw am weddill eu hoes.

Gwyddom fod pwysau gwirioneddol ar gotiau gofal arbenigol yng Nghymru.

been debated in this Chamber previously, and it is a matter of great regret that we do not seem to be able to solve that problem. Mothers and babies are often left having to travel a great distance from their homes, and that is the best case scenario. The worst case scenario is when mothers and babies are separated, or mothers and individual siblings are separated, as doctors and nurses scramble to find empty special care baby unit beds across the UK.

William Powell highlighted cross-border issues and how changes in the health service in England can impact adversely on patients who would normally receive those services. It is a matter of regret that Lesley Griffiths did not outline what steps her Government is taking to liaise with primary care trusts in Herefordshire and Shropshire to ensure that the services that Welsh women rely on in those particular areas are maintained.

Antoinette spoke particularly movingly of the difficulties experienced in north Wales. The Minister says that progress is being made, but progress in north Wales terms, Minister, is that over the last four years you have been able to move from one permanent and one half-time locum to two full-time consultants. That is all the progress that the Welsh Government has been able to make in north Wales over the last four years. Antoinette is absolutely right to point out the dearth of services for mothers and families if a baby is lost. Those services are patchy, if not non-existent, and often funded by the third sector and by tin-rattling and the hard work of volunteers, rather than there being a co-ordinated approach from NHS Wales to ensure that those vital services are available, should mothers need them.

This Government has said that it was all about delivery—I make no apologies for the pun in this case—and that there would be no

Unwaith eto, mae hwn yn fater sydd wedi cael ei drafod yn y Siambr hon o'r blaen, ac mae'n destun gofid mawr ei bod yn ymddangos na allwn ddatrys y broblem honno. Yn aml, mae'n rhaid i famau a babanod deithio pellter mawr o'u cartrefi, a dyna sy'n digwydd ar y gorau. Ar y gwaethaf, bydd mamau a babanod yn cael eu gwahanu, neu bydd mamau a phlant unigol yn cael eu gwahanu, wrth i feddygon a nyrsys fynd ati ar frys i ddod o hyd i welyau gwag mewn unedau gofal arbennig i fabanod ar draws y DU.

Tynnodd William Powell sylw at faterion trawsffiniol a'r modd y gall newidiadau yn y gwasanaeth iechyd yn Lloegr gael effaith andwyol ar gleifion a fyddai'n defnyddio'r gwasanaethau hynny fel rheol. Mae'n destun gofid nad oedd Lesley Griffiths wedi amlinellu'r camau y mae ei Llywodraeth yn eu cymryd i gysylltu ag ymddiriedolaethau gofal sylfaenol yn Swydd Henffordd a Swydd Amwythig i sicrhau bod y gwasanaethau y mae menywod o Gymru yn dibynnu arnynt yn yr ardaloedd penodol hynny yn cael eu cynnal.

Bu Antoinette yn sôn yn deimladwy iawn am yr anawsterau a geir yn y gogledd. Mae'r Gweinidog yn dweud bod cynnydd yn cael ei wneud, ond mae cynnydd yng nghyswllt y gogledd, Weinidog, yn golygu eich bod, dros y pedair blynedd diwethaf, wedi gallu symud o un meddyg ymgynghorol parhaol ac un locwm hanner amser i ddau feddyg ymgynghorol llawn amser. Dyna'r unig gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi gallu ei wneud yn y gogledd dros y pedair blynedd diwethaf. Mae Antoinette yn llygad ei lle wrth dynnu sylw at y prinder gwasanaethau ar gyfer mamau a theuluoedd pan fydd baban yn marw. Mae'r gwasanaethau hynny'n anghyson, os ydynt yn bodoli o gwbl, ac yn aml fe'u hariennir gan y trydydd sector a thrwy ymdrechion codi arian a gwaith caled gwirfoddolwyr, yn hytrach na'u bod yn rhan o ddull gweithredu cydgysylltiedig gan GIG Cymru i sicrhau bod y gwasanaethau hanfodol hynny ar gael, pe bai eu hangen ar famau.

Mae'r Llywodraeth hon wedi dweud bod a wnelo ag esgor ar ganlyniadau—ac nid wyf yn ymddiheuro am y gair mwys—ac na fydd

more excuses. While the words are the right ones and the words are all there, we need it to happen on the ground for Welsh mothers and babies. When it does not happen, we need to know what action this Government will take other than shrugging its shoulders, wringing its hands and writing another report.

The Minister talks of a recently published strategy. The strategy was published way back in the autumn, but the measurable outcomes will only be published in two weeks' time. That is almost another year gone before a strategy becomes a reality on the wards of our hospitals. The Minister says that she will look to amend the Welsh Liberal Democrat motion because she believes that the statistics are acceptable. I find it very hard to believe that anyone looking at the evidence that has been presented to the Minister about staffing levels and the levels of training for staff on wards could describe that as acceptable. You may be happy with that situation, Minister. The Welsh Liberal Democrats are far from happy with that situation, and we want to know what you are going to do about it.

The Minister then puts the challenge to us about supporting reforms. It is almost as though she wants us to do her job for her in communicating that to Wales. The problem, of course, is that we are facing huge change within the NHS. My concern is that the implementation board tasked with delivering the Government's own strategy on maternity services will hardly have met before the local health boards—Hywel Dda and Betsi Cadwaladr at least—have committed to implementing the changes. What role have these experts on the implementation board had in the development of these services? Without strong central strategic leadership, how do we know that, when the services are announced, large swathes of Wales will not be left without adequate consultant-led cover? If the Government is leaving it all to local health boards, how do we know that the individual plans will actually result in a complete and coherent maternity and

rhagor o esgusodion. Er bod hynny'n swnio'n dda ac yn swnio'n iawn, mae angen iddo ddigwydd ar lawr gwlad i famau a babanod Cymru. Pan na fydd yn digwydd, mae angen inni wybod pa gamau y bydd y Llywodraeth hon yn eu cymryd ar wahân i godi'i hysgwyddau, gwasgu ei dwylo ac ysgrifennu adroddiad arall.

Mae'r Gweinidog yn sôn am strategaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Cafodd y strategaeth ei chyhoeddi gryn amser yn ôl yn yr hydref, ond dim ond ymhén pythefnos y bydd y canlyniadau mesuradwy yn cael eu cyhoeddi. Mae hynny'n golygu y bydd bron i flwyddyn arall wedi mynd heibio cyn i'r strategaeth droi'n realiti ar wardiau ein hysbytai. Mae'r Gweinidog yn dweud y bydd yn ceisio diwygio cynnig Democratiaid Rhyddfrydol Cymru am ei bod o'r farn bod yr ystadegau'n dderbyniol. Rwyf yn ei chael yn anodd iawn credu y gallai unrhyw un sy'n edrych ar y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Gweinidog ynghylch lefelau staffio a lefelau hyfforddiant ar gyfer staff ar wardiau ddisgrifio hynny fel rhywbeth sy'n dderbyniol. Efallai eich bod chi'n fodlon â'r sefyllfa honno, Weinidog, ond mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ymhell o fod yn fodlon â'r sefyllfa honno, ac rydym am wybod beth yr ydych yn bwriadu ei wneud yn ei chylch.

Yna, cawsom ein herio gan y Gweinidog i gefnogi diwygiadau. Bron nad yw fel pe bai am inni wneud ei gwaith drosti wrth gyfleu hynny i Gymru. Y broblem, wrth gwrs, yw ein bod yn wynebu newid enfawr yn y GIG. Rwyf yn pryderu mai prin y bydd y bwrdd gweithredu sy'n gyfrifol am gyflawni strategaeth y Llywodraeth ei hun ar wasanaethau mamolaeth wedi cyfarfod cyn i'r byrddau iechyd lleol—Hywel Dda a Betsi Cadwaladr o leiaf—ymrwymo i weithredu'r newidiadau. Pa rôl y mae'r arbenigwyr hyn ar y bwrdd gweithredu wedi'i chwarae o ran datblygu'r gwasanaethau hyn? Heb arweiniad strategol cryf o'r canol, sut y gwyddom, pan gaiff gwybodaeth am y gwasanaethau ei chyhoeddi, na fydd rhannau helaeth o Gymru heb ddigon o ofal dan arweiniad meddygon ymgynghorol? Os yw'r Llywodraeth yn gadael y cyfan yn nwylo byrddau iechyd lleol, sut y gwyddom y bydd y cynlluniau unigol yn arwain mewn gwirionedd at

neonatal service for Wales? We simply cannot know that, and that is why the Minister needs to step up to the plate and ensure that is what happens.

**Rhodri Glyn Thomas:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, felly gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Cytunwyd i gynnal y cyfnod pleidleisio cyn y ddadl fer. Oni bai bod tri Aelod yn dymuno i mi ganu'r gloch, symudaf yn syth i'r cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.  
Voting deferred until voting time.*

wasanaeth mamolaeth a newyddenedigol cyflawn a chydlynol i Gymru? Allwn ni ddim gwybod hynny, a dyna pam y mae angen i'r Gweinidog ymateb i'r her a sicrhau mai dyna a fydd yn digwydd.

**Rhodri Glyn Thomas:** The proposal is that the motion without amendment be agreed. Are there any objections? I see that there are. Therefore, I defer all voting on this item until voting time.

It has been agreed that voting time will take place before the short debate. Unless three Members wish for the bell to be rung, I will proceed directly to voting time.

### Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Cynnig NDM5015: O blaid 11, Ymatal 0, Yn erbyn 34.  
Motion NDM5015: For 11, Abstain 0, Against 34.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
Davies, Suzy  
Finch-Saunders, Janet  
George, Russell  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Ramsay, Nick  
Sandbach, Antoinette

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Antoniw, Mick  
Black, Peter  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Jocelyn  
Davies, Keith  
Drakeford, Mark  
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord  
Evans, Rebecca  
Gething, Vaughan  
Gregory, Janice  
Griffiths, Lesley  
Gruffydd, Llyr Huws  
Hedges, Mike  
Hutt, Jane  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Lewis, Huw  
Morgan, Julie  
Neagle, Lynne  
Powell, William  
Rathbone, Jenny  
Rees, David  
Roberts, Aled  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda

Watson, Joyce  
Williams, Kirsty  
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.  
Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM5015: O blaid 22, Ymatal 0, Yn erbyn 23.  
Amendment 1 to NDM5015: For 22, Abstain 0, Against 23.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad  
Black, Peter  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Jocelyn  
Davies, Paul  
Davies, Suzy  
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord  
Finch-Saunders, Janet  
George, Russell  
Graham, William  
Gruffydd, Llyr Huws  
Isherwood, Mark  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Elin  
Powell, William  
Ramsay, Nick  
Roberts, Aled  
Sandbach, Antoinette  
Williams, Kirsty  
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Antoniw, Mick  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Keith  
Drakeford, Mark  
Evans, Rebecca  
Gething, Vaughan  
Gregory, Janice  
Griffiths, Lesley  
Hedges, Mike  
Hutt, Jane  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Lewis, Huw  
Morgan, Julie  
Neagle, Lynne  
Rathbone, Jenny  
Rees, David  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment not agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM5015: O blaid 45, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Amendment 2 to NDM5015: For 45, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Antoniw, Mick  
Asghar, Mohammad  
Black, Peter  
Burns, Angela  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Jocelyn  
Davies, Keith  
Davies, Paul  
Davies, Suzy  
Drakeford, Mark  
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord  
Evans, Rebecca  
Finch-Saunders, Janet  
George, Russell

Gething, Vaughan  
 Graham, William  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, Lesley  
 Gruffydd, Llyr Huws  
 Hedges, Mike  
 Hutt, Jane  
 Isherwood, Mark  
 Jenkins, Bethan  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Lewis, Huw  
 Morgan, Julie  
 Neagle, Lynne  
 Powell, William  
 Ramsay, Nick  
 Rathbone, Jenny  
 Rees, David  
 Roberts, Aled  
 Sandbach, Antoinette  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Watson, Joyce  
 Williams, Kirsty  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.  
 Amendment agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM5015: O blaid 22, Ymatal 0, Yn erbyn 23.  
 Amendment 3 to NDM5015: For 22, Abstain 0, Against 23.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Asghar, Mohammad  
 Black, Peter  
 Burns, Angela  
 Davies, Andrew R.T.  
 Davies, Jocelyn  
 Davies, Paul  
 Davies, Suzy  
 Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord  
 Finch-Saunders, Janet  
 George, Russell  
 Graham, William  
 Gruffydd, Llyr Huws  
 Isherwood, Mark  
 Jenkins, Bethan  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Elin  
 Powell, William  
 Ramsay, Nick  
 Roberts, Aled  
 Sandbach, Antoinette  
 Williams, Kirsty  
 Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
 Amendment not agreed.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
 Antoniw, Mick  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davies, Alun  
 Davies, Keith  
 Drakeford, Mark  
 Evans, Rebecca  
 Gething, Vaughan  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, Lesley  
 Hedges, Mike  
 Hutt, Jane  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Lewis, Huw  
 Morgan, Julie  
 Neagle, Lynne  
 Rathbone, Jenny  
 Rees, David  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Watson, Joyce

*Gwelliant 4 i NDM5015: O blaid 34, Ymatal 0, Yn erbyn 11.  
Amendment 4 to NDM5015: For 34, Abstain 0, Against 11.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Antoniw, Mick  
Black, Peter  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Jocelyn  
Davies, Keith  
Drakeford, Mark  
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord  
Evans, Rebecca  
Gething, Vaughan  
Gregory, Janice  
Griffiths, Lesley  
Gruffydd, Llyr Huws  
Hedges, Mike  
Hutt, Jane  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Lewis, Huw  
Morgan, Julie  
Neagle, Lynne  
Powell, William  
Rathbone, Jenny  
Rees, David  
Roberts, Aled  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Watson, Joyce  
Williams, Kirsty  
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
Davies, Suzy  
Finch-Saunders, Janet  
George, Russell  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Ramsay, Nick  
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment agreed.*

*Gwelliant 5 i NDM5015: O blaid 34, Ymatal 11, Yn erbyn 0.  
Amendment 5 to NDM5015: For 34, Abstain 11, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Antoniw, Mick  
Black, Peter  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Jocelyn  
Davies, Keith  
Drakeford, Mark  
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord  
Evans, Rebecca  
Gething, Vaughan  
Gregory, Janice  
Griffiths, Lesley  
Gruffydd, Llyr Huws



Hedges, Mike  
Hutt, Jane  
Jones, Alun Ffred  
Jenkins, Bethan  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Lewis, Huw  
Morgan, Julie  
Neagle, Lynne  
Powell, William  
Rathbone, Jenny  
Rees, David  
Roberts, Aled  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Watson, Joyce  
Williams, Kirsty  
Wood, Leanne

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
The following Members abstained:

Asghar, Mohammad  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Paul  
Davies, Suzy  
Finch-Saunders, Janet  
George, Russell  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Ramsay, Nick  
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment agreed.*

*Gwelliant 6 i NDM5015: O blaid 45, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Amendment 6 to NDM5015: For 45, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Antoniw, Mick  
Asghar, Mohammad  
Black, Peter  
Burns, Angela  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Andrew R.T  
Davies, Jocelyn  
Davies, Keith  
Davies, Paul  
Davies, Suzy  
Drakeford, Mark  
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord  
Evans, Rebecca  
Finch-Saunders, Janet  
George, Russell  
Gething, Vaughan  
Graham, William  
Gregory, Janice

Griffiths, Lesley  
 Gruffydd, Llyr Huws  
 Hedges, Mike  
 Hutt, Jane  
 Isherwood, Mark  
 Jones, Alun Ffred  
 Jenkins, Bethan  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Lewis, Huw  
 Morgan, Julie  
 Neagle, Lynne  
 Powell, William  
 Ramsay, Nick  
 Rathbone, Jenny  
 Rees, David  
 Roberts, Aled  
 Sandbach, Antoinette  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Watson, Joyce  
 Williams, Kirsty  
 Wood, Leanne

*Derbyniwyd y gwelliant.  
 Amendment agreed.*

*Gwelliant 7 i NDM5015: O blaid 30, Ymatal 0, Yn erbyn 15.  
 Amendment 7 to NDM5015: For 30, Abstain 0, Against 15.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
 The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
 Antoniwi, Mick  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davies, Alun  
 Davies, Jocelyn  
 Davies, Keith  
 Drakeford, Mark  
 Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord  
 Evans, Rebecca  
 Gething, Vaughan  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, Lesley  
 Gruffydd, Llyr Huws  
 Hedges, Mike  
 Hutt, Jane  
 Jones, Alun Ffred  
 Jenkins, Bethan  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Jones, Elin  
 Lewis, Huw  
 Morgan, Julie  
 Neagle, Lynne  
 Rathbone, Jenny  
 Rees, David  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Watson, Joyce  
 Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
 The following Members voted against:

Asghar, Mohammad  
 Black, Peter  
 Burns, Angela  
 Davies, Andrew R.T  
 Davies, Paul  
 Davies, Suzy  
 Finch-Saunders, Janet  
 George, Russell  
 Graham, William  
 Isherwood, Mark  
 Powell, William  
 Ramsay, Nick  
 Roberts, Aled  
 Sandbach, Antoinette  
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment agreed.*

*Cafodd gwelliant 8 ei ddad-ddethol.  
Amendment 8 was deselected.*

*Gwelliant 9 i NDM5015: O blaid 44, Ymatal 0, Yn erbyn 1.  
Amendment 9 to NDM5015: For 44, Abstain 0, Against 1.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Antoniw, Mick  
Asghar, Mohammad  
Black, Peter  
Burns, Angela  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Byron  
Davies, Jocelyn  
Davies, Keith  
Davies, Paul  
Drakeford, Mark  
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord  
Evans, Rebecca  
Finch-Saunders, Janet  
George, Russell  
Gething, Vaughan  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, Lesley  
Gruffydd, Llyr Huws  
Hedges, Mike  
Hutt, Jane  
Isherwood, Mark  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Morgan, Julie  
Neagle, Lynne  
Powell, William  
Rathbone, Jenny  
Rees, David  
Roberts, Aled  
Sandbach, Antoinette  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Watson, Joyce  
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Ramsay, Nick

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment agreed.*

*Gwelliant 10 i NDM5015: O blaid 22, Ymatal 0, Yn erbyn 23.  
Amendment 10 to NDM5015: For 22, Abstain 0, Against 23.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:

The following Members voted for:

Asghar, Mohammad  
 Black, Peter  
 Burns, Angela  
 Davies, Andrew R.T.  
 Davies, Byron  
 Davies, Jocelyn  
 Davies, Paul  
 Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord  
 Finch-Saunders, Janet  
 George, Russell  
 Graham, William  
 Gruffydd, Llyr Huws  
 Isherwood, Mark  
 Jenkins, Bethan  
 Jones, Alun Ffred  
 Jones, Elin  
 Jones, Ieuan Wyn  
 Powell, William  
 Ramsay, Nick  
 Roberts, Aled  
 Sandbach, Antoinette  
 Williams, Kirsty

The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
 Antoniwi, Mick  
 Chapman, Christine  
 Cuthbert, Jeff  
 Davies, Alun  
 Davies, Keith  
 Drakeford, Mark  
 Evans, Rebecca  
 Gething, Vaughan  
 Gregory, Janice  
 Griffiths, Lesley  
 Hedges, Mike  
 Hutt, Jane  
 Jones, Ann  
 Jones, Carwyn  
 Lewis, Huw  
 Morgan, Julie  
 Neagle, Lynne  
 Rathbone, Jenny  
 Rees, David  
 Sargeant, Carl  
 Thomas, Gwenda  
 Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
 Amendment not agreed.*

Cynnig NDM5015 fel y'i diwygiwyd:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. Yn cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau trafnidiaeth ar gyfer twf economaidd yng Nghymru;*

*2. Yn nodi nad yw'r gwariant ar seilwaith rheilffyrdd wedi'i ddatganoli ac mai cyfrifoldeb Llywodraeth y DU ydyw, a bod gwariant Network Rail wedi'i ddatganoli i Lywodraeth yr Alban yn 2006;*

*3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i geisio datganoli cyllideb Network Rail a'r holl gyfrifoldebau eraill yn ymwneud â seilwaith rheilffyrdd;*

*4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganfod pa mor ymarferol yw cyflwyno cerdyn Oyster ar gyfer Cymru gyfan, gan weithio gyda chwmnïau trên a chwmnïau bysiau i sicrhau bod pobl yn gallu teithio o amgylch Cymru yn rhwydd;*

*5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol, ASau a'r Adran Drafnidiaeth i drydaneiddio Prif Reilffordd y*

Motion NDM5015 as amended:

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Recognises the importance of transport connectivity for economic growth in Wales;*

*2. Notes that rail infrastructure spending is not devolved and is the responsibility of the UK Government and that Network Rail spending was devolved to the Scottish Government in 2006;*

*3. Calls on the Welsh Government to seek the devolution of Network Rail's budget and all other rail infrastructure responsibilities;*

*4. Calls on the Welsh Government to establish the feasibility of introducing a Wales-wide Oystercard, working with train and bus companies to ensure that people can travel around Wales easily;*

*5. Calls on the Welsh Government to work with local authorities, MPs and the Department for Transport to deliver*

- |  |  |
|--|--|
| <p><i>Great Western i Abertawe a thrydaneiddio rheilffyrdd cymoedd De Cymru;</i></p> <p>6. <i>Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu strategaeth integredig i gysylltu De a Gorllewin Cymru i'r brif reilffordd wedi'i thrydaneiddio;</i></p> <p>7. <i>Yn croesawu'r gwaith sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru'n Un a'r Llywodraeth Lafur bresennol i gysylltu cymunedau ar draws Cymru drwy rwydwaith trafndiaeth integredig; ac</i></p> <p>8. <i>Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Gogledd Cymru yn gallu manteisio ar HS2, ac i sicrhau na fydd unrhyw newidiadau yn cael effaith anffafriol ar wasanaethau prif lein West Coast i Gaergybi.</i></p> | <p><i>electrification of the Great Western Main Line to Swansea and electrification of the South Wales valley lines;</i></p> <p>6. <i>Calls on the Welsh Government to outline an integrated strategy to connect South and West Wales to the electrified main rail line;</i></p> <p>7. <i>Welcomes the work undertaken by both the One Wales and the current Labour Governments to connect communities across Wales through an integrated transport network; and</i></p> <p>8. <i>Calls on the Welsh Government to ensure that north Wales is able to take advantage of HS2 and ensure that West Coast main line services to Holyhead are not adversely affected by any changes.</i></p> |
|--|--|

*Cynnig NDM5015 fel y'i diwygiwyd: O blaid 30, Ymatal 0, Yn erbyn 15.  
Motion NDM5015 as amended: For 30, Abstain 0, Against 15.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Antoniw, Mick  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Jocelyn  
Davies, Keith  
Drakeford, Mark  
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord  
Evans, Rebecca  
Gething, Vaughan  
Gregory, Janice  
Griffiths, Lesley  
Gruffydd, Llyr Huws  
Hedges, Mike  
Hutt, Jane  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Morgan, Julie  
Neagle, Lynne  
Rathbone, Jenny  
Rees, David  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Watson, Joyce

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad  
Black, Peter  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Byron  
Davies, Paul  
Finch-Saunders, Janet  
George, Russell  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Powell, William  
Ramsay, Nick  
Roberts, Aled  
Sandbach, Antoinette  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y cynnig NDM5015 fel y'i diwygiwyd.  
Motion NDM5015 as amended agreed.*

*Cynnig NDM5016: O blaid 4, Ymatal 0, Yn erbyn 41.  
Motion NDM5016: For 4, Abstain 0, Against 41.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Black, Peter  
Powell, William  
Roberts, Aled  
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Antoniw, Mick  
Asghar, Mohammad  
Burns, Angela  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Byron  
Davies, Jocelyn  
Davies, Keith  
Davies, Paul  
Drakeford, Mark  
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord  
Evans, Rebecca  
Finch-Saunders, Janet  
George, Russell  
Gething, Vaughan  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, Lesley  
Gruffydd, Llyr Huws  
Hedges, Mike  
Hutt, Jane  
Isherwood, Mark  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Morgan, Julie  
Neagle, Lynne  
Ramsay, Nick  
Rathbone, Jenny  
Rees, David  
Sandbach, Antoinette  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Watson, Joyce

*Gwrthodwyd y cynnig.  
Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM5016: O blaid 23, Ymatal 7, Yn erbyn 15.  
Amendment 1 to NDM5016: For 23, Abstain 7, Against 15.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Antoniw, Mick  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Keith  
Drakeford, Mark  
Evans, Rebecca

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad  
Black, Peter  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Byron  
Davies, Paul  
Finch-Saunders, Janet  
George, Russell

Gething, Vaughan  
Gregory, Janice  
Griffiths, Lesley  
Hedges, Mike  
Hutt, Jane  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Lewis, Huw  
Morgan, Julie  
Neagle, Lynne  
Rathbone, Jenny  
Rees, David  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Watson, Joyce

Graham, William  
Isherwood, Mark  
Powell, William  
Ramsay, Nick  
Roberts, Aled  
Sandbach, Antoinette  
Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:  
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn  
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord  
Gruffydd, Llyr Huws  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Elin  
Jones, Ieuan Wyn

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment agreed.*

*Gwelliant 2 i NDM5016: O blaid 45, Ymatal 0, Yn erbyn 0.  
Amendment 2 to NDM5016: For 45, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Antoniw, Mick  
Asghar, Mohammad  
Black, Peter  
Burns, Angela  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Byron  
Davies, Jocelyn  
Davies, Keith  
Davies, Paul  
Drakeford, Mark  
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord  
Evans, Rebecca  
Finch-Saunders, Janet  
George, Russell  
Gething, Vaughan  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, Lesley  
Gruffydd, Llyr Huws  
Hedges, Mike  
Hutt, Jane  
Isherwood, Mark  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann

Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Morgan, Julie  
Neagle, Lynne  
Powell, William  
Ramsay, Nick  
Rathbone, Jenny  
Rees, David  
Roberts, Aled  
Sandbach, Antoinette  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Watson, Joyce  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.  
Amendment agreed.*

*Gwelliant 3 i NDM5016: O blaid 12, Ymatal 0, Yn erbyn 33.  
Amendment 3 to NDM5016: For 12, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad  
Burns, Angela  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Byron  
Davies, Paul  
Finch-Saunders, Janet  
George, Russell  
Graham, William  
Isherwood, Mark  
Lewis, Huw  
Ramsay, Nick  
Sandbach, Antoinette

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Andrews, Leighton  
Antoniw, Mick  
Black, Peter  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Jocelyn  
Davies, Keith  
Drakeford, Mark  
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord  
Evans, Rebecca  
Gething, Vaughan  
Gregory, Janice  
Griffiths, Lesley  
Gruffydd, Llyr Huws  
Hedges, Mike  
Hutt, Jane  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Ieuan Wyn  
Morgan, Julie  
Neagle, Lynne  
Powell, William  
Rathbone, Jenny  
Rees, David  
Roberts, Aled  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Watson, Joyce  
Williams, Kirsty

*Gwrthodwyd y gwelliant.  
Amendment not agreed.*

5.30 p.m.



Cynnig NDM5016 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5016 as amended:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*1. Yn credu:*

*1. Believes that:*

*a) nad oes lle i fod yn hunanfodlon yng nghyswllt cyflenwi gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ar draws Cymru;*

*a) there is no room for complacency in delivering maternity and neonatal services across Wales;*

*b) mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddal Byrddau Iechyd Lleol i gyfrif drwy fecanwaith ystyrlon ar gyfer monitro ansawdd gofal mamolaeth a newyddenedigol ar draws Cymru;*

*b) it is the responsibility of the Welsh Government to hold Local Health Boards to account through a meaningful mechanism for monitoring the quality of maternity and neonatal care across Wales;*

*c) bod Cymru yn wynebu sialensiau newydd a bod cyd-destun cymdeithasol ac economaidd gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn newid yn gyson; a*

*c) there are new challenges facing Wales and that the social and economic context in which maternity and neonatal services operate is constantly changing; and*

*d) y dylai pob menyw yng Nghymru, ni waeth ble mae hi'n byw ac ni waeth beth yw ei chefnidir cymdeithasol neu ei hethnigrwydd, allu cael gafael ar a derbyn gofal mamolaeth a newyddenedigol diogel o ansawdd uchel;*

*d) every woman in Wales, irrespective of her location, social background, circumstances or ethnicity, should have access to, and receive, safe high quality maternity and neonatal care;*

*2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:*

*2. Calls on the Welsh Government to:*

*a) ddarparu arweinyddiaeth strategol a chryf i Fyrddau Iechyd Lleol ledled Cymru i sicrhau bod gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn gwella;*

*a) provide strong, strategic leadership to Local Health Boards throughout Wales to ensure that maternity and neonatal services improve;*

*b) sicrhau bod unrhyw adolygiad o wasanaethau newyddenedigol a wneir gan Fyrddau Iechyd Lleol yn cael ei gymeradwyo gan y Rhwydwaith Newyddenedigol i sicrhau nad yw unrhyw gynigion yn peryglu darparu gwasanaeth Cymru gyfan cynhwysfawr;*

*b) ensure that any review of neo-natal services undertaken by Local Health Boards are endorsed by the Neonatal Network to ensure that any proposals do not compromise the provision of a comprehensive All-Wales service;*

*c) sicrhau bod unrhyw adolygiad o wasanaethau mamolaeth a wneir gan Fyrddau Iechyd Lleol yn cael ei gymeradwyo gan Grŵp Gweithredu Cymru Gyfan i sicrhau nad yw unrhyw gynigion yn peryglu darparu gwasanaeth Cymru gyfan cynhwysfawr; a*

*c) ensure that any review of maternity services undertaken by Local Health Boards are endorsed by the All Wales Implementation Group to ensure that any proposals do not compromise the provision of a comprehensive All-Wales service; and*

*d) chynllunio'r gweithlu yn yr hirdymor er mwyn sicrhau bod digon o staff arbenigol ar gael ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol ledled y wlad.*

*d) undertake long term work force planning to ensure sufficient specialist staff are available for neonatal services throughout the country.*

*Cynnig NDM5016 fel y'i diwygiwyd: O blaid 45, Ymatal 0, Yn erbyn 0.*  
*Motion NDM5016 as amended: For 45, Abstain 0, Against 0.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Andrews, Leighton  
Antoniw, Mick  
Asghar, Mohammad  
Black, Peter  
Burns, Angela  
Chapman, Christine  
Cuthbert, Jeff  
Davies, Alun  
Davies, Andrew R.T.  
Davies, Byron  
Davies, Jocelyn  
Davies, Keith  
Davies, Paul  
Drakeford, Mark  
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord  
Evans, Rebecca  
Finch-Saunders, Janet  
George, Russell  
Gething, Vaughan  
Graham, William  
Gregory, Janice  
Griffiths, Lesley  
Gruffydd, Llyr Huws  
Hedges, Mike  
Hutt, Jane  
Isherwood, Mark  
Jenkins, Bethan  
Jones, Alun Ffred  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Elin  
Jones, Ieuan Wyn  
Lewis, Huw  
Morgan, Julie  
Neagle, Lynne  
Powell, William  
Ramsay, Nick  
Rathbone, Jenny  
Rees, David  
Roberts, Aled  
Sandbach, Antoinette  
Sargeant, Carl  
Thomas, Gwenda  
Watson, Joyce  
Williams, Kirsty

*Derbyniwyd cynnig NDM5016 fel y'i diwygiwyd.*  
*Motion NDM5016 as amended agreed.*

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** A wnaiff pawb sy'n gadael y Siambr wneud hynny yn dawel, os gwelwch yn dda?

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** Will all those who are leaving please do so quietly?

## Dadl Fer Short Debate

### Effaith Diwygio Lles ar Iechyd Meddwl a Lles yng Nghymru The Impact of Welfare Reform on Mental Health and Wellbeing in Wales

**Lynne Neagle:** If time allows, I have agreed to give a minute of my allocated time to Ann Jones, Rebecca Evans and Bethan Jenkins, and I look forward to hearing their contributions to this debate.

I am unashamedly raising matters that are largely non-devolved today, unashamedly because I genuinely fear that we could be facing a crisis in Wales due to the impact of the UK Government's welfare reform on those living with mental health problems, and because of the huge amount of additional pressure that this is placing on their families and carers, and on the mental health professionals and third sector organisations that support them. Indeed, I feel that it threatens to offset the good progress that we have made on the mental health and wellbeing agenda at a Welsh level in recent years with our flagship new strategy at consultation stage, with the Mental Health (Wales) Measure 2010 and the individual care and treatment plans proposed by Jonathan Morgan, now finally being implemented on the ground.

I have kept the title deliberately broad today, in recognition of the fact that welfare reforms, and austerity more widely, are impacting on mental health and wellbeing on a whole range of fronts. There are serious question marks, for example, about the transition to universal credit and the switch from disability living allowance to personal independence payments, and we know that helplines run by charities like Mind and the Samaritans have seen a huge increase in calls on a whole range of issues relating to welfare reform and changes to the tax and benefits system.

**Lynne Neagle:** Os bydd amser yn caniatáu, rwyf wedi cytuno i roi munud o'r amser a glustnodwyd ar fy nghyfer i Ann Jones, Rebecca Evans a Bethan Jenkins, ac edrychaf ymlaen at glywed eu cyfraniadau i'r dadl hon.

Nid wyf yn teimlo cywilydd heddiw wrth godi materion sydd i raddau helaeth yn faterion nad ydynt wedi eu datganoli. Nid wyf yn teimlo cywilydd oherwydd mae arnaf ofn gwirioneddol y gallem fod yn wynebu argyfwng yng Nghymru o ganlyniad i'r effaith y mae gwaith diwygio lles Llywodraeth y DU yn ei chael ar y sawl sy'n byw gyda phroblemau iechyd meddwl, ac oherwydd y pwysau ychwanegol enfawr y mae hynny'n ei roi ar eu teuluoedd a'u gofalgwyr, ac ar y gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd meddwl a'r mudiadau yn y trydydd sector sy'n eu cefnogi. Yn wir, rwyf yn teimlo bod y gwaith diwygio lles yn bygwth dadwneud y cynnydd da a wnaed gennym o ran yr agenda iechyd meddwl a lles ar lefel Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, â'n strategaeth newydd flaenllaw yr ymgynghorir yn ei chylch, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 a'r cynlluniau gofal a thriniaeth unigol a gynigiwyd gan Jonathan Morgan, sydd o'r diwedd yn awr yn cael eu gweithredu ar lawr gwlad.

Rwyf wedi gwneud penderfyniad bwriadol heddiw i gadw'r teitl yn gyffredinol, er mwyn cydnabod y ffaith bod diwygio lles, a mesurau cynilo ehangach, yn effeithio ar iechyd meddwl a lles o safbwynt ystod eang o agweddau. Ceir amheuan difrifol, er enghraifft, ynghylch y newid i gredyd cynhwysol a'r newid o lwfans byw i'r anabl i daliadau annibyniaeth bersonol, a gwyddom fod llinellau cymorth a gaiff eu rhedeg gan elusennau megis Mind a'r Samariaid wedi gweld cynnydd enfawr yn nifer y galwadau ynghylch ystod eang o faterion sy'n ymwneud â diwygio lles a newidiadau i'r system drethi a budd-daliadau.

However, it is fair to say that the most pressing concern at this point in time, and so the main focus of my debate today, is the target-driven work capability assessments run by Atos Healthcare on behalf of the Department for Work and Pensions that are designed to facilitate the massive shift of people from incapacity benefit to employment support allowance, jobseeker's allowance or, in some cases, no benefit at all. On a basic level, I would question whether a target-driven approach is appropriate for these challenging times and whether, when we are in the midst of double-dip recession and the most serious global economic downturn for half a century, the coalition Government is right to set Atos a target that sees it pushing 11,000 people a week through a process like this. How realistic is it to try to force large numbers of people with mental health problems into a job market where more than 30 people are chasing every vacancy in some parts of Wales, especially when we know that there are huge barriers preventing those with mental health problems from returning to work, not least the fact the fewer than four in 10 employers say that they would employ someone with a mental illness?

For me, the sheer number of people who have, or will have, to go through one of these assessments is alarming. We are talking 160,000 people in Wales alone or 10% of the working-age population, roughly 40% of whom cite mental health difficulties as the main cause of their incapacity, with many more citing it as a secondary factor in their claim. Beyond the sheer scale, timing and ideological and target-driven nature of these assessments, there are serious and unaddressed concerns about the tests themselves and whether they are, in any way, fit for purpose when it comes to evaluating whether someone with a mental illness is able to work.

It simply cannot be right that, in large part, the staff carrying out the assessments do not have any particular expertise in the area of mental health, and I share the deep concern expressed by many within the mental health community, that the assessments fail to take into account the often fluctuating nature of

Fodd bynnag, mae'n deg dweud mai'r pryder mwyaf enbyd ar hyn o bryd, a phrif ffocws fy nadl heddiw, felly, yw'r asesiadau gallu i weithio a yrrir gan dargedau, a gynhelir gan Atos Healthcare ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau, y bwriedir iddynt hwyluso'r broses o symud nifer fawr o bobl o fudd-dal analluogrwydd i lwfans cyflogaeth a chymorth, lwfans ceisio gwaith neu, mewn rhai achosion, dim budd-dal o gwbl. Ar lefel sylfaenol, rwyf yn amau a yw dull a yrrir gan dargedau'n briodol ar gyfer y cyfnod anodd hwn ac a yw'r Llywodraeth glymblaid, yng nghanol dirwasgiad dwbl a'r dirywiad economaidd byd-eang mwyaf difrifol ers hanner canrif, yn iawn i osod targed i Atos sy'n golygu ei fod yn gwthio 11,000 o bobl yr wythnos drwy broses fel hon. Pa mor realistig yw ceisio gorfodi niferoedd mawr o bobl â phroblemau iechyd meddwl i mewn i farchnad swyddi lle y mae dros 30 o bobl yn ymgeisio am bob swydd wag mewn rhai rhannau o Gymru, yn enwedig o wybod bod rhwystrau enfawr yn atal pobl â phroblemau iechyd meddwl rhag dychwelyd i weithio, nid yn lleiaf, y ffaith bod llai na phedwar o bob 10 cyflogwr yn dweud y byddent yn cyflogi rhywun sydd â salwch meddwl?

I mi, mae'r nifer fawr o bobl sydd neu a fydd yn gorfod mynd drwy un o'r asesiadau hyn yn frawychus. Rydym yn sôn am 160,000 o bobl yng Nghymru yn unig, neu 10% o'r boblogaeth sydd o oedran gweithio, y mae tua 40% ohonynt yn nodi mai anawsterau iechyd meddwl yw prif achos eu hanalluogrwydd, gyda llawer mwy'n nodi hynny fel ffactor eilaidd yn eu cais. Ar wahân i nifer yr asesiadau, eu hamseriad, eu natur ideolegol a'r ffaith y cânt eu gyrru gan dargedau, ceir pryderon difrifol nad ydynt wedi cael sylw ynghylch y profion eu hunain a ph'un a ydynt, mewn unrhyw fodd, yn addas i'w diben pan ddaw'n fater o werthuso a yw rhywun â salwch meddwl yn gallu gweithio.

Rhaid nad yw'n iawn bod y staff sy'n cynnal yr asesiadau, i raddau helaeth, yn staff nad oes ganddynt unrhyw arbenigedd penodol ym maes iechyd meddwl, ac rwyf innau fel llawer o bobl eraill sy'n gweithio ym maes iechyd meddwl yn pryderu'n ddifrifol bod yr asesiadau'n methu ag ystyried natur

people's conditions, and that they are heavily biased towards physical functionality.

Time and again, people have complained that the questions and descriptors used by assessors are far too generic and do not give any scope for those with mental health problems to explain the impact that their condition has on their lives, and I have been told of many instances when notes written by assessors have failed to reflect the full detail of discussions that took place in the interview. I think it says it all that when the UK Government looked at some of these issues last year, instead of seeking to address this by building on the range of questions relating to mental health, it reduced the number of mental health descriptors by a third. The story of the woman who suffered a panic attack during her assessment, but then did not score any points at all, really summed it up for me. These tests are far too arbitrary and are not up to the job of assessing the readiness to work of someone with a chronic mental health problem.

Another common complaint I have heard is that these assessments are often carried out in open, noisy or intimidating environments. I was shocked to discover that, because of a deal struck between the courts service and the Department for Work and Pensions, many appeal hearings are actually taking place within the setting of a magistrates' court. How can support workers possible reassure someone that they are not on trial when their appeal hearing is literally taking place in a courtroom?

This is happening to real people with a wide range of mental health problems and often incredibly complex and ever-shifting needs, completely removed from the clichéd and lazy tabloid caricature of the benefit scrounger. It is incredibly frustrating to hear so many stories of years of progress and intensive support from support workers being undermined because of the additional fear, stress, and worry that the reassessment process is causing. These are stories like the woman who, with the help of her support

gyfnewidiol cyflyrau pobl yn aml, a'u bod yn tueddu i ganolbwyntio i raddau helaeth iawn ar allu corfforol.

Dro ar ôl tro, mae pobl wedi cwyno bod y cwestiynau a'r disgrifyddion a ddefnyddir gan aseswyr yn rhy gyffredinol o lawer ac nad ydynt yn rhoi unrhyw gyfle i'r sawl sydd â phroblemau iechyd meddwl egluro'r effaith y mae eu cyflwr yn ei chael ar eu bywydau, ac rwyf wedi clywed am lawer o achosion lle y mae'r nodiadau a ysgrifennwyd gan aseswyr wedi methu ag adlewyrchu manylion llawn y trafodaethau a gafwyd yn ystod y cyfweiliad. Pan edrychodd Llywodraeth y DU ar rai o'r materion hyn y llynedd, yn lle ceisio mynd i'r afael â'r mater trwy adeiladu ar yr ystod o gwestiynau'n ymwneud ag iechyd meddwl, aeth ati i gwtogi nifer y disgrifyddion iechyd meddwl fel bod eu nifer draean yn llai. Rwyf yn credu bod hynny'n dweud y cyfan. Roedd hanes y ddynes a ddioddefodd bwl o banig yn ystod ei hasesiad, ond na sgoriodd unrhyw bwyntiau o gwbl wedyn, yn crisialu'r sefyllfa'n berffaith i mi. Mae'r profion hyn yn rhy fympwyol o lawer, ac nid ydynt yn addas i asesu a yw rhywun sydd â phroblem iechyd meddwl cronig yn barod i weithio.

Cwyn gyffredin arall yr wyf wedi'i chlywed yw bod yr asesiadau hyn yn aml yn cael eu cynnal mewn amgylcheddau agored, swnllyd neu fygythiol. Cefais sioc o ddarganfod, oherwydd bargaen a darwyd rhwng y gwasanaeth llysoedd a'r Adran Gwaith a Phensiynau, bod llawer o wrandawiadau apêl yn digwydd mewn gwirionedd mewn lleoliad llys ynadon. Sut y gall gweithwyr cymorth sicrhau pobl nad ydynt ar brawf pan fydd eu gwrandawriad apêl yn digwydd yn llythrennol mewn ystafell llys?

Mae hynny'n digwydd i bobl go iawn sydd ag ystod eang o broblemau iechyd meddwl ac anghenion cymhleth yn aml sy'n newid yn barhaus, nad ydynt yn debyg o gwbl i'r darlun ystrydebol a diog a lunnir gan bapurau tabloid o unigolion sy'n byw'n ddiangen ar fudd-daliadau. Mae clywed cynifer o hanesion am flynyddoedd o gynnydd a chymorth dwys gan weithwyr cymorth yn cael eu taseilio oherwydd yr ofn ychwanegol, y straen, a'r gofid y mae'r broses ailasesu'n eu hachosi, yn peri llawer

worker, was on the path to recovery from mental illness, had started socialising, was going out more often, and was even volunteering within her community, but was then set back to such an extent by the trauma of the reassessment process that she felt unable to get dressed and leave the house. Alternatively, they are stories like that of the person with paranoid schizophrenia who had been supported by Gofal Cymru for four years, but was then refused employment and support allowance, and who now will not attend any work-related or voluntary activity that could help her recovery as she is terrified that it might be seen as proof that she can work. The fear of doing anything that might be misconstrued as showing ability to work is a really serious problem, and it comes up time and again in cases that I have come across.

This is particularly frustrating, because I know from my own experience in the voluntary sector that volunteering and education can be really important tools in helping people with mental health problems towards recovery. Indeed, the principle of a limited amount of therapeutic earnings was at one point enshrined within the benefit system. There is a cruel irony in the fact that the very assessments supposedly designed to get people off benefits and back to work are preventing exactly the kind of activity that could make this possible.

Another really pressing concern is the knock-on effect that the work capability assessment is having on other benefits, particularly housing benefit and the local housing allowance. This is happening either because people are deemed ineligible following their Atos assessment, or it is because their benefits are being frozen while additional information is sought, often only to be reinstated at a later stage. The combination of having all of your benefit entitlement removed in one fell swoop and the ensuing threat of homelessness is a toxic mix that will inevitably have negative implications for anyone's mental health and wellbeing. I have already mentioned the increase in the number

iawn o rwystredigaeth. Mae'r rhain yn hanesion tebyg i hanes y ddynes a oedd, gyda help ei gweithiwr cymorth, wrthi'n gwella o salwch meddwl, a oedd wedi dechrau cymdeithasu, a oedd yn mynd allan yn amlach, ac a oedd hyd yn oed yn gwirfoddoli yn ei chymuned, ond effeithiodd trawma'r broses ailasesu gymaint arni nes iddi deimlo nad oedd yn gallu gwisgo na gadael y tŷ. Neu maent yn hanesion tebyg i hanes yr unigolyn â sgitsoffrenia paranoiaidd a oedd wedi cael cymorth gan Gofal Cymru am bedair blynedd, ond y gwrthodwyd rhoi lwfans cyflogaeth a chymorth iddi wedyn, ac na fydd yn awr yn mynychu unrhyw weithgarwch sy'n gysylltiedig â gwaith neu weithgarwch gwirfoddol a allai ei helpu i wella, gan ei bod yn ofni y gallai hynny gael ei ystyried yn brawf o'i gallu i weithio. Mae ofn gwneud unrhyw beth a allai gael ei gamddehongli'n brawf o allu i weithio yn broblem wirioneddol ddifrifol, a daw i'r amlwg dro ar ôl tro mewn achosion yr wyf wedi dod ar eu traws.

Mae hynny'n destun rhwystredigaeth arbennig, oherwydd gwn o'm profiad fy hun yn y sector gwirfoddol bod gwirfoddoli ac addysg yn gallu bod yn ddulliau pwysig iawn o helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl i wella. Yn wir, ar un adeg roedd yr egwyddor o swm cyfyngedig o enillion therapiwtig yn rhan o'r system fudd-daliadau. Mae eironi creulon yn y ffaith bod yr union asesiadau y bwriadwyd, yn ôl pob sôn, iddynt gael pobl oddi ar fudd-daliadau ac yn ôl i waith yn atal yr union fath o weithgarwch a allai wneud hynny'n bosibl.

Pryder arall gwirioneddol enbyd yw'r effaith ddilynol y mae'r asesiadau gallu i weithio yn ei chael ar fudd-daliadau eraill, yn enwedig budd-dal tai a'r lwfans tai lleol. Mae hynny'n digwydd naill ai oherwydd bod pobl yn cael eu hystyried yn anghymwys ar ôl eu hasesiad gan Atos, neu oherwydd bod eu budd-daliadau'n cael eu rhewi wrth geisio cael gwybodaeth ychwanegol, cyn cael eu hailgyflwyno'n ddiweddarach yn aml. Mae'r cyfuniad o gollu eich holl hawl i fudd-daliadau ar un waith, a'r bygythiad wedyn o ddigartrefedd, yn gymysgedd gwenwynig a fydd, yn anochel, yn esgor ar oblygiadau negyddol i iechyd meddwl a lles unrhyw un. Rwyf eisoes wedi sôn am y cynnydd yn nifer

of calls to the Samaritans, and there have been numerous press reports of people driven to self-harm and suicide because of financial worries. As one support worker from Gofal put it: people are living in fear, constantly worrying whether their benefits are going to be stopped.

It is very telling in itself that more than half of appeals against work capability assessment decisions end up being upheld. The experience of organisations I am in contact with suggests an even higher percentage of successful appeals for claims relating to mental health. As well as the months of unnecessary trauma and stress that people are having to go through, and the huge amounts of Government money being wasted on arranging expensive appeals tribunals, I have local evidence that time devoted towards the appeals process is preventing mental health workers from engaging with and helping people towards recovery.

Valuable hours spent providing advice and helping people to complete forms and meet deadlines is one thing, but I was really frustrated to hear from colleagues in Torfaen Mind that support workers would often lose half a day in supporting just one client, with work assessments for the Torfaen area taking place in Newport. We know that these organisations were often stretched to limit before all this hit, and so it is understandable that they had to withdraw this kind of support from their service users, rather than risk running services on potentially dangerously low staff-to-client ratios. At the same time, however, I am incredibly worried to hear that my constituents have to attend these intimidating interviews on their own, particularly when a practical and sensible offer from Torfaen Mind to host the appeals on its premises was completely ignored by the DWP.

All of this would be easier to stomach and easier to put down to systemic teething problems and even misguided benevolence were it not for the fact that the Government

y galwadau i'r Samariaid, a chafwyd nifer o adroddiadau yn y wasg am bobl yn cael eu cymell i hunan-niweidio a chyflawni hunanladdiad oherwydd pryderon ariannol. Fel y dywedodd un o weithwyr cymorth Gofal: mae pobl yn byw mewn ofn, yn poeni'n gyson a fydd eu budd-daliadau'n cael eu hatal.

Mae'r ffaith bod dros hanner yr apeliadau yn erbyn penderfyniadau asesiadau gallu i weithio yn cael eu cadarnhau yn y pen draw yn dweud llawer. Mae profiad sefydliadau yr wyf mewn cysylltiad â hwy'n awgrymu bod canran yr apeliadau llwyddiannus yng nghyswllt hawliadau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl yn uwch fyth. Yn ogystal â'r misoedd o drawma a straen diangen y mae pobl yn gorfod eu dioddef, a'r symiau enfawr o arian y Llywodraeth a gaiff ei wastraffu ar drefnu tribiwnlysoedd apeliadau drud, mae gennyf dystiolaeth leol sy'n dangos bod amser a neilltuir i'r broses apeliadau'n atal gweithwyr iechyd meddwl rhag ymgysylltu â phobl a'u helpu i wella.

Un peth yw treulio oriau gwerthfawr yn darparu cyngor ac yn helpu pobl i lenwi ffurflenni a bodloni terfynau amser, ond roeddwn yn teimlo'n rhwystredig iawn o glywed cydweithwyr yn Mind Torfaen yn dweud bod gweithwyr cymorth yn aml yn colli hanner diwrnod wrth gynorthwyo un cleient yn unig, am fod asesiadau gwaith ar gyfer ardal Torfaen yn digwydd yng Nghasnewydd. Gwyddom fod y sefydliadau hyn yn aml wedi'u hymestyn i'r eithaf cyn i hyn i gyd eu taro, ac felly mae'n ddealladwy eu bod wedi gorfod tynnu'r math hwn o gymorth i'w defnyddwyr gwasanaeth yn ôl, yn hytrach na mentro rhedeg gwasanaethau ar sail cymarebau staff-i-gleientiaid a allai fod yn beryglus o isel. Ar yr un pryd, fodd bynnag, rwyf yn pryderu'n ddifrifol o glywed bod fy etholwyr yn gorfod mynychu'r cyfweiliadau brawychus hyn ar eu pen eu hunain, yn enwedig ar ôl i'r Adran Gwaith a Phensiynau anwybyddu'n llwyr gynnig ymarferol a synhwyrol gan Mind Torfaen i gynnal yr apeliadau ar safle'r sefydliad.

Byddai hyn i gyd yn haws ei stumogi ac yn haws ei briodoli i broblemau cychwynnol systemig, a bwriadau da cyfeiliornus hyd yn oed, pe na bai'r Llywodraeth yn ymddangos

seems completely unwilling to take stock and listen to the wide and growing chorus of criticism of the work capability assessment and the process that surrounds it. For me, it really underlines the ideologically driven nature of this programme of welfare reform. As Mind chief executive Paul Farmer said when he resigned from the scrutiny group set up by the Government to look at the assessment process:

‘The DWP seems absolutely committed to pushing 11,000 people a week through a flawed system.’

He added:

‘I’ve moved from being puzzled about the reluctance to change, to being increasingly frustrated. I genuinely don’t understand why the government doesn’t just pause the process and reflect on why it’s not working.’

Tax and benefits may be non-devolved, but ultimately, it is we in Wales who will have to pick up the pieces. Indeed, like it or not, through local government, health and social services, and the third sector, we already are.

I do not think that anyone, least of all those with a mental illness, would pretend that the old system was perfect, but the more I learn about the realities of this process and of the real-life experiences of people going through the system, the more I am convinced that it will do real and lasting damage not just to the mental health and wellbeing of individuals, but, in the longer term, to whole communities in Wales.

**Ann Jones:** I thank Lynne for the thought-provoking debate. As Lynne and many of you know, Rhyl West, in my constituency, is a deprived area. That is not a badge that anyone wants to wear. It is based on the rates of ill health, including mental health issues. With a Welsh Labour Government on their side, the people of Rhyl West were beginning to feel their confidence return and were upbeat and optimistic about the future. With

yn hollol amharod i bwysu a mesur y sefyllfa a gwranddo ar y feirniadaeth eang a chynyddol o’r asesiadau gallu i weithio a’r broses sydd ynghlwm wrthynt. O’r rhan i, mae’n tanlinellu natur y rhaglen hon o ddiwygio lles, a gaiff ei gyrru gan ideoleg. Fel y dywedodd prif weithredwr Mind, Paul Farmer, pan ymddiswyddodd o’r grŵp craffu a sefydlwyd gan y Llywodraeth i edrych ar y broses asesu:

Ymddengys fod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi ymrwmo’n llwyr i wthio 11,000 o bobl yr wythnos drwy system ddiffygiol.

Ychwanegodd:

Rwyf wedi symud o fethu â deall yr amharodrwydd i newid, i deimlo’n fwyfwy rhwystredig. Rwyf yn methu’n lân â deall pam nad yw’r llywodraeth yn atal y broses am ychydig i fyfyrto ynghylch pam nad yw’n gweithio.

Efallai nad yw trethi a budd-daliadau yn faterion sydd wedi eu datganoli, ond yn y pen draw, ni yng Nghymru a fydd yn gorfod ymdrin â’r canlyniadau. Yn wir, rydym eisoes yn gwneud hynny, o’n bodd neu o’n hanfodd, drwy lywodraeth leol, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a’r trydydd sector.

Nid wyf yn credu y byddai neb, yn enwedig y sawl sydd â salwch meddwl, yn esgus bod yr hen system yn berffaith, ond po fwyaf yr wyf yn ei ddysgu am realiti’r broses hon a phrofiadau bywyd go iawn y bobl sy’n mynd drwy’r system, y mwyaf y caf fy argyhoeddi y bydd yn gwneud difrod gwirioneddol a pharhaol nid yn unig i iechyd meddwl a lles unigolion, ond i gymunedau cyfan yng Nghymru yn y tymor hwy.

**Ann Jones:** Diolch, Lynne, am y ddadl sydd wedi peri inni feddwl. Fel y mae Lynne a llawer ohonoch yn gwybod, mae Gorllewin y Rhyl, yn fy etholaeth i, yn ardal ddifreintiedig. Mae’n label nad oes neb am ei wisgo. Mae’n seiliedig ar gyfraddau afiechyd, gan gynnwys materion sy’n ymwneud ag iechyd meddwl. Gyda chefnogaeth Llywodraeth Lafur Cymru, roedd pobl Gorllewin y Rhyl yn dechrau



the Westminster Government's failed austerity agenda, we continue to see attacks, and Lynne has pointed out how those attacks are working. We are led to believe that more attacks are on the way, with Cameron and Clegg considering an additional £25 billion-worth of welfare cuts. The Tory-Lib Dem Government's sustained attack on those who are out of work is brutal, divisive and cruel. It hinders rather than helps.

**Rebecca Evans:** As Lynne Neagle has said, the negative effects of the disastrous welfare reforms of the UK Government are already being felt hard by people with mental illnesses. Mental health charities tell us that concerns about the reassessments are making mental health worse, and that this is the cause of suicidal thoughts, an increase in medication and increased visits to GPs.

People living with a mental illness have grave concerns about these reassessments, because they fear that they will not be believed and what the test may entail. They fear being assessed by professionals with little mental health knowledge, and they fear having to divulge their illness to a stranger and having to relive every aspect of their illness over and over again. They fear that the assessor may even want to hospitalise them.

It is therefore essential that the assessors have a clear and extensive understanding of mental illness and that they are familiar with the individual cases, are aware that mental illness can manifest itself in different ways at different times, and have an in-depth knowledge of psychiatric medicine. Such training and expertise must become a priority for the UK Government. Sadly, however, it does not seem to be at the moment.

**Bethan Jenkins:** Thank you to Lynne

teimlo'n hyderus unwaith eto ac yn dechrau teimlo'n optimistaidd ac yn obeithiol ynghylch y dyfodol. Gydag agenda gynilo aflwyddiannus Llywodraeth San Steffan, rydym yn parhau i weld ymosodiadau, ac mae Lynne wedi nodi sut y mae'r ymosodiadau hynny'n gweithio. Cawn ein harwain i gredu bod rhagor o ymosodiadau ar y ffordd, wrth i Cameron a Clegg ystyried toriadau lles sy'n werth £25 biliwn arall. Mae'r modd y mae Llywodraeth y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ymosod yn barhaus ar y sawl sydd heb waith yn filain, yn peri rhwygiadau ac yn greulon. Mae'n fwy o rwystr nag o help.

**Rebecca Evans:** Fel y mae Lynne Neagle wedi dweud, mae effeithiau negyddol diwygiadau lles trychinebus Llywodraeth y DU eisoes yn effeithio'n arw ar bobl sydd â salwch meddwl. Dywed elusennau iechyd meddwl wrthym fod pryderon ynghylch yr ailasesiadau'n gwaethygu iechyd meddwl, a'u bod yn peri i bobl ystyried hunanladdiad ac yn arwain at gynnydd mewn meddyginiaeth a mwy o ymweliadau â meddygon teulu.

Mae pobl sy'n byw gyda salwch meddwl yn pryderu'n arw am yr ailasesiadau hyn, oherwydd maent yn ofni na fydd neb yn eu credu ac yn ofni'r hyn y gallai'r prawf ei olygu. Maent yn ofni cael eu hasesu gan weithwyr proffesiynol nad oes ganddynt fawr ddim gwybodaeth am iechyd meddwl, ac maent yn ofni gorfod datgelu eu salwch i ddieithryn a gorfod ail-fyw pob agwedd ar eu salwch drosodd a throsodd. Maent yn ofni y gallai'r asesydd fod yn awyddus i'w hanfon i'r ysbyty hyd yn oed.

Mae'n hanfodol, felly, bod gan yr aseswyr ddealltwriaeth glir a helaeth o salwch meddwl a'u bod yn gyfarwydd â'r achosion unigol, eu bod yn ymwybodol bod salwch meddwl yn gallu ymddangos mewn ffyrdd gwahanol ar adegau gwahanol, a bod ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o feddygaeth seiciatrig. Rhaid i hyfforddiant ac arbenigedd o'r fath fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth y DU. Yn anffodus, fodd bynnag, ymddengys nad felly y mae ar hyn o bryd.

**Bethan Jenkins:** Diolch i Lynne Neagle am

Neagle for raising this issue today. My comments come from the perspective of having done a lot of work with those who have eating disorders. I was reading some articles online which described how many people are turning up to these tribunals and are denying that they have a disability. When they are then put in a position of having to face assessment, when they deny that they have a mental illness, it makes the process even more difficult and could result in a skewed outcome.

5.45 p.m.

I am concerned that people are not getting the help that they need as a result of having reassessments. There are cases of people being put on jobseeker's allowance, as opposed to being helped in the appropriate way—they are being forced to look for work when they should not be put in that position. I support the work that Gofal has been doing in that regard in supporting people. However, I recognise that it is going to become much tougher if these proposals become a reality.

**The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths):** I thank Lynne Neagle for bringing forward this topic for debate and for her comments on the potential impacts of the UK Government's Welfare Reform Act 2012. The Welsh Government has already expressed its fear and unease about the consequences of the Act for the most vulnerable people in Wales. We, as a Government, and I, as Minister for Health and Social Services, are deeply concerned about its potential impact on people with mental health problems and mental illness, as well as the broader impacts on mental wellbeing across Welsh society. Based on their comments, Ann Jones, Rebecca Evans and Bethan Jenkins share those concerns.

Turning to the specifics of today's debate, last week we discussed the draft mental health and wellbeing strategy, 'Together for Mental Health', which was welcomed by all Members in the Chamber. As part of the debate, we highlighted how it is only by working across Government and across agencies that the benefits and outcomes

godi'r mater hwn heddiw. Mae fy sylwadau'n deillio o'r ffaith fy mod wedi gwneud llawer o waith gyda phobl ag anhwylderau bwyta. Roeddwn yn darllen rhai erthyglau ar-lein a oedd yn disgrifio faint o bobl sy'n cyrraedd y tribiwnlysoedd hyn ac yn gwadu bod ganddynt anabledd. Pan gânt eu rhoi wedyn mewn sefyllfa lle y maent yn gorfod wynebu cael asesiad, pan fyddant yn gwadu bod ganddynt salwch meddwl, mae'n gwneud y broses yn anos fyth a gallai arwain at ganlyniad anghywir.

Rwyf yn poeni nad yw pobl yn cael yr help y mae arnynt ei angen o ganlyniad i ailasesiadau. Ceir achosion o bobl yn cael eu rhoi ar lwfans ceisio gwaith, yn hytrach na'u bod yn cael help yn y modd priodol—maent yn cael eu gorfodi i chwilio am waith pan na ddylent gael eu rhoi yn y sefyllfa honno. Rwyf yn cefnogi'r gwaith y mae Gofal wedi bod yn ei wneud i'r perwyl hwnnw wrth gynorthwyo pobl. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod yr aiff yn anos o lawer os bydd y cynigion hyn yn cael eu gwireddu.

**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths):** Diolch i Lynne Neagle am gyflwyno'r pwnc hwn i'w drafod, ac am ei sylwadau ar effeithiau posibl Deddf Diwygio Lles 2012 Llywodraeth y DU. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi mynegi ei hofn a'i hanesmwythyd ynghylch canlyniadau'r Ddeddf i'r bobl fwyaf agored i niwed yng Nghymru. Rydym ni fel Llywodraeth, ac rwyf innau fel y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn pryderu'n ddifrifol am ei heffaith bosibl ar bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a salwch meddwl, yn ogystal â'r effeithiau ehangach ar les meddwl ar draws y gymdeithas yng Nghymru. Ar sail eu sylwadau, mae Ann Jones, Rebecca Evans a Bethan Jenkins yn pryderu am hynny hefyd.

Gan droi at faterion penodol y ddadl heddiw, yr wythnos diwethaf buom yn trafod y strategaeth ddrafft ar gyfer iechyd meddwl a lles, 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl', a groesawyd gan bob Aelod yn y Siambr. Yn rhan o'r ddadl, bu inni ddangos mai dim ond drwy weithio ar draws y Llywodraeth ac ar draws asiantaethau y gellir cyflawni'n llawn

proposed can be fully achieved. The Welsh Government has real concerns, given that mental health and wellbeing is the key ambition of 'Together for Mental Health'. Any policy that increases poverty and reduces financial security will obviously lead to poorer mental wellbeing, and even contribute to more mental ill health. We are well aware of the Marmot review and other research that highlights health inequalities that result from social inequalities. We know that poverty and worry about money is a risk factor in developing mental illness. We also know that, to give children the best start in life and for child welfare and educational attainment, we need to tackle poverty.

'Together for Mental Health' aims to build resilience in young people, adults and older people, in poorer communities and to support the vulnerable. Positive mental health and wellbeing should lead to better outcomes, with increased educational performance, employability and earnings. Evidence from the 1958 and 1970 British prospective birth cohort studies cited socioeconomic deprivation as one of the issues that affected childhood mental wellbeing. Any UK Government changes that jeopardise those aims threaten the success of strategies such as 'Together for Mental Health' and the child poverty strategy for Wales, and puts at risk Welsh Government ambitions for the population, which concerns us greatly. It is of particular concern that Wales has a disproportionately higher number of households with low incomes than England. That means that the changes will have a greater impact in Wales. Mental health problems are more common in areas of deprivation, and poor mental health is consistently associated with unemployment, less education and low incomes. I am particularly worried about the most vulnerable in our society, including those with mental illness, who may not be able to work due to their disability. There is a real risk that they will be doubly disadvantaged by the UK welfare reforms in terms of disability benefits and housing benefit charges.

y manteision a'r canlyniadau a gynigir. Mae gan Lywodraeth Cymru bryderon gwirioneddol, o gofio mai iechyd meddwl a lles yw uchelgais allweddol 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl'. Mae'n amlwg y bydd unrhyw bolisi sy'n cynyddu tlodi ac yn lleihau sicrwydd ariannol yn gwaethygu lles meddwl, a hyd yn oed yn cyfrannu at fwy o salwch meddwl. Rydym yn ymwybodol iawn o adolygiad Marmot ac ymchwil arall sy'n tynnu sylw at anghydraddoldebau iechyd sy'n deillio o anghydraddoldebau cymdeithasol. Gwyddom fod tlodi a phryder am arian yn ffactor risg o safbwynt datblygu salwch meddwl. Gwyddom hefyd fod angen inni fynd i'r afael â thlodi er mwyn rhoi'r dechrau gorau i blant mewn bywyd ac er mwyn sicrhau lles plant a chyrhaeddiad addysgol.

Nod 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' yw meithrin gwytnwch mewn pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn ac mewn cymunedau tlotach, a chynorthwyo'r sawl sy'n agored i niwed. Dylai iechyd meddwl a lles cadarnhaol arwain at ganlyniadau gwell, a gwelliannau o safbwynt perfformiad addysgol, cyflogadwyedd ac enillion. Nododd tystiolaeth o astudiaethau o fywyd dwy garfan o bobl ym Mhrydain a anwyd yn 1958 ac 1970 mai amddifadedd economaidd-gymdeithasol yw un o'r materion a oedd yn effeithio ar les meddwl yn ystod plentyndod. Bydd unrhyw newidiadau gan Lywodraeth y DU a fydd yn peryglu'r nodau hynny'n bygwth llwyddiant strategaethau megis 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl' a strategaeth tlodi plant Cymru, ac yn peryglu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y boblogaeth, sy'n peri pryder mawr inni. Mae'n destun pryder penodol bod gan Gymru nifer anghymesur, uwch na Lloegr o aelwydydd ag incwm isel. Mae hynny'n golygu y bydd y newidiadau'n cael mwy o effaith yng Nghymru. Mae problemau iechyd meddwl yn fwy cyffredin mewn ardaloedd o amddifadedd, a chaiff iechyd meddwl gwael ei gysylltu'n gyson â diweithdra, llai o addysg ac incwm isel. Rwyf yn pryderu'n benodol am y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, gan gynnwys y sawl sydd â salwch meddwl, nad ydynt efallai'n gallu gweithio oherwydd eu hanabledd. Ceir risg go iawn y byddant dan anfantais ddwbl oherwydd diwygiadau lles y DU, o safbwynt

budd-daliadau anabled a thaliadau budd-dal tai.

It is not just the financial impact that concerns me. I share the reservations of third sector partners, such as Gofal and Hafal, regarding the possible impact of changes to assessment processes. Claimants may find arrangements complex and stressful, which could be damaging to the recovery of vulnerable patients. Assessors must be sensitive to the perspectives and clinical features of those suffering from mental illness. Earlier this month, on June 6, the Welsh Government commenced Part 2 of the Mental Health (Wales) Measure 2010 with cross-party support. It stipulates holistic care and treatment planning, including consideration of housing and personal finance. The code of practice for the Measure highlights that poor housing or homelessness can contribute to mental health problems, or make an episode of mental ill health more difficult to manage. Without a safe and secure place to live, many aspects of ordinary life are impossible. We all, I am sure, see this in our advice surgeries. The mental health of people of all ages is also affected adversely by fuel poverty and cold housing. A good, safe place to live provides an excellent foundation for all other aspects of a mentally healthy life.

People who experience mental illness should have all possible support to ensure that they live in a safe and secure environment. This is in line with the programme for government aim

‘to ensure that people have a high-quality, warm, secure and energy-efficient home to live in’.

Homelessness is particularly damaging and associated with a high incidence of mental health problems. There are very real concerns that people, if they fail to manage their money effectively as a result of the changes that the Welfare Reform Act will bring about, may well be at higher risk of becoming homeless, with all the risks that that entails.

In addition, many of those experiencing

Nid yr effaith ariannol yw'r unig beth sy'n peri pryder imi. Mae gennyf yr un amheuan â phartneriaid yn y trydydd sector, megis Gofal a Hafal, ynghylch effaith bosibl newidiadau i brosesau asesu. Gall y trefniadau fod yn gymhleth a pheri straen i hawlwyd, a gallai hynny gael effaith andwyol ar wellhad cleifion sy'n agored i niwed. Rhaid i aseswyr fod yn sensitif i safbwyntiau a nodweddion clinigol y sawl sy'n dioddef o salwch meddwl. Yn gynharach y mis hwn, ar 6 Mehefin, dechreuodd Llywodraeth Cymru ar Ran 2 Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 gyda chefnogaeth drawsbleidiol. Mae'n pennu gofal cyfannol a gwaith cynllunio triniaeth, gan gynnwys ystyried tai a chyllid personol. Mae'r cod ymarfer ar gyfer y Mesur yn tynnu sylw at y ffaith y gall tai gwael neu ddigartrefedd gyfrannu at broblemau iechyd meddwl, neu olygu bod cyfnod o afiechyd meddwl yn anos ei reoli. Heb le saff a diogel i fyw, mae llawer o agweddau ar fywyd cyffredin yn amhosibl. Rydym i gyd, rwyf yn siŵr, yn gweld hynny yn ein cymorthfeydd cyngor. Yn ogystal, mae tloedi tanwydd a thai oer yn cael effaith andwyol ar iechyd meddwl pobl o bob oed. Mae lle da, diogel i fyw yn darparu sylfaen ardderchog ar gyfer pob agwedd arall ar fywyd iach o safbwynt iechyd meddwl.

Dylai pobl sy'n dioddef salwch meddwl gael pob cymorth posibl i sicrhau eu bod yn byw mewn amgylchedd saff a diogel. Mae hynny'n unol â'r nod sydd yn y rhaglen lywodraethu, sef:

‘gwneud yn siŵr bod pobl yn cael byw mewn cartrefi sydd o ansawdd da, yn gynnes, yn ddiogel ac yn defnyddio ynni'n effeithlon’.

Mae digartrefedd yn arbennig o niweidiol, a chaiff ei gysylltu â nifer fawr o broblemau iechyd meddwl. Os bydd pobl yn methu â rheoli eu harian yn effeithiol o ganlyniad i'r newidiadau y bydd y Ddeddf Diwygio Lles yn eu cyflwyno, ceir pryderon gwirioneddol iawn y gallai fod mwy o berygl iddynt fod yn ddigartref a gorfod wynebu'r holl risgiau a ddaw yn sgîl hynny.

Yn ogystal, mae llawer o'r rheini sy'n

mental ill health have real problems managing money. The issue of monthly payments leads to particular concerns for those people with mental health problems who may suffer additional stress when struggling to pay bills. It has been estimated that one in three people with a serious mental illness are already experiencing problems with debt. Work undertaken by MIND following a survey of mental health service users has highlighted that this is already a serious issue for the majority.

In line with the programme for government commitment to tackling poverty, we believe that people with mental illness should not experience greater levels of deprivation than others. Poverty contributes to many areas of disadvantage faced by people who experience mental illness. Mental health problems may cause an individual to neglect their personal finances. Becoming over-indebted can impact negatively on people's lives. Debt problems can lead to increased levels of stress and anxiety, to physical and mental health problems, such as depression, low self-esteem, relationship breakdown, and even loss of employment. People with mental illness should have the same opportunities to achieve a decent living standard as their friends and neighbours.

The Welsh Government welcomes efforts to create a simpler, more transparent benefit system and one in which work pays, as we would accept that employment and valued daily occupation is good for mental health outcomes. However, we are concerned that welfare reform, if handled badly, will drive people into greater poverty, particularly the most vulnerable in our society.

In direct response to these concerns, we have established a ministerial task and finish group under the Minister for Education and Skills. This group is currently undertaking a comprehensive assessment of the cumulative impact of welfare changes to help ensure a joined-up, cross-Government response. The Welsh Government will use the results of this assessment to target our efforts to help mitigate the negative implications of welfare reform.

dioddef afiechyd meddwl yn ei chael yn wirioneddol anodd rheoli arian. Mae taliadau misol yn achosi pryderon penodol i'r bobl hynny â phroblemau iechyd meddwl a allai fod yn dioddef straen ychwanegol wrth geisio talu biliau. Amcangyfrifwyd bod un o bob tri pherson â salwch meddwl difrifol eisoes yn wynebu problemau o ran dyled. Mae gwaith a wnaed gan MIND yn dilyn arolwg o ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl wedi dangos bod hynny eisoes yn fater difrifol i'r mwyaf.

Yn unol â'r ymrwymiad yn y rhaglen lywodraethu i fynd i'r afael â thlodi, rydym yn credu na ddylai pobl â salwch meddwl fod yn dioddef lefelau uwch o amddifadedd na phobl eraill. Mae tlodi'n cyfrannu at agweddau niferus ar anfantais, a wynebir gan bobl sy'n dioddef salwch meddwl. Gall problemau iechyd meddwl beri i unigolyn esgeuluso ei faterion ariannol personol. Gall mynd i ormod o ddyled gael effaith negyddol ar fywydau pobl. Gall problemau dyled arwain at fwy o straen a gorbryder, problemau iechyd corfforol ac iechyd meddwl, megis iselder ysbryd, diffyg hunan-barch, perthynas yn chwalu, a cholli gwaith hyd yn oed. Dylai pobl â salwch meddwl gael yr un cyfleoedd â'u ffrindiau a'u cymdigion i gael safon byw sy'n dderbyniol.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu ymdrechion i greu system fudd-daliadau symlach a mwy tryloyw, a system lle y mae gwaith yn talu, oherwydd byddem yn derbyn bod cyflogaeth a gwaith dyddiol a werthfawrogir yn fanteisiol i ganlyniadau iechyd meddwl. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y bydd gwaith diwygio lles, os caiff ei drin yn wael, yn golygu y bydd pobl yn dlotach fyth, yn enwedig y sawl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Mewn ymateb uniongyrchol i'r pryderon hyn, rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen gweinidogol dan arweiniad y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Mae'r grŵp hwn wrthi'n cynnal asesiad cynhwysfawr o effaith gronol newidiadau lles er mwyn helpu i sicrhau ymateb cydgysylltiedig ar draws y Llywodraeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio canlyniadau'r asesiad hwn i dargedu ein hymdrechion er mwyn helpu i liniaru goblygiadau negyddol gwaith diwygio

lles.

While the Welsh Government does not believe that we should carry the financial burden of poorly thought through changes instigated in Whitehall, I am proud to say that we will nevertheless do all that we can to mitigate the adverse impacts of the changes here in Wales, and continue to speak up and challenge the UK Government on behalf of all vulnerable people in Wales.

Er nad yw Llywodraeth Cymru yn credu y dylem ysgwyddo baich ariannol newidiadau a gyflwynwyd gan Whitehall, nad ydynt wedi eu hystyried yn ofalus, rwyf yn falch o ddweud y byddwn, er hynny, yn gwneud popeth a allwn i liniaru effeithiau andwyol y newidiadau yma yng Nghymru, ac y byddwn yn parhau i leisio ein barn a herio Llywodraeth y DU ar ran pawb sy'n agored i niwed yng Nghymru.

**Y Dirprwy Lywydd Dros Dro:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

**The Temporary Deputy Presiding Officer:** That brings today's proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.53 p.m.  
The meeting ended at 5.53 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau  
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
 Antoniw, Mick (Llafur – Labour)  
 Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
 Davies, Alun (Llafur – Labour)  
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Davies, Keith (Llafur – Labour)  
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Drakeford, Mark (Llafur – Labour)  
 Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Evans, Rebecca (Llafur – Labour)  
 Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Gething, Vaughan (Llafur – Labour)  
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
 Griffiths, John (Llafur – Labour)  
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
 Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
 Hedges, Mike (Llafur – Labour)  
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 James, Julie (Llafur – Labour)  
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ann (Llafur – Labour)  
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)

Morgan, Julie (Llafur – Labour)  
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)  
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)  
Rees, David (Llafur – Labour)  
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)  
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)